

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 02/03/2016

Cynnwys Contents

[Datganiad gan y Llywydd](#)  
[Statement by the Presiding Officer](#)

[1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)  
[1. Questions to the Minister for Health and Social Services](#)

[2. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau](#)  
[2. Questions to the Minister for Education and Skills](#)

[3. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar ei Adolygiad o Ddeisebau Cyhoeddus](#)  
[3. Debate on the Petition Committee's Report on its Review of Public Petitions](#)

[4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cau Ysbytai](#)  
[4. Welsh Conservatives Debate: Hospital Closures](#)

[5. Dadl Plaid Cymru: Diagnosis a Thriniaeth Cancer](#)  
[5. Plaid Cymru Debate: Cancer Diagnosis and Treatment](#)

[6. Cyfnod Pleidleisio](#)  
[6. Voting Time](#)

[7. Dadl Fer: Bwyd Da i Bawb—Cyflawni'r Nod Arlwyio 'Bwyd am Oes' yn Ysgolion Cymru](#)  
[7. Short Debate: Good Food for All—Achieving the Food For Life Catering Mark in Welsh Schools](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Well, good afternoon, everyone. The National Assembly for Wales is now in session.

Wel, prynhawn da, bawb. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30 **Datganiad gan y Llywydd**

**Statement by the Presiding Officer**

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Before we start the business, it is my pleasure to welcome the Speaker of the Icelandic Parliament, which is the oldest Parliament in the world, and a delegation of his parliamentarians, who are present in the public gallery today. You're welcome. Thank you very much.

Cyn i ni ddechrau trafod, mae'n bleser gennyf groesawu Llywydd Senedd Gwlad yr Iâ, sef y Senedd hynaf yn y byd, a dirprwyaeth o'i seneddwy, sy'n bresennol yn yr oriel gyhoeddus heddiw. Croeso i chi. Diolch yn fawr iawn.

## 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## 1. Questions to the Minister for Health and Social Services

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

And now we move on to the first item, which is item 1, and it's questions to the Minister for Health and Social Services. I think the questions this afternoon will be answered by the Deputy. So, question 1 is from Llyr Gruffydd.

Ac yn awr, symudwn ymlaen at yr eitem gyntaf, sef eitem 1, sef cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rwy'n meddwl y bydd y cwestiynau'r prynhawn yma yn cael eu hateb gan y Dirprwy. Felly, daw cwestiwn 1 gan Llyr Gruffydd.

**Pwysau Staffio**

**Staffing Pressures**

- 13:30 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysau staffio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(4)0701(HSS)[W]*
- 1. Will the Minister make a statement on staffing pressures in Betsi Cadwaladr University Health Board? OAQ(4)0701(HSS)[W]*
- 13:30 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*
- Thank you for the question. Staffing pressures in Betsi Cadwaladr University Local Health Board are consistent with other parts of the UK at this time of year. Actions are in place to address the challenges and ensure sustainable staffing. These include targeted recruitment—including European Union nurses—and high-profile initiatives, such as the Outstanding GP Development Programme.
- Diolch am y cwestiwn. Mae'r pwysau staffio ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gyson â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ar yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae camau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r heriau a sicrhau staffio cynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau recriwtio wedi'u targedu—gan gynnwys nyrsys o'r Undeb Ewropeaidd—a mentrau proffil uchel, fel y rhaglen datblygu meddygon teulu rhagorol.
- 13:31 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- When professionals like the North Wales Local Medical Committee describe the situation as a ticking time bomb and as being on a knife-edge, and when the Royal College of GPs in Wales say there's a workforce crisis, and when GP Survival Wales says that surgeries in north Wales are collapsing like dominoes, do you agree with the First Minister when he says that there's no GP crisis in north Wales?
- Pan fydd gweithwyr proffesiynol fel Pwyllgor Meddygol Lleol Gogledd Cymru yn disgrifio'r sefyllfa fel bom yn tician ac ar ymyl y dibyn, a phan fo Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru yn dweud bod argyfwng yn y gweithlu, a phan ddywed GP Survival Cymru fod meddygfeydd yng ngogledd Cymru yn disgyn fel dominos, a ydych yn cytuno â'r Prif Weinidog pan ddywed nad oes unrhyw argyfwng yn y gweithlu meddygon teulu yng ngogledd Cymru?
- 13:31 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for the follow-up question. I don't agree there is a crisis, but there are very real challenges. There is no lack of—there's certainly no complacency about the position that we face now and for the future. There are some localised challenges that we do recognise, which are being addressed, and I think what gives us some confidence is the way in which those issues have been managed in the recent past, and beyond. So, we'll continue to work in partnership with trade unions and professional bodies on understanding where we are now and, of course, on developing our workforce strategy, where we do have the buy-in of not just the Government and NHS bodies, but the individual staff representatives themselves. So, it's really important that we have an honest discussion, but a discussion where we don't reach for extremes of language, and actually deal with the situation as we face it.
- Diolch am y cwestiwn dilynol. Nid wyf yn cytuno bod yna argyfwng, ond mae heriau gwirioneddol. Nid oes prinder—yn sicr, nid oes lle i hunanfodlonrwydd ynglŷn â'r sefyllfa sy'n ein hwynebu yn awr ac i'r dyfodol. Mae rhai heriau lleol rydym yn eu cydnabod, a rhoddir sylw iddynt, ac rwy'n meddwl mai'r hyn sy'n rhoi hyder i ni yw'r ffordd y rheolwyd y materion hynny yn y gorffennol diweddar, a thu hwnt. Felly, byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth gydag undebau llafur a chyrff proffesiynol i ddeall y sefyllfa rydym ynnddi yn awr ac wrth gwrs, i ddatblygu ein strategaeth ar gyfer y gweithlu, lle y mae gennym gefnogaeth nid yn unig y Llywodraeth a chyrff y GIG, ond y cynrychiolwyr staff unigol eu hunain. Felly, mae'n bwysig iawn ein bod yn cael trafodaeth onest, ond trafodaeth lle nad ydym yn estyn am iaith eithafol, ac yn ymdrin â'r sefyllfa fel rydym yn ei hwynebu.
- 13:32 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Deputy Minister, yesterday—or the day before, even—saw the start of the new chief executive of Betsi Cadwaladr University Local Health Board, Gary Doherty. I wonder whether you will take the opportunity early on to talk to him about the importance of staff who work in Betsi from the European Union, and from other parts, and whether you would discuss with him what impact Brexit could have on the hard-working staff that we have within the health service, and for future recruitment.
- Dirprwy Weinidog, ddoe—neu'r diwrnod cynt, hyd yn oed—gwelwyd dechrau cyfnod Gary Doherty fel prif weithredwr newydd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Tybed a wnewch chi fanteisio ar y cyfle yn gynnar i siarad ag ef am bwysigrwydd staff o'r Undeb Ewropeaidd a mannau eraill sy'n gweithio yn Betsi Cadwaladr, ac a wnewch chi drafod gydag ef pa effaith y gallai Prydain yn gadael yr UE ei chael ar y staff gweithgar sydd gennym yn y gwasanaeth iechyd, ac ar recriwtio yn y dyfodol.

## Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the question. You'll be pleased to hear that I will be meeting Gary Doherty when I'm next in north Wales, within the next two weeks, and I look forward to having a conversation with him about shared priorities for the future of healthcare in north Wales, and, in particular, on addressing the issues not of special measures, but of the improvement plan that the Welsh Government has published. And I think he's made a welcome statement at the start, about wanting to address that, and a range of other priorities for citizens in north Wales.

You also make an important point about the potential impact of leaving the European Union. Betsi Cadwaladr has recruited, I believe, 85 nurses, from across the European Union, for example, in the last year. And we do know that recruiting medical staff from other parts of the world, outside the European Union, is more difficult—it is possible, but it is more difficult. And it's a real signal for those who'd want to leave the European Union—that it would practically make our ability to recruit medical and associated healthcare professional staff more difficult, not easier, because all of our health boards are actively recruiting within the European Union, and I do not want to see an extra barrier to those excellent staff coming here to work within Wales.

Diolch am y cwestiwn. Fe fyddwch yn falch o glywed y byddaf yn cyfarfod â Gary Doherty pan fyddaf yn y gogledd nesaf, o fewn y pythefnos nesaf, ac edrychaf ymlaen at gael sgwrs gydag ef ynglŷch blaenoriaethau a rennir ar gyfer dyfodol gofal iechyd yng ngogledd Cymru, ac yn arbennig, ynglŷn â mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud, nid â mesurau arbennig, ond â'r cynllun gwella y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi. Ac rwy'n credu ei fod wedi gwneud datganiad i'w groesawu ar y dechrau, ynglŷn â bod eisiau mynd i'r afael â hynny, ac ystod o flaenoriaethau eraill ar gyfer dinasyddion gogledd Cymru.

Rydych hefyd yn gwneud pwynt pwysig ynglŷn ag effaith bosibl gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae Betsi Cadwaladr wedi recriwtio, rwy'n credu, 85 o nyrsys, o bob rhan o'r Undeb Ewropeaidd, er enghraifft, yn y flwyddyn ddiwethaf. A gwyddom fod recriwtio staff meddygol o rannau eraill o'r byd, y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, yn anos—mae'n bosibl, ond mae'n anos. Ac mae'n arwydd go iawn i'r rhai a fyddai eisiau gadael yr Undeb Ewropeaidd—y byddai i bob diben yn gwneud ein gallu i recriwtio staff proffesiynol meddygol a gofal iechyd cysylltiedig yn anos, nid yn haws, gan fod ein byrddau iechyd i gyd wrthi'n recriwtio o fewn yr Undeb Ewropeaidd, ac nid wyf am weld rhwystr ychwanegol i'r staff rhagorol hynny rhag dod yma i weithio yng Nghymru.

## Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, clearly, GPs are self-employed contractors, but health boards and Governments are responsible for the strategic manpower, or person power, planning for them. And it's years since the Royal College of General Practitioners warned of the ticking time bomb, years since BMA Cymru said that commitments made by the Welsh Government haven't happened in the way intended, and 21 months since the chair of the north Wales medical committee came to this Assembly to say we had a crisis in north Wales. How, therefore, do you respond to the letter sent to the First Minister by groups representing GPs in north Wales, accusing him of being out of touch with the reality of the challenges facing GPs in north Wales?

Wel, yn amlwg, mae meddygon teulu yn gontractwyr hunangyflogedig, ond byrddau iechyd a Llywodraethau sy'n gyfrifol am gynlluniau gweithlu strategol ar eu cyfer. Ac mae blynyddoedd ers i Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol rybuddio am y bom yn tician, blynyddoedd ers i BMA Cymru ddweud nad yw ymrwymadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru wedi digwydd yn y ffordd a fwriadwyd, a 21 mis ers i gadeirydd pwyllgor meddygol gogledd Cymru ddod i'r Cynulliad hwn i ddweud bod gennym argyfwng yng ngogledd Cymru. Sut, felly, rydych yn ymateb i'r llythyr a anfonwyd at y Prif Weinidog, gan grwpiau sy'n cynrychioli meddygon teulu yng ngogledd Cymru, yn ei gyhuddo o fod wedi colli gafael ar realiti'r heriau sy'n wynebu meddygon teulu yng ngogledd Cymru?

## Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, as Members will know, the First Minister dealt with these questions, again, yesterday, and I'll reiterate what I said to Llyr Gruffydd at the start of this set of questions. We recognise there are very real challenges across particular parts of healthcare not just within Wales, but across the UK. We'll continue to work with people within the medical profession in planning and delivering on a secure future for the national health service. For example, we've already secured a new two-year contract with GPs. That's come through negotiation and working with people who work within the service, rather than picking a fight with them, as we see over the border. It is absolutely in our interest to continue working in that particular fashion. Where challenges do arise, we work constructively with people engaged in the healthcare professions to resolve them together. We've seen that consistently in the past in Wales and there's no reason to think that will not happen in the future.

Wel, fel y gŵyr yr Aelodau, ymdriniodd y Prif Weinidog â'r cwestiynau hyn unwaith eto ddoe, ac ailadroddaf yr hyn a ddywedais wrth Llyr Gruffydd ar ddechrau'r gyfres hon o gwestiynau. Rydym yn cydnabod bod heriau real iawn ar draws rhannau penodol o ofal iechyd, nid yng Nghymru yn unig, ond ledled y DU. Byddwn yn parhau i weithio gyda phobl yn y proffesiwn meddygol ar gynllunio a darparu dyfodol diogel i'r gwasanaeth iechyd gwladol. Er enghraifft, rydym eisoes wedi sicrhau cytundeb dwy flynedd newydd gyda meddygon teulu. Daeth hwnnw o drafod a gweithio gyda phobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth, yn hytrach na dechrau ffræ gyda hwy, fel y gwelwn dros y ffin. Mae'n bendant yn fuddiol i ni barhau i weithio yn y modd arbennig hwnnw. Lle y ceir heriau, rydym yn gweithio'n adeiladol gyda phobl sy'n rhan o'r proffesiynau gofal iechyd i'w datrys gyda'n gilydd. Rydym wedi gweld hynny'n gyson yn y gorffennol yng Nghymru ac nid oes rheswm dros feddwl na fydd hynny'n digwydd yn y dyfodol.

13:35

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, ers rhyw ddwy flynedd nwan, mae nifer ohonom ni wedi bod yn pwyso ar y Llywodraeth o ran rhestrau aros hirach yn y gogledd nag yn unman arall. Fe ddywedodd Mark Drakeford ym mis Gorffennaf 2014 ei fod yn ymwybodol bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn methu â chyrraedd y targed o 36 a 26 o wythnosau o ran y rhestrau aros a bod ei swyddogion o'n gweithio'n agos efo'r bwrdd iechyd i wella'r sefyllfa. Mae'r bwrdd iechyd wedi bod o dan fesurau arbennig am 90 mis erbyn hyn. Felly, a allwch chi ddweud yn union pa welliant sydd wedi'i wneud o ran y rhestrau aros a beth yn union y mae eich swyddogion chi, fel Llywodraeth, yn ei wneud i wella rhestrau aros yng ngogledd Cymru?

Minister, for about two years now, a number of us have been putting pressure on the Government in terms of longer waiting lists in north Wales than anywhere else. Mark Drakeford said in July 2014 that he was aware that Betsi Cadwaladr University Local Health Board wasn't able to reach the target of the 36-week and 26-week waiting lists and that officials were working very hard with the health board to improve the situation. The health board has been under special measures for 90 months now. So, can you tell us exactly what improvement and progress has been made in terms of waiting lists, and what exactly are your officials, as a Government, doing to improve waiting lists in north Wales?

13:36

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thanks for the question. In terms of achieving our waiting times target, as opposed to the list, there are some areas of staffing challenges, but the greater challenges aren't actually about the staffing pressures themselves—they are more about the ability to have a system that is properly in balance. So, there's an issue about the short-term issues and there's extra capacity being brought in. That's partly about NHS staff having additional resources. This is also partly about commissioning some extra capacity and it's also a broader system across the health service on making sure that we run the system where we understand what capacity and demand are. That's partly about shifting more care into primary care and away and out of hospitals, and it's also partly about making the very best use possible of what we have in secondary care.

Diolch am y cwestiwn. O ran cyflawni ein targed ar gyfer amseroedd aros yn hytrach na'r rhestr, ceir rhai meysydd heriol o ran staffio, ond nid yw'r heriau mwyaf yn ymwneud â'r pwysau staffio eu hunain mewn gwirionedd—maent yn ymwneud mwy â'r gallu i gael system sy'n briodol gytbwys. Felly, mae yna broblem gyda'r materion tymor byr ac mae capasiti ychwanegol yn cael ei gyflwyno. Mae hynny'n ymwneud yn rhannol â chael adnoddau ychwanegol i staff y GIG. Mae hyn hefyd yn ymwneud yn rhannol â chomisiynu capasiti ychwanegol ac mae hefyd yn system ehangach ar draws y gwasanaeth iechyd i sicrhau ein bod yn rhedeg y system lle rydym yn deall beth yw'r capasiti a'r galw. Mae hynny'n ymwneud yn rhannol â symud mwy o ofal i ofal sylfaenol ac i ffwrdd ac allan o ysbtyai, ac mae hefyd yn ymwneud yn rhannol â gwneud y defnydd gorau posibl o'r hyn sydd gennym mewn gofal eilaidd.

A good example of an initiative that's being taken in north Wales to help manage this is the physiotherapy service as part of the orthopaedic pathway. So, people are regularly referred to the physiotherapy service and it successfully diverts people away from potential surgery to be successfully treated without the need for a surgical intervention. That's also taken place consistently across GP surgeries in north Wales. So, there are a range of measures that are already being taken and our challenge always is: what do we understand and what are we doing now? How to have a more prudent approach in the future that makes the very best use of our resources to deliver the very best possible outcomes for our patients within the appropriate waiting time standards?

Enghraifft dda o fenter yng ngogledd Cymru i helpu i reoli hyn yw'r gwasanaeth ffisiotherapi fel rhan o'r llwybr orthopedig. Atgyfeirir pobl yn rheolaidd at y gwasanaeth ffisiotherapi ac mae'n dargyfeirio pobl yn llwyddiannus heb fod angen ymyrraeth lawfeddygol. Mae hynny wedi digwydd yn gyson hefyd ar draws meddygfeydd meddygon teulu yng ngogledd Cymru. Felly, cyflwynwyd amrywiaeth o fesurau eisoes a'n her bob amser yw: beth rydym yn ei ddeall a beth rydym yn ei wneud yn awr? Sut i gael dull mwy darbodus o weithredu yn y dyfodol sy'n gwneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i'n cleifion o fewn y safonau priodol ar gyfer amseroedd aros?

**Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth**

**The Mid Wales Healthcare Collaborative**

13:37

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

2. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth? OAQ(4)0699(HSS)[W]

2. Will the Minister provide an update on the work of the Mid Wales Healthcare Collaborative? OAQ(4)0699(HSS) [W]

13:37 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. The Mid Wales Healthcare Collaborative is making good progress with an ambitious programme of work to improve healthcare in mid Wales. First year achievements include a new GP fellowship scheme, 12 additional surgical beds at Bronglais General Hospital and the successful recruitment of a new paediatric consultant.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth yn gwneud cynnydd da gyda rhaglen waith uchelgeisiol i wella gofal iechyd yng nghanolbarth Cymru. Mae llwyddiannau'r flwyddyn gyntaf yn cynnwys cynllun cymrodoriaeth newydd i feddygon teulu, 12 o wlaŵ llawfeddygol ychwanegol yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais a llwyddo i recriwtio ymgynghorydd peditrig newydd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:38 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ddirprwy Weinidog, mae sefydlu'r grŵp cydweithredol yma yn un o benderfyniadau mwyaf goleuedig eich Llywodraeth chi, ac, o ddilyn gwaith y grŵp yn fanwl, rwy'n hyderus bod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn gweld yr angen i gydweithio ar draws ffiniau yn y canolbarth. A wnewch chi sicrhau bod y tri bwrdd iechyd—Powys a Betsi Cadwaladr hefyd—yn rhoi blaenoriaeth i'r gwaith yma ac yn cynnwys Bronglais a gwasanaethau o gwmpas Bronglais yn eu rhaglen gynllunio nhw ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol, er lles y cleifion hynny sydd yn byw yn ardal dalgylch ysbyty Bronglais?

Deputy Minister, the establishment of this collaborative is one of the most enlightened decisions taken by your Government, and, in following the work of the collaborative in detail, I'm confident that Hywel Dda Local Health Board has seen the need to work across borders in mid Wales. Will you ensure that the three health boards, including Powys and Betsi Cadwaladr, give priority to this work and include Bronglais and surrounding services in their planning programmes for services in future, for the benefit of those patients living in the Bronglais catchment area?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:38 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I'm happy to give that assurance, and I do particularly welcome the recognition from the Member for Ceredigion about the work of the collaborative and the way in which this decision was reached. It was an important point in time for healthcare in and around mid Wales, when the report was published, in terms of changing the narrative and the conversation about healthcare in mid Wales. It wasn't constantly about suggesting that there was a plan for the hospital to disappear, but about understanding what's there and what needs to be there in the future and bringing together different bodies—healthcare bodies, NHS professionals, the public and politicians—to actually have a different conversation about the future of healthcare in mid Wales. I'm really pleased to see that successful steps have been taken forward and we will continue to support that and expect there to be further progress in the future.

Gwnaf, rwy'n hapus i roi'r sicrwydd hwnnw, ac rwy'n croesawu'n arbennig y modd y mae'r Aelod dros Geredigion yn cydnabod gwaith y grŵp cydweithredol a'r modd y daethpwyd i'r penderfyniad hwn. Roedd yn bwyt pwysig mewn amser i ofal iechyd yng nghanolbarth Cymru a'r cylch pan gyhoeddwyd yr adroddiad, o ran newid y naratif a'r drafodaeth ynglŷn â gofal iechyd yng nghanolbarth Cymru. Yn hytrach nag awgrymu drwy'r amser fod yna gynllun i'r ysbyty ddiiflannu, ceisiai ddeall beth sydd yno a beth sydd angen bod yno yn y dyfodol, a dod â gwahanol gyrff at ei gilydd—gyrff gofal iechyd, gweithwyr proffesiynol y GIG, y cyhoedd a gwleidyddion—i gael trafodaeth wahanol mewn gwirionedd ynglŷn â dyfodol gofal iechyd yn y canolbarth. Rwy'n hynod o falch o weld bod camau llwyddiannus wedi'u cyflwyno a byddwn yn parhau i gefnogi hynny ac yn disgwyl y bydd cynnydd pellach yn y dyfodol.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:39 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, one of the earliest pieces of work that was announced by the collaborative was around telehealth, and the Welsh Government did invest a considerable sum of money in that. Obviously, that technology does have real potential for our rural communities, reducing distance and travel times for appointments. Are you able to provide an update on that work?

Ddirprwy Weinidog, roedd un o'r darnau cynharaf o waith a gyhoeddwyd gan y grŵp cydweithredol yn ymwneud â theleiechyd, a buddsoddodd Llywodraeth Cymru swm sylweddol o arian yn hynny. Yn amlwg, mae gan y dechnoleg honno botensial go iawn ar gyfer ein cymunedau gwledig, gan leihau pellteroedd ac amseroedd teithio i apwyntiadau. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwnnw?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I'll be happy to provide an update. The Mid Wales Healthcare Collaborative study has now completed a study of telehealth activity with £25,000 of funding. There's further funding of over £200,000 to go into implementing the recommendations from the study because we recognise that, for a range of people in mid Wales in particular—but there's a general point here about the rest of the NHS—that telehealth is an important part of delivering much better care more locally as well so that people don't need to go to regular outpatient appointments. They can have specialist care delivered in a local setting. So, this is absolutely something that we're funding and we are prioritising with the collaborative. We expect to see more of it in the future to the benefit of patients and clinicians themselves to ensure that we really do deliver care around the person wherever possible and as locally as possible.

Gallaf, rwy'n hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf. Mae astudiaeth Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth bellach wedi cwblhau astudiaeth ar weithgarwch teleiechyd gyda £25,000 o gyllid. Mae dros £200,000 o gyllid ychwanegol i fynd ar weithredu argymhellion yr astudiaeth gan ein bod yn cydnabod bod teleiechyd, i amryw o bobl yng nghanolbarth Cymru yn arbennig—ond mae yna bwynt cyffredinol yma am weddill y GIG—yn rhan bwysig o ddarparu gofal llawer gwell yn fwy lleol hefyd fel nad oes angen i bobl fynd i apwyntiadau cleifion allanol yn rheolaidd. Gallant gael gofal arbenigol wedi'i ddarparu mewn lleoliad lleol. Felly, mae hyn yn bendant yn rhywbeth rydym yn ei gyllido ac yn ei flaenoriaethu gyda'r grŵp cydweithredol. Rydym yn disgwyl gweld mwy ohono yn y dyfodol er budd cleifion a chlinigwyr eu hunain i sicrhau ein bod yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac mor lleol ag sy'n bosibl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One of the objectives of the Mid Wales Healthcare Collaborative is to deliver a change programme that addresses the delivery of healthcare to the people of mid Wales as close as home as possible. Now, Newtown is the largest town in Powys, but the minor injuries unit is only open Mondays to Fridays between 8.00 a.m. and 6.30 p.m. Can I ask what discussions the Welsh Government has had with the collaborative on the prospect of establishing a 24-hours a day, seven days a week minor injuries unit in Newtown to achieve the objective of, of course, delivering healthcare as close to the people of mid Wales as possible?

Un o amcanion Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth yw cyflwyno rhaglen o newid sy'n mynd i'r afael â darparu gofal iechyd i bobl canolbarth Cymru mor agos at eu cartref â phosibl. Nawr, y Drenewydd yw'r dref fwyaf ym Mhowys, ond nid yw'r uned mân anafiadau ond ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.00 a.m. a 6:30 p.m. A gaf fi ofyn pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda'r grŵp cydweithredol ynglŷn â'r posibilrwydd o sefydlu uned mân anafiadau 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos yn y Drenewydd i gyflawni'r amcan, wrth gwrs, o ddarparu gofal iechyd mor agos â phosibl at bobl canolbarth Cymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I think the question neatly reveals the challenge of politicians wanting to have individual initiatives within their own constituencies regardless of what the evidence suggests is right. It's important that the collaborative is understanding population healthcare needs and the best possible response from each of the providers within the area, and they need to collaborate with each other. There have been a range of initiatives to try and deliver on our expectations that more care will be provided locally. I've just described one in the previous question from Joyce Watson. We're learning also from the virtual ward activity within a part of Powys as well, to understand the best way to deliver healthcare itself, rather than saying that we want to concentrate an area of activity regardless of what the evidence tells us about the very best way to use our most precious resources, which are our staff, to deliver the very best possible outcomes for the patients and the people of mid and west Wales.

Wel, rwy'n credu bod y cwestiwn yn datgelu'n daclus yr her a geir pan fo gwleidyddion eisiau cael cynlluniau unigol yn eu hetholaethau eu hunain ni waeth beth y mae'r dystiolaeth yn awgrymu sy'n iawn. Mae'n bwysig bod y grŵp cydweithredol yn deall anghenion gofal iechyd y boblogaeth a'r ymateb gorau posibl gan bob un o'r darparwyr yn yr ardal, ac mae angen iddynt gydweithio â'i gilydd. Cafwyd amrywiaeth o fentrau i geisio cyflawni ein disgwyliadau y bydd mwy o ofal yn cael ei ddarparu'n lleol. Rwyf newydd ddisgrifio un yn y cwestiwn blaenorol gan Joyce Watson. Rydym yn dysgu hefyd o weithgaredd y ward rithwir mewn rhan o Bowys yn ogystal er mwyn deall y ffordd orau o ddarparu gofal iechyd ei hun, yn hytrach na dweud ein bod am ganolbwyntio maes gweithgaredd ni waeth beth y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym ynglŷn â'r ffordd orau un o ddefnyddio ein hadnoddau mwyaf gwerthfawr, sef ein staff, i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i gleifion a phobl canolbarth a gorllewin Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau**

**Questions Without Notice from Party Spokespeople**

13:42

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from the party spokespeople and, first this afternoon, Plaid Cymru spokesperson, Elin Jones.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau ac yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd Plaid Cymru, Elin Jones.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:42 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Dirprwy Weinidog, roedd manifesto'r Blaid Lafur yn 2011 yn ymrwymo i roi mynediad i feddygfeydd teulu fin nos ac ar fore dydd Sadwrn. A ydych chi'n credu eich bod chi wedi llwyddo i wireddu'r ymrwymiad yma?
- Deputy Minister, Labour's manifesto in 2011 committed to providing access to GP services in the evenings and on Saturday mornings. Do you believe that you have succeeded to deliver that commitment?
- 13:42 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- You'll be aware, from the most recent figures, that there is greater access to GP services, with more services being available in both core hours and extended hours during the week. As I've said in earlier questions, we're looking to deliver changes to healthcare here in Wales by negotiation and agreement with our staff, and these are matters that we'll continue to discuss with representatives within the NHS and doctors themselves who are, of course, as you know, independent contractors.
- Fe fyddwch yn ymwybodol, o'r ffigurau diweddaraf, fod mwy o fynediad at wasanaethau meddygon teulu, gyda mwy o wasanaethau ar gael yn ystod yr oriau craidd ac oriau estynedig yn ystod yr wythnos. Fel rwyf wedi'i ddweud mewn cwestiynau cynharach, rydym yn gobeithio cyflawni newidiadau i ofal iechyd yma yng Nghymru drwy drafod a chytuno gyda'n staff, ac mae'r rhain yn faterion y byddwn yn parhau i'w trafod gyda chynrychiolwyr o fewn y GIG a meddygon eu hunain sydd, fel y gwyyddoch wrth gwrs, yn gcontractwyr annibynnol.
- 13:43 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- A gaf i ddychwelyd i'ch addewid chi yn 2011, cyn yr etholiad? Yn ddefnyddiol iawn, fe amlinelloch chi rywfaint o fanylion am yr ymrwymiad hwnnw mewn datganiad ar 3 Gorffennaf 2012, gan ddweud y byddech chi'n ymestyn argaeledd apwyntiadau fin nos, ar ôl 6.30 p.m., yn ystod 2013-14. A ydych chi'n ymwybodol, mewn pedwar bwrdd iechyd—Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf, Powys a Betsi Cadwaladr—nad oes yna un feddygfa yn cynnig apwyntiadau wedi 6.30 p.m., ac, yn Abertawe Bro Morgannwg, dim ond 1 y cant o feddygfeydd sy'n gwneud, ac mae hynny wedi cwmpo o 27 y cant bedair blynedd yn ôl? Mae'ch polisi chi yn fethiant llwyr o ran eich ymrwymiad chi i bobl Cymru cyn yr etholiad diwethaf. A ydych chi nawr yn fodlon cydnabod hynny?
- May I take you back to that pledge in 2011, before the election? Very usefully, you outlined a number of details of that commitment in a statement on 3 July 2012, by saying that you would extend the availability of appointments in the evenings, after 6.30 p.m., during 2013-14. Are you aware that, in four health boards—Cardiff and the Vale, Cwm Taf, Powys and Betsi Cadwaladr—not one surgery offers appointments after 6.30 p.m., and, in Abertawe Bro Morgannwg, only 1 per cent of surgeries do so, and that has fallen from 27 per cent four years ago? Your policy is a complete failure in terms of your commitment to the people of Wales before the last election. Are you now willing to acknowledge that?
- 13:44 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, the objective figures demonstrate that there is a greater availability of appointments outside working hours, and we've actually got pilot work being undertaken within the south-east of Wales—[Interruption.]—to look at ensuring that people, particularly those people at work, can have access to GP surgeries outside the area they live in and closer to where they actually work. So, there's an important point here about ensuring that there is greater access and availability for people to access primary care as and where appropriate. It remains a commitment of this Government, and we expect to see further work undertaken in the future to ensure that people really do have appropriate access to local healthcare.
- Wel, mae'r ffigurau gwrthrychol yn dangos bod mwy o apwyntiadau ar gael y tu allan i oriau gwaith, ac mae gennym waith peilot ar y gweill yn y de-ddwyrain—[Torri ar draws.]—i sicrhau bod pobl, yn enwedig pobl sy'n gweithio, yn gallu cael mynediad at feddygfeydd meddygon teulu y tu allan i'r ardal y maent yn byw ynddi ac yn nes at eu man gwaith mewn gwirionedd. Felly, ceir pwynt pwysig yma ynghylch sicrhau bod gwell mynediad ac argaeledd i bobl allu cael gofal sylfaenol fel y bo'n briodol a lle y bo'n briodol. Mae'r Llywodraeth hon yn parhau'n ymrwymedig i hyn, ac rydym yn disgwyl gweld rhagor o waith yn cael ei wneud yn y dyfodol i sicrhau mynediad priodol i bobl at ofal iechyd lleol.
- 13:44 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yn ôl eto at eich ymrwymiad yn 2011 a'r hyn a ddywedaso, sef y byddech chi yn ymestyn apwyntiadau fin nos a hefyd ar fore dydd Sadwrn, ac y byddech chi'n gwneud yn benodol y gwaith o ymestyn apwyntiadau ar fore dydd Sadwrn yn ystod y flwyddyn 2014-15. Dim ond dwy feddygfa drwy Gymru gyfan sydd yn cynnig apwyntiadau ar ddydd Sadwrn, a'r rheini bob yn ail ddydd Sadwrn. A ydych chi'n fodlon bod yn onest gyda'r Cynulliad yma, a gyda phobl Cymru, o ran eich ymrwymiad iechyd rhif 1 yn 2011, eich bod chi wedi methu â chwrrdd â'r ymrwymiad yna, ac a wnewch chi roi ymddiheuriad i bobl Cymru am fethu â chwrrdd â'r ymrwymiad yna?
- To go back again to the commitment in 2011 and what you said, which is that you would be extending appointments in the evenings and also on Saturday mornings, and that you would specifically do the work of extending Saturday appointments during 2014-15. Only two surgeries throughout the whole of Wales are offering appointments on Saturdays, and they are every other Saturday. Are you willing to be honest with this Assembly, and with the people of Wales, in terms of your No. 1 health commitment in 2011, that you have failed to meet that commitment, and will you apologise to the people of Wales for failing to meet that commitment?

- 13:45 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for her final question. In terms of the work that I've already outlined, there is an extended availability for people to be able to access primary care. It is a commitment of this Government and, in the future, we expect people to be able to access more healthcare locally. [Interruption.]
- Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn olaf. O ran y gwaith rwyf wedi'i amlinellu eisoes, mae argaeledd estynedig i bobl allu cael mynediad at ofal sylfaenol. Mae'r Llywodraeth hon yn ymrwymedig i hyn ac yn y dyfodol, rydym yn disgwyl i bobl allu cael mynediad at fwy o ofal iechyd yn lleol. [Torri ar draws.]
- 13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Elin Jones, you've asked your question. [Interruption.] Elin Jones, behave.
- Elin Jones, rydych wedi gofyn eich cwestiwn. [Torri ar draws.] Elin Jones, bihafiwch.
- Will you answer, please?
- A wnewch chi ateb, os gwelwch yn dda?
- 13:46 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The access to primary care is something that we have expanded, in terms of the extended hours that it's available, and we do already know that some surgeries already provide access in the evenings and also on weekends on a greater basis. Our challenge always is how consistent that is and whether that actually meets the needs of patients themselves. So, we will continue to work in partnership with the profession on ensuring that access to primary care is as readily available as possible, and that is a commitment of this Government, now and for the future of the national health service here in Wales.
- Mae'r mynediad at ofal sylfaenol yn rhywbeth rydym wedi'i ehangu, o ran yr oriau estynedig sydd ar gael, ac rydym eisoes yn gwybod bod rhai meddygfeydd eisoes yn darparu mynediad gyda'r nosau ac ar benwythnosau hefyd ar sail ehangach. Ein her bob amser yw pa mor gyson yw hynny ac a yw'n ateb anghenion y cleifion eu hunain mewn gwirionedd. Felly, byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r proffesiwn i sicrhau bod mynediad at ofal sylfaenol ar gael mor hwylus â phosibl, ac mae'r Llywodraeth hon yn ymrwymedig i hynny yn awr ac ar gyfer dyfodol y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru.
- 13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Welsh Liberal Democrats spokesperson—Kirsty Williams.
- Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru—Kirsty Williams.
- 13:46 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*
- Thank you very much, Presiding Officer. Minister, given your failure to achieve your No. 1 pledge in terms of improving access to GPs, it's no surprise, then, that 40 per cent of patients who were surveyed expressed that it was difficult to find a GP appointment. And that's not appointments in the evening, or even an appointment at weekends; many people report finding difficulty to get a routine appointment in normal hours. What steps have you taken over the last five years to ensure that people can access a GP appointment in a timely fashion, and would you agree with me and my constituent who recently tried to make an appointment to obtain the results of a scan? He was told he could see a doctor in three weeks, and was told that if he wanted to see the doctor who'd actually referred him for the scan in the first place, he'd have to wait a further week. So, in total, he would wait four weeks for an appointment to see a GP to obtain the results of a scan.
- Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Weinidog, o ystyried eich methiant i gyflawni eich prif addewid o ran gwella mynediad at feddygon teulu, nid yw'n syndod, felly, fod 40 y cant o'r cleifion a holwyd wedi mynegi ei bod yn anodd cael apwyntiad gyda meddyg teulu. Ac nid apwyntiadau gyda'r nos oedd hynny, neu hyd yn oed apwyntiad ar benwythnosau; mae llawer o bobl yn dweud ei bod yn anodd cael apwyntiad arferol yn ystod oriau arferol. Pa gamau a gymerwyd gennych yn ystod y pum mlynedd diwethaf i sicrhau y gall pobl gael apwyntiad gyda meddyg teulu mewn modd amserol, ac a fydddech yn cytuno â mi a fy etholwr a geisiodd wneud apwyntiad yn ddiweddar i gael canlyniadau sgan? Dywedwyd wrtho y gallai weld meddyg mewn tair wythnos, a dywedwyd wrtho os oedd am weld y meddyg a'i hatgyfeiriodd i gael y sgan yn y lle cyntaf, byddai'n rhaid iddo aros wythnos arall wedyn. Felly, byddai'n aros pedair wythnos i gyd am apwyntiad i weld meddyg teulu i gael canlyniadau sgan.



13:47

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. It is something that we recognise in terms of people's challenges around access to healthcare on the day or immediate appointments, and it comes out from the Welsh health survey. So, whilst the majority of people don't find this an issue, we reckon that a significant number of people do find it a challenge on receiving appointments on the day, and that there's challenge on dealing with people who are independent contractors and understanding how their own appointments systems work. And we know that in every constituency, there will be surgeries and practices, side by side with each other, running significantly different systems. So, it's part of our challenge, working with health boards and GP practices, in their clusters as well, towards then how they can improve their systems so that the very best models that do deliver against patient expectations can actually be copied and rolled across. Now, there isn't simply a way of simply insisting that GP surgeries run exactly the same appointments model, because it will need to differ depending on different parts of the country. But, I recognise the challenge, and it's also why we expect My Health Online to be rolled out to more and more people to make sure it is as easy as possible to book appointments now and in the future. So, it's a challenge we have now. It's one where we recognise there really is good practice in the majority of places in Wales, but it certainly isn't something where we would say we are happy with the current position.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae'n rhywbeth rydym yn ei gydnabod o ran yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu gyda mynediad at ofal iechyd ar y diwrnod neu apwyntiadau ar unwaith, ac mae'n dod o arolwg iechyd Cymru. Felly, er nad yw'r mwyafrif o bobl yn gweld hyn yn broblem, barnwn fod nifer sylweddol o bobl yn credu bod hyn yn her o ran cael apwyntiadau ar y diwrnod, a bod ymdrin â phobl sy'n gontractwyr annibynnol a deall sut y mae eu systemau apwyntiadau eu hunain yn gweithio yn her. A gwyddom y bydd meddygfeydd a phractisau ym mhob etholaeth, ochr yn ochr â'i gilydd, yn gweithredu systemau go wahanol. Felly, mae'n rhan o'n her, wrth weithio gyda byrddau iechyd a phractisau meddygon teulu, yn eu clystyrau yn ogystal, o ran sut y gallant wella eu systemau fel bod modd copïo a chyflwyno'r modelau gorau un sy'n cyflawni yn ôl disgwyliadau cleifion. Nawr, nid oes ffordd o fynnu'n syml fod meddygfeydd meddygon teulu yn gweithredu'r un model apwyntiadau yn union, oherwydd bydd angen iddo amrywio mewn gwahanol rannau o'r wlad. Ond rwy'n cydnabod yr her, a dyna hefyd pam rydym yn disgwyl i Fy Iechyd Ar-lein gael ei gyflwyno i fwy a mwy o bobl er mwyn gwneud yn siŵr fod trefnu apwyntiadau yn awr ac yn y dyfodol mor hawdd â phosibl. Felly, mae'n her sy'n ein hwynebu yn awr. Mae'n un lle rydym yn cydnabod y ceir arfer da, yn wir, yn y rhan fwyaf o lefydd yng Nghymru, ond yn sicr, nid yw'n rhywbeth y byddem yn dweud yn ei gylch ein bod yn fodlon ar y sefyllfa bresennol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, he wasn't looking for an appointment on the same day—he couldn't even get an appointment in the same month to see the results of his scan. Now, in your document, you said not only would you improve access to GPs, but that you would ensure that pressure was taken off our A&E departments. Well, in the January of this year, a total of 3,294 patients spent 12 hours or more in an emergency department, and your own Government website says that you're not meeting your targets with regard to reducing the number of people who spend four hours in an A&E department. So, you haven't delivered your target on GPs. You haven't delivered your targets on A&E departments. Why is that?

Dirprwy Weinidog, nid oedd yn ceisio cael apwyntiad ar yr un diwrnod—ni allai hyd yn oed gael apwyntiad yn yr un mis i weld canlyniadau ei sgan. Nawr, yn eich dogfen, fe ddywedoch nid yn unig y byddech yn gwella mynediad at feddygon teulu, ond y byddech yn sicrhau bod pwysau'n cael ei dynnu oddi ar ein hadrannau damweiniau ac achosion brys. Wel, ym mis Ionawr eleni, treuliodd cyfanswm o 3,294 o gleifion 12 awr neu fwy mewn adran achosion brys, ac mae gwefan eich Llywodraeth ei hun yn dweud nad ydych yn cyrraedd eich targedau o ran lleihau nifer y bobl sy'n treulio pedair awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Felly, nid ydych wedi cyrraedd eich targed ar gyfer meddygon teulu. Nid ydych wedi cyrraedd eich targedau ar gyfer adrannau damweiniau ac achosion brys. Pam hynny?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member will know, from both the question I dealt with last week and, indeed, the written statements that we've issued, that there is a significant and additional amount of increased attendance at A&E departments right across Wales and the UK. Here in Wales we've had a 10 per cent increase on A&E attendances compared to January last year. That's nearly 8,000 extra patients. In fact, through December and January, more than 63,000 people were seen within the four-hour timescale. What's important for us is that the targets themselves are helpful markers of part of the care—not all of the care—that people receive. Still, the average time is about two hours and 10 minutes for people to be seen, treated and discharged or admitted.

Fe fydd yr Aelod yn gwybod, o'r cwestiwn a atebais yr wythnos diwethaf ac yn wir, y datganiadau ysgrifenedig a gyhoeddwyd gennym, fod cynnydd sylweddol ac ychwanegol yn nifer y cleifion a dderbynnir i adrannau damweiniau ac achosion brys ledled Cymru a'r DU. Yma yng Nghymru, cafwyd cynnydd o 10 y cant yn y nifer a dderbyniwyd i adrannau damweiniau ac achosion brys o'i gymharu â mis Ionawr y llynedd. Mae hynny bron yn 8,000 o gleifion yn ychwanegol. Yn wir, drwy fis Rhagfyr a mis Ionawr, gwelwyd mwy na 63,000 o bobl o fewn y terfyn amser o bedair awr. Yr hyn sy'n bwysig i ni yw bod y targedau eu hunain yn fodd defnyddiol o nodi rhan o'r gofal—nid y gofal i gyd—y mae pobl yn ei gael. Eto i gyd, yr amser cyfartalog i bobl gael eu gweld, eu trin a'u rhyddhau neu eu derbyn i'r ysbty yw tua dwy awr a 10 munud.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

There's no avoiding the fact that some people are in a hospital waiting area for longer than we would wish, but at all times they are being actively treated and managed, and that is something I regularly discuss with health boards—how they reduce the number of people who are waiting 12 hours or longer. But many people would rather stay, be seen, treated and then discharged, ultimately, if that is the right thing to do for them, rather than to be artificially admitted, as the system works in England, where there are financial penalties for not doing so. I think the system we have in Wales is the right one. The challenge is how we deal with that pressure, and there needs to be a recognition that there is unprecedented pressure coming through the front door of our hospitals at present. It's only thanks to the dedication and hard work of staff that we continue to see and treat people with dignity in almost every single instance.

Nid oes modd osgoi'r ffaith fod rhai pobl mewn man aros ysbyty am fwy o amser nag y byddem yn ei ddymuno, ond maent bob amser yn cael eu trin a'u rheoli'n weithredol, ac mae hynny'n rhywbeth rwy'n ei drafod yn rheolaidd â byrddau iechyd—sut y maent yn lleihau nifer y bobl sy'n aros 12 awr neu fwy. Ond byddai'n well gan lawer o bobl aros, cael eu gweld, eu trin a'u rhyddhau wedyn, yn y pen draw, os mai dyna yw'r peth iawn i'w wneud ar eu cyfer, yn hytrach na chael eu derbyn yn artiffisial, fel y mae'r system yn gweithio yn Lloegr, lle y ceir cosbau ariannol am beidio â gwneud hynny. Rwy'n meddwl mai'r system sydd gennym yng Nghymru yw'r un iawn. Yr her yw sut rydym yn ymdrin â'r pwysau hwnnw, ac mae angen cydnabod bod pwysau digynsail yn dod drwy ddrysau ein hysbytai ar hyn o bryd. Diolch i ymroddiad a gwaith caled y staff, rydym yn parhau i weld a thrin pobl ag urddas bron iawn ym mhob achos.

13:51

### **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, it was your programme of government that said that you would improve access to GPs during the term of this Assembly. You have not done so. It was your programme of government that said that you would take pressure off our A&E departments. You have not done so. Our A&E departments, as you've just said, are busier than they've ever been. But perhaps the most damning failure in the programme for government: you said you would close the gap between the poorest people in this country and the richest people in this country in terms of health outcomes and life expectancy. Your own Government website says that those gaps have remained the same. Why do you believe, despite making that promise that you would close the health gap between our poorest people and our richest people, you have not been able to do that over the last five years?

Ddirprwy Weinidog, eich rhaglen lywodraethu chi a ddywedodd y byddech yn gwella mynediad at feddygon teulu yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Nid ydych wedi gwneud hynny. Eich rhaglen lywodraethu chi a ddywedodd y byddech yn tynnu pwysau oddi ar ein hadrannau damweiniau ac achosion brys. Nid ydych wedi gwneud hynny. Mae ein hadrannau damweiniau ac achosion brys, fel rydych newydd ei ddweud, yn fwy prysur nag y buont erioed. Ond efallai mai'r methiant mwyaf damniol yn y rhaglen lywodraethu yw hwn: fe ddywedoch y byddech yn cau'r bwlch rhwng y bobl dlotaf a'r bobl gyfoethocaf yn y wlad hon o ran canlyniadau iechyd a disgwyliad oes. Dywed gwefan eich Llywodraeth ei hun fod y bylchau hynny wedi aros yr un fath. Pam y credwch nad ydych wedi llwyddo i wneud yr hyn yr addawoch ei wneud dros y pum mlynedd diwethaf, sef cau'r bwlch iechyd rhwng ein pobl dlotaf a'n pobl gyfoethocaf?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:52

### **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, let me deal with the points that the leader of the Liberal Democrats has just made about the pressure on A&E departments. There is a huge amount of work, as she is perfectly well aware, that is ongoing to reduce pressure on A&E departments, and to reduce admissions so that people do not need to go into hospital unnecessarily. To try and suggest that additional demand coming through the doors of accident and emergency departments is somehow down to the Government and we are directly responsible for that need is significantly unhelpful and does not recognise the reality of the position. I really am disappointed about the way that has been suggested.

Wel, gadewch i mi ymdrin â'r pwyntiau y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol newydd eu gwneud am y pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae'n gwbl ymwybodol fod llawer iawn o waith yn digwydd ar leihau'r pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys, ac ar leihau derbyniadau, fel nad oes angen i bobl fynd i'r ysbyty'n ddiangen. Nid yw ceisio awgrymu bod y galw ychwanegol sy'n dod drwy ddrysau adrannau damweiniau ac achosion brys rywsut yn fai ar y Llywodraeth, a'n bod yn uniongyrchol gyfrifol am yr angen hwnnw, o unrhyw ddefnydd o gwbl, ac nid yw'n cydnabod realiti'r sefyllfa. Rwy'n wirioneddol siomedig ynglŷn â'r modd y cafodd hynny ei awgrymu.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

It is to the significant credit of our staff that they are managing and dealing with that additional pressure, and you know very well that, at this time of year, the additional demand comes from a range of different factors. We have an older, poorer, sicker population than England in general, and that means that we have more people coming through our doors—more people with chronic healthcare conditions. That unprecedented demand is not a matter where the Welsh Government is going to be able to say, within a year or two years, that we can turn off the tap. The challenge is how to anticipate that and plan for it. How do we equip our national health service to properly deal with that, working hand in hand with their partners in social care and in primary care? That is a challenge which we are having a conversation with all of our partners about, and it's something that we are actively doing. You will know from your own constituency a range of measures that have been undertaken in this area.

In terms of the gap in healthy life expectancy between our poorest and better-off citizens, the fact that the gap has actually stopped opening up is something to recognise, because when you look at health inequalities in a range of other parts of the United Kingdom, the gap has not been closing. We've got specific targeted programmes—for example, Living Well, Living Longer, which I was very pleased to launch in Blaenau Gwent in the recent past. That programme is actively looking at what we can do to reduce health inequalities between our poorest communities and our better-off communities. There is active engagement with those people, and active engagement with a range of different partners who all need to be facing in the same direction. I'm happy that we have a very real commitment to end, and do something about, health inequalities, and I'm very proud of the work that we're doing with our partners to do just that.

Mae'n glod sylweddol i'n staff eu bod yn rheoli ac yn ymdrin â'r pwysau ychwanegol, a gwyddoch yn dda iawn fod y galw ychwanegol ar yr adeg hon o'r flwyddyn yn deillio o amrywiaeth o ffactorau gwahanol. Mae gennym boblogaeth dlotach, hŷn, fwy sâl na Lloegr yn gyffredinol, ac mae hynny'n golygu bod mwy o bobl yn dod drwy ein drysau—mwy o bobl â chyflyrau iechyd cronig. Nid yw'r galw digynsail hwnnw'n caniatáu i Lywodraeth Cymru ddweud ymhen blwyddyn neu ddwy flynedd y gallwn gau'r tap. Yr her yw sut i ragweld hynny a chynllunio ar ei gyfer. Sut rydym yn paratoi ein gwasanaeth iechyd gwladol i ymdrin yn briodol â hynny, gan weithio law yn llaw â'u partneriaid ym maes gofal cymdeithasol a gofal sylfaenol? Mae honno'n her rydym yn cael trafodaeth yn ei chylch gyda phob un o'n partneriaid, ac mae'n rhywbeth sydd ar waith gennym. Fe fyddwch yn gwybod o'ch etholaeth eich hun am amrywiaeth o fesurau a roddwyd ar waith yn y maes.

O ran y bwch mewn disgwyliad oes iach rhwng ein dinasyddion tlotaf a mwy cefnog, mae'r ffaith nad yw'r bwch yn cynyddu yn rhywbeth i'w gydnabod, oherwydd pan fyddwch yn edrych ar anghydraddoldebau iechyd mewn amrywiaeth o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig, nid yw'r bwch wedi bod yn cau. Mae gennym raglenni wedi'u targedu'n benodol—er enghraifft, Byw'n Well, Byw'n Hirach y cefais y pleser o'i lansio ym Mlaenau Gwent yn ddiweddar. Mae'r rhaglen honno'n mynd ati'n weithredol i edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud i leihau anghydraddoldebau iechyd rhwng ein cymunedau tlotaf a'n cymunedau mwy cefnog. Ceir ymgysylltiad gweithredol gyda'r bobl hynny, ac ymgysylltiad gweithredol gydag ystod o bartneriaid gwahanol y mae angen iddynt i gyd symud i'r un cyfeiriad. Rwy'n falch fod gennym ymrwymiad gwirioneddol i roi'r gorau i anghydraddoldebau iechyd a gwneud rhywbeth yn eu cylch, ac rwy'n falch iawn o'r gwaith a wnawn gyda'n partneriaid i wneud yn union hynny.

- 13:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
We now move to the Welsh Conservatives' spokesperson, Darren Millar. Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Darren Millar.
- 13:54 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Thank you, Presiding Officer. Minister, there are 1 in 7 people in Wales on an NHS waiting list. What are you doing about it? Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, mae un o bob saith o bobl Cymru ar restr aros y GIG. Beth rydych yn ei wneud ynglŷn â hynny?
- 13:54 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
There are not 1 in 7 people on an NHS waiting list. I'm happy to disabuse the Member of his ignorance in this matter. [Interruption.] Nid oes un o bob saith o bobl ar restr aros y GIG. Rwy'n hapus i gywiro anwybodaeth yr Aelod ynglŷn â'r mater. [Torri ar draws.]
- 13:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Order. Order. Trefn. Trefn.

13:54 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The figures for waiting lists recognise there are a number of people who are more than one list, as you know perfectly well. To suggest that 1 in 7 people in the whole of Wales are on a waiting list is simply not true. I would prefer it if we could have a rational conversation about the health service and its challenges, rather than attempt to deliberately misrepresent the position by misquoting figures in the way that you do. I do hope that you'll recognise that when you get to your feet next.

Mae ffigurau rhestrau aros yn cydnabod bod nifer o bobl ar fwy nag un rhestr, fel y gwyddoch yn iawn. Nid yw awgrymu bod un o bob saith o bobl Cymru gyfan ar restr aros yn wir. Byddai'n well gennyf pe gallem gael trafodaeth resymegol ynglŷn â'r gwasanaeth iechyd a'i heriau, yn hytrach na cheisio rhoi camargraff bwriadol o'r sefyllfa drwy gamddyfynnu ffigurau yn y modd rydych yn ei wneud. Rwy'n gobeithio y byddwch yn cydnabod hynny pan fyddwch yn codi ar eich traed nesaf.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:55 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No answer at all from the Minister on what he's doing to reduce these record waiting lists. Let's just put this into perspective: there are almost 440,000 people on waiting lists here in Wales. When Carwyn Jones became First Minister, the figure was almost half that; it has doubled on his watch. Not only are more people on a waiting list, but more people are waiting longer than in other parts of the United Kingdom. We know, for example, that, from the official statistics, the average wait for a hip operation in Wales is 75 days—it certainly was in 2014-15—compared to 197—. Sorry, it's 75 days in England compared to 197 days here in Wales. We also know that figures for heart bypass waits show that there's a gap of 111 days here—that's the wait in Wales—versus just 57 days in England. Why should people in Wales have to put up with these longer waits? I ask you again the question I asked you earlier: what are you doing to reduce these waiting times?

Dim ateb o gwbl gan y Gweinidog ynglŷn â'r hyn y mae'n ei wneud i leihau'r rhestrau aros hyn sy'n hwy nag y buont erioed. Gadewch i ni roi hyn mewn persbectif: mae bron i 440,000 o bobl ar restrau aros yma yng Nghymru. Pan ddaeth Carwyn Jones yn Brif Weinidog Cymru, roedd y ffigwr bron yn hanner hynny; mae wedi dyblu o dan ei oruchwyliaeth. Nid yn unig fod mwy o bobl ar restr aros, ond mae mwy o bobl yn aros yn hwy na mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Gwyddom, er enghraifft, o'r ystadegau swyddogol, mai'r amser aros cyfartalog ar gyfer llawdriniaeth clun yng Nghymru yw 75 diwrnod—yn sicr, dyna ydoedd yn 2014-15—o'i gymharu â 197—. Mae'n ddrwg gennyf, mae'n 75 diwrnod yn Lloegr o'i gymharu â 197 diwrnod yma yng Nghymru. Gwyddom hefyd fod ffigurau amseroedd aros ar gyfer llawdriniaeth ddargyfeiriol ar y galon yn dangos bod bwlch o 111 o ddiwrnodau yma—dyna'r amser aros yng Nghymru—o'i gymharu â 57 diwrnod yn unig yn Lloegr. Pam y dylai pobl Cymru ddioddef yr amseroedd aros hwy hyn? Rwy'n gofyn y cwestiwn a ofynnais i chi'n gynharach: beth rydych yn ei wneud i leihau'r amseroedd aros hyn?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:56 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm disappointed that you again misrepresented the figures. I'm disappointed that you again misrepresent the facts when talking about our national health service. To suggest that one in seven people are on a waiting list when you know that is simply not true—it troubles me about the level of honesty with which you engage in this debate. When it comes to the numbers of people on a list, or the number of waiting list appointments that are waiting, in fact, in England, the percentage has risen even higher than in Wales. In fact, the numbers of people on a list don't tell you how quickly people are seen or about the quality of treatment that people receive. I really would ask you again, Darren Millar, to reconsider the way in which you are misusing figures and not giving an honest representation of the achievement of our national health service here in Wales.

Rwy'n siomedig eich bod eto wedi rhoi camargraff o'r ffigurau. Rwy'n siomedig eich bod unwaith eto yn rhoi camargraff o'r ffeithiau wrth siarad am ein gwasanaeth iechyd gwladol. Mae awgrymu bod un o bob saith o bobl ar restr aros a chithau'n gwybod nad yw hynny'n wir—rwy'n poeni ynghylch lefel eich gonestrwydd wrth i chi gymryd rhan yn y ddadl hon. O ran nifer y bobl ar restr, neu'r nifer o apwyntiadau ar restr aros, mewn gwirionedd, yn Lloegr mae'r ganran wedi codi hyd yn oed yn uwch nag yng Nghymru. Mewn gwirionedd, nid yw nifer y bobl sydd ar restr yn dweud wrthyhych pa mor gyflym y caiff pobl eu gweld nac am ansawdd y driniaeth y mae pobl yn ei chael. Byddwn yn gofyn i chi eto, Darren Millar, i ailystyried y modd rydych yn camddefnyddio ffigurau heb gyflwyno llwyddiant ein gwasanaeth iechyd gwladol yn onest yma yng Nghymru.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Dealing with your point about hip operations, we know, for example, that it is not simply the amount of time you wait; it's actually the outcomes that we're interested in, as well. You will be perfectly well aware that from a recent audit of mortality rates after hip operations, 11 particular hospital sites in England had significant concerns about the rate of 30-day mortality, and the best performing hospital in the category was actually Bronglais here in Wales. It shows that quality really is at the heart of what we do here in Wales, and I really do wish you could at least recognise that and the quality of service that people do receive on a regular basis from our staff here in NHS Wales.

I ymdrin â'ch pwynt ynghylch llawdriniaethau clun, gwyddom, er enghraifft, nad yw'n ymwneud yn syml â faint o amser rydych yn ei aros; mae gennym ddiddordeb yn y canlyniadau yn ogystal. Fe fyddwch yn berffaith ymwybodol o archwiliad diweddar i gyfraddau marwolaethau ar ôl llawdriniaethau clun. Roedd gan 11 o safleoedd ysbyty penodol yn Lloegr bryderon sylweddol ynghylch y gyfradd farwolaethau o fewn 30 diwrnod, a'r ysbyty a oedd yn perfformio orau yn y categori mewn gwirionedd oedd Bronglais yma yng Nghymru. Mae'n dangos bod safon yn gwbl ganolog i'r hyn a wnawn yma yng Nghymru, a hoffwn yn fawr pe gallech o leiaf gydnabod hynny a'r ansawdd gwasanaeth y mae pobl yn ei gael yn rheolaidd gan ein staff yma yn y GIG yng Nghymru.

- 13:58 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I'm still waiting for an answer on what you're doing about the waiting times— Rwy'n dal i aros am ateb ar yr hyn rydych yn ei wneud ynglŷn â'r amseroedd aros—
- 13:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Darren Millar. Darren Millar.
- 13:58 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
[Inaudible.] [Anghlywadwy.]
- 13:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Darren Millar. Darren Millar. Darren Millar, will you please sit down a moment? Darren Millar. Darren Millar. Darren Millar, a wnewch chi eistedd i lawr am funud?  
  
Deputy Minister, I'd like you to consider the way you are expressing your answers before you reply to any more. Right—Darren Millar. Ddirprwy Weinidog, hoffwn i chi ystyried y ffordd rydych yn mynegi eich atebion cyn i chi ateb rhagor ohonynt. Iawn— Darren Millar.
- 13:58 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Thank you, Presiding Officer. I have sought an answer on two occasions now to what you are actually doing to reduce waiting times. You talk about outcomes. The Royal College of Surgeons has warned that people are coming to harm as a result of heart bypass waiting times here in south Wales; the same conclusion was drawn, also, by the Wales Audit Office. What are you doing to reduce these unacceptable waiting times? If we want to talk about being honest and open with the public, why on earth aren't you accepting that there's a crisis in the waiting times here in Wales and that it needs to be dealt with urgently? Do you accept that your record-breaking cuts to national health service budgets are having an impact on the ability of the NHS to address these waiting times? Diolch i chi, Lywydd. Rwyf wedi gofyn am ateb ar ddau achlysur yn awr i'r hyn rydych yn ei wneud i leihau amseroedd aros. Rydych yn sôn am ganlyniadau. Mae Coleg Brenhinol y Llawfeddygon wedi rhybuddio am y niwed i bobl o ganlyniad i amseroedd aros ar gyfer llawdriniaethau dargyfeiriol ar y galon yma yn ne Cymru; daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r un casgliad hefyd. Beth rydych yn ei wneud i leihau'r amseroedd aros annerbyniol hyn? Os ydym am siarad am fod yn onest ac yn agored gyda'r cyhoedd, pam ar y ddaear nad ydych yn derbyn bod yna argyfwng o ran amseroedd aros yma yng Nghymru a bod angen mynd i'r afael â hynny ar frys? A ydych yn derbyn bod eich toriadau mwyaf erioed i gyllidebau'r gwasanaeth iechyd gwladol yn effeithio ar allu'r GIG i fynd i'r afael â'r amseroedd aros hyn?

13:59

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, we are investing a record amount in the national health service here in Wales, despite the fact that we are suffering year-on-year cuts from the United Kingdom Government, led by his party; that is the reality of the position. We are making those choices on investing in our national health service in the most difficult financial period of time for this National Assembly, and I'm proud of our record. In terms of waiting times, we expect waiting times to fall. At the end of this year, you will see a national health service in Wales that has improved waiting times across the whole piece. You will see that record, and, when you do, I expect you to do the decent thing by our national health service and apologise for suggesting otherwise. I expect you to put the record straight. I expect you to have the decency to recognise that the way you talk down our national health service, the way you misrepresent the activity within our national health service does a serious discredit to you, and people in Wales will not be fooled by Tories shouting about the national health service. People in Wales know perfectly well you can't trust the Tories with our NHS.

Wrth gwrs, rydym yn buddsoddi'r swm mwyaf erioed yn y gwasanaeth iechyd gwladol yma yng Nghymru, er gwaetha'r ffaith ein bod yn dioddef toriadau flwyddyn ar ôl blwyddyn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, a arweinir gan ei blaid; dyna yw realiti'r sefyllfa. Rydym yn gwneud y dewisiadau o ran buddsoddi yn ein gwasanaeth iechyd gwladol yn y cyfnod ariannol anoddaf un i'r Cynulliad Cenedlaethol hwn, ac rwy'n falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni. O ran amseroedd aros, rydym yn disgwyl i amseroedd aros leihau. Ar ddiwedd y flwyddyn hon, fe fyddwch yn gweld gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru sydd wedi gwella amseroedd aros ym mhob maes. Byddwch yn gweld y cyflawniad hwnnw, a phan wnewch chi, rwy'n disgwyl i chi wneud y peth gweddus i'n gwasanaeth iechyd gwladol ac ymddiheuro am awgrymu fel arall. Rwy'n disgwyl i chi gywiro'r camargraff. Rwy'n disgwyl i chi fod yn ddigon cwrtais i gydnabod bod y ffordd rydych yn bychanu ein gwasanaeth iechyd gwladol, y ffordd rydych yn rhoi camargraff o weithgarwch ein gwasanaeth iechyd gwladol, yn dwyn anfri arnoch, ac ni fydd pobl Cymru yn cael eu twyllo gan Doriaid yn gweiddi am y gwasanaeth iechyd gwladol. Mae pobl Cymru yn gwybod yn iawn na allwch ymddiried yn y Toriaid gyda'n GIG.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move back to the questions on the paper. Question 3 is Sandy Mewies.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur yn awr. Daw cwestiwn 3 gan Sandy Mewies.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Cyfleusterau Gofal Iechyd Sylfaenol yn y Fflint**

**Primary Healthcare Facilities in Flint**

14:00

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth o gyfleusterau gofal iechyd sylfaenol yn y Fflint? OAQ(4)0704(HSS)*

*3. Will the Minister provide an update on the provision of primary healthcare facilities in Flint? OAQ(4)0704(HSS)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I'm very happy to. Thank you for the question. The Welsh Government has approved £5 million of capital funding for a new integrated health and social care centre in Flint. The proposed new centre will integrate and co-locate a range of primary, community, social and voluntary sector services.

Gwnaf, rwy'n hapus iawn i wneud. Diolch am y cwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo £5 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer canolfan iechyd a gofal cymdeithasol integredig newydd yn y Fflint. Bydd y ganolfan newydd arfaethedig yn integreiddio a chydleoli amrywiaeth o wasanaethau sylfaenol, cymunedol, cymdeithasol a'r sector gwirfoddol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. The go-ahead for Flint health centre and the number of services being provided is to be welcomed. At the original consultation on health services in 2012, I said that, should services be replaced, then the services that did replace them should meet the needs of an ever-growing population and be both safe and sustainable. I also said that the planned timeline for providing those services was frighteningly long. Minister, can I ask that steps be taken to ensure that this scheme suffers no further delays and that, in future, health boards act to ensure that if services need to be replaced in a community, then the transition is as quick and as seamless as possible?

Diolch. Mae'r gymeradwyaeth i ganolfan iechyd y Fflint a'r nifer o wasanaethau a ddarperir i'w chroesawu. Yn yr ymgynghoriad gwreiddiol ar wasanaethau iechyd yn 2012, fe ddywedais, pe bai gwasanaethau'n cael eu disodli, yna y dylai'r gwasanaethau sy'n dod yn eu lle ateb anghenion poblogaeth sy'n cynyddu'n barhaus, a bod yn ddiogel a chynaliadwy. Dywedais hefyd fod yr amserlen a gynlluniwyd ar gyfer darparu'r gwasanaethau hynny yn ddychrynlyd o hir. Weinidog, a gaf fi ofyn i chi roi camau ar waith i sicrhau nad yw'r cynllun hwn yn dioddef unrhyw oedi pellach ac yn y dyfodol, fod byrddau iechyd yn gweithredu i sicrhau, os oes angen disodli gwasanaethau mewn cymuned, fod y cyfnod pontio mor gyflym ac mor llyfn â phosibl?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:01

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the question. Those were points well made by Sandy Mewies. I should say, given that this will be your last health questions, that you have been a consistent and persistent advocate for new healthcare facilities to serve the people of Flint, and I do recognise that this scheme has been long in the planning, and we would have wanted to see it delivered more quickly than it has been. You do make a completely fair point: the transition should be as seamless as possible.

Diolch am y cwestiwn. Gwnaed y pwyntiau hynny'n dda gan Sandy Mewies. Dylwn ddweud, o ystyried mai'r rhain fydd eich cwestiynau iechyd diwethaf, eich bod wedi bod yn eiriolwr cyson a pharhaus dros gyfleusterau gofal iechyd newydd i wasanaethu pobl y Fflint, ac rwy'n cydnabod bod y gwaith o gynllunio'r cynllun hwn wedi bod yn hir, ac y byddem wedi hoffi ei weld yn cael ei gyflawni'n gyflymach. Rydych yn gwneud pwynt cwbl deg: dylai'r cyfnod pontio fod mor ddi-dor â phosibl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Healthcare services have continued to be delivered, but I do think that, in the future, we would expect there to be no further delays at all in the delivery of this scheme so that the people of Flint get the significant investment delivered on their doorstep to provide a significant and additional range of services for the people of Flint to access. So, I think this is a good example of the sort of schemes we ought to see in other parts of Wales as well, and I look forward to being able to deliver that over the course of the next Assembly term.

Mae gwasanaethau gofal iechyd wedi parhau i gael eu darparu, ond rwy'n meddwl y byddem, yn y dyfodol, yn disgwyl na fydd unrhyw oedi pellach o gwbl yn y broses o gyflawni'r cynllun hwn, fel bod pobl y Fflint yn cael y buddsoddiad sylweddol wedi'i ddarparu ar garreg eu drws i ddarparu ystod sylweddol ac ychwanegol o wasanaethau iddynt. Felly, rwy'n credu bod hon yn enghraifft dda o'r math o gynlluniau y dylem eu gweld mewn rhannau eraill o Gymru yn ogystal, ac edrychaf ymlaen at allu cyflawni hynny yn ystod tymor nesaf y Cynulliad.

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Health and Social Care

14:02

**John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd ymdrin ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau yng Nghymru? OAQ(4)0697(HSS)*

*4. Will the Minister make a statement on the importance of addressing health and social care needs together to improve service provision in Wales? OAQ(4)0697(HSS)*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:02

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. Our approach in Wales has been to enable and support partnership working across health and social care to ensure people have high-quality, integrated services, care and support. We have therefore protected our vital social services budgets and provided specific funding, such as the intermediate care fund, to drive partnership working.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Ein dull o weithredu yng Nghymru yw galluogi a chefnogi gweithio mewn partneriaeth ar draws iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael gwasanaethau, gofal a chymorth integredig o ansawdd uchel. O'r herwydd, rydym wedi diogelu ein cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol hanfodol ac wedi darparu cyllid penodol, fel y gronfa gofal canolraddol, i ysgogi gweithio mewn partneriaeth.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:03

**John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, in England, I think we see the consequences of a lack of UK Government support for social care, which is that there are grave problems for social services and health. Thankfully, here in Wales, as you've briefly mentioned, we see an integrated approach to health and social care through, for example, the intermediate care fund. Would you agree with me that the situation in England at the moment, because of the lack of that integrated strategy and policy, is a salutary lesson as to what happens if you do not take that approach? Will you assure me and the people of Wales that the Welsh Government will continue to develop and implement policy in a joined-up way with regard to health and social care?

Weinidog, yn Lloegr, rwy'n credu ein bod yn gweld canlyniadau diffyg cefnogaeth Llywodraeth y DU i ofal cymdeithasol ar ffurf problemau difrifol ym maes gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd. Diolch i'r drefn, yma yng Nghymru, fel rydych wedi sôn yn fyr, gwelwn ddull integredig o weithredu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol drwy, er enghraifft, y gronfa gofal canolraddol. A fydddech yn cytuno bod y sefyllfa yn Lloegr ar hyn o bryd, oherwydd diffyg strategaeth a pholisi integredig o'r fath, yn wers lesol ynghylch yr hyn sy'n digwydd os nad ydych yn gweithredu felly? A wnewch chi fy sicrhau i a phobl Cymru y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu a gweithredu polisi mewn ffordd gydgyssylltiedig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question and for highlighting the significant impact of the cuts to social care in England that we have not followed here in Wales. The Treasury's own figures show that spend per head in Wales for health and social services is 7 per cent higher. It's not just this Government that is saying there is a problem with social care in England. Simon Stevens, the chief executive of NHS England, has regularly called for a politically stable settlement and for the funding of social care in England. I'm proud of the fact that we're delivering a genuinely joined-up solution here in Wales, looking at health and social care together. It helps to explain why we have a much more robust system here in Wales between health and social care, and it also helps to explain why they have record highs in delayed transfers of care in England, where as we seem to keep it stable and manage much more successfully here in Wales.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn ac am dynnu sylw at effaith sylweddol y toriadau i ofal cymdeithasol yn Lloegr nad ydym wedi'u hefelychu yma yng Nghymru. Mae ffigurau'r Trysorlys ei hun yn dangos bod gwariant y pen saith y cant yn uwch yng Nghymru ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Nid y Llywodraeth hon yn unig sy'n dweud bod yna broblem ym maes gofal cymdeithasol yn Lloegr. Mae Simon Stevens, prif weithredwr y GIG yn Lloegr, wedi galw'n gyson am setliad sy'n sefydlog yn wleidyddol ac am gyllido gofal cymdeithasol yn Lloegr. Rwy'n falch o'r ffaith ein bod yn darparu ateb gwirioneddol gydgyssylltiedig yma yng Nghymru, gan edrych ar iechyd a gofal cymdeithasol gyda'i gilydd. Mae'n help i egluro pam fod gennym system lawer mwy cadarn yma yng Nghymru rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae hefyd yn help i egluro pam fod gan Loegr lefel uwch nag erioed o oedi wrth drosglwyddo gofal pan ymddengys ein bod ni'n cadw'r lefel yn sefydlog ac yn llwyddo'n llawer gwell yma yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:04

**William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm most grateful to the questioner for highlighting one of the core policies of the Welsh Conservatives. We are committed to creating a £10 million care innovation fund to co-ordinate health and social services. Do you accept that the care innovation fund is more likely to help people remain in their own homes?

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r holwr am dynnu sylw at un o bolisiau craidd y Ceidwadwyr Cymreig. Rydym wedi ymrwymo i greu cronfa arloesi mewn gofal gwerth £10 miliwn i gydgyssylltu iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. A ydych yn derbyn bod y gronfa arloesi mewn gofal yn fwy tebygol o helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:04

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd love to see the details of Conservative policy and how on earth you're going to fund it. In Wales, we've got an intermediate care fund that is delivering integrated care—£20 million last year, £50 million of revenue next year, and an extra £10 million of capital. This is a Government that is delivering on integrating health and social care, and I look forward to us being able to continue that journey in the next Assembly.

Byddwn wrth fy modd yn gweld manylion polisi'r Ceidwadwyr a sut ar y ddaear rydych yn mynd i'w gyllido. Yng Nghymru, mae gennym y gronfa gofal canolraddol sy'n darparu gofal integredig—£20 miliwn y llynedd, £50 miliwn o refeniw y flwyddyn nesaf, a £10 miliwn o gyfalaf ychwanegol. Dyma Lywodraeth sy'n cyflawni o ran integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, ac edrychaf ymlaen at ein gweld yn gallu parhau'r daith honno yn y Cynulliad nesaf.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



14:05

**Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Deputy Minister, without what we would consider to be the true integration of health and social care, how will you make sure—and I would quote your Government's prudent healthcare policy—that people will receive the right care in the right place at the right time, because from what I've heard today, your party's in a bit of a hole and the normal advice is to throw the shovel out and stop digging? Personally, if I were you, I'd get out of the hole. [Laughter.]

Wel, Ddirprwy Weinidog, heb yr hyn y byddem yn ei ystyried yn integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol go iawn, sut y byddwch yn sicrhau—a byddwn yn dyfynnu polisi gofal iechyd darbodus eich Llywodraeth—y bydd pobl yn cael y gofal cywir yn y lle cywir ar yr amser cywir, oherwydd o'r hyn rwyf wedi'i glywed heddiw, mae eich plaid mewn twll braidd a'r cyngor arferol yw taflu'r rhaw a rhoi'r gorau i balu? Yn bersonol, pe bawn i'n chi, byddwn yn dod allan o'r twll. [Chwerthin.]

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Dear, dear—talk about to strangle a metaphor. [Laughter.] I will restate again that this party and this Government have no intention at all of following Plaid Cymru's agenda to smash the health service into many different pieces. We do not believe that splintering community and primary healthcare into many different parts of local government will be at all helpful on delivering genuine integration of health and social care. We are very proud of the approach we're taking in the Gwenda Thomas Act that was passed by this Assembly on a different model for health and social care to work together. The partnership boards are already there, as are the pooled budgets and directive that this Government is issuing, and the real money we're putting in the intermediate care fund to ensure that is delivered. We recognise that health and social care working together is important; that's why we look at them together when we fund them. We're really proud of the work they're doing together with the voluntary sector too, and we expect there to be more of that to come in the future as we deliver real outcomes for people in every single part of Wales.

Wel, wel—sôn am ladd trosiad. [Chwerthin.] Rwy'n ailddatgan eto nad oes gan y blaid hon a'r Llywodraeth hon unrhyw fwriad o gwbl o ddilyn agenda Plaid Cymru i chwalu'r gwasanaeth iechyd yn nifer o ddarnau gwahanol. Nid ydym yn credu y bydd hollti gofal iechyd cymunedol a sylfaenol yn nifer o rannau gwahanol o lywodraeth leol yn ddefnyddiol o gwbl i gyflawni integreiddiad go iawn o iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn falch iawn o'r dull rydym yn ei weithredu yn Neddf Gwenda Thomas a basiwyd gan y Cynulliad hwn ar fodel gwahanol er mwyn i iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd. Mae'r byrddau partneriaeth eisoes yno, fel y mae'r cyllidebau cyfun a'r gyfarwyddeb y mae'r Llywodraeth hon yn eu cyhoeddi, a'r arian go iawn rydym yn ei roi yn y gronfa gofal canolraddol er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei darparu. Rydym yn cydnabod ei bod hi'n bwysig i iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd; dyna pam rydym yn edrych arnynt gyda'i gilydd pan fyddwn yn eu cyllido. Rydym yn falch iawn o'r gwaith y maent yn ei wneud gyda'r sector gwirfoddol hefyd, ac rydym yn disgwyl mwy o hynny yn y dyfodol wrth i ni sicrhau canlyniadau go iawn i bobl ym mhob rhan o Gymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

**Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, domiciliary care is frequently the point at which health and social care needs most obviously overlap. Would you agree with me that in addressing the needs of service users through their homecare systems, public bodies should have an absolute focus on the quality of care provided, and the right of service users and their carers to be at the centre of the design and provision of services, and that these goals should never be subordinated to the desire to compete with other providers in the social care market?

Weinidog, yn aml gofal yn y cartref yw'r pwynt lle y mae anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn gorgyffwrdd yn fwyaf amlwg. A fydddech yn cytuno y dylai cyrrff cyhoeddus, wrth iddynt fynd i'r afael ag anghenion defnyddwyr gwasanaethau drwy eu systemau gofal cartref, ganolbwyntio'n llwyr ar ansawdd y gofal a ddarperir, a hawl defnyddwyr gwasanaethau a'u gofaluwr i fod yn rhan ganolog o'r broses o lunio a darparu gwasanaethau, ac na ddylai'r amcanion hyn fod yn ddarostyngedig ar unrhyw adeg i'r awydd i gystadlu â darparwyr eraill yn y farchnad gofal cymdeithasol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question; I agree with the point she's making. We've been very clear with both health and social care providers that we expect there to be a focus on quality in commissioning as a driver for the work that they do. That's why we've also directed them using the scheme of the Act that you piloted through this Assembly to ensure that they plan and understand our population needs, and then meet together as well. So, we've got a specific area where we expect them to work together on the joint commissioning and delivery of those services. It's why we're protecting health and social services spend; it's why there's been an extra £21 million going into social care in the last budget. But I'm particularly pleased that you mentioned the needs of carers. We're looking in particular at the needs of carers at this point in time, and this really is a groundbreaking part of the legislative scheme that you've introduced, and I think Wales is significantly well placed compared to the rest of the UK to properly recognise and deliver on the rights and the needs of carers going forward for the future.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn; cytunaf â'r pwynt y mae'n ei wneud. Rydym wedi dweud yn glir iawn wrth ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol ein bod yn disgwyl ffocws ar ansawdd wrth gomisiynu fel sbardun i'r gwaith y maent yn ei wneud. Dyna pam rydym hefyd wedi'u cyfarwyddo i ddefnyddio cynllun y Ddeddf a dreialwyd gennych drwy'r Cynulliad hwn i sicrhau eu bod yn cynllunio ac yn deall anghenion ein poblogaeth, ac yna yn cyfarfod â'i gilydd hefyd. Felly, mae gennym faes penodol lle rydym yn disgwyl iddynt weithio gyda'i gilydd ar gydgomisiynu a darparu'r gwasanaethau hynny. Dyna pam ein bod yn diogelu gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; dyna pam fod £21 miliwn ychwanegol wedi mynd tuag at ofal cymdeithasol yn y gyllideb ddiwethaf. Ond rwy'n arbennig o falch eich bod wedi sôn am anghenion gofalwyr. Rydym yn edrych yn benodol ar anghenion gofalwyr ar hyn o bryd, ac mae hon yn rhan wirioneddol arloesol o'r cynllun deddfwriaethol a gyflwynwyd gennych, ac rwy'n credu bod Cymru mewn sefyllfa dda iawn o gymharu â gweddill y DU i sicrhau a rhoi cydnabyddiaeth briodol i hawliau ac anghenion gofalwyr yn y dyfodol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Hemoffilia a Gwaed Halogedig**

**Haemophilia and Contaminated Blood**

14:08

**Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*5. A wnaiff y Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran taliadau i bobl sydd â hemoffilia a heintiwyd gan waed halogedig? OAQ(4)0706(HSS)*

*5. Will the Deputy Minister provide an update on progress with payments to people with haemophilia who have been infected by contaminated blood? OAQ(4)0706(HSS)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. On 21 January this year, the Department of Health in Whitehall published proposals to change payments made in the circumstances you just outlined. That consultation ends on 15 April, and I would urge anyone affected in Wales, their families and representatives to make their views known before that closing date.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Ar 21 Ionawr eleni, cyhoeddodd yr Adran Iechyd yn Whitehall gynigion i newid taliadau a wneir o dan yr amgylchiadau rydych newydd eu hamlinellu. Daw'r ymgynghoriad hwnnw i ben ar 15 Ebrill, a byddwn yn annog unrhyw un yr effeithir arnynt yng Nghymru, eu teuluoedd a'u cynrychiolwyr i fynegi eu barn cyn y dyddiad cau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

**Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Deputy Minister for that response, but I'm sure the Minister is aware that the Haemophilia Society and haemophilia groups in Wales have been told by the English public health Minister and by the Wales Office that although they've been asked to contribute to the consultation process in England, the exact amount and form of the payments will be up to the Welsh Government. This, I believe, has been news to the Welsh Government, and it was really a great shock to people and families who have suffered a lot through being patients who have been contaminated with infected blood, and have actually contracted HIV and hepatitis C, and are really in a situation where they don't know what's happening; they are totally confused about what the situation is. So, I wondered if the Deputy Minister was able to clarify the situation about what is the responsibility of the Welsh Government, and what is the Department of Health doing by giving such conflicting messages.

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am yr ymateb hwnnw, ond rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod y Gymdeithas Hemoffilia a grwpiau hemoffilia yng Nghymru wedi cael gwybod gan y Gweinidog iechyd cyhoeddus yn Lloegr a chan Swyddfa Cymru, er eu bod wedi cael cais i gyfrannu at y broses ymgynghori yn Lloegr, y bydd union swm a ffurf y taliadau yn faterion i Lywodraeth Cymru benderfynu arnynt. Roedd hyn, rwy'n credu, yn newyddion i Lywodraeth Cymru, ac roedd yn syndod mawr i bobl a theuluoedd sydd wedi dioddef llawer drwy fod yn gleifion a halogwyd gan waed wedi'i heintio, ac a ddaliodd HIV a hepatitis C mewn gwirionedd, ac sydd mewn sefyllfa lle nad ydynt yn gwybod beth sy'n digwydd; maent wedi drysu'n llwyr ynglŷn â'r sefyllfa. Felly, roeddwn yn meddwl tybed a oedd y Dirprwy Weinidog yn gallu egluro'r sefyllfa o ran yr hyn sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru, a beth y mae'r Adran Iechyd yn ei wneud drwy gyfleu negeseuon sy'n gwrthdaro yn y fath fodd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for highlighting the issue; I know she's taken a great deal of interest in this as chair of the cross-party group on contaminated blood. It may be helpful if I explain that the UK Government and the Governments in Scotland, Northern Ireland and Wales had agreed to undertake a unified UK approach on payments to people affected by the contaminated blood scandal. Unfortunately, the UK Government then made a unilateral announcement on moneys for people in England ahead of the consultation itself. That has created a large element of confusion amongst people who are taking part in the consultation and will be affected in every single part of Wales.

The First Minister wrote to the Secretary of State at the start of February—and we still await the response to that letter—highlighting that we wish there to be a proper four-nation process, as was agreed at the start of this, that we do wish there to be no further unilateral announcements made to cause additional confusion, and at the end of the consultation, we then expect to be able to take a genuine four-country approach to this particular issue, because the last thing that people who've suffered from the contaminated blood scandal want is different countries and different departments criticising each other, saying that the blame lies somewhere else. This is led by the UK Government, it's an approach we all want to be able to sign up to, and I hope there's now an attack of common sense and a common approach to dealing with this particularly difficult issue.

Diolch i'r Aelod am dynnu sylw at y mater; rwy'n gwybod ei bod wedi dangos llawer iawn o ddi-ddordeb yn hyn fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar waed halogedig. Mae'n bosibl y byddai o gymorth pe bawn yn egluro bod Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau yng Nghymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon wedi cytuno i arfer dull unedig o weithredu drwy'r DU mewn perthynas â thaliadau i bobl yr effeithiwyd arnynt gan y sgandal gwaed halogedig. Yn anffodus, yn dilyn hynny gwnaeth Llywodraeth y DU gyhoeddiad unochrog ar arian i bobl yn Lloegr cyn yr ymgynghoriad ei hun. Mae hynny wedi creu elfen fawr o ddrysych ymhlith pobl sy'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac yr effeithir arnynt ym mhob rhan o Gymru.

Ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru at yr Ysgrifennydd Gwladol ar ddechrau mis Chwefror—ac rydym yn dal i aros am ymateb i'r llythyr hwnnw—yn tynnu sylw at y ffaith ein bod yn dymuno cael proses briodol rhwng y pedair cenedl, fel y cytunwyd ar y dechrau, ac nad ydym eisiau i unrhyw gyhoeddiadau unochrog pellach gael eu gwneud rhag peri dryswch ychwanegol, ac ar ddiwedd yr ymgynghoriad, byddwn yn disgwyl gallu mabwysiadu ymagwedd ddilys ar y cyd rhwng y pedair tuag at y mater penodol hwn, gan mai'r peth olaf y mae pobl sydd wedi dioddef o ganlyniad i'r sgandal gwaed halogedig ei eisiau yw gwahanol wledydd a gwahanol adrannau yn beirniadu ei gilydd, gan ddweud bod y bai ar rywun yn rhywle arall. Mae hyn yn cael ei arwain gan Lywodraeth y DU, mae'n ddull rydym i gyd eisiau gallu ymrwymo iddo, ac rwy'n gobeithio y ceir pwl o synnwyr cyffredin yn awr a dull cyffredin o fynd i'r afael â'r mater arbennig o anodd hwn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

**Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, I'm sure that the Assembly would appreciate a general update on investment in research and development on blood and blood-borne diseases like hepatitis, as Julie Morgan mentioned. I'd be especially grateful for an update on progress in relation to pernicious anaemia to include information on the latest thinking on the frequency and dosage of vitamin B12 injections as well as any new therapies. Could you confirm how often the Welsh Government reviews the literature on pernicious anaemia and whether it's directly commissioned any research into this disease, into haemophilia and other blood or blood-borne diseases?

Ddirprwy Weinidog, rwy'n siŵr y byddai'r Cynulliad yn gwerthfawrogi diweddariad cyffredinol ar fuddsoddiad mewn ymchwil a datblygu ym maes clefydau gwaed a chlefydau a gludir yn y gwaed megis hepatitis, fel y crybwyllodd Julie Morgan. Byddwn yn arbennig o ddiolchgar am yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnwys mewn perthynas ag anemia dinistriol i gynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r syniadau diweddaraf am amllder a dos pigladau fitamin B12 yn ogystal ag unrhyw therapiau newydd. A wnewch chi gadarnhau pa mor aml y mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r llenyddiaeth ar anemia dinistriol a pha un a yw wedi comisiynu unrhyw ymchwil yn uniongyrchol i'r clefyd hwn, i hemoffilia a chlefydau gwaed eraill neu glefydau a gludir yn y gwaed?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have a range of activity on blood-borne diseases and we have a range of activity that's been undertaken, that's been subsumed, as one of our delivery plans. I'll happily write to you with the details of that and make sure other Members are copied in.

Mae gennym ystod o weithgarwch ar glefydau a gludir yn y gwaed ac mae gennym ystod o weithgarwch sydd wedi'i gyflawni, ac sydd wedi'i gynnwys, fel un o'n cynlluniau cyflawni. Byddai'n bleser gennyf ysgrifennu atoch gyda'r manylion hynny a sicrhau bod yr Aelodau eraill yn cael copi hefyd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Af innau yn ôl at y cynllun taliadau. Mae yna bryder difrifol bod yr hyn y mae Llywodraeth Prydain yn ymgynghori arno fo ar hyn o bryd yn cynrychioli cam eithaf sylweddol yn ôl o ran y gefnogaeth sy'n cael ei rhoi i'r rheini sy'n gorfod byw efo canlyniadau gwaed wedi'i heintio. A wnaiff y Dirprwy Weinidog roi ymrwymiad—yn ogystal â chwilio am eglurhad ynglŷn â beth sy'n digwydd—i weithio'n agos efo Llywodraeth Prydain yn ystod a thu hwnt i'r ymgynghoriad presennol i sicrhau, yn gyntaf, os ydy'r cyfrifoldeb am weithredu'r cynllun taliadau yn cael ei ddatganoli rywsut i Gymru, fod yna arian digonol yn dod i Gymru i weithredu y fath gynllun, neu os ddim, fod Llywodraeth Cymru yn cynrychioli buddiannau cleifion yng Nghymru drwy lobio yn gryf yn erbyn y cam anghyfiawn sy'n cael ei argymhell ac a allai, mae'n ymddangos, gael ei orfodi ar Gymru?

I will return to the payment scheme. There is serious concern that what the UK Government is consulting on at present represents a significantly retrograde step in terms of the support provided to those who have to live with the consequences of contaminated blood. Will the Deputy Minister give us a commitment—as well as seeking an explanation of what's going on—to work closely with the UK Government during and beyond the current consultation to ensure that, first of all, if the responsibility for implementing the payment scheme is somehow devolved to Wales, sufficient funds are provided to us in order to implement such a scheme, and if not, that the Welsh Government should represent the interests of Welsh patients by strongly lobbying against this unjust step that's being recommended and that could, it appears, be forced on Wales?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:12

## Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. Again, it helps to recognise there are a range of different payment mechanisms from different charitable funds at present. Broadly, there's been agreement that a single scheme with less complexity would be the right thing to do for people affected by the scandal. The challenge has been, on the move to that single scheme and the unilateral action that the Department of Health took—I set that out earlier in the response to Julie Morgan.

In terms of proposals as they come, we do want to work with the UK Department of Health, as do all of the other UK nations. That is our absolute clear preference. If there are challenges in the way that happens, we will of course represent the interests of Welsh citizens in the future of any proposals. There'll be no lack of effort in trying. But I don't want to get into a war of words with the Department of Health. I want there to be a recognition that this is best dealt with on a cross-United Kingdom basis and it means that they have to work with all of the devolved administrations, delivering a fair deal for people affected by the contaminated blood scandal in every single nation of the United Kingdom. That's what we want, that's what we're working towards and we'll continue to represent the best interests of Welsh citizens in doing so.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Unwaith eto, mae'n help i gydnabod bod ystod o wahanol ddulliau talu gan wahanol gronffeydd elusennol ar hyn o bryd. Yn gyffredinol, cafwyd cytundeb mai cael cynllun sengl llai cymhleth fyddai'r peth iawn i'w wneud ar gyfer pobl yr effeithiwyd arnynt gan y sgandal. Yr her mewn perthynas â symud at y cynllun sengl hwnnw a'r camau unochrog a roddodd yr Adran Iechyd ar waith—nodais hynny'n gynharach yn yr ymateb i Julie Morgan.

O ran cynigion wrth iddynt ddod, rydym yn awyddus i weithio gydag Adran Iechyd y DU, fel y mae pob un o wledydd eraill y DU. Dyna'n bendant fyddai orau gennym. Os oes heriau o ran y ffordd y bydd hynny'n digwydd, byddwn yn cynrychioli buddiannau dinasyddion Cymru mewn unrhyw gynigion yn y dyfodol wrth gwrs. Ni fydd unrhyw ddiffyg ymdrech o ran hynny. Ond nid wyf am gychwyn rhyfel geiriau gyda'r Adran Iechyd. Rwyf eisiau gweld cydnabyddiaeth mai'r ffordd orau o ymdrin â hyn yw ar sail y DU gyfan ac mae'n golygu bod yn rhaid iddynt weithio gyda phob un o'r gweinyddiaethau datganoledig, a darparu bargaen deg i bobl yr effeithiwyd arnynt gan y sgandal gwaed halogedig ym mhob gwlad yn y Deyrnas Unedig. Dyna rydym ei eisiau, dyna rydym yn gweithio tuag ato a byddwn yn parhau i gynrychioli buddiannau gorau dinasyddion Cymru wrth wneud hynny.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

## Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I'm grateful for you earlier statements. I met with a constituent last week who was deeply distressed by the anxiety that this situation is causing with regard to her future. One particular cause of distress was the idea that had been put around—and I'm not sure where that came from—that some of the payment money ought to be used to pay for some of the very expensive novel medications for hepatitis C that are available, and they're currently only available to patients really suffering from the very later stages of the disease to bring that timing forward. I wonder if you can clarify whether or not that is the case and whether you can represent to the UK Government the absolute necessity that people affected by contaminated blood should have access to these regardless of the payment scheme.

Weinidog, rwy'n ddiolchgar i chi am eich datganiadau blaenorol. Yr wythnos diwethaf, cyfarfûm ag etholwr a oedd yn gofidio'n fawr am y pryder y mae'r sefyllfa hon yn ei achosi iddi ynglŷn â'i dyfodol. Un testun pryder penodol oedd y syniad a oedd mynd o gwmpas—ac nid wyf yn siŵr o ble y daeth—y dylid defnyddio rhywfaint o arian y taliadau i dalu am rai o'r meddyginiaethau newydd drud iawn sydd ar gael at hepatitis C, ac nad ydynt ond ar gael i gleifion sy'n dioddef o'r camau olaf un o'r clefyd, er mwyn eu darparu'n gynt. Tybed a allwch ddweud a yw hynny'n wir ai peidio ac a wnewch chi ddweud wrth Lywodraeth y DU ei bod hi'n wirioneddol angenrheidiol i bobl yr effeithiwyd arnynt gan waed halogedig gael mynediad at y rhain heb ystyried y cynllun talu.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, thank you. I'm aware of the very real anxiety that families feel, and each of us probably has constituents individually who are affected by this particular issue. That's why I go back to the decision that the Minister made in August last year to ensure that a range of novel but costly treatments that are effective for people with advanced hepatitis C are available here in Wales, including of course sofos—sofosbuvir, which I know the leader of the Welsh Liberal Democrats has struggled to say in addition in the past—[Laughter.]—but that's now available. The challenge always is about making that available for people who are in need of that and make sure it's available on a more consistent basis. So, we've made a decision with funding to try and make sure that it's going to happen. The challenge now is to make sure it happens consistently across Wales. I think we've got the right position that we're taking in Wales in terms of our objectives. It's now making sure that they're implemented in practice. The money we've announced should deliver that.

le, diolch. Rwy'n ymwybodol o'r pryder gwirioneddol y mae teuluoedd yn ei deimlo, ac yn ôl pob tebyg bydd gan bob un ohonom etholwyr unigol yr effeithiwyd arnynt gan y mater penodol hwn. Dyna pam rwy'n mynd yn ôl at y penderfyniad a wnaeth y Gweinidog ym mis Awst y llynedd i sicrhau bod ystod o driniaethau newydd ond costus sy'n effeithiol ar gyfer pobl sy'n dioddef o hepatitis C datblygedig ar gael yma yng Nghymru, gan gynnwys, wrth gwrs, sofos—sofosbuvir, a gwn fod arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi cael trafferth dweud y gair yn y gorffennol hefyd—[Chwerthin.]—ond mae hwnnw ar gael bellach. Yr her bob amser yw sicrhau bod hwnnw ar gael i bobl sydd ei angen a gwneud yn siŵr ei fod ar gael yn fwy cyson. Felly, rydym wedi gwneud penderfyniad ynghylch cyllid i geisio sicrhau ei fod yn digwydd. Yr her yn awr yw gwneud yn siŵr ei fod yn digwydd yn gyson ledled Cymru. Rwy'n credu bod gennym y safbwynt cywir yng Nghymru o ran ein hamcanion. Mae angen sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol yn awr. Dylai'r arian rydym wedi'i gyhoeddi sicrhau hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig**

**Integrated Health and Social Care Services**

14:15

**Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*6. Pa ddarpariaeth newydd a wnaed ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn ystod y pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)0696(HSS)[W]*

*6. What new provisions have been made for integrated health and social care services during the fourth Assembly? OAQ(4)0696(HSS)[W]*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. Among the significant new provisions for integrated services are the new hospital at Tywyn and the new community health centre announced for Blaenau Ffestiniog, both of which bring health and social care services together, and both of which have been funded during this fourth Assembly.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Ymhlith y darpariaethau newydd sylweddol ar gyfer gwasanaethau integredig yn yr ysbyty newydd yn Nhywyn a'r ganolfan iechyd cymunedol newydd a gyhoeddwyd ar gyfer Blaenau Ffestiniog, sydd, ill dau, yn cyfuno gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a chyllidwyd y ddau ohonynt yn ystod y pedwerydd Cynulliad.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

**Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf ddiolch yn fawr i'r Gweinidog am yr ateb yna, a hefyd am y datblygiadau sydd yn digwydd yn ardal Dwyfor Meirionnydd? Rwy'n croesawu'r datblygiad yn Nhywyn ac yn edrych ymlaen at weld yr ysbyty'n cael ei agor, ac wrth gwrs datblygiad y ganolfan ym Mlaenau Ffestiniog. Ond, a gaf i hefyd ddiolch i'r Gweinidog am yr arweiniad ymarferol sydd yn digwydd mewn safleoedd fel Ysbyty Alltwen, lle o'r diwedd y mae gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yn cydweithio yn yr un coridor, a hyd yn oed yn yr un ystafelloedd gydag achosion penodol, lle mae'r boen a achosid yn y gorffennol i gleifion a chleientiaid y gwasanaethau yma o orfod cael asesiadau ar wahân wedi dod i ben?

May I thank the Minister very much for that response, and for the developments that are taking place in the Dwyfor Meirionnydd area? I welcome the development in Tywyn and look forward to seeing the hospital opened as well, of course, as the health centre at Blaenau Ffestiniog. But may I also thank the Minister for the practical leadership that's been shown in sites such as Ysbyty Alltwen where, at last, social services and health services are collaborating in the same corridor, and even in the same rooms with specific cases, where the pain caused in the past to patients and clients of these services to have to have separate assessments has now come to an end?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, and I am grateful for the recognition of the practical steps that are being taken to integrate health and social care services on a local level. That's what we think we need to see more of. It's why we are funding a range of schemes to bring together health and social care, not just in Tywyn and Blaenau Ffestiniog, but in Llangollen, Flint and Cylch Caron as well—examples of the sort of integration of practical services that we want to see. We're funding capital and we're getting partners together to do that. That's our preferred approach for the future: a practical partnership approach between health and social services, rather than a big-bang reorganisation, which, as the Member knows, we don't support. But I do think there is much to praise in what is already happening and what we could see more of in the fifth Assembly.

Do, ac rwy'n ddiolchgar am y gydnabyddiaeth o'r camau ymarferol sy'n cael eu cymryd i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel leol. Dyna y dylem weld mwy ohono yn ein barn ni. Dyna pam rydym yn ariannu ystod o gynlluniau i ddwyn iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd, nid yn unig yn Nhywyn a Blaenau Ffestiniog, ond yn Llangollen, y Fflint a Chylch Caron yn ogystal—enghreifftiau o'r math o integreiddio gwasanaethau ymarferol rydym am ei weld. Rydym yn ariannu cyfalaf ac rydym yn dod â phartneriaid at ei gilydd i wneud hynny. Dyna'r dull rydym yn ei ffafrio ar gyfer y dyfodol: dull partneriaeth ymarferol rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yn hytrach nag ad-drefnu helaeth, ac fel y mae'r Aelod yn gwybod nid ydym yn cefnogi hynny. Ond rwy'n credu bod llawer i'w ganmol yn yr hyn sy'n digwydd eisoes a'r hyn y gallem weld mwy ohono yn y pumed Cynulliad.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Brechiadau yn erbyn y Ffliw**

**The Flu Vaccine**

14:17

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y niferoedd sydd wedi cael brechiadau yn erbyn y fflw y gaeaf hwn? OAQ(4)0705(HSS)*

*7. Will the Minister make a statement on the take-up of the flu vaccine this winter? OAQ(4)0705(HSS)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. This season's vaccination campaign is still under way. Early indications are that the number of over-65s vaccinated is likely to be an increase on previous years, and we know that six health boards or trusts have already achieved the target of vaccinating 50 per cent of their staff with direct patient contact.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae ymgyrch frechu'r tymor hwn yn parhau i fod ar waith. Mae arwyddion cynnar yn dangos bod nifer y bobl dros 65 oed sy'n cael y brechiad yn debygol o fod yn uwch nag y bu mewn blynyddoedd blaenorol, a gwyddom fod chwech o fyrddau neu ymddiriedolaethau iechyd eisoes wedi cyflawni'r targed o frechu 50 y cant o'u staff sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â chleifion.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. We know also, though, that too many younger people are at risk of the particular type of flu that is going around at the moment and they are failing to take up the offer of the free flu jab available to them. The Welsh Government target for vaccination currently stands at 75 per cent. We know that only 50 per cent of those under 65 are being vaccinated. So, what is the Welsh Government doing to make those at risk aware that this free vaccine is available and where they can get it?

Diolch yn fawr, Weiniidog. Gwyddom hefyd, fodd bynnag, fod gormod o bobl iau mewn perygl o ddal y math penodol hwn o fflw sy'n mynd o gwmpas ar hyn o bryd ac maent yn methu â manteisio ar y brechiad fflw sydd ar gael iddynt yn rhad ac am ddim. Targed Llywodraeth Cymru ar gyfer brechiadau fflw ar hyn o bryd yw 75 y cant. Gwyddom mai 50 y cant yn unig o bobl dan 65 oed sy'n cael eu brechu. Felly, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod y rhai sydd mewn perygl yn ymwybodol fod y brechiad hwn, sy'n rhad ac am ddim, ar gael a ble y gallant ei gael?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:18 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. It's an important point as well. It's worth reflecting that, last year, of course, with the flu campaign, there was a suggestion that the vaccine wasn't as effective as it could have been. Actually, we now understand that last year's flu vaccine was much more effective than was thought and reported. Unfortunately, some of that reporting at the time has leaked into people's willingness to get the jab for this winter. It is a real challenge. You make a completely accurate point that younger people have been more affected by this year's flu strain. So, we would encourage all those people who are at risk, including me, under 65 to make sure that they get their jabs when they're available. We don't think the challenge is people being aware that the flu vaccine is available; it's really about people taking the next step to go on and say that they will get it and will be protected. I still think far too many people have the idea that flu is somehow benign. In fact, we know that people die each year from flu and people have serious illness. So, if you're in an at-risk group or over 65, take advantage of the offer and get the vaccine while it's still available.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae'n bwynt pwysig hefyd. Mae'n werth ystyried fod awgrym y llynedd, wrth gwrs, gyda'r ymgyrch fflui, nad oedd y brechlyn mor effeithiol ag y gallai fod wedi bod. Mewn gwirionedd, deallwn bellach fod brechlyn fflui y llynedd yn llawer mwy effeithiol na'r hyn a feddyliad ac a nodwyd. Yn anffodus, mae rhai o'r adroddiadau yr adeg honno wedi cael effaith ar barodrwydd pobl i gael y pigiad ar gyfer y gaeaf hwn. Mae'n her go iawn. Rydych yn gwneud pwynt hollol gywir fod pobl iau wedi'u heffeithio'n waeth gan y math o fflui a gawsom eleni. Felly, rydym yn annog pawb sydd mewn perygl, gan fy nghynnwys fy hun, ac sydd o dan 65 oed i sicrhau eu bod yn cael eu brechiadau pan fônt ar gael. Nid ydym yn credu mai'r her yw sicrhau bod pobl yn ymwybodol fod y brechlyn fflui ar gael; mae'n ymwneud mewn gwirionedd a phobl yn cymryd y cam nesaf a dweud y byddant yn ei gael ac yn cael eu diogelu. Rwy'n dal i feddwl bod llawer gormod o bobl yn credu bod y fflui yn ddiniwed rywsut. Yn wir, gwyddom fod pobl yn marw bob blwyddyn o ganlyniad i fflui a bod pobl yn cael salwch difrifol. Felly, os ydych mewn grŵp sydd mewn perygl neu dros 65 oed, manteisiwch ar y cynnig a chael y brechlyn tra'i fod ar gael.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## 2. Questions to the Minister for Education and Skills

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

14:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 2, which is questions to the Minister for Education and Skills. Janet Haworth's not present, so we'll move to question 2, which is Aled Roberts.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau. Nid yw Janet Haworth yn bresennol, felly symudwn at gwestiwn 2, sef Aled Roberts.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Ni ofynnwyd cwestiwn 1, OAQ(4)0685(ESK).*

*Question 1, OAQ(4)0685(ESK), not asked.*

## Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

## Higher Education Funding Council for Wales

14:19 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*2. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am lythyr cylch gorchwyl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer 2015-16? OAQ(4)0692(ESK)[W]*

*2. Will the Minister provide an update on the HEFCW remit letter for 2015-16? OAQ(4)0692(ESK)[W]*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:20 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Yes. I thank the Member for North Wales. The Higher Education Funding Council for Wales has made progress against all of the priorities I set out in my 2015-16 remit letter. Progress is regularly monitored through quarterly monitoring meetings both with Ministers and officials, and the remit letter for 2016-17 will issue before the end of this financial year.

Gwnaf. Diolch i'r Aelod dros Ogledd Cymru. Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi gwneud cynnydd ar bob un o'r blaenoriaethau a nodais yn fy llythyr cylch gwaith 2015-16. Mae cynnydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy gyfarfodydd monitro chwarterol gyda Gweinidogion a swyddogion, a bydd y llythyr cylch gwaith ar gyfer 2016-17 yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i ofyn ichi, ynglŷn â'r llythyr gorchwyl yna, a ydych chi'n meddwl, ar hyn o bryd, ynglŷn â'r £5 miliwn ychwanegol ar gyfer darpariaeth ran amser a'r £5 miliwn ychwanegol ar gyfer ymchwil y bydd yna gyfeirio penodol at y ffigurau hynny? Hefyd, a ydych chi mewn sefyllfa i gadarnhau y bydd y llythyr hefyd yn gofyn iddyn nhw i ddal ati ynglŷn â darpariaeth gyfrwng Gymraeg trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol? Wrth wneud hynny, mae'n rhaid imi ddatgan diddordeb gan fod fy mab yn aelod o'r Coleg Cymraeg.

May I ask you, regarding that remit letter, do you think at the moment, regarding that additional £5 million for part-time provision and the additional £5 million for research, that there will be specific reference to those figures? Are you in a situation to confirm that the letter will also ask them to continue with Welsh-medium provision through the Coleg Cymraeg Cenedlaethol? In doing so, I must declare an interest as my son is a member of the Coleg Cymraeg.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think I can enable the Member to rest assured in terms of those three key issues around part-time provision, research and Welsh-medium provision in higher education. As I say, work is progressing on the preparation of that remit letter. I expect advice from my officials imminently and, in line with usual practice, the letter will issue before the end of the current financial year. But, I am on the record as having emphasised part-time provision and research in particular as being areas for concern.

Rwy'n credu y gallaf dawelu meddwl yr Aelod ynglŷn â'r tri mater allweddol sy'n ymwneud â darpariaeth ran-amser, ymchwil a darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch. Fel y dywedais, mae gwaith yn mynd rhagddo ar baratoïr llythyr cylch gwaith. Rwy'n disgwyl am gyngor gan fy swyddogion yn fuan ac yn unol â'r arfer, bydd y llythyr yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Ond cofnodwyd eisoes fy mod wedi pwysleisio bod darpariaeth ran-amser ac ymchwil yn benodol yn feysydd sy'n peri pryder.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, during the last spokespersons' questions, you said that universities in Wales held over £800 million in reserves in 2013-14. It turns out that actual figure is far less—almost half—because most of that amount is illiquid. Indeed, a more accurate assessment of the higher education sector's financial position is an aggregate deficit of £67 million. Do you finally agree with those figures that are from the books, and how will you address that when you give HEFCW their remit letter? How will you address the funding issues for higher education, because without a robust higher education system we are serving our young people poorly?

Weinidog, yn ystod sesiwn gwestiynau ddiwethaf y llefarywr, fe ddywedoch fod gan brifysgolion yng Nghymru dros £800 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn yn 2013-14. Mae'n ymddangos bod y ffigur gwirioneddol yn llawer llai—bron i hanner—oherwydd bod y rhan fwyaf o'r swm hwnnw'n anhyllif. Yn wir, asesiad mwy cywir o sefyllfa ariannol y sector addysg uwch yw diffyg cyfanredol o £67 miliwn. A ydych o'r diwedd yn cytuno â'r ffigurau hynny sy'n dod o'r llyfrau, a sut yr ewch i'r afael â hynny pan fyddwch yn rhoi eu llythyr cylch gwaith i CCAUC? Sut yr ewch i'r afael â phroblemau cyllido addysg uwch, oherwydd heb system addysg uwch gadarn rydym yn gwneud cam â'n pobl ifanc?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Presiding Officer, I really have no idea where the Conservative spokesperson's figure of £67 million-worth of deficit might have emerged from. Perhaps we can have that conversation when there is more time to permit it. But the figures I quoted were from the publicly available figures published by the universities themselves, which show that there are individual higher education institutions in Wales with a greater depth of reserve strength than the Welsh Government itself. This is illustrative, I think, of the robust financial position of higher education within Wales, which is a direct result of our student support policies and investment in higher education over the last term of the Welsh Government.

Wel, Lywydd, nid oes gennyf syniad o gwbl o ble y daeth ffigur llefarydd y Ceidwadwyr o £67 miliwn o ddiffyg. Efallai y gallwn gael y drafodaeth honno pan fydd mwy o amser i ganiatáu hynny. Ond doi'r ffigurau a ddyfynnais o ffigurau a gyhoeddwyd gan y prifysgolion eu hunain, ac sydd ar gael i'r cyhoedd, sy'n dangos bod sefydliadau addysg uwch unigol yng Nghymru â mwy o gryfder wrth gefn na Llywodraeth Cymru ei hun. Mae hyn yn brawf, rwy'n credu, o sefyllfa ariannol gadarn addysg uwch yng Nghymru, sy'n ganlyniad uniongyrchol i'n polisiau cymorth i fyfyrwyr a'n buddsoddiad mewn addysg uwch dros dymor diwethaf Llywodraeth Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



14:23

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, fel sydd wedi cael ei gyfeirio ato'n barod, un o lwyddiannau'r sector addysg uwch dros y blynyddoedd diwethaf yma yw'r twf yn y ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae parhad y Coleg Cymraeg a chyllido cenedlaethol drwy HEFCW yn hanfodol i gynnal y momentwm yma. A wnewch chi gadarnhau, felly, y byddwch chi mewn sefyllfa i ofyn i HEFCW, drwy'r llythyr 'remit', i gynnal y llinell gyllideb i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i'r flwyddyn ariannol nesaf?

Minister, as has already been mentioned, one of the successes of the HE sector over the past few years is the growth in Welsh-medium provision. The survival of the Coleg Cymraeg and national funding through HEFCW are essential in maintaining that momentum. Will you confirm, therefore, that you will be in a position to ask HEFCW through the remit letter to maintain the budget line for the Coleg Cymraeg Cenedlaethol into the next financial year?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, Presiding Officer, it is ultimately for the funding council to allocate its resources, but the Member is quite correct that the Coleg Cymraeg Cenedlaethol has made some real tangible progress in terms of improving Welsh-medium higher education provision since 2011 when it was established. I will continue to encourage HEFCW to continue its focus on Welsh-medium study, as I believe it's important that the activities of the Coleg continue to be supported at a level that maintains this progressive momentum.

Wel, wrth gwrs, Lywydd, yn y pen draw mater i'r cyngor cyllido yw dyrannu ei adnoddau, ond mae'r Aelod yn hollol gywir fod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi gwneud cynnydd gwirioneddol ar wella darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg ers 2011 pan gafodd ei sefydlu. Byddaf yn parhau i annog CCAUC i barhau i ganolbwyntio ar astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, gan fy mod o'r farn ei bod yn bwysig parhau i gefnogi gweithgareddau'r Coleg ar lefel sy'n cynnal y momentwm blaengar hwn.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before we move to spokespersons' questions, I would just like to remind Members that it's very discourteous to the Chamber if you have a written question on a paper and you leave the Chamber before that question is asked because it deprives other people of the opportunity of questioning the Minister on that. So, please try and pay attention in future and don't let it happen again.

Cyn i ni symud at gwestiynau'r llefarwyr, hoffwn atgoffa'r Aelodau ei bod yn anghwrtais iawn i'r Siambr os oes gennych gwestiwn ysgrifenedig ar bapur a'ch bod yn gadael y Siambr cyn i'r cwestiwn gael ei ofyn am ei fod yn amddifadu pobl eraill o'r cyfle i holi'r Gweinidog ar y mater hwnnw. Felly, os gwelwch yn dda ceisiwch gymryd sylw yn y dyfodol a pheidwch â gadael iddo ddiwydd eto.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

**Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau**

**Questions Without Notice from Party Spokespeople**

14:24

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to spokespersons' questions and the first question this afternoon is from the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Aled Roberts.

Symudwn yn awr at gwestiynau'r llefarwyr a daw'r cwestiwn cyntaf y prynhawn yma gan lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Aled Roberts.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Weinidog, rydych chi wedi ei gwneud yn hollol glir ei bod yn bwysig ein bod yn cael cysondeb ar draws Cymru ynglŷn â gwella safonau yn ein hysgolion. Ond, mi oedd y ddaidl yr wythnos diwethaf ar adroddiad blynyddol Estyn yn dangos bod yna fwlch yn dechrau digwydd rhwng yr ysgolion hynny sydd yn ardderchog a'r ysgolion, hwyrach, sydd angen mwy o gefnogaeth. Mae yna arian sylweddol yn cael ei roi i'r consortia rhanbarthol ar hyn o bryd i wella safonau. Mae yna arian wedi cael ei roi i mewn i raglen Her Ysgolion Cymru. Felly, a allwch chi ddweud yn union beth ydy eich disgwyliadau chi o ran y consortia rhanbarthol yna o ran gwella safonau a sut maen nhw'n gwneud ar hyn o bryd yn eich tyb chi?

Thank you, Presiding Officer. Minister, you have made it completely clear that it's important that we have consistency across Wales in terms of improving standards in our schools. But, there was a debate last week on Estyn's annual report that showed that a gap is starting to emerge between those schools that are excellent and the schools that perhaps need more support. Significant amounts of money are being given to regional consortia at the moment to improve standards. Money has been provided for the Schools Challenge Wales programme. Therefore, can you tell us exactly what your expectations are in terms of the regional consortia, in terms of improving standards, and how they're doing at the moment in your opinion?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:25

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member will know, Presiding Officer, that I have taken a personal interest in the progress of the educational consortia. I have led, myself, the challenge and review events at each of the four consortia up and down the country over the last couple of years. We are, I think, beginning to see real traction in terms of school improvement as a result of the good work of the four consortia. He's right to point out that Estyn had a concern around polarisation in school standards, although let's be careful: what Estyn was specifically talking about were secondary schools and there was a very different picture around more universalised progress in the primary sector. But, this polarisation between the very best, the excellent delivery of teaching and learning in our best schools, and those—a decreasing number of schools—where that certainly could not be said is something that we do need to watch. It's something that consortia need to be concerned with.

Bydd yr Aelod yn gwybod, Lywydd, fy mod wedi mynegi diddordeb personol yng nghynnydd y consortia addysgol. Bûm wrthi fy hun yn arwain y digwyddiadau herio ac adolygu ym mhob un o'r pedwar consortiwm ledled y wlad dros y blynyddoedd diwethaf. Rwy'n credu ein bod yn dechrau gweld cynnydd gwirioneddol mewn perthynas â gwella ysgolion o ganlyniad i waith da y pedwar consortiwm. Mae'n gywir yn nodi bod Estyn wedi mynegi pryder ynglŷn â pholareiddio rhwng safonau ysgolion, er bod angen i ni fod yn ofalus: yr hyn roedd Estyn yn siarad amdano'n benodol oedd ysgolion uwchradd ac roedd y darlun yn wahanol iawn o'r cynnydd mwy cyffredinol yn y sector cynradd. Ond mae'r polareiddio hwn rhwng y gorau oll, y ddarpariaeth addysgu a dysgu ragorol yn ein hysgolion gorau, a'r rhai—nifer sy'n gostwng o ysgolion—lle na ellid dweud hynny amdanynt ar unrhyw gyfrif, yn fater sy'n rhaid i ni gadw llygad arno. Mae'n rhywbeth y mae angen i'r consortia fynd i'r afael ag ef.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:26

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae Estyn hefyd yn sôn bod yna berig bod rhyw fath o gulni yn dechrau o ran y cwricwlwm ac, efo'r holl bwysau ar wella safonau, hwyrach bod rhai pynciau'n diflannu o'r cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd. Maen nhw'n cyfeirio'n benodol, rwy'n meddwl, at ieithoedd modern. Fe wnaethoch chi gyhoeddi ym mis Mehefin llynedd y rhaglen 'Global Futures' lle'r oedd yna arian ychwanegol yn cael ei roi i mewn i geisio troi'r sefyllfa. A allwch chi ddweud yn union pa welliant yr ydych chi wedi'i weld o ran y sefyllfa yn ystod y flwyddyn gyntaf ac os ydych chi'n fodlon efo'r cynnydd o ran y rhaglen ar hyn o bryd?

Estyn also mentions that there is a risk of some sort of narrowing of the curriculum and that, with all the pressure on improving standards, perhaps some subjects are disappearing from the curriculum of secondary schools. They refer specifically, I think, to modern languages. You announced in June last year the Global Futures programme where additional funding was being provided to try and turn the situation around. Can you tell us exactly what progress you have seen in terms of the situation during the first year and whether you're satisfied with the progress in terms of that programme?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:27

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Any potential narrowing of the curriculum is certainly something to guard against and it's something that, in correspondence with Members here and with other partner organisations, I've been active in guarding against over the last year or so. There certainly have, I would say, been some local authorities, and most particularly some headteachers, who have misinterpreted things like the demands around the new GCSE maths curriculum as somehow meaning that they have to narrow the number of subjects that are available for GCSE. This is certainly not the case. The direction of travel, as we move towards our 'Successful Futures', our Donaldson curriculum, is very much based upon a broad and balanced curriculum and that is the future for Welsh schools-based education. I am pleased that Global Futures certainly has fired the imaginations particularly of leaders of modern foreign languages in our schools, and I am particularly encouraged, actually, that for the first time cultural institutes like the Institut Français and the Goethe-Institut, and the Italian embassy and the Spanish embassy, have been actively involved in setting up shop here in Wales. For the very first time, they have left London and set up shop in Cardiff in order to assist us now with the very real heavy lifting that's ahead of us, most particularly in terms of upskilling the workforce in primary schools in modern foreign languages.

Mae unrhyw gyfyngu posibl ar y cwricwlwm yn sicr yn rhywbeth i warchod rhagddo ac mae'n rhywbeth y bûm yn weithgar yn gwarchod rhagddo dros y flwyddyn neu fwy ddiwethaf mewn gohebiaeth gydag Aelodau yma a chyda sefydliadau partner eraill. Yn sicr, byddwn yn dweud bod rhai awdurdodau lleol, ac yn fwyaf arbennig, rhai penaethiaid, wedi camddehongli pethau fel y gofynion sydd ynghlwm wrth y cwricwlwm mathemateg TGAU newydd fel pe bai rywsut yn golygu bod yn rhaid iddynt gyfyngu ar nifer y pynciau TGAU sydd ar gael. Yn sicr, nid yw hyn yn wir. Mae cyfeiriad y teithio, wrth i ni symud tuag at ein 'Dyfodol Llwyddiannus', ein cwricwlwm Donaldson, yn seiliedig i raddau helaeth iawn ar gwricwlwm eang a chytbwys a dyna yw dyfodol addysg yn ysgolion Cymru. Rwy'n falch fod Dyfodol Byd-eang yn sicr wedi tanio dychymyg arweinwyr ieithoedd tramor modern yn ein hysgolion yn arbennig, a chefais fy ngalonogin fawr, mewn gwirionedd, gan y ffaith fod sefydliadau diwylliannol fel yr Institut Français a'r Goethe-Institut, llysgenhadaeth yr Eidal a llysgenhadaeth Sbaen, wedi mynd ati'n weithredol i ymsefydlu yma yng Nghymru am y tro cyntaf. Am y tro cyntaf erioed, maent wedi gadael Llundain ac wedi ymsefydlu yng Nghaerdydd er mwyn ein cynorthwyo ni yn awr gyda'r gwaith hynod o drwm sydd o'n blaenau, yn fwyaf arbennig o ran gwella sgiliau'r gweithlu ysgolion cynradd ym maes ieithoedd tramor modern.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:28

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Cyn imi ofyn fy nghwestiwn olaf, rwy'n meddwl, am mai dyma'r cyfle olaf fydd gennyf fi, a gaf i jest ddymuno'n dda ichi ar ôl mis Mai a diolch ichi am eich cydweithrediad yn ystod y ddwy neu dair blynedd olaf yma? Mae'r cwestiwn olaf ynglŷn â datganiad gan Undeb Cenedlaethol yr Athrawon sydd yn sôn am y ffaith bod yn rhaid inni fel gwleidyddion greu rhyw fath o awyrgylch positif i'r proffesiwn ar gyfer ein hysgolion ni, ond hefyd yn dweud bod yr holl bwysau yma ar y proffesiwn yn creu sefyllfa lle mae yna berig bod datblygiad proffesiynol, recriwtio a phethau felly yn dechrau dioddef. Felly, a gaf i ofyn ichi, wrth ystyried bod niferoedd o fewn yr ysgolion cynradd rŵan yn cynyddu, a ydych chi'n fodlon efo'r nifer sydd yn dod i mewn i'r proffesiwn ac a oes yn rhaid inni ailedrych ar y ffordd rydym ni'n cynllunio ar gyfer y dyfodol o ran y gweithlu?

Before I ask my final question, as I think that this will be the final opportunity that I have, may I wish you well after May and thank you for your co-operation during these last two or three years? My final question is about the statement by the National Union of Teachers that states the fact that we as politicians have to create some sort of positive environment for the profession and for our schools, but also says that all this pressure on the profession is creating a situation where there is a risk that professional development, recruiting and so forth are starting to suffer. Therefore, may I ask you, given that our numbers in primary schools are on the increase, whether you're satisfied with the number that are coming in to the profession and whether we need to re-look at the way that we plan for the future in terms of the workforce?

14:29

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The Member is very gracious in his comments, and I thank him for that. He's very right, I think, also to emphasise these particular points, in terms of his last question to me as education Minister. All depends—in terms of progress within Welsh education, all of it depends on the progress of the teaching profession itself. This is about inculcating an atmosphere within Wales that I hope will continue to be very different to the one that pertains across the border in England, that is exacting, that is challenging, that does expect the highest standards possible, but is also, in return, supportive and respectful of the teaching profession. The new deal, the new curriculum, the new system we will soon have in place around initial teacher education and training: all this is designed to, essentially, change the nature of the Welsh teaching profession. Only by doing that can we change the very nature of the educational delivery to young people itself.

Mae'r Aelod yn rasol iawn gyda'i sylwadau, ac rwy'n diolch iddo am hynny. Mae'n gywir iawn hefyd, rwy'n credu, i bwysleisio'r pwyntiau penodol hyn yn ei gwestiwn olaf i mi fel Gweinidog addysg. Mae'r cyfan yn dibynnu—o ran cynnydd addysg yng Nghymru, mae'r cyfan yn dibynnu ar gynnydd y proffesiwn addysgu ei hun. Mae hyn yn ymwneud â chyflwyno awyrgylch yng Nghymru a fydd, rwy'n gobeithio, yn parhau i fod yn wahanol iawn i'r un dros y ffin yn Lloegr, un sy'n llym, un sy'n heriol, un sy'n disgwyl y safonau uchaf posibl, ond sydd hefyd, yn gyfnewid am hynny, yn gefnogol ac yn parchu'r proffesiwn addysgu. Bydd gennym y fargen newydd, y cwricwlwm newydd, y system newydd ar waith yn fuan mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon: mae'r cyfan wedi'i gynllunio, yn ei hanfod, i newid natur y proffesiwn addysgu yng Nghymru. Drwy wneud hynny'n unig y gallwn newid union natur y ddarpariaeth addysg i bobl ifanc.

14:30

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to the Welsh Conservative spokesperson, Angela Burns.

Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Angela Burns.

14:31

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. May I take this opportunity, Presiding Officer, to also wish the Minister for education all the best in his career, going forward? You and I may not have agreed on a great many things, but you've enabled dialogue, and, for that, I am grateful, and I do wish you well. I thought I'd get the good wishes in before I asked the questions, because you may not be so fond of me afterwards.

Diolch i chi, Lywydd. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd, Lywydd, i ddymuno'r gorau i'r Gweinidog addysg yn ei yrfa yn y dyfodol? Efallai nad ydych chi a minnau wedi cytuno ar nifer fawr o bethau, ond rydych wedi hwyluso deialog, ac am hynny, rwy'n ddiolchgar, ac rwy'n dymuno'n dda i chi. Roeddwn yn credu y dylwn ddymuno'n dda i chi cyn i mi holi'r cwestiynau, gan na fyddwch mor hoff ohonof wedyn o bosibl.

I wanted to pick up on a point that Aled Roberts made about the Estyn report, and the number of secondary schools providing an adequate or unsatisfactory learning experience for their pupils, because there was a slight glossing over of that. Because it's 46 per cent of our secondary schools—that's just under half of our secondary schools—according to Estyn, that provide only an adequate or, even worse, an unsatisfactory, learning experience.

Roeddwn eisiau crybwyll pwynt a wnaeth Aled Roberts am adroddiad Estyn, a nifer yr ysgolion uwchradd sy'n darparu profiad dysgu digonol neu anfodddhaol i'w disgyblion, gan na chafodd hynny rhyw lawer o sylw. Oherwydd yn ôl Estyn, nid yw cymaint â 46 y cant o'n hysgolion uwchradd—ychydig yn llai na hanner ein hysgolion—ond yn cynnig profiad dysgu digonol yn unig, neu hyd yn oed yn waeth, profiad dysgu anfodddhaol.

We all know the regional consortia are responsible for school improvement; they've been very slow to get off the ground after the previous education Minister's fanfare announcement of them. Minister, what do you think that you can do in the time available to set up a really coherent way of moving forward, because those young people who are in secondary school—just under 50 per cent of them—are having a less than adequate education, and we need to be able to move that story on?

Rydym i gyd yn gwybod am y consortia rhanbarthol sy'n gyfrifol am wella ysgolion; maent wedi bod yn araf deg yn magu adennydd ar ôl ffanffer cyhoeddiad y Gweinidog addysg blaenorol yn eu cylch. Weinidog, beth y credwch y gallwch ei wneud yn yr amser sydd ar gael i sefydlu ffordd wirioneddol gydlynol o symud ymlaen, oherwydd mae'r bobl ifanc hynny sydd mewn ysgolion uwchradd—ychydig dan 50 y cant ohonynt—yn cael addysg lai na digonol, ac mae angen i ni allu symud hynny yn ei flaen?

14:32

### **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, the Conservative spokesperson is both gracious and cutting in equal measure, and, in many ways, generates the atmosphere that I've been trying to generate perhaps around the teaching profession, with that support and challenge given equal emphasis.

She's quite right to point out that primary schools—and Estyn have said this very plainly: in terms of school improvement, primary schools do seem to be leading the way, and it seems to be an echo, really, of the turnaround that we saw in schools in London in that regard, and, in secondary schools, we are seeing issues that are more problematic. But, let me just remind her that the picture throughout is shot through with forward momentum. GCSE results, at present, are the highest on record. The poverty attainment gap is closing at every key stage of education. The number of schools getting below the 50 per cent level 2 inclusive mark has almost halved since 2012. Every local education authority is now out of special measures, and two thirds of the Challenge Cymru schools saw an uplift in their performance in the summer 2015 summer exam results. That is momentum. That is undeniable school improvement.

Wel, mae llefarydd y Ceidwadwyr yn raslon ac yn finioq fel ei gilydd, ac mewn sawl ffordd, yn cynhyrchu'r awyrgylch rwyf wedi bod yn ceisio ei chreu o bosibl o gwmpas y proffesiwn addysgu, gyda phwyslais cyfartal ar gynorthwyo a herio.

Mae hi'n hollol gywir i nodi bod ysgolion cynradd—ac mae Estyn wedi dweud hyn yn blaen iawn: o ran gwella ysgolion, mae ysgolion cynradd i'w gweld yn arwain y ffordd, ac mae'n ymddangos ei fod yn adlais, mewn gwirionedd, o'r gwelliant a welsom mewn ysgolion yn Llundain yn hynny o beth, ac mewn ysgolion uwchradd, rydym yn gweld materion sy'n fwy problemus. Ond gadewch i mi ei hatgoffa bod y darlun cyfan yn llawn drwyddo o fomentwm i symud ymlaen. Y canlyniadau TGAU presennol yw'r canlyniadau gorau a gofnodwyd erioed. Mae'r bwlch cyrhaeddiad mewn perthynas â thlodi yn cau ym mhob cyfnod allweddol o addysg. Mae nifer yr ysgolion sy'n sgorio'n is na throthwy cynwysedig lefel 2 o 50 y cant bron â bod wedi haneru ers 2012. Mae pob awdurdod addysg lleol allan o weithdrefn mesurau arbennig bellach, a gwelodd dwy ran o dair o ysgolion Her Ysgolion Cymru gynnydd yn eu perfformiad yng nghanlyniadau arholiadau haf 2015. Momentwm yw hynny. Mae'n brawf diymwad fod ysgolion yn gwella.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

### **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you know I can't let you get away with that paean of praise, partly because I simply do not recognise it. The recent Organisation for Economic Co-operation and Development report said that one of the key problems was that the strategies for differentiated teaching and formative assessment are underdeveloped. Classrooms are filled with 30 or more pupils, with different personalities and learning needs, so teachers need training and professional development to help them serve the varying needs of their pupils. I'm sure you will say that the new deal will answer that. I'm sure you will say the new deal will help to increase the 46 per cent of secondary schools that are only adequate or are unsatisfactory. But, Minister, I say to you this: many teachers still do not understand how the new deal works and how it is going to work, and it is supposed to be their route to professional development. What good, Minister, is a policy that makes no sense to the profession?

Weinidog, fe wyddoch na allaf ganiatáu i chi ganu dodydd yn y fath fodd, yn rhannol am nad yw'n ddarlun sy'n gyfarwydd i mi. Dywedodd adroddiad diweddar y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd mai un o'r problemau allweddol oedd bod y strategaethau ar gyfer addysgu gwahaniaethol ac asesu ffurfiannol heb eu datblygu'n ddigonol. Mae'r ystafelloedd dosbarth wedi'u llenwi gan 30 neu fwy o ddisgyblion, gyda gwahanol bersonoliaethau ac anghenion dysgu, felly mae angen hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ar athrawon i'w helpu i ddiwallu anghenion amrywiol eu disgyblion. Rwy'n siŵr y byddwch yn dweud y bydd y fargen newydd yn datrys y broblem honno. Rwy'n siŵr y byddwch yn dweud y bydd y fargen newydd yn helpu i gynyddu'r 46 y cant o ysgolion uwchradd sydd ond yn ddigonol neu sy'n anfodhaol. Ond Weinidog, rwy'n dweud hyn wrthyh: ceir llawer o athrawon nad ydynt eto'n deall sut y mae'r fargen newydd yn gweithio a sut y bydd yn gweithio, a dyna yw eu llwybr i fod tuag at ddatblygiad proffesiynol. Weinidog, beth yw pwrpas polisi nad yw'n gwneud unrhyw synnwyr i'r proffesiwn?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I really must take issue with the Conservative spokesperson over her choice of language here. If there are teachers who are unaware of the new deal, then I would take a very serious view of that, but especially given now that we have electronic communication with each and every teacher in Wales, keeping them up to date, personally, with developments around these critical issues like their professional development.

Not being aware of it, however, is a very different thing from her suggestion that somehow teachers take a very dim view of the new deal. I have been met with nothing but enthusiasm for the new deal. From teaching unions to individual teachers themselves, there has been almost a unanimous welcome for the principles behind the new deal and it is being rolled out as we speak. In keeping with the philosophy behind the school improvement programme that I've set in train, the new deal will, in essence, be built by the profession itself. It is not for politicians to spoon feed the teaching profession in terms of its own professional development—it is time for the Welsh teaching profession to realise its potential and take charge of its own destiny.

Mae'n rhaid i mi wrthwynebu'r hyn y mae llefarydd y Ceidwadwyr yn ei ddweud yn y fan hon. Os oes yna athrawon nad ydynt yn ymwybodol o'r fargen newydd, yna byddwn yn ystyried hynny'n fater difrifol iawn, ac yn arbennig felly o ystyried ein bod yn cyfathrebu'n electronig â phob athro yng Nghymru bellach, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt yn bersonol ynglŷn â datblygiadau'n ymwneud â materion allweddol fel eu datblygiad proffesiynol.

Mae methiant i fod ymwybodol o'r fargen newydd, fodd bynnag, yn beth gwahanol iawn i'w hawgrym fod athrawon rywsut yn edrych yn anffafriol iawn arni. Brwdfrydedd yn unig a welais ynglŷn â'r fargen newydd. O undebau athrawon i athrawon unigol eu hunain, cafwyd croeso unfrydol, bron, i'r egwyddorion sy'n sail i'r fargen newydd ac mae'n cael ei chyflwyno yr eiliad hon. Yn unol â'r athroniaeth sy'n sail i'r rhaglen gwella ysgolion a roddais ar waith, bydd y fargen newydd, yn ei hanfod, yn cael ei datblygu gan y proffesiwn ei hun. Nid mater i wleidyddion yw rhoi bywyd llwy i'r proffesiwn addysgu o ran ei ddatblygiad proffesiynol ei hun—mae'n bryd i'r proffesiwn addysgu yng Nghymru wireddu ei potensial ac ysgwyddo cyfrifoldeb dros ei dynged ei hun.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:36

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, that's—

Weinidog, mae hynny'n—

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:36

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sorry, I thought we'd had three questions.

Mae'n ddrwg gennyf, roeddwn yn credu ein bod wedi cael tri chwestiwn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:36

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I don't believe we have.

Nid wyf yn credu hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:36

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Okay, fine. If you can just keep them short again, that would be helpful.

Iawn, iawn. Os gallwch eu cadw'n fyr eto, byddai hynny o gymorth.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:36

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will attempt to be succinct, Presiding Officer.

Fe geisiaf fod yn gryno, Lywydd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, you talk about the new deal as a way forward for teachers to help to improve the standards of education here in Wales and I know that you are talking about work, for example, undertaken by pioneer schools. The reason why these two things are so important is because of the effect that it is having, or not having, on trying to close the attainment gap. What else, Minister, are you going to be doing to ensure that teachers and schools and pupils, indeed, are able to implement the new curriculum effectively, because I fear that simply pioneer schools, the new deal and the odd other initiative won't be enough. We need a coherent and strong and robust support system in place for the massive changes that will be sweeping through education.

Weinidog, rydych yn siarad am y fargen newydd fel ffordd ymlaen i athrawon helpu i wella safonau addysg yma yng Nghymru ac rwy'n gwybod eich bod yn siarad am waith, er enghraifft, a wnaed gan ysgolion arloesi. Y rheswm pam fod y ddau beth mor bwysig yw oherwydd yr effaith y mae'n ei chael, neu'n methu â chael, ar geisio cau'r bwlch cyrhaeddiad. Weinidog, beth arall rydych chi'n mynd i'w wneud i sicrhau bod athrawon ac ysgolion a disgyblion, yn wir, yn gallu gweithredu'r cwricwlwm newydd yn effeithiol, gan fy mod yn ofni na fydd ysgolion arloesi, y fargen newydd ac ambell fenter arall yn ddigon. Rydym angen system gymorth gydlynol a chryf a chadarn ar waith ar gyfer y newidiadau enfawr a fydd yn ysgubo drwy addysg.

14:36

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Well, the robust system is there—it's there in terms of those pioneer schools that will be looking directly at curriculum development in parallel with their colleagues in the new deal pioneer schools, who will be looking at the professional development required to meet the needs of the new curriculum, but also the professional development that is required in order to meet a very different expected standard when it comes to the quality of teaching and learning more generally, whether that includes the new curriculum or not. This is the essence of the movement towards a self-improving system—a self-improving profession that releases itself really from the need for politicians to continually tinker with the mechanism. I hope that, when we finally see the Welsh Conservatives' policy on education, we will see within that a commitment to the self-improving system and I hope that we will not see some kind of reversion back to their masters in London in the support of free schools and academies, which would lead to a fracturing of the system and make the progress towards a self-improving system in Wales well-nigh impossible.

Wel, mae'r system gadarn yno—mae yno mewn perthynas â'r ysgolion arloesi a fydd yn edrych yn uniongyrchol ar ddatblygu'r cwricwlwm ochr yn ochr â'u cydweithwyr yn ysgolion arloesi y fargen newydd, a fydd yn edrych ar y datblygiad proffesiynol sy'n ofynnol i ateb anghenion y cwricwlwm newydd, ond hefyd y datblygiad proffesiynol sy'n ofynnol er mwyn cyrraedd safon ddisgwyliedig wahanol iawn o ran ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn fwy cyffredinol, pa un a yw hynny'n cynnwys y cwricwlwm newydd ai peidio. Dyma yw hanfod y symud tuag at system hunanwella—proffesiwn hunanwella sy'n rhyddhau ei hun mewn gwirionedd o'r angen i wleidyddion dincran gyda'r mecanwaith yn barhaus. Pan welwn bolisi'r Ceidwadwyr Cymreig ar addysg yn y diwedd, gobeithio y gwelwn ymrwymiad ynddo i'r system hunanwella ac rwy'n gobeithio na welwn ryw fath o droi'n ôl at eu meistri yn Llundain drwy gefnogi ysgolion rhydd ac academiâu a fyddai'n arwain at holti'r system ac yn gwneud y cynnydd tuag at system hunanwella yng Nghymru fwy neu lai'n amhosibl.

14:38

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Rhun ap Iorwerth, who is always known to be concise.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth, sydd bob amser yn enwog am fod yn gryno.

14:38

**Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I try my best, Presiding Officer. Deputy Minister, is one Careers Wales officer for every six secondary schools in Wales enough?

Rwy'n gwneud fy ngorau, Lywydd. Ddirprwy Weinidog, a yw un swyddog Gyrfa Cymru i bob chwe ysgol uwchradd yng Nghymru yn ddigon?

14:38

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

The careers services in Wales has, it's true, suffered some cuts to its budget recently and it's been a matter of some discussion in the committees of the Assembly. As I've said very many times in this Chamber, the austerity policies of the Conservative Government in Westminster are both cruel and destructive of very many good services across Wales. We've had no good choices to make in how we are putting our budget together.

Mae'n wir fod y gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru wedi dioddef rhai toriadau i'w cyllideb yn ddiweddar a bu'n destun cryn drafod ym mhwyllgorau'r Cynulliad. Fel y dywedais lawer tro yn y Siambr hon, mae polisiâu caled i'r Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan yn greulon ac yn dinistrio llawer iawn o wasanaethau da ledled Cymru. Nid ydym wedi cael unrhyw ddewisiadau da i'w gwneud o ran y ffordd rydym yn rhoi ein cyllideb at ei gilydd.

Having said that, though, only this morning, I attended a meeting of the careers family in Wales in which we discussed a new approach to careers with blended methods of assisting pupils at all of the tiers—we have one through five tiers, for those Members in the Chamber who need their memories refreshing on this point—of children coming through our schools and we will be having a blended approach to making sure that all of them get the careers information and advice and guidance that they need as appropriate to the level of engagement that they require from the careers service.

Wedi dweud hynny, fodd bynnag, y bore yma, bûm mewn cyfarfod rhwng y teulu gyrfaoedd yng Nghymru lle buom yn trafod ymagwedd newydd at yrfaoedd gyda chyfuniadau o ddulliau i gynorthwyo disgyblion ar bob un o'r haenau—mae gennym haenau un i bump, i'r Aelodau yn y Siambr sydd angen eu hatgoffa ynglŷn â'r pwynt hwn—o blant sy'n dod drwy ein hysgolion a bydd gennym gyfuniad o ddulliau o sicrhau bod pob un ohonynt yn cael y wybodaeth, y cyngor a'r cyfarwyddyd gyrfaoedd sydd eu hangen arnynt fel y bo'n briodol i'r lefel o ymgysylltiad y maent ei angen gan y gwasanaeth gyrfaoedd.

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

'Some cuts', you say, and, as understatement goes, that really is quite a memorable one. You are very open, as a Minister, always about wanting to do more than you're actually able to for financial reasons. But a 57 per cent cut in funding for Careers Wales in five years is much more than just cutting the cloth according to the financial climate. It's a wholesale change in approach from Government and moving away from face-to-face contact as a policy. Now, I know that different pupils need different sources of advice, and that online advice may well work for some pupils. I'll go further and say that some pupils don't even need face-to-face contact, but will the Minister agree with me—and what career professionals tell me—that face-to-face contact is still very important for many pupils? Will the Minister admit that face-to-face contact can't be delivered for even close to the number of pupils that need that face-to-face contact with the current resource allocation?

'Rhai toriadau' a ddywedoch, ac mae'n danosodiad sy'n sicr o aros yn y cof. Rydych yn agored iawn bob amser, fel Gweinidog, ynglŷn â bod eisiau gwneud mwy nag y gallwch ei wneud am resymau ariannol. Ond mae toriad o 57 y cant yn y cyllid ar gyfer Gyrfa Cymru mewn pum mlynedd yn llawer mwy na dim ond torri'r got yn ôl yr hinsawdd ariannol. Mae'n newid cyfan gwbl yn ymagwedd y Llywodraeth ac yn symud i ffwrdd o gyswllt wyneb yn wyneb fel polisi. Nawr, rwy'n gwybod bod angen gwahanol fffynonellau cyngor ar wahanol ddisgyblion, ac yn sicr, gallai cyngor ar-lein weithio i rai disgyblion. Af ymhellach a dweud nad oes angen cyswllt wyneb yn wyneb ar rai disgyblion hyd yn oed, ond a yw'r Gweinidog yn cytuno â mi—ac â'r hyn y mae gweithwyr proffesiynol ym maes gyrfaoedd yn dweud wrthyf—fod cyswllt wyneb yn wyneb yn dal i fod yn bwysig iawn i lawer o ddisgyblion? A wnaiff y Gweinidog gyfaddef na ellir darparu cyswllt wyneb yn wyneb i unrhyw beth tebyg i nifer y disgyblion sydd angen cyswllt wyneb yn wyneb gyda'r dyraniad presennol o adnoddau?

## Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would very happily agree with Rhun ap Iorwerth. That face-to-face contact can be very important indeed, especially for those children who are at the most vulnerable end of the tier progression framework. However, I would like to point out that careers advisers, whilst extremely important—and I would like to put on record my gratitude to the careers service for the sterling job that they are doing in providing what is still one of the most excellent careers services in Europe and, of course, actually one of the only existing ones in the UK after the decimation of careers in England—they are not the only people delivering face-to-face guidance. We have a whole range of other arrangements in place—the youth progression engagement framework, for example, which includes youth workers and so on. Indeed, actually, the new Donaldson curriculum roll-out will include, as one of the four purposes, preparing people to be engaged and active citizens. That will also include a revision to the careers and the world of work curriculum and how they develop it.

Byddwn yn hapus iawn i gytuno â Rhun ap Iorwerth. Gall cyswllt wyneb yn wyneb o'r fath fod yn bwysig iawn yn wir, yn enwedig i'r plant ar ben mwyaf agored i niwed y fframwaith cynnydd drwy'r haenau. Fodd bynnag, hoffwn nodi bod cyngorwyr gyrfaoedd, er yn hynod bwysig—a hoffwn gofnodi fy niolch i'r gwasanaeth gyrfaoedd am y gwaith gwych y maent yn ei wneud yn darparu'r hyn sy'n dal i fod yn un o'r gwasanaethau gyrfaoedd mwyaf rhagorol yn Ewrop ac wrth gwrs, un o'r unig rai sy'n dal i fodoli yn y DU mewn gwirionedd ar ôl anrheithio gwasanaethau gyrfaoedd yn Lloegr—nid hwy yw'r unig bobl sy'n darparu arweiniad wyneb yn wyneb. Mae gennym ystod eang o drefniadau eraill ar waith—y fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid, er enghraifft, sy'n cynnwys gweithwyr ieuencid ac yn y blaen. Yn wir, mewn gwirionedd, bydd y broses o gyflwyno cwricwlwm newydd Donaldson yn cynnwys, fel un o'r pedwar diben, paratoi pobl i fod yn ddinasyddion gweithredol ac ymroddgar. Bydd hynny hefyd yn cynnwys diwygio'r cwricwlwm gyrfaoedd a byd gwaith a sut y maent yn ei ddatblygu.

So, the other thing that I would like to say—and there's no reason that the Member should know this, because I haven't actually told anyone yet—is that we are looking to have a piece of work done around a new offer for the careers service, given its restricted budget. I am hoping to have that with me very shortly now so that we will have something for whoever the new Government is, coming in after the elections, to base a really excellent, first-class service on. So, I actually accept the premise of his argument: I do think that face-to-face is very important indeed, but it's not important as a universal service. It is important that it's correctly targeted, and it's important that the face-to-face sits inside a service that is all-encompassing in terms of all of the other necessities to get young people into the world of work, which is actually what the careers service is all about after all.

Felly, y peth arall yr hoffwn ei ddweud—ac nid oes unrhyw reswm y dylai'r Aelod wybod hyn, gan nad wyf wedi dweud wrth neb eto mewn gwirionedd—yw ein bod yn bwriadu gwneud gwaith ar gynnig newydd i'r gwasanaeth gyrfaoedd, o ystyried ei gyllideb gyfyngedig. Rwy'n gobeithio cael hwnnw i'w le yn fuan iawn fel bod gennym ryw beth i bwy bynnag yw'r Llywodraeth newydd a ddaw ar ôl yr etholiad i seilio gwasanaeth rhagorol o'r radd flaenaf arno. Felly, rwy'n derbyn ei ddadl mewn gwirionedd: rwy'n credu bod wyneb yn wyneb yn bwysig iawn yn wir, ond nid yw'n bwysig fel gwasanaeth cyffredinol. Mae'n bwysig ei fod yn cael ei dargedu'n gywir, ac mae'n bwysig bod wyneb yn wyneb yn rhan o wasanaeth hollgynhwysol o ran pob un o'r pethau eraill sy'n angenrheidiol i gael pobl ifanc i mewn i fyd gwaith, sef diben y gwasanaeth gyrfaoedd wedi'r cyfan.

14:42

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The problem is that the targeting is far, far too narrow. It appears to me that what's happening is that the only ones that are being targeted for face-to-face contact are those at risk of becoming not in education, employment or training. There are far more pupils than that who require face-to-face contact. Now, there's not even a mechanism, as I understand it, to ensure that all pupils even have adequate online support. So, that's something that needs to be developed. There's a danger that pupils can go through schools with pretty much no careers support.

Now, we understand that the Scottish Government initially pursued a similar policy of moving to online support, but, following university research and pressures from the likes of Unison, the Scottish Government decided to return to face-to-face contact as that was seen as the best way forward—the most effective way of supporting young people, which is what a good careers service does. Isn't it time that the Welsh Government admitted that it's got this wrong on support on careers in Welsh schools?

Y broblem yw bod y targedu'n llawer iawn rhy gul. Mae'n ymddangos i mi mai'r hyn sy'n digwydd yw mai'r unig bobl ifanc sy'n cael eu targedu ar gyfer cyswllt wyneb yn wyneb yw'r rhai sydd mewn perygl o ddod yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Ceir llawer mwy o ddisgyblion na hynny sydd angen cyswllt wyneb yn wyneb. Nawr, ni cheir mecanwaith hyd yn oed, yn ôl yr hyn a ddeallaf, i sicrhau bod pob disgybl yn cael cymorth ar-lein digonol. Felly, mae hynny'n rhywbeth y mae angen ei ddatblygu. Mae perygl y gall disgyblion fynd drwy'r ysgol heb fawr ddim cymorth gyrfaoedd.

Nawr, deallwn fod Llywodraeth yr Alban wedi dilyn polisi tebyg o symud at gymorth ar-lein yn wreiddiol, ond yn dilyn ymchwil prifysgol a phwysau gan bobl fel Unsain, penderfynodd Llywodraeth yr Alban ddychwelyd at gyswllt wyneb yn wyneb gan ei bod yn cael ei gweld fel y ffordd orau ymlaen—y ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi pobl ifanc, sef yr hyn y mae gwasanaeth gyrfaoedd da yn ei wneud. Onid yw'n bryd i Lywodraeth Cymru gyfaddef ei bod yn anghywir ynglŷn â chymorth gyrfaoedd mewn ysgolion yng Nghymru?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:43

## Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Right up until that last sentence I felt that the Member was doing really well because I agreed with quite a lot of what he said, but I don't think we have got it wrong. What we're doing is looking to see what the most effective careers service for the twenty-first century can be in conjunction with the revolution in education that Welsh Labour has delivered, and in conjunction with the youth progression engagement framework, the youth service and a large number of other youth services around the person. So, right up until your last sentence, I thought we were going to be able to agree with each other on this last occasion for education questions. So, I don't think we've got it wrong. I do think that there is room for refiguring some parts of the careers service, and I've said that quite openly. We are looking at this report and I do hope that the next Government, whoever that might be, will take that forward in the best possible way because we are, actually, very proud of the excellent careers service that we have here in Wales, and we do want to preserve it.

Hyd at y frawddeg olaf roeddwn yn teimlo bod yr Aelod yn gwneud yn dda iawn gan fy mod yn cytuno â chryn dipyn o'r hyn a ddywedodd, ond nid wyf yn credu ein bod wedi bod yn anghywir. Yr hyn rydym yn ei wneud yw edrych i weld sut beth fyddai'r gwasanaeth gyrfaoedd mwyaf effeithiol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ar y cyd â'r chwyldro mewn addysg a gyflwynwyd gan Lafur Cymru, ac ar y cyd â'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid, y gwasanaeth ieuencid a nifer fawr o wasanaethau ieuencid eraill ar gyfer yr unigolyn. Felly, nes eich brawddeg olaf, roeddwn yn meddwl ein bod yn mynd i allu cytuno â'n gilydd ar yr achlysur olaf hwn ar gyfer cwestiynau addysg. Felly, nid wyf yn meddwl ein bod wedi'i gael yn anghywir. Rwy'n credu bod yna le i ailwampio rhai rhannau o'r gwasanaeth gyrfaoedd, ac rwyf wedi dweud hynny'n hollol agored. Rydym yn edrych ar yr adroddiad hwn ac rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth nesaf, pwy bynnag y bydd, yn bwrw ymlaen â hynny yn y ffordd orau bosibl am ein bod, mewn gwirionedd, yn falch iawn o'r gwasanaeth gyrfaoedd gwych sydd gennym yma yng Nghymru, ac rydym am ei warchod.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move back to questions on the papers. Question 3 is Janet Finch-Saunders.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papurau. Daw cwestiwn 3 gan Janet Finch-Saunders.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

### Llythrennedd Plant

### Child Literacy

14:44

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lythrennedd plant yng Nghymru?* OAQ(4)0690(ESK)

3. *Will the Minister make a statement on child literacy in Wales?* OAQ(4)0690(ESK)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



- 14:44 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*  
 Yes, I will. This Government has put in place a comprehensive set of actions to strengthen the teaching and learning of literacy, including the national literacy and numeracy framework and national tests. We are now seeing improvement in literacy levels, and Estyn have reported that standards of basic literacy have improved across Wales.  
 Gwnaf, fe wnaif. Mae'r Llywodraeth hon wedi rhoi set gynhwysfawr o gamau gweithredu ar waith i gryfhau addysgu a dysgu llythrennedd, gan gynnwys y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol a phroffion cenedlaethol. Rydym yn awr yn gweld gwelliant yn y lefelau llythrennedd, ac mae Estyn wedi nodi bod safonau llythrennedd sylfaenol wedi gwella ar draws Cymru.
- 14:44 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 Thank you. Minister, I've no doubt that you are aware that poverty levels for our children in Wales have risen considerably since 2004, and that therefore does affect their education and literacy levels. Can you advise as to why this Government is still yet to undertake a full and proper assessment of those children living in poverty outside of the Flying Start areas? Do you have the numbers available? And would you also agree that it is essential for a future Government to commit to actions to ensure that these children are also able to access the quality support they need for good speech and early language development? How many have we, and what are you doing about them?  
 Diolch. Weinidog, nid oes gennyf amheuaeth eich bod yn ymwybodol fod lefelau tlodi ein plant yng Nghymru wedi codi yn sylweddol ers 2004, a bod hynny felly yn effeithio ar eu lefelau addysg a llythrennedd. A allwch ddweud pam y mae'r Llywodraeth hon eto i gynnal asesiad llawn a phriodol o'r plant sy'n byw mewn tlodi y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg? A yw'r rhifau ar gael gennyf? A fydddech hefyd yn cytuno ei bod yn hanfodol i Lywodraeth yn y dyfodol ymrwymo i gamau gweithredu i sicrhau bod y plant hyn hefyd yn gallu cael cymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt ar gyfer datblygiad iaith gynnar a lleferydd da? Faint sydd gennym, a beth rydych yn ei wneud yn eu cylch?
- 14:45 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 Presiding Officer, the Member's question is both confused and confusing. First of all, it ill behoves, I think, any supporter of the Conservative Party to stand up in this Chamber and then lecture any of the rest of us, really, on the increase in numbers of children in poverty. This is the party that has presided over removing welfare benefit support from families in greatest need, and is currently engaged in trying to make children in poverty disappear by massaging the statistics in England. That will not happen here in Wales. We know precisely how many young people we're talking about here, because of our commitment to children on free school meals and our commitment through that to invest preferentially in their future and their prospects through the pupil deprivation grant.  
 Lywydd, mae cwestiwn yr Aelod yn ddryslyd ac yn peri dryswch yn ogystal. Yn gyntaf oll, nid wyf yn meddwl y dylai unrhyw un o gefnogwyr y Blaid Geidwadol sefyll yn y Siambr hon a phregethu i'r gweddill ohonom, yn wir, ar y cynnydd yn nifer y plant sy'n byw mewn tlodi. Dyma'r blaid sydd wedi cael gwared ar gymorth budd-daliadau lles i'r teuluoedd sydd eu hangen fwyaf, ac sydd ar hyn o bryd yn ceisio gwneud i blant sy'n byw mewn tlodi ddiffannu drwy ystumio'r ystadegau yn Lloegr. Ni fydd hynny'n digwydd yma yng Nghymru. Rydym yn gwybod yn union faint o bobl ifanc rydym yn sôn amdanynt yma, oherwydd ein hymrwymiad i blant sy'n cael prydau ysgol am ddim a'n hymrwymiad drwy hynny i fuddsoddi'n ffafriol yn eu dyfodol a'u rhagolygon drwy'r grant amddifadedd disgyblion.
- 14:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 We now to move to question 4—David Rees. Symudwn yn awr at gwestiwn 4—David Rees.

## Pynciau STEM

## The STEM subjects

- 14:46 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu pynciau STEM mewn ysgolion? 4. Will the Minister provide an update on the development of STEM subjects in schools?  
 OAQ(4)0695(ESK) OAQ(4)0695(ESK)

14:46

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Aberavon. Our vision for education and strategic approach to increasing STEM skills, including unprecedented support to schools, is resulting in improvements in attainment by our young people. For example, in GCSE mathematics, 64.4 per cent achieved A\* to C in 2015—2.7 percentage points higher than the year before and, indeed, the highest on record.

Diolch i'r Aelod dros Aberafan. Mae ein gweledigaeth ar gyfer addysg ac ymagwedd strategol tuag at gynyddu sgiliau STEM, gan gynnwys cymorth digynsail i ysgolion, yn arwain at welliannau yng nghyrhaeddiad ein pobl ifanc. Er enghraifft, mewn mathemateg TGAU, llwyddodd 64.4 y cant i gael gradd A\* i C yn 2015—2.7 pwynt canran yn uwch na'r flwyddyn flaenorol ac yn wir, y lefel uchaf a gofnodwyd erioed.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:47

**David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. Last week, you visited the second campus in Swansea University in my constituency and saw for yourself the fantastic engineering facilities that are available there, and you also heard that they're encouraging schoolchildren to come in to the campus to actually see those and to experience the future that STEM can offer to many people. What's the Welsh Government doing to encourage more schools and more universities to take up such offers so that we can get young people enthused in STEM? Because, to get them to do more A-levels and GCSEs, we need to start them early; we need to get them encouraged into taking science, engineering, and not to be afraid of the maths, which many people have been.

Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yr wythnos diwethaf, fe ymweloch â'r ail gampws ym Mhrifysgol Abertawe yn fy etholaeth a gweld drosoch eich hun y cyfleusterau peirianeg gwych sydd ar gael yno, ac fe glywoch hefyd eu bod yn annog plant ysgol i ddod i'r campws i weld y cyfleusterau hynny a phrofi'r dyfodol sydd gan STEM i'w gynnig i lawer o bobl. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog mwy o ysgolion a mwy o brifysgolion i fanteisio ar gynigion o'r fath fel y gallwn ennyn diddordeb pobl ifanc mewn pynciau STEM? Oherwydd, er mwyn eu cael i wneud mwy o bynciau Safon Uwch a TGAU, mae angen i ni eu dechrau'n gynnar; mae angen i ni eu hannog i ddilyn pynciau gwyddoniaeth, peirianeg, ac i beidio â bod ofn mathemateg, fel y mae llawer o bobl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:47

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Quite so, Presiding Officer. I was indeed impressed by my visit to Swansea University just recently, particularly their aim to enhance participation from all areas of society, really, and most particularly disadvantaged communities in south Wales, and their commitment also to be working with young people at a younger age—I think down to year 9—in terms of the school groups that were working with them on the campus. And I know also, of course, that Swansea University is engaged in a wide range of STEM enrichment work, such as the Technocamps and further maths support programmes. So, I think that there are lessons for the higher education community and, indeed, for schools in terms of the kind of engagement that's available to them arising from the work of Swansea University, and I commend them for it.

Yn hollol, Lywydd. Gwnaeth fy ymweliad â Phrifysgol Abertawe yn ddiweddar argraff fawr arnaf yn wir, yn enwedig eu nod i wella cyfranogiad o bob rhan o gymdeithas, mewn gwirionedd, ac yn fwyaf arbennig o gymunedau difreintiedig yn ne Cymru, a'u hymrwymiad hefyd i weithio gyda phobl ifanc ar oedran iau—i lawr i flwyddyn 9 rwy'n meddwl—o ran y grwpiau ysgol a oedd yn gweithio gyda hwy ar y campws. Ac rwy'n gwybod hefyd, wrth gwrs, fod Prifysgol Abertawe yn cymryd rhan mewn ystod eang o waith cyfoethogi STEM, megis y Technocamps a rhaglenni cymorth mathemateg pellach. Felly, rwy'n meddwl fod gwersi i'r gymuned addysg uwch ac yn wir, i ysgolion o ran y math o ymgysylltu sydd ar gael iddynt yn deillio o waith Prifysgol Abertawe, ac fe'u cymeradwyaf am hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:48

**Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm sure we're all agreed on the importance of promoting STEM subjects in the future Welsh curriculum, and where children and young people show a talent and aptitude for this learning, then I welcome strong encouragement for their take-up, particularly when studied in tandem with modern foreign languages. However—and I was encouraged by your answer to Aled Roberts on this earlier, Minister—are you prepared to tell your successor that Wales and its economy will be disadvantaged if children and young people are denied the opportunity for different discovery, creativity and, critically, an understanding of human nature and its effects if arts and humanities are played down in terms of importance on the new curriculum?

Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn cytuno ynglŷn â phwysigrwydd hyrwyddo pynciau STEM yn y cwricwlwm Cymreig yn y dyfodol, a lle y mae plant a phobl ifanc yn dangos talent a dawn mewn dysgu o'r fath, yna rwy'n croesawu anogaeth gref i astudio'r pynciau hyn, yn enwedig pan gânt eu hastudio ar y cyd ag ieithoedd tramor modern. Fodd bynnag—cefai fy nghalonogi gan eich ateb i Aled Roberts ar hyn yn gynharach, Weinidog—a ydych yn barod i ddweud wrth eich olynydd y bydd Cymru a'i heconomi dan anfantais os yw plant a phobl ifanc yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i ddarganfod pethau gwahanol, creadigrwydd, ac yn allweddol, dealltwriaeth o'r natur ddynol a'i effeithiau os na hyrwyddir y celfyddydau a'r dyniaethau i'r fath raddau o ran eu pwysigrwydd yn y cwricwlwm newydd?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:49

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, what an opportunity the Member offers to me, and a chance to tell—

Wel, am gyfle y mae'r Aelod yn ei gynnig i mi, a chyfle i ddweud—

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:49 **Suzy Davies** [Bywgraffiad Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Inaudible.] [Laughter.] [Fideo Video](#)  
[Anghlywadwy.] [Chwerthin.]
- 14:49 **Huw Lewis** [Bywgraffiad Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)  
I can hardly wait. A chance to tell my successor what might be important in terms of education policy. I could wax lyrical all day long. But, to be serious about Suzy Davies's point, she is quite right, of course, that we must—and I come back to the point I made earlier—commit ourselves to a broad and balanced curriculum, and that's very clearly what Graham Donaldson has offered to us in terms of 'Successful Futures'. Indeed, first out of the traps, if you like, in terms of our commitment to that philosophy has been our creative schools programme, co-sponsored by us and the Arts Council of Wales. So, STEM is important, but a broad and balanced education involves a great deal more.
- Prin y gallaf aros. Cyfle i ddweud wrth fy olynydd yr hyn a allai fod yn bwysig o ran polisi addysg. Gallwn draethu drwy'r dydd. Ond i fod o ddifrif ynglŷn â phwynt Suzy Davies, mae'n hollol iawn, wrth gwrs, fod yn rhaid i ni—a dof yn ôl at y pwynt a wneuthum yn gynharach—ymrwymo i gwricwlwm eang a chytbwys, a dyna, yn amlwg iawn, y mae Graham Donaldson wedi'i gynnig i ni yn 'Dyfodol Llwyddiannus'. Yn wir, ar frig y rhestr, os mynnwch, o ran ein hymrwymiad i'r athroniaeth honno, mae ein rhaglen ysgolion creadigol a noddir ar y cyd gennym a Chyngor Celfyddydau Cymru. Felly, mae STEM yn bwysig, ond mae addysg eang a chytbwys yn galw am lawer iawn mwy.
- 14:50 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)  
Weinidog, byddwch chi'n cofio fy mod i wedi codi gyda chi yn y gorffennol faterion ynghylch y ffaith nad yw pobl dros Gymru yn gallu astudio lefel A peirianeg er eu bod yn dymuno. I ddilyn ymlaen o hynny, roedd Edwina Hart yn dweud mewn ymateb i Rhun ap Iorwerth y bydd yna agwedd draws-sbectrwm i edrych ar sefyllfa Tata Steel. Tybed a ydych chi wedi cael trafodaethau gyda Gweinidog yr economi i weld sut mae mwy o bobl ifanc yng Nghymru yn gallu cael mynediad at astudiaethau peirianeg yn yr ysgol er mwyn iddyn nhw, wedyn, allu mynd i mewn i weithio yn llefydd fel Tata ym Mhort Talbot er mwyn creu peirianwaith a mecanwaith cynaliadwy i'r dyfodol yn yr ardal hynny.
- Minister, you will remember that I have raised with you in the past issues surrounding the fact that people the length and breadth of Wales can't study A-level engineering even if they wish to do so. Following on from that, Edwina Hart said in response to Rhun ap Iorwerth that there would be a cross-spectrum approach to looking at the situation in Tata Steel. I wonder whether you've had any discussions with the Minister for the economy to see how more young people in Wales could access engineering studies in school so that they can then go on to work at places such as Tata in Port Talbot in order to develop sustainable mechanical engineering in that area.
- 14:51 **Huw Lewis** [Bywgraffiad Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)  
Well, I thank the Member for that question. It's an important point and, of course, a broad range of A-level offer is something that we seek to preserve and protect. I am very happy to have the discussions that she mentioned there. It is important, however, not to send the wrong messages to young people. It isn't a necessity, by any means, if one wishes to become an engineer, to have to take A-level engineering, in the same way that if one wishes to become a lawyer, it is certainly not the case that one has to take A-level law. Indeed, a goodly number of Russell Group universities would give advice to young people that what they are interested in in terms of engineering, for instance, is that there's a good mathematical competence on the part of the individual, and they don't necessarily have to have that engineering A-level. So, it's important that young people are not put off by what we say, and it's not a necessity that an A-level in engineering is required for a career in engineering.
- Wel, diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Mae'n bwynt pwysig ac wrth gwrs, mae ehangder y cynnig Safon Uwch yn rhywbeth rydym yn ceisio'i warchod a'i ddiogelu. Rwy'n hapus iawn i gael y trafodaethau a grybwyllodd yn awr. Mae'n bwysig, fodd bynnag, peidio ag anfon y negeseuon anghywir i bobl ifanc. Nid oes rheidrwydd, mewn unrhyw fodd, os yw rhywun yn dymuno bod yn beiriannydd, i astudio peirianeg Safon Uwch. Yn yr un modd, os yw rhywun yn dymuno bod yn gyfreithiwr, yn sicr nid yw'n wir fod yn rhaid astudio'r gyfraith i Safon Uwch. Yn wir, byddai nifer dda o brifysgolion Grŵp Russell yn cyngori pobl ifanc mai'r hyn y mae ganddynt ddiddordeb ynddo o ran peirianeg, er enghraifft, yw bod yna gymhwysedd mathemategol da ar ran yr unigolyn, ac nid oes raid iddynt gael Safon Uwch mewn peirianeg o reidrwydd. Felly, mae'n bwysig nad yw pobl ifanc yn cael eu digalonni gan yr hyn rydym yn ei ddweud, ac nid yw Safon Uwch mewn peirianeg yn angenrheidiol er mwyn dilyn gyrfa mewn peirianeg.

14:52

**Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, if we are to give young people a positive experience of science education at an early stage, so that it sets them up with an enjoyment of science for life, it's important that we have primary school teachers who have the confidence and the ability to deliver engaging and exciting science lessons in primary schools. You will be aware, of course, of the fantastic role that Techniquet has played here in Cardiff Bay in their outreach programmes in providing CPD for teachers, and I wonder if you can tell us how CPD for teachers in science education and communication will be rolled out over the following years.

Weinidog, os ydym am roi profiad cadarnhaol o addysg wyddonol i bobl ifanc yn gynnar, er mwyn eu cymell i fwynhau gwyddoniaeth drwy gydol eu hoes, mae'n bwysig fod gennym athrawon ysgolion cynradd sydd â'r hyder a'r gallu i gyflwyno gwersi gwyddoniaeth diddorol a chyffrous mewn ysgolion cynradd. Fe fyddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, o'r rôl wych y mae Techniquet wedi'i chwarae yma ym Mae Caerdydd yn eu rhaglenni allgymorth wrth ddarparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus i athrawon, a thybed a allwch ddweud wrthym sut y bydd DPP i athrawon mewn addysg gwyddoniaeth a chyfathrebu yn cael ei gyflwyno dros y blynyddoedd sy'n dod.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:52

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, in a multiplicity of ways. I pay tribute to the work of Techniquet, but, of course, Techniquet is not the only way in which—. Indeed, Techniquet simply wouldn't have the capacity to address the skills issues that we need to address in terms of our primary school professionals as regards STEM subjects. I recently visited a very interesting project in the Education through Regional Working area in south-west Wales, which was very simply about imaginative use of secondary school science and technology colleagues working ever more closely with their feeder primary schools, and the staff within those schools becoming involved in the professional development of the primary school staff, with good ideas flowing in both directions. This is as much about the profession shifting for itself, in my view, as it is about external bodies being there in order to help, as welcome as that may be.

Wel, mewn nifer fawr o ffyrdd. Rwy'n talu teyrnged i waith Techniquet, ond wrth gwrs, nid Techniquet yw'r unig ffordd o—. Yn wir, ni fyddai gan Techniquet y capasiti i fynd i'r afael â'r materion sgiliau sydd angen i ni fynd i'r afael â hwy mewn perthynas â'n haddysgwyr ysgolion cynradd o ran pynciau STEM. Yn ddiweddar, ymwelais â phrosiect diddorol iawn yn ardal Ein Rhanbarth ar Waith de-orllewin Cymru, a oedd yn ymwneud yn syml iawn â defnydd dychmygus o gydweithwyr gwyddoniaeth a thechnoleg ysgolion uwchradd yn gweithio'n agosach â'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo, a'r staff yn yr ysgolion hynny'n dod yn rhan o ddatblygiad proffesiynol staff yr ysgol gynradd, gyda syniadau da yn llifo i'r ddau gyfeiriad. Mae hyn yn ymwneud lawn cymaint â'r proffesiwn yn newid er ei fwyn ei hun, yn fy marn i, ag â chael cyrff allanol yn i helpu, er mor dderbyniol y gallai hynny fod.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

### Ariannu Disgyblion Ysgol

### Funding School Pupils

14:53

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. *A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn ariannu disgyblion ysgol yng Nghymru?* OAQ(4)0684(ESK)

5. *Will the Minister outline how the Welsh Government funds school pupils in Wales?* OAQ(4)0684(ESK)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:53

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for North Wales. The Welsh Government of course does not fund schools directly. Local authorities are responsible for funding schools as they are best placed to know the needs of their schools and their learners. The Welsh Government sets the strategic direction for education, providing the national policy and legislative context within which local government operates.

Diolch i'r Aelod dros Ogledd Cymru. Nid yw Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, yn ariannu ysgolion yn uniongyrchol. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ariannu ysgolion am eu bod yn y sefyllfa orau i wybod beth yw anghenion eu hysgolion a'u dysgwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer addysg, gan ddarparu'r polisi cenedlaethol a chyd-destun deddfwriaethol i lywodraeth leol allu gweithredu o'i fewn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:54 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Well, the Welsh Government gives 17 out of 22 Welsh local authorities a higher gross schools budget per pupil than Flintshire, including neighbouring Denbighshire and Wrexham. Given the previously stated Welsh Government expectation that local authorities should prioritise per-pupil funding in schools, and only retain centrally what should be necessary, how do you respond to a situation where Denbighshire and Wrexham with larger budgets retain only £783 and £810 respectively, but Flintshire, with a smaller budget, retains £882 per pupil, and therefore has one of the lowest delegated schools budgets in Wales?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Diolch. Wel, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllideb gros y disgybl uwch i ysgolion 17 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, gan gynnwys Sir Ddinbych a Wrecsam gerllaw, nag y mae'n ei rhoi i Sir y Fflint. O ystyried disgwyliad Llywodraeth Cymru a nodwyd yn flaenorol y dylai awdurdodau lleol flaenoriaethu cyllid fesul disgybl yn yr ysgolion, heb gadw dim yn ganolog heblaw'r hyn a ddylai fod yn angenrheidiol, sut rydych yn ymateb i sefyllfa lle y mae Sir Ddinbych a Wrecsam gyda chyllidebau mwy yn cadw £783 ac £810 yn unig, ond y mae Sir y Fflint, gyda chyllideb lai, yn cadw £882 y disgybl, ac felly mae ganddi un o'r cyllidebau dirprwyedig isaf i ysgolion yng Nghymru?

14:55 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My understanding, Presiding Officer, is that each and every one of the 22 local authorities in Wales—so, I'm not being biased in a party political sense here—has surpassed the 85 per cent delegation of school budgets to schools that the Welsh Government set as an expectation. Indeed, our expectation through this next Assembly term will be that that increases to 90 per cent delegation. I'm not in a position, nor, I think, would it be wise for me, to arbitrate between the various decisions being made by Flintshire, Denbighshire and so on. The issue of school transport alone, for instance, would introduce really quite marked differences between front-line delegation of funding, and rural authorities most particularly have an issue. The delegation of school transport funding would be a catastrophic development for some rural authorities in particular. It is for local authorities to make their decisions and face their electorate when the time comes.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Fy nealltwriaeth i, Lywydd, yw bod pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru—felly nid wyf yn dangos rhagfarn wleidyddol yma—wedi rhagori ar yr 85 y cant o gyllideb ddirprwyedig i ysgolion a osododd Llywodraeth Cymru fel disgwyliad. Yn wir, drwy dymor nesaf y Cynulliad disgwyliwn i hynny gynyddu i 90 y cant o gyllid dirprwyedig. Nid wyf mewn sefyllfa, ac nid wyf yn meddwl y byddai'n ddoeth i mi ddyfarnu ynglhyll y penderfyniadau amrywiol sy'n cael eu gwneud gan Sir y Fflint, Sir Ddinbych ac yn y blaen. Byddai cwestiwn cludiant i'r ysgol ynddo'i hun, er enghraifft, yn cyflwyno gwahaniaethau go amlwg rhwng cyllid dirprwyedig rheng flaen, ac mae'n fater sy'n codi i awdurdodau gwledig yn fwyaf arbennig. Byddai dirprwyo cyllid cludiant ysgol yn ddatblygiad trychinebus i rai awdurdodau gwledig yn arbennig. Mater i awdurdodau lleol yw gwneud eu penderfyniadau a wynebu eu hetholwyr pan ddaw'r amser.

14:56 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to praise the Welsh Labour Government for increasing the funding for school pupils in Wales in the next financial year. However, in Carmarthenshire, the Plaid Cymru-led administration have chosen not to spend this additional money on education. Plaid Cymru in Carmarthenshire have chosen to spend this money on a series of vanity projects, while cutting education by £3.6 million in real terms. Do you agree with me, Minister, that while Plaid makes promises about spending more on education, only Welsh Labour can be trusted to look after the interests of our young people?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Hoffwn ganmol Llywodraeth Lafur Cymru am gynyddu'r cyllid ar gyfer disgyblion ysgol yng Nghymru yn y flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, yn Sir Gaerfyrddin, mae'r weinyddiaeth a arweinir gan Blaid Cymru wedi dewis peidio â gwario'r arian ychwanegol hwn ar addysg. Mae Plaid Cymru yn Sir Gaerfyrddin wedi dewis gwario'r arian hwn ar gyfres o brosiectau porthi balchder, gan dorri £3.6 miliwn oddi ar y gyllideb addysg mewn termau real. A ydych yn cytuno, Weinidog, er bod Plaid Cymru yn gwneud addewidion ynglŷn â gwario mwy ar addysg, na ellir ymddiried yn neb heblaw Llafur Cymru i ofalu am fuddiannau ein pobl ifanc?

14:56 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I bow, of course, to the expertise of the Member for Llanelli in terms of what is happening locally and currently in terms of decision making at Carmarthenshire County Council. But, I can say that, throughout the current Assembly term, the Welsh Government has protected school funding by 1 per cent above the rate of change to the Welsh block overall, which, during the term of this Assembly Government, has meant an additional £106 million arriving at the front line in our schools.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Rwy'n ildio, wrth gwrs, i arbenigedd yr Aelod dros Lanelli o ran yr hyn sy'n digwydd yn lleol ac ar hyn o bryd mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin. Ond drwy gydol tymor cyfredol y Cynulliad, gallaf ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi diogelu cyllid ysgolion 1 y cant yn uwch na chyfradd y newid i bloc Cymru yn gyffredinol, sydd, yn ystod tymor y Llywodraeth hon, wedi golygu bod £106 miliwn yn ychwanegol yn cyrraedd y rheng flaen yn ein hysgolion.

14:57 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, what role does pupil funding play when local authorities are considering school closures? Do you agree with the First Minister, who has, in correspondence, stated to me that finance should not be the driver for school closures and schools should be closed only if that leads to an increase in educational outcomes?

Weinidog, pa rôl y mae cyllid disgyblion yn ei chwarae pan fydd awdurdodau lleol yn ystyried cau ysgolion? A ydych yn cytuno â'r Prif Weinidog, sydd, mewn gohebiaeth, wedi dweud wrthyf na ddylai cyllid ysgogi penderfyniadau i gau ysgolion ac ni ddylid cau ysgolion oni bai bod hynny'n arwain at gynnydd mewn deilliannau addysgol?

14:57 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Educational outcomes are, as has been stated many times, the primary concern when it comes to school organisation—schools reorganisation—and that is the expectation of the Welsh Government upon local government in turn. Of course, financial issues need to be a part of the debate, and the historic issue that was inherited by my predecessor, really, around surplus places is something we've been working on, now, for the last few years, and the situation is greatly improved in that regard. But the Member is quite right to say that it is the increase in outcomes around teaching and learning that is, and should be, the primary focus of any schools reorganisation package.

Fel y nodwyd nifer o weithiau, deilliannau addysgol yw'r brif ystyriaeth wrth drefnu ysgolion—ad-drefnu ysgolion—a dyna y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan lywodraeth leol yn ei thro. Wrth gwrs, mae angen i faterion ariannol fod yn rhan o'r drafodaeth, ac mae'r mater hanesyddol a etifeddwyd gan fy rhagflaenydd, mewn gwirionedd, o ran lleoedd dros ben yn rhywbeth rydym wedi bod yn gweithio arno bellach dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac mae'r sefyllfa wedi gwella'n fawr yn hynny o beth. Ond mae'r Aelod yn hollol iawn i ddweud mai cynnydd yn y deilliannau dysgu ac addysgu yw prif ffocws unrhyw becyn ad-drefnu ysgolion, a dyna fel y dylai fod.

### Cynigion Diamod i Lleoedd Prifysgol

### Unconditional Offers for University Places

14:58 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n cael cynigion diamod ar gyfer lleoedd prifysgol? OAQ(4)0696(ESK)*

*6. Will the Minister make a statement on the number of Welsh students who receive an unconditional offer for university places? OAQ(4)0696(ESK)*

14:58 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for South Wales East, but I'm afraid I have to say this level of information is not held centrally by the Welsh Government.

Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain De Cymru, ond mae arnaf ofn fod yn rhaid i mi ddweud nad yw'r lefel hon o wybodaeth yn cael ei chadw'n ganolog gan Lywodraeth Cymru.

14:58 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I much regret that that information is not available, Minister. Could I ask you to comment, then—if you accept from me these figures—that, Newport East, has one of the lowest levels, as only 4 per cent of pupils receive unconditional offers, whereas in Montgomeryshire it is 16 per cent? Would the Minister make a statement on what could be done to decrease this difference?

Rwy'n gresynu'n fawr nad yw'r wybodaeth honno ar gael, Weinidog. A gaf fi ofyn i chi roi sylwadau, felly—os derbyniwch y ffigurau hyn gennyf fi—fod gan Ddwyrain Casnewydd un o'r lefelau isaf, gan mai dim ond 4 y cant o'r disgyblion sy'n derbyn cynigion diamod, ond yn Sir Drefaldwyn, mae'n 16 y cant? A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn y gellid ei wneud i leihau'r gwahaniaeth hwn?

14:59

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm not aware of the figures the Member quotes, and I'm unsure, really, as to the sourcing—how they might be sourced, those particular figures, at a local authority level, at least. I can tell him that unconditional offer making is not, at a national level, a widespread practice in Wales, and, as a proportion of offers to 18-year-olds, it remains relatively small at around 2.5 per cent. Of course, higher education institutions have autonomy in terms of their admissions practice, but I would accept the point, I think, that he's making centrally, which is that this is something we need to keep an eye on. We need to be careful, I think, around the pressures upon higher education to increase student numbers because that really drives their finances, and what that means in terms of the future of our young people and issues around quality, too.

Nid wyf yn ymwybodol o'r ffigurau y mae'r Aelod yn eu dyfynnu, ac rwy'n ansicr, mewn gwirionedd, ynglŷn â'u ffynhonnell—sut y ceir hyd iddynt, y ffigurau penodol hynny, ar lefel awdurdod lleol, o leiaf. Gallaf ddweud wrtho nad yw gwneud cynnig diamod, ar lefel genedlaethol, yn arfer cyffredin yng Nghymru, ac fel cyfran o gynigion i rai 18 oed, mae'n parhau i fod yn gymharol fach, sef oddeutu 2.5 y cant. Wrth gwrs, mae gan sefydliadau addysg uwch ymreolaeth o ran eu harferion derbyn, ond byddwn yn derbyn y pwynt canolog y mae'n ei wneud, rwy'n meddwl, sef bod hyn yn rhywbeth sydd angen i ni gadw llygad arno. Mae angen i ni fod yn ofalus, rwy'n meddwl, ynghylch y pwysau ar addysg uwch i gynyddu niferoedd myfyrwyr am fod hynny'n ysgogi eu cyllid, a beth y mae hynny'n ei olygu o ran dyfodol ein pobl ifanc a materion yn ymwneud ag ansawdd hefyd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Addysg Uwch**

**Further Education**

15:00

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg uwch yng Nghymru? OAQ(4)0686(ESK)*

*7. Will the Minister make a statement on further education in Wales? OAQ(4)0686(ESK)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We cannot underestimate the importance of further education, and so we have protected the funding for further education for the forthcoming year and it is more vital than ever to focus on the resources that are available to learners and ensure they are used as efficiently as possible.

Ni allwn danbrisiu pwysigrwydd addysg bellach, ac felly rydym wedi diogelu'r cyllid ar gyfer addysg bellach ar gyfer y flwyddyn i ddod ac mae'n fwy hanfodol nag erioed i ganolbwyntio ar yr adnoddau sydd ar gael i ddysgwyr a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank the Deputy Minister for that response? I believe in the importance of access courses. I taught on several. They give a second chance to those who didn't fulfil their potential at school. An example I know of is a hospital consultant I recently met who started off on an access to medicine course. What are the Government's proposals for access courses in further education colleges?

A gaf fi ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am yr ymateb hwnnw? Rwy'n credu ym mhwsigrwydd cyrsiau mynediad. Bûm yn dysgu ar nifer ohonynt. Maent yn rhoi ail gyfle i rai nad oedd yn cyrraedd eu potensial yn yr ysgol. Un enghraifft y gwn amdani yw meddyg ymgynghorol mewn ysbyty a gyfarfûm yn ddiweddar a ddechreuodd ei yrfa ar gwrs mynediad i feddygaeth. Beth yw cynigion y Llywodraeth ar gyfer cyrsiau mynediad mewn colegau addysg bellach?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In each of the years that we've had to make cuts to the further education budget, access to HE provision has been treated the same as any other full-time provision and has therefore not been subject to the significant cuts faced in other areas. As autonomous bodies, each FEI is able to plan and deliver provision that it sees as most relevant to its own area. Our data from the past two academic years show that most access provision has remained broadly the same. However, in health and social care, which is the area you're particularly speaking about today, there's been a planned increase of around 17 per cent and we very much welcome that. I share the Member's point of view that access courses are very important indeed, as we specifically want to ensure that people have access to education throughout their lives and are able to develop themselves throughout their lives in a progression towards higher skills, which the economy so desperately needs.

Ym mhob un o'r blynyddoedd y bu'n rhaid i ni wneud toriadau i'r gyllideb addysg bellach, mae mynediad i ddarpariaeth addysg uwch wedi cael ei drin yr un fath ag unrhyw ddarpariaeth amser llawn arall ac felly ni fu'n ddarostyngedig i'r toriadau sylweddol a wynebwyd mewn meysydd eraill. Fel cyrff ymreolaethol, gall pob sefydliad addysg bellach gynllunio a chyflwyno'r ddarpariaeth y mae'n ei gweld fel y fwyaf perthnasol i'w ardal ei hun. Dengys ein data o'r ddwy flynedd academaidd ddiwethaf fod y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth mynediad wedi aros fwy neu lai yr un fath. Fodd bynnag, ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, sef y maes rydych yn sôn amdano'n benodol heddiw, bu cynnydd wedi'i gynllunio o tua 17 y cant ac rydym yn croesawu hynny'n fawr. Rwy'n rhannu safbwynt yr Aelod fod mynediad i gyrsiau yn bwysig iawn yn wir, gan ein bod eisiau sicrhau'n benodol fod pobl yn cael mynediad at addysg drwy gydol eu bywydau ac yn gallu datblygu eu hunain drwy gydol eu bywydau gan gamu ymlaen at sgiliau uwch sydd eu hangen yn ddirfawr ar yr economi.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:01

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sorry. I shall keep up myself. Paul Davies.

Mae'n ddrwg gennyf. Fe ddaliaf i fyny. Paul Davies.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:01

**Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Deputy Minister, I'm pleased that Pembrokeshire College recently hosted an anti-bullying event with the motto 'Expect respect', with a number of local stakeholders. Of course, it's important that FE colleges are promoting a respect agenda amongst young adults. Given the importance of educating young people about issues such as bullying and domestic violence, what action is the Welsh Government taking to ensure that FE colleges are not only talking to students about these issues, but actively promoting equality and positive relationships among young adults?

Diolch, Lywydd. Ddirprwy Weinidog, rwy'n falch fod Coleg Sir Benfro yn ddiweddar wedi cynnal digwyddiad gwrth-fwlio o'r enw 'Disgwyl parch', gyda nifer o randdeiliaid lleol. Wrth gwrs, mae'n bwysig fod colegau addysg bellach yn hyrwyddo agenda parch ymhlith oedolion ifanc. O ystyried pwysigrwydd addysgu pobl ifanc ynglŷn â materion fel bwlio a thrais yn y cartref, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod colegau addysg bellach nid yn unig yn siarad â myfyrwyr am y materion hyn, ond yn mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb a pherthynas gadarnhaol rhwng oedolion ifanc?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:02

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I completely agree with the Member that it is an extremely important part of growing into a young adult and, as such, FE colleges are expected to take a full account of the context in which they teach their courses. Estyn has recently commented very favourably on the approach in most FE colleges to this sort of issue, and we would certainly be looking to take forward initiatives to ensure that, as good practice progresses in those areas—and the Member will know that practice with regard to anti-bullying, for example, is a bit of a moving feast at the moment, with various different approaches to it being tried out—that FE colleges stay abreast of that and implement best practice as appropriate. So, I completely share the Member's point of view on that.

Ie, rwy'n llwyr gytuno â'r Aelod ei bod yn rhan eithriadol o bwysig o dyfu'n oedolion ifanc ac fel y cyfryw, mae disgwyl i golegau addysg bellach roi sylw llawn i'r cyd-destun y maent yn addysgu eu cyrsiau ynddo. Gwnaeth Estyn sylwadau ffafriol iawn yn ddiweddar ar ymagwedd y rhan fwyaf o golegau addysg bellach tuag at faterion o'r fath, a byddem yn sicr yn ystyried datblygu mentrau i sicrhau, wrth i arfer da ddatblygu yn y meysydd hyn—a bydd yr Aelod yn gwybod bod arferion mewn perthynas â gwrth-fwlio, er enghraifft, yn dipyn o wledd symudol ar hyn o bryd, gydag arbrofi'n digwydd â gwahanol ddulliau o weithredu—fod colegau addysg bellach yn cadw'n glir o hynny ac yn gweithredu arferion gorau fel y bo'n briodol. Felly, rwy'n rhannu safbwynt yr Aelod ar hynny'n llwyr.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:03

**Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, some further education institutions have adapted to funding cuts by boosting links with the private sector and exploring alternative income streams. Could you tell us whether attempts to diversify funding sources have been really successful, and to what extent that has minimised the funding reduction of recent years, if at all, of course?

Ddirprwy Weinidog, mae rhai sefydliadau addysg bellach wedi addasu i doriadau cyllido drwy hybu cysylltiadau â'r sector preifat ac archwilio ffrydiau incwm amgen. A allech ddweud wrthym a fu ymdrechion i amrywio ffynonellau ariannu yn llwyddiannus iawn, ac i ba raddau y mae hynny wedi lleihau'r gostyngiad yn y cyllid yn y blynyddoedd diwethaf, os o gwbl, wrth gwrs?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



15:03

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, some FE colleges have stepped up to offer that provision extremely well. It has to be said that it's not universal across Wales yet. However, Colegau Cymru, which is the umbrella body that the colleges all subscribe to, recently did a piece of work across the colleges for the Welsh Government, and in conjunction with the Welsh Government, about an approach that would assist people to learn from good practice across the piece. We're in discussion with them about that very point so that, as each college comes up with an idea that seems to work, we can spread that good practice across and share it.

Also, of course, we have our enhanced employer engagement events, and we are very much also coming at it from the other end and making enormous strides in trying to persuade Welsh businesses that training their staff is the best way to retain them and be resilient for the future. Indeed, the Member will know—I know he shares my point of view on this—that the data show that the better you treat your staff and the better you train them, the more likely they are to stay happy, healthy and in employment with you, and the more likely your business is to grow. So, we are doing a lot of good practice sharing. It's early days. The policy has been in place for coming up to three years now. Some colleges have made better progress than others, but all are making progress in the right direction.

Wel, mae rhai colegau addysg bellach wedi camu ymlaen i gynnig y ddarpariaeth honno'n arbennig o dda. Mae'n rhaid dweud nad yw'n gyffredinol ar draws Cymru eto. Fodd bynnag, mae Colegau Cymru, sef y corff ymbarél y mae'r colegau i gyd yn ei gefnogi, wedi gwneud gwaith yn ddiweddar ar draws y colegau i Lywodraeth Cymru, ac ar y cyd â Llywodraeth Cymru, ar ddull o weithredu a fyddai'n cynorthwyo pobl i ddysgu o arfer da yn gyffredinol. Rydym mewn trafodaethau gyda hwy ar yr union bwynt hwnnw wrth i bob coleg gyflwyno syniad sydd i'w weld yn gweithio er mwyn i ni allu lledaenu'r arferion da hynny a'u rhannu.

Hefyd, wrth gwrs, mae gennym ein digwyddiadau estynedig ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr, ac rydym yn sicrhaf hwy yn dod tuag ato o'r pen arall ac yn gwneud camau enfawr wrth geisio perswadio busnesau Cymru mai hyfforddi eu staff yw'r ffordd orau o'u cadw a bod yn gydnerth ar gyfer y dyfodol. Yn wir, bydd yr Aelod yn gwybod—rwy'n gwybod ei fod yn rhannu fy safbwynt i ar hyn—fod y data yn dangos po orau y byddwch yn trin eich staff a pho orau y byddwch yn eu hyfforddi, y mwyaf tebygol y byddant o barhau'n fodlon, yn iach ac yn gweithio i chi, a'r mwyaf tebygol yw eich busnes o dyfu. Felly, rydym yn gwneud llawer o waith ar rannu arferion da. Mae'n ddyddiau cynnar. Mae'r polisi wedi bod ar waith ers bron i dair blynedd bellach. Mae rhai colegau wedi gwneud cynnydd gwell nag eraill, ond mae pob un yn gwneud cynnydd yn y cyfeiriad cywir.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:04

**Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, I'm very grateful for your ongoing efforts to ensure that we have a comprehensive post-16 offer for young people in Torfaen. Can I ask whether there's any update on your discussions with Torfaen council on this, please?

Ddirprwy Weinidog, rwy'n ddiolchgar iawn am eich ymdrechion parhaus i sicrhau bod gennym gynnig ôl-16 cynhwysfawr i bobl ifanc yn Nhorfaen. A gaf fi ofyn a oes gennych y wybodaeth ddiweddaraf o'ch trafodaethau gyda chynghor Torfaen ar hyn, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:04

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I pay tribute to the Member's persistence on this matter, and I certainly am very much aware of it; we've had a number of meetings on the point. My understanding is that the discussion between the Welsh Government and Torfaen is proceeding perfectly happily, and that they're going along towards making a business case so that she can finally get the result she wanted in Torfaen. I think it would be very much down to her efforts when that happens.

Rwy'n talu teyrnged i ddyfalbarhad yr Aelod ar y mater hwn, ac rwy'n sicrhaf yn ymwybodol iawn ohono; rydym wedi cael nifer o gyfarfodydd ar y pwynt. Fy nealltwriaeth i yw bod y drafodaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Thorfaen yn mynd rhagddi yn berffaith hapus, a'u bod yn symud tuag at wneud achos busnes fel y gall gael y canlyniad roedd hi ei eisiau yn Nhorfaen o'r diwedd. Rwy'n meddwl mai diolch i'w hymdrechion hi fydd hynny pan ddigwyddo.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:05

**Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Coleg Gwent is setting up a subsidiary trading company to deliver work-based learning. Currently, of course, the staff that area already working there will be TUPE'd over, but they have been told that all new staff will be on new terms and conditions. Can you do anything to ensure that teaching staff employed by colleges' trading companies will get the benefit of the nationally agreed all-Wales pay scales?

Mae Coleg Gwent yn sefydlu is-gwmni masnachu i gyflwyno dysgu yn y gwaith. Ar hyn o bryd, wrth gwrs, bydd y staff sydd eisoes yn gweithio yno yn dod yn ddarostyngedig i Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981, ond maent wedi cael gwybod y bydd yr holl staff newydd yn cael telerau ac amodau newydd. A allwch chi wneud unrhyw beth i sicrhau bod staff addysgu a gyflogir gan gwmnïau masnachu colegau yn cael buddion y graddfeydd cyflog a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer Cymru gyfan?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:05

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, it's a bit of a fraught issue, actually, and it's tied up with the Minister's work on the Education Workforce Council and what we can do about who's registered and what the qualifications are for that. So, there's a big piece of work ongoing around that sort of protection. In the end, the answer is that it's a matter for the college, but that's not to say the Welsh Government doesn't take a very close interest in this. And, actually, ColegauCymru is also working with the National Training Federation for Wales in terms of working together possible merger talks. I think it's an ongoing thing, so it's not actually happened yet, but we've been encouraging that with a view to getting a consistent set of terms and conditions which protect the workforce, not only because that's good for the workforce but because that protects the standards in terms of the training that's provided. And in terms of Welsh Government training, the standards are very important to us. So, I accept the premise that the Member makes. It is a matter for the colleges, but nevertheless we've taken a firm view about what we think should happen in that regard.

le, mae'n bwnc braidd yn llosg, mewn gwirionedd, ac mae ynghlwm wrth waith y Gweinidog ar Gyngor y Gweithlu Addysg a beth y gallwn ei wneud ynglŷn â phwy sy'n gofrestredig a beth yw'r cymwysterau ar gyfer hynny. Felly, mae yna waith mawr yn mynd rhagddo ar y math o hwnnw o ddiogelwch. Yn y pen draw, yr ateb yw mai mater i'r coleg ydyw, ond nid yw hynny'n dweud nad oes gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb agos iawn yn hyn. Ac mewn gwirionedd, mae ColegauCymru hefyd yn gweithio gyda Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru o ran cydweithio ar drafodaethau uno posibl. Rwy'n credu ei fod yn beth parhaus, felly nid yw wedi digwydd eto mewn gwirionedd, ond rydym wedi bod yn ei annog gyda golwg ar gael set gyson o delerau ac amodau sy'n diogelu'r gweithlu, nid yn unig oherwydd bod hynny'n dda i'r gweithlu ond oherwydd ei fod yn diogelu'r safonau o ran yr hyfforddiant a ddarparir. Ac o ran hyfforddiant Llywodraeth Cymru, mae'r safonau'n bwysig iawn i ni. Felly, rwy'n derbyn rhagdybiaeth yr Aelod. Mae'n fater i'r colegau, ond serch hynny mae gennym farn gadarn ynglŷn â'r hyn y credwn y dylai ddigwydd yn hynny o beth.

15:06

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Minister. Thank you, Minister.

Diolch, Ddirprwy Weinidog. Diolch yn fawr, Weinidog.

15:06

**3. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar ei Adolygiad o Ddeisebau Cyhoeddus**

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 3, which is a debate on the Petitions Committee's report on its review of public petitions, and I call the Chair of the Petitions Committee—William Powell.

Cynnig NDM5981 William Powell

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar yr 'Adolygiad o Drefniadau Deisebau Cyhoeddus' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2016.

*Cynigiwyd y cynnig.*

**3. Debate on the Petition Committee's Report on its Review of Public Petitions**

**Y** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Symudwn yn awr at eitem 3, sef dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar ei adolygiad o ddeisebau cyhoeddus, a galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau—William Powell.

Motion NDM5981 William Powell

To propose that the National Assembly for Wales:

Notes the report of the Petitions Committee on the 'Review of Public Petitions Arrangements', which was laid in the Table Office on 2 February 2016.

*Motion moved.*

15:06

**William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, Lywydd. I'm very pleased indeed to be opening this debate today on the Petitions Committee's review of public petitions arrangements here in the National Assembly. The review was carried out at the request of the Presiding Officer and the committee agreed with her that it was timely, at the end of this fourth Assembly, to consider how the system introduced at the start of the third Assembly was working and what room there was to further improve it.

Diolch yn fawr, Lywydd. Rwy'n falch iawn o gael agor y ddadl hon heddiw ar adolygiad y Pwyllgor Deisebau o drefniadau deisebau cyhoeddus yma yn y Cynulliad Cenedlaethol. Cynhaliwyd yr adolygiad ar gais y Llywydd a chytunodd y pwyllgor â hi ei bod yn amserol, ar ddiwedd y pedwerydd Cynulliad, i ni ystyried sut y mae'r system a gyflwynwyd ar ddechrau'r trydydd Cynulliad yn gweithio a pha le oedd i wella ymhellach.

In the first and second Assemblies, there were fewer than 60 petitions overall that were submitted to the Assembly, and very little, if any, action was taken on most of them. Our current petitions arrangements were introduced, as many of you will know, at the start of the third Assembly. Crucially, they required an Assembly committee to consider all admissible petitions. This led to over 260 new petitions submitted in the third Assembly, and I pay tribute at this point to the many colleagues who are in this Chamber still today who played a part in those early days, and took their own part in putting the system in place.

In this Assembly, the Petitions Committee has considered a further 360 new petitions, which together have been signed by over 400,000 people, the vast majority of them from here in Wales. On these figures alone, I think it's fair to say that our petitions system has been something of a success. And the feedback that we have received over the past five years, backed up by the consultations that we carried out as part of our review, indicates that the people of Wales broadly value the system that we have in place.

The petitions system can and does lead to positive change through influencing Government policy, or simply by allowing citizens the chance to have their concerns heard here at the heart of the Welsh democracy. It allows people to get involved in the work of our Assembly, and to bring issues that they care about to light.

I will speak later in a little more detail about our recommendations. But I think it's important to emphasise that the committee did not feel there was a need for fundamental change to the current system. While there's always room for improvement, the committee sees the changes that we've recommended as incremental and evolutionary, rather than revolutionary. We hope that they will result in a more focused and relevant system, while retaining the accessibility that is seen as such a valuable feature of our current arrangements.

Before I move to talk about the committee's recommendations, I want to spend a little time taking a broader view of the work of the Petitions Committee during this Assembly, and highlighting some of the petitions that we have considered together. Petitions cover all aspects of the Assembly and Government's responsibilities. As you might expect, the largest number that we've had relate to health and associated matters—tying in, of course, with the findings of the BBC's poll for St David's Day just yesterday—but education, the environment, transport, the economy, the Welsh language, local government, housing, culture and animal welfare have all attracted significant numbers of petitions too. And there were many others covering a wide range of topics on issues of concern to people the length and breadth of Wales.

Yn y Cynulliad cyntaf a'r ail, cyflwynwyd llai na 60 deisebau i gyd i'r Cynulliad, ac ychydig iawn, os o gwbl, o gamau a gymerwyd mewn perthynas â'r rhan fwyaf ohonynt. Cyflwynwyd ein trefniadau cyfredol ar gyfer deisebau, fel y gŵyr llawer ohonoch, ar ddechrau'r trydydd Cynulliad. Yn allweddol, roedd yn ofynnol i un o bwyllgorau'r Cynulliad ystyried yr holl ddeisebau derbyniadwy. Arweiniodd hyn at gyflwyno dros 260 o ddeisebau newydd yn y trydydd Cynulliad, ac rwy'n talu teyrnged ar y pwynt hwn i'r llu o gyd-Aelodau sy'n dal yn y Siambr hon heddiw a chwaraeodd ran yn y dyddiau cynnar hynny, ac a gymerodd ran eu hunain yn rhoi'r system ar waith.

Yn ystod y Cynulliad hwn, mae'r Pwyllgor Deisebau wedi ystyried 360 ddeisebau newydd pellach, sydd gyda'i gilydd wedi'u llofnodi gan dros 400,000 o bobl, y mwyafrif helaeth ohonynt yma yng Nghymru. Ar y ffigurau hyn yn unig, rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud bod ein system ddeisebau wedi bod yn gryn dipyn o lwyddiant. Ac mae'r adborth a gawsom yn ystod y pum mlynedd diwethaf, wedi'i ategu gan yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd gennym fel rhan o'n hadolygiad, yn dynodi bod pobl Cymru at ei gilydd yn gwerthfawrogi'r system sydd gennym ar waith.

Gall y system ddeisebau arwain at newid cadarnhaol drwy ddyllanwadu ar bolisi Llywodraeth, ac mae'n gwneud hynny, neu'n syml drwy ganiatáu cyfle i ddinasyddion gael eu pryderon wedi'u clywed yma wrth galon democratiaeth Cymru. Mae'n caniatáu i bobl gymryd rhan yng ngwaith ein Cynulliad, ac i roi sylw i'r materion y maent yn malio amdanynt.

Byddaf yn siarad ychydig yn fwy manwl yn nes ymlaen am ein hargymhellion. Ond rwy'n credu ei bod yn bwysig pwysleisio nad oedd y pwyllgor yn teimlo bod angen newid sylfaenol i'r system bresennol. Er bod lle i wella bob amser, mae'r pwyllgor yn gweld y newidiadau rydym wedi'u hargymhell fel rhai cynyddrannol ac esblygol, yn hytrach na chwyldroadol. Rydym yn gobeithio y byddant yn arwain at system â mwy o ffocws a mwy perthnasol, gan gadw'r hygyrchedd a welir fel nodwedd mor werthfawr o'n trefniadau presennol.

Cyn i mi sôn am argymhellion y pwyllgor, hoffwn dreulio ychydig o amser yn edrych yn ehangach ar waith y Pwyllgor Deisebau yn ystod y Cynulliad hwn, a thynnu sylw at rai o'r deisebau rydym wedi'u hystyried gyda'i gilydd. Mae deisebau'n cwmpasu pob agwedd ar gyfrifoldebau'r Cynulliad a'r Llywodraeth. Fel y gallech ddisgwyl, mae'r nifer fwyaf a gawsom yn ymwneud ag iechyd a materion cysylltiedig—sy'n cyd-fynd, wrth gwrs, â chanfyddiadau arolwg y BBC ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi ddoe ddiwethaf—ond mae addysg, yr amgylchedd, trafnidiaeth, yr economi, yr iaith Gymraeg, llywodraeth leol, tai, diwylliant a lles anifeiliaid i gyd wedi denu nifer sylweddol o ddeisebau hefyd. Ac roedd llawer o rai eraill yn cwmpasu ystod eang o bynciau ar faterion sy'n peri pryder i bobl ar hyd a lled Cymru.

Of course, not all of the petitions we receive have been or can be resolved to the complete satisfaction of those who bring them forward. The Petitions Committee does not have executive powers and clearly cannot overrule Government decisions or force particular outcomes. What it can do, as I mentioned earlier, is to help petitioners to achieve positive change through influencing Government policy or policy that's under development, or simply by bringing the issues they care about to light and giving their concerns a fair and equitable hearing.

That is not to say that there have not been some clear successes. As a result of two petitions, from Bethany Walpole-Wroe and from Pembrokeshire Parents Want a Say, the Minister for Education and Skills has written to all local authorities and school governing bodies in Wales, and the regional consortia, to ensure that they are applying the law correctly on allowing children in Wales to take holidays in term time.

A petition from friends of Cwmcarn Forest Drive raised concerns about how the effects of very necessary work to deal with larch disease would affect the future of their valued amenity. The petition led to Natural Resources Wales involving the petitioners in future plans for the drive and a commitment to work with the petitioners to meet their aspirations. The petitioners said that the petition had achieved everything that they had hoped it would achieve.

We are currently considering a petition from Mervyn Lloyd Jones and renowned tree expert Rob McBride about safeguarding the ancient Brimmon oak tree from work associated with the much needed Newtown bypass, again the subject of a very popular petition earlier in this Assembly. Although there are still matters to resolve, the Minister has now confirmed assurances about safeguarding this precious 550-year-old oak tree. Incidentally, as I said, the bypass was also subject to an earlier petition, so it's timely that at the end of this fourth Assembly we see a delivery date for the bypass and we also see that precious tree safeguarded.

We have also dealt with extremely personal issues that raise wider concerns. Think for example of the petition from Emma Jones, whose son was born prematurely at 22 weeks and then tragically died. Even though her baby was born alive, medical assistance was not offered because of the extremely limited prospect of survival before 24 weeks. That is a personal tragedy, but Emma's actions in petitioning us on the wider issue have led to her meeting senior Welsh Government medical officials to discuss the implications of her case and advising them on how guidance in this area can be improved for the future.

Just yesterday, we received a petition on type 1 diabetes from Beth Baldwin, again with her campaign rooted in the tragic loss of her son Peter, but she's positive about bringing this forward so as to bring change for the future.

Wrth gwrs, nid yw pob un o'r deisebau a ddaw i law wedi, neu'n gallu cael eu datrys er boddhad cyflawn i'r rhai sy'n eu cyflwyno. Nid oes pwerau gweithredol gan y Pwyllgor Deisebau ac yn amlwg, ni all wrthod penderfyniadau'r Llywodraeth neu orfodi canlyniadau penodol. Yr hyn y gall ei wneud, fel y soniais yn gynharach, yw helpu deisebwyr i sicrhau newid cadarnhaol drwy ddylanwadu ar bolisi'r Llywodraeth neu bolisi sy'n cael ei ddatblygu, neu ddwyn y materion y maent yn malio amdanynt i sylw, yn syml iawn, a rhoi gwrandawriad teg a chyfiawn i'w pryderon.

Nid yw hynny'n golygu na chafwyd rhai llwyddiannau amlwg. O ganlyniad i ddwy ddeiseb, gan Bethany Walpole-Wroe a chan Pembrokeshire Parents Want a Say, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol a chorff llywodraethu ysgol yng Nghymru, a'r consortia rhanbarthol, i sicrhau eu bod yn cymhwyso'r gyfraith yn gywir ar fater caniatáu i blant yng Nghymru gymryd gwyliau yn ystod y tymor.

Roedd deiseb gan gyfeillion Ffordd Goedwig Cwmcarn yn mynegi pryderon ynglŷn â sut y byddai effeithiau gwaith angenrheidiol iawn i ymdrin â chlefyd y llarwydd yn effeithio ar ddyfodol eu hamwynder gwerthfawr. Arweiniodd y ddeiseb at Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys y deisebwyr mewn cynlluniau ar gyfer y ffordd yn y dyfodol ac ymrwymiad i weithio gyda'r deisebwyr er mwyn bodloni eu dyheadau. Dywedodd y deisebwyr fod y ddeiseb wedi cyflawni popeth y gobeithient y byddai'n ei gyflawni.

Ar hyn o bryd rydym yn ystyried deiseb gan Mervyn Lloyd Jones a'r arbenigwr enwog ar goed, Rob McBride, ynglŷn â diogelu derwen hynafol Brimmon rhag gwaith sy'n gysylltiedig â ffordd osgoi'r Drenewydd sy'n fawr ei hangen, mater a oedd hefyd yn destun deiseb boblogaidd iawn yn gynharach yn y Cynulliad hwn. Er bod materion i'w datrys o hyd, mae'r Gweinidog bellach wedi cadarnhau sicrwydd ynghylch diogelu'r dderwen werthfawr 550 oed hon. Gyda llaw, fel y dywedais, roedd y ffordd osgoi hefyd yn destun deiseb gynharach, felly mae'n amserol ar ddiwedd y pedwerydd Cynulliad hwn ein bod yn gweld dyddiad cyflawni ar gyfer y ffordd osgoi ac yn gweld y goeden werthfawr honno'n cael ei diogelu hefyd.

Rydym hefyd wedi ymdrin â materion hynod o bersonol sy'n codi pryderon ehangach. Meddyliwch, er enghraifft, am y ddeiseb gan Emma Jones, y ganed ei mab 22 wythnos cyn pryd ac a fu farw wedyn yn drasig iawn. Er bod ei baban wedi'i eni'n fyw, ni chynigiwyd cymorth meddygol oherwydd y posibilrwydd cyfyngedig iawn o oroesi cyn 24 wythnos. Mae honno'n drasiedi bersonol, ond mae gweithredoedd Emma yn ein deisebu ar y mater ehangach wedi arwain at gynnal cyfarfod rhyngddi ac uwch swyddogion meddygol Llywodraeth Cymru i drafod goblygiadau ei hachos a'u cynghori ar sut y gellid gwella canllawiau yn y maes ar gyfer y dyfodol.

Ddoe ddiwethaf, cawsom ddeiseb ar ddiabetes math 1 gan Beth Baldwin, gyda'i hymgyrch hithau hefyd wedi'i wreiddio ym marwolaeth drasig ei mab, Peter, ond mae hi'n gadarnhaol ynglŷn â chyflwyno hyn er mwyn creu newid ar gyfer y dyfodol.

More prosaically, a petition calling for the reinstatement of the Wrexham to Barmouth X94 bus service—an extremely important regional link in north Wales—was successful. But, concerns about the provision of regional bus services led to a number of other petitions and these were not matters that the Petitions Committee, with its wide brief but limited time, could resolve to everyone's satisfaction. However, I'm very pleased that our colleagues on the Enterprise and Business Committee took these petitions forward, and the concerns that they raised were taken into account in their inquiry into bus services in Wales, which I understand will be published very shortly.

I want to thank the committee for that, and also to thank other Assembly committees that have taken on petitions into their own work programmes—yet another way in which petitioners do get their voices heard and in which we can make this place work even better.

Animal welfare issues have also featured prominently in our discussions, as I mentioned earlier. Recently, the committee has considered a petition from the RSPCA calling for a ban on the use of wild animals in circuses. The Deputy Minister has now agreed that there is no place for wild animals in circuses and is reviewing how the issue can best be addressed. Members may be surprised to hear that there is currently no legal prohibition in Wales on shooting the rare Greenland white-fronted geese. Following evidence from a petitioner, the Minister has agreed to look again at whether the voluntary ban that's currently in place should be replaced by a more statutory ban. That is a real gain for that species and also for the many people who value them.

Some petitions have led to reports and Plenary debates—debates on the establishment of a Welsh peace institute, on the incineration of waste, on pollution in the Burry inlet and associated issues of cockle mortality, on noise nuisance from wind turbines, on the Maritime and Coastguard Agency in Wales, on army recruitment in schools and, more recently, on the availability of defibrillators in public places. Many of these debates have been informative and, hopefully, enlightening, some in unexpected ways. For instance, in debating the report on whether or not there should be a Welsh cricket team, we discovered that Mohammad Asghar could have become a cricket professional. I think maybe we would agree that cricket's loss was this Assembly's gain—[Interruption.] Anyway, he's not here to take his part, but maybe he'll join us later.

Turning then to our review and its main recommendations, the committee has made 17 recommendations, most of which, given the evolutionary approach I mentioned earlier, are to continue current arrangements. However, we have made a number of important recommendations to be considered for change. Our reasons for these recommendations are set out in more detail in our report. It will of course be for the incoming Business Committee, Assembly and indeed the future Petitions Committee to decide how they should be taken forward in detail, but I will, for the purposes of today's debate, highlight the most significant of the recommendations that we've made.

Yn fwy cyffredin, roedd deiseb yn galw am adfer y gwasanaeth bws X94 Wrecsam i Abermaw—cyswllt rhanbarthol hynod o bwysig yng ngogledd Cymru—yn llwyddiannus. Ond arweiniodd pryderon am y ddarpariaeth o wasanaethau bysiau rhanbarthol at nifer o ddeisebau eraill ac nid oedd y rhain yn faterion y gallai'r Pwyllgor Deisebau, gyda'i friff eang ond amser cyfyngedig, eu datrys er boddhad pawb. Fodd bynnag, rwy'n falch iawn bod ein cyd-Aelodau yn y Pwyllgor Menter a Busnes wedi symud y deisebau hyn yn eu blaen, a chafodd y pryderon a fynegwyd ynddynt eu hystyried yn ei ymchwiliad i wasanaethau bysiau yng Nghymru, ac rwy'n deall y bydd yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir iawn.

Hoffwn ddiolch i'r pwyllgor am hynny, a hefyd i bwyllgorau eraill y Cynulliad sydd wedi cynnwys deisebau yn eu rhaglenni eu hunain—ffordd arall eto y gall deisebwyr leisio barn ac i ni allu gwneud i'r lle hwn weithio hyd yn oed yn well.

Roedd materion lles anifeiliaid hefyd yn cael lle amlwg yn ein trafodaethau, fel y soniais yn gynharach. Yn ddiweddar, mae'r pwyllgor wedi ystyried deiseb gan yr RSPCA yn galw am waharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcau. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi cytuno yn awr nad oes lle i anifeiliaid gwyllt mewn syrcau ac mae'n adolygu sut y gellir mynd i'r afael â'r mater yn y ffordd orau. Efallai y bydd yr Aelodau'n synnu clywed nad oes unrhyw waharddiad cyfreithiol yng Nghymru ar saethu'r rhywogaeth brin, gwyddau talcenwyn yr Ynys Las, ar hyn o bryd. Yn dilyn tystiolaeth gan ddeisebydd, mae'r Gweinidog wedi cytuno i edrych eto i weld a ddylid cael gwaharddiad mwy statudol yn lle'r gwaharddiad gwirfoddol sydd eisoes ar waith. Dyma gam ymlaen go iawn i'r rhywogaeth honno a hefyd i'r nifer o bobl sy'n eu hystyried yn werthfawr.

Mae rhai deisebau wedi arwain at adroddiadau a dadleuon yn y Cyfarfod Llawn—dadleuon ar sefydlu sefydliad heddwch i Gymru, ar losgi gwastraff, ar lygredd yng Nghilfach Tywyn a materion sy'n gysylltiedig â marwolaethau cocos, ar niwsans sŵn o dyrbinau gwynt, ar Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yng Nghymru, ar recriwtio i'r fyddin mewn ysgolion ac yn fwy diweddar, ar argaeledd diffibrilwyr mewn mannau cyhoeddus. Mae llawer o'r dadleuon hyn wedi bod yn llawn gwybodaeth ac yn gyfrwng i oleuo, gobeithio, a hynny mewn ffyrdd annisgwyl weithiau. Er enghraifft, wrth drafod yr adroddiad yn edrych a ddylid cael tîm criced i Gymru, darganfuom y gallai Mohammad Asghar fod wedi bod yn gricedwr proffesiynol. Rwy'n meddwl efallai y byddem yn cytuno mai'r golled i'f yd criced oedd ein helw ni yn y Cynulliad hwn—[Torri ar draws.] Beth bynnag, nid yw yma i siarad ar ei ran ei hun, ond efallai y bydd yn ymuno â ni yn nes ymlaen.

Gan droi wedyn at ein hadolygiad a'i brif argymhellion, mae'r pwyllgor wedi gwneud 17 o argymhellion, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt, o gofio'r dull esblygol y soniais amdano'n gynharach, yn parhau'r trefniadau presennol. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion pwysig i'w hystyried ar gyfer newid. Mae ein rhesymau dros yr argymhellion hyn wedi'u nodi'n fwy manwl yn ein hadroddiad. Wrth gwrs, mater i'r Pwyllgor Busnes, y Cynulliad ac yn wir y Pwyllgor Deisebau yn y dyfodol fydd penderfynu sut y dylid eu datblygu'n fanwl, ond at ddibenion y ddadl heddiw, fe dynnaf sylw at y mwyaf arwyddocaol o'r argymhellion a wnaethom.

Firstly, reflecting evidence submitted by the public and stakeholders, the minimum number of signatures for a petition should be increased from the current figure of 10 to 50, and from one to 50 for petitions from organisations. We have recommended that anyone, including people under 18, should continue to have the right to sign petitions that are submitted. However, only people resident in Wales or organisations with a base in Wales should be able to submit a petition in the first place.

The Petitions Committee should continue to deal only with petitions that are within the competence of the National Assembly for Wales or the powers of Welsh Ministers. However, so that the Assembly as a whole can reflect on wider issues, we have recommended that the Assembly's online petition system should be able to be used to submit petitions on non-devolved matters that relate to Wales.

We've also recommended that the incoming Petitions Committee should develop clear criteria for prioritising the consideration of petitions and for which petitions are debated in Plenary. And, so that it can look at the whole process in the round, the Petitions Committee should become responsible for deciding the admissibility criteria for petitions and should publish the outcomes of petitions when they come to being closed. Although it is not for this Assembly to decide the petitions system going forward, I hope that the debate today offers a sounding board for any views that Members may have on our recommendations, which I hope can then be given more detailed consideration by the Business Committee very early in the new Assembly.

In concluding, Lywydd, I would like to thank the members of the committee for their work—it's been a committee of stable membership throughout this Assembly and that, I think, is to be valued in many ways—for the extreme diligence that they've shown, and I'm very grateful for that, and also for the non-partisan nature of so many of our deliberations. I'd also like to thank the petitions staff, both those in place currently and those who have moved on to other functions within this Assembly. They've given our work enormous support over the period and I'm immensely grateful to them. They also helped to produce the report that we have before us today. Diolch yn fawr.

Yn gyntaf, gan adlewyrchu'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y cyhoedd a rhanddeiliaid, dylid cynyddu'r nifer lleiaf o lofnodion ar ddeiseb o'r ffigur presennol o 10 i 50, ac o un i 50 ar gyfer deisebau gan sefydliadau. Rydym wedi argymhell y gall unrhyw un, gan gynnwys pobl o dan 18 oed, barhau i gael yr hawl i lofnodi deisebau a gyflwynir. Fodd bynnag, pobl sy'n byw yng Nghymru neu sefydliadau sydd â chanolfan yng Nghymru yn unig a ddylai allu cyflwyno deiseb yn y lle cyntaf.

Dylai'r Pwyllgor Deisebau barhau i ymdrin yn unig â deisebau sydd o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu bwerau Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, er mwyn i'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd allu myfyrio ar faterion ehangach, rydym wedi argymhell y dylid gallu defnyddio system ddeisebau ar-lein y Cynulliad i gyflwyno deisebau ar faterion nad ydynt wedi'u datganoli sy'n ymwneud â Chymru.

Rydym wedi argymhell hefyd y dylai'r Pwyllgor Deisebau newydd ddatblygu meini prawf clir ar gyfer blaenoriaethu ystyriaeth o ddeisebau a'r deisebau a gaiff eu trafod yn y Cyfarfod Llawn. Ac er mwyn iddo allu edrych ar y broses gyfan o bob cyfeiriad, dylai'r Pwyllgor Deisebau ddod yn gyfrifol am benderfynu ar y meini prawf derbynoldeb ar gyfer deisebau a dylai gyhoeddi canlyniadau deisebau pan ddaw'n bryd eu cau. Er nad mater i'r Cynulliad hwn yw penderfynu ar y system ddeisebau wrth symud ymlaen, rwy'n gobeithio y bydd y ddadl hon heddiw yn cynnig fforwm drafod i unrhyw farn a fo gan Aelodau ar ein hargymhellion, a gobeithiaf y bydd modd i'r Pwyllgor Busnes eu hystyried yn fwy manwl wedyn yn gynnar iawn yn y Cynulliad newydd.

Wrth gloi, Lywydd, hoffwn ddiolch i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith—bu'n bwyllgor gydag aelodaeth sefydlog drwy gydol y Cynulliad hwn ac mae hynny, rwy'n meddwl, i'w werthfawrogi mewn llawer o ffyrdd—am y diwydrwydd eithafol y maent wedi'i ddangos, ac rwy'n ddiolchgar iawn am hynny, a hefyd am natur amhleidiol cynifer o'n trafodaethau. Hoffwn ddiolch hefyd i'r staff deisebau, y rhai sydd yn eu swyddi ar hyn o bryd a'r rhai sydd wedi symud ymlaen i swyddogaethau eraill yn y Cynulliad hwn. Maent wedi rhoi cymorth enfawr i'n gwaith dros y cyfnod ac rwy'n hynod o ddiolchgar iddynt. Maent hefyd wedi helpu i gynhyrchu'r adroddiad sydd ger ein bron heddiw. Diolch yn fawr.

15:19

## Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Petitions Committee, as everybody knows, was established at the start of the Assembly, and I've been a member since 2011. My experience in the involvement in that committee leads me to the conclusion that, if we didn't have a Petitions Committee, we would establish one. I believe that it does perform a necessary and valuable role in the way in which the Welsh Assembly works and in particular the relationship the general public in Wales has with the Assembly as a devolved legislature and institution.

Sefydlwyd y Pwyllgor Deisebau ar ddechrau'r Cynulliad, fel y mae pawb yn gwybod, ac rwyf wedi bod yn aelod ers 2011. Mae fy mhrofiad yn cyfrannu yn y pwyllgor hwnnw yn fy arwain i'r casgliad, pe na bai gennyf Bwyllgor Deisebau, y byddem yn sefydlu un. Credaf ei fod yn cyflawni rôl angenrheidiol a gwerthfawr yn y ffordd y mae Cynulliad Cymru yn gweithio ac yn arbennig y berthynas sydd gan y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru â'r Cynulliad fel deddfwrfa a sefydliad datganoledig.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The National Assembly for Wales, as laid down in its constitution, is the democratically elected body that represents the interests of Wales and its people. It isn't set up to be always adversarial and confrontational. It sometimes is, of course, but that is not the main purpose. The Petitions Committee embodies that principle, and I believe that and share that view that has been expressed already by the previous speaker. Our discussions are rarely adversarial and they are never confrontational. If I were pushed to say what we do, I would say that we are open to ideas and we look to make improvements where things can be made better.

The patron saint of Wales, St David, or Dewi Sant, told us that we should look after the little things. The accumulation of little things can, ultimately, make a big difference. And it is the case that, very often, the little things that we have done have made a big difference to the people of Wales and the people whom we have represented. It is at this point that I would like to thank the people who have brought very often heartfelt petitions to our notice, very often giving us evidence in a very dignified way, and I'm sure that my colleagues would share my thoughts on that.

We do have an opportunity in Plenary, very often, to grandstand, but in the discussions of the Petitions Committee, we prefer, somehow, to get to grips with the issues that are of burning importance locally, but all too often are, and could be, sidestepped when matters of national importance take their place.

Petitions presentations do offer campaigners a chance to present their petitions in person to members of the committee here at the Senedd, and we can discuss the issues. It does help generate media interest and public awareness. It's not a statutory function of the committee, but we do feel that it's an important part of that overall process. The Presiding Officer, in her response to the report, does say that she's somewhat sceptical about the committee's first recommendation that consideration should be given to allowing the Assembly's online petitions system to be used to collect signatures on non-devolved matters that relate to Wales, and goes on to say that she believes that the new Presiding Officer will need to give careful consideration to both the resource implications of that change and the usefulness of the public petitioning the Assembly on non-devolved matters.

I agree with that sentiment, and, of course, it is the case that devolution is a process and that things will change and that we will have to keep up with the pace of that change. We do, after all, want to encourage as many people to engage here on those matters of interest to them, but at the same time, we don't want to raise expectations about what we can and cannot do; we do have to be realistic. I believe that a healthy democracy does thrive on the exchange of views on matters of political importance, wherever those matters reside.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel y nodir yn ei gyfansoddiad, yw'r corff a etholwyd yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Nid yw wedi'i sefydlu i fod yn wrthwynebus ac yn ymosodol bob amser. Mae felly weithiau, wrth gwrs, ond nid dyna'r prif bwrpas. Mae'r Pwyllgor Deisebau yn ymgorffori'r egwyddor honno, ac rwy'n credu hynny ac yn rhannu'r farn honno a fynegwyd eisoes gan y siaradwr blaenorol. Anaml y mae ein trafodaethau'n wrthwynebus ac nid ydynt byth yn ymosodol. Pe cawn fy ngwthio i ddweud beth rydym yn ei wneud, byddwn yn dweud ein bod yn agored i syniadau ac yn ceisio gwneud gwelliannau lle y gellir gwneud pethau'n well.

Dywedodd nawddsant Cymru, Dewi Sant, wrthym y dylem edrych ar ôl y pethau bychain. Gall casgliad o bethau bach, yn y pen draw, wneud gwahaniaeth mawr. Ac mae'n wir, yn aml iawn, fod y pethau bach rydym wedi'u gwneud wedi gwneud gwahaniaeth mawr i bobl Cymru a'r bobl rydym wedi'u cynrychioli. Ar y pwynt hwn hoffwn ddiolch i'r bobl sydd wedi cyflwyno deisebau sy'n aml yn daer iawn i'n sylw, gan roi tystiolaeth i ni'n aml mewn modd urddasol iawn, ac rwy'n siŵr y byddai fy nghyd-Aelodau yn rhannu fy marn ar hynny.

Cawn gyfle yn y Cyfarfod Llawn, yn aml, i siarad yn orchestol, ond yn nhrefodaethau'r Pwyllgor Deisebau, mae'n well gennym, rywsut, fynd i'r afael â'r materion sydd o bwys mawr yn lleol, ond sy'n rhy aml, o bosibl, yn cael eu hanwybyddu pan fo materion o bwys cenedlaethol yn cymryd eu lle.

Mae cyflwyniadau deisebau yn rhoi cyfle i ymgyrchwyr gyflwyno eu deisebau yn bersonol i aelodau'r pwyllgor yma yn y Senedd, a gallwn drafod y materion sy'n codi. Mae'n helpu i ennyn diddordeb y cyfryngau ac ymwybyddiaeth y cyhoedd. Nid yw'n un o swyddogaethau statudol y pwyllgor, ond rydym yn teimlo eu bod yn rhan bwysig o'r broses gyffredinol. Mae'r Llywydd, yn ei hymateb i'r adroddiad, yn dweud ei bod hi'n braidd yn amheus ynglŷn ag argymhelliad cyntaf y pwyllgor y dylai ystyried caniatáu i system ddeisebau ar-lein y Cynulliad gael ei defnyddio i gasglu llofnodion ar faterion heb eu datganoli sy'n ymwneud â Chymru, ac mae'n mynd rhagddi i ddweud ei bod yn credu y bydd angen i'r Llywydd newydd roi ystyriaeth ofalus i oblygiadau'r newid hwnnw o ran adnoddau a pha mor ddefnyddiol yw hi i'r cyhoedd ddeisebu'r Cynulliad ar faterion heb eu datganoli.

Rwy'n cytuno â'r farn honno, ac wrth gwrs, mae'n wir mai proses yw datganoli ac y bydd pethau'n newid ac y bydd yn rhaid i ni gadw i fyny gyda chyflymder y newid hwnnw. Wedi'r cyfan, rydym yn awyddus i annog cymaint o bobl ag y gallwn i gymryd rhan yma ar y materion hynny sydd o ddiddordeb iddynt, ond ar yr un pryd, nid ydym eisiau codi disgwyliadau ynglŷn â'r hyn y gallwn ac na allwn ei wneud; mae'n rhaid i ni fod yn realistig. Credaf fod democratiaeth iach yn ffynnu ar gyfnewid barn ar faterion o bwys gwleidyddol, pwy bynnag fydd yn gyfrifol am y materion hynny.

It is the case very often that we take petitions and we consider things on the law of unexpected consequences. That is usually taken as a warning against action. Sometimes, however, the unexpected is an opportunity that was not anticipated. I am very pleased to have an opportunity both to have served on the Petitions Committee and, equally, to have had an opportunity here today to discuss some of that work.

Mae'n wir yn aml iawn ein bod yn cymryd deisebau ac yn ystyried pethau yn ôl deddf canlyniadau annisgwyl. Fel arfer, mae hynny'n cael ei gymryd fel rhybudd rhag gweithredu. Weithiau, fodd bynnag, mae'r annisgwyl yn gyfle nas rhagwelwyd. Rwy'n falch iawn o fod wedi cael cyfle i wasanaethu ar y Pwyllgor Deisebau ac yn yr un modd, o gael cyfle yma heddiw i drafod peth o'r gwaith hwnnw.

15:24

## **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm pleased to take part in this debate today. Firstly, my thanks go to the Chair, William Powell, for setting out our report's findings and recommendations. I would just like to use my time to reflect on my experience on the committee during the last five years. I first got involved with the Petitions Committee before I was a Member of this institution. I was a petitioner and I remember coming down here on a bus with 50 other people and presenting that petition to the then Chairperson, Christine Chapman, who I met then for the first time, and handing it to Christine and Andrew R.T. Davies, who was a Member from the Conservative group. But, for me, as somebody who led that petition, it was useful to be on the other side. I now meet people every week who hand in petitions and I have an understanding of where they're coming from. For me, it was a good experience, and on the way back on that coach I felt a sense, and all those other 50 people, that we had actually taken part in the democratic process of bringing about change. They weren't just moaning about something, they were bringing forward change, and that was the view of all 50 people, apart from one lady whom I spoke to on the way back. I asked her about her experience and she said she wasn't that concerned about the Newtown bypass, she just wanted a day out in Cardiff. [Laughter.] But, apart from that, people were very passionate on that coach trip.

Of course, as it happens, that petition was closed only last Tuesday, after being on the committee's books for over five years, because it had achieved the objectives of the petition. But, to me, the strengths of the committee are that, for me, anyway, it's the most public facing of all committees, and because, while there might only be four of us, and we may only meet for a few hours once a fortnight, we also meet, of course, every week, normally on a Tuesday or a Wednesday lunchtime, when we receive petition hand-ins. For me, that's the strength of the committee.

Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddatl heddiw. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd, William Powell, am nodi canfyddiadau ac argymhellion ein hadroddiad. Hoffwn ddefnyddio fy amser i fyfrio ar fy mhrofiad ar y pwyllgor dros y pum mlynedd diwethaf. Deuthum i gysylltiad â'r Pwyllgor Deisebau cyn i mi ddod yn Aelod o'r sefydliad hwn. Roeddwn yn ddeisebydd ac rwy'n cofio dod i lawr yma ar fws gyda 50 o bobl eraill a chyflwyno'r ddeiseb honno i'r Cadeirydd ar y pryd, Christine Chapman, y cyfarfûm â hi am y tro cyntaf y pryd hwnnw, a'i throsglwyddo i Christine ac Andrew R.T. Davies, a oedd yn Aelod o'r grŵp Ceidwadol. Ond i mi, fel rhywun a oedd yn arwain y ddeiseb honno, roedd yn ddefnyddiol bod ar yr ochr arall. Rwy'n awr yn cyfarfod â phobl bob wythnos sy'n cyflwyno deisebau ac mae gennyf ddealltwriaeth o ble maent yn dod. I mi, roedd yn brofiad da, ac ar y ffordd yn ôl ar y bws roeddwn yn teimlo, gyda'r 50 o bobl eraill hynny, ein bod wedi cymryd rhan go iawn yn y broses ddemocrataidd o sicrhau newid. Nid cwyno am rywbeth yn unig a wnaent, roeddent yn creu newid, a dyna oedd barn pawb o'r 50 o bobl, ar wahân i un wraig y siaradais â hi ar y ffordd yn ôl. Gofynnais iddi am ei phrofiad a dywedodd nad oedd hi mor bryderus â hynny am ffordd osgoi'r Drenewydd, roedd hi eisiau diwrnod allan yng Nghaerdydd, dyna i gyd. [Chwerthin.] Ond, ar wahân i hynny, roedd pobl yn teimlo'n angerddol iawn ar y daith bws honno.

Wrth gwrs, fel y mae'n digwydd, ddydd Mawrth diwethaf yn unig y caeodd y ddeiseb honno, ar ôl bod ar lyfrau'r pwyllgor ers dros bum mlynedd, gan ei fod wedi cyflawni amcanion y ddeiseb. Ond i mi, cryfderau'r pwyllgor yw mai dyna'r pwyllgor sy'n ymwneud fwyaf â'r cyhoedd o'r holl bwyllgorau, ac er efallai mai dim ond pedwar ohonom sydd yna, ac efallai nad ydym ond yn cwrdd am ychydig oriau unwaith bob pythefnos, rydym hefyd yn cyfarfod yn wythnosol, wrth gwrs, fel arfer ar ddydd Mawrth neu amser cinio ddydd Mercher, pan fyddwn yn cael y deisebau a gyflwynir. I mi, dyna yw cryfder y pwyllgor.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



I'd also say, for me, it's a privilege to meet so many diverse groups of people. We meet people who are experts in their field; they've been experts for perhaps decades on a particular issue, and they feel so passionate about something. Sometimes, we meet people who are passionate about something as a result of the petition process, and they've developed their skills, and other times, we meet people who bring forward a petition out of frustration about something that's happened in their life as well. For example, of course, only yesterday, we had the type 1 diabetes petition brought to us. That's humbling for us as committee members, because—the petitioner won't mind me saying—there were tears in the petitioner's eyes as they handed in the petition. That's, of course, humbling for us as committee members—to speak to that person and the other people who'd brought in that petition, as well.

But, Chair, I would like to also just pay tribute to a few people. I'd like to thank the Chair for his diligence in chairing the meetings every fortnight and never missing anything from the agenda. I would like to thank my colleague Bethan Jenkins for bringing liveliness to proceedings. [Laughter.] I would like to thank Joyce Watson for bringing things back down to ground level. Joyce's favourite phrase is, 'Chair, we do need consistency', in a normal Joyce fashion. But also, of course, I would like to thank the petition clerks and the legal team, who have been a real support to us as Members. I would greatly like to thank them and also, of course, more than anything, I would like to thank the petitioners themselves as well. Thank you, Chair.

15:29

## **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'll try and have a lively debate here today, Russell, just in your name. I would like to thank everybody involved in the petitions process, notwithstanding the fact that I think, potentially, I've been the longest-standing member of the Petitions Committee, having been on it since 2007 when I was first elected. But, do you know what, I think the petitions system is the door to the Assembly? It might sound cheesy and it might sound corny, but we meet so many different people, as Russell has said, from so many different walks of life, I actually tell quite a lot of people I feel like I'm the AM for Wales, quite often. I'm answering e-mails from people in Llanystumdwy, Ceredigion, Blaenau Gwent—all on these issues, because they feel then, because you're on the committee, that you'll be able to directly help them through other processes in politics that many other AMs may not see behind closed doors. So, you do have to manage expectations. But the fact that they can feel that the petitions system is their system is something that we have over other countries in the world, that they come and look at us as an example of how we engage with people here in Wales.

Buaswn yn dweud hefyd, i mi, mae'n fraint i gyfarfod â chymaint o grwpiau amrywiol o bobl. Rydym yn cyfarfod â phobl sy'n arbenigwyr yn eu maes; maent wedi bod yn arbenigwyr ers degawdau o bosibl ar fater arbennig, ac maent yn teimlo mor angerddol am rywbeth. Weithiau, rydym yn cyfarfod â phobl sy'n angerddol am rywbeth o ganlyniad i'r broses ddeisebu, ac maent wedi datblygu eu sgiliau, ac ar adegau eraill, rydym yn cyfarfod â phobl sy'n cyflwyno deiseb oherwydd rwystredigaeth ynglŷn â rhywbeth sydd wedi digwydd yn eu bywydau hefyd. Er enghraifft, wrth gwrs, ddoe ddiwethaf, cyflwynwyd y ddeiseb diabetes math 1 i ni. Mae hynny'n gwneud i ni fel aelodau'r pwyllgor deimlo'n wylaidd iawn, oherwydd—ni fydd gan y deisebydd wrthwynebiad i mi ddweud—roedd dagrau yn llygaid y deisebydd wrth iddynt gyflwyno'r ddeiseb. Mae hynny, wrth gwrs, yn gwneud i ni fel aelodau'r pwyllgor deimlo'n wylaidd iawn—siarad â'r person a'r bobl eraill a ddaeth â'r ddeiseb atom hefyd.

Ond, Gadeirydd, hoffwn dalu teyrnged i ychydig o bobl hefyd. Hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd am ei ddiwydrwydd yn cadeirio'r cyfarfodydd bob pythefnos heb golli dim oddi ar yr agenda. Hoffwn ddiolch i fy nghyd-Aelod Bethan Jenkins am ddod â bywiogrwydd i'r trafodion. [Chwerthin.] Hoffwn ddiolch i Joyce Watson am ddod â phethau yn ôl i lawr i lefel y ddaear. Hoff ymadrodd Joyce yw, 'Gadeirydd, rydym angen cysondeb', yn ôl arfer Joyce. Ond hefyd, wrth gwrs, hoffwn ddiolch i glercodydd y pwyllgor deisebau a'r tîm cyfreithiol sydd wedi bod yn gymorth mawr i ni fel Aelodau. Hoffwn yn fawr ddiolch iddynt a hefyd, wrth gwrs, yn fwy na dim, hoffwn ddiolch i'r deisebwyr eu hunain hefyd. Diolch, Gadeirydd.

Fe geisïaf gael trafodaeth fywiog yma heddiw, Russell, yn eich enw chi. Hoffwn ddiolch i bawb sy'n ymwneud â'r broses ddeisebau, heb ystyried y ffaith fy mod yn meddwl, o bosibl, mai fi sydd wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor Deisebau hiraf, gan fy mod yn aelod ohono ers 2007 pan gefais fy ethol gyntaf. Ond, wyddoch chi beth, rwy'n credu mai'r system ddeisebau yw'r drws i'r Cynulliad? Efallai ei fod yn swinio'n droedig ac efallai ei fod yn swinio'n wirion, ond rydym yn cyfarfod â chymaint o bobl wahanol, fel y dywedodd Russell, o gymaint o wahanol gefndiroedd mewn bywyd, rwy'n dweud wrth gryn dipyn o bobl fy mod yn teimlo'n aml iawn fy mod yn AC dros Gymru. Rwy'n ateb negeseuon e-bost gan bobl yn Llanystumdwy, Ceredigion, Blaenau Gwent—i gyd ar y materion hyn, am eu bod yn teimlo wedyn, oherwydd eich bod ar y pwyllgor, y gallwch eu helpu'n uniongyrchol drwy brosesau eraill mewn gwleidyddiaeth nad yw llawer o ACau eraill efallai yn ei weld y tu ôl i ddrysau caeedig. Felly, mae'n rhaid i chi reoli disgwyliadau. Ond mae'r ffaith eu bod yn gallu teimlo bod y system ddeisebau yn system sy'n eiddo iddynt hwy yn rhywbeth nad oes gan wledydd eraill y byd mohono, ac maent yn edrych arnom fel enghraifft o'r modd rydym yn ymgysylltu â phobl yma yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

We have got recommendations here, which the Chair has eloquently spoken of, but I think, as a party, we would like to go further. I mean, we've already said that we'd want to introduce a Welsh representation of people's Act. So I would want to take the petitions system further to where it is at the moment, for example, looking at how we could encourage a discussion on petitions online, potentially having votes on the popularity of an issue that we have on the Petitions Committee.

One of the ideas that we had from an evidence session, which didn't make it to a recommendation, was a citizen panel of debate around a petition. I thought that was a really good recommendation, because sometimes, you know, Assembly Members don't have the answer to everything. And if we looked at specialists in the field, say, on an environmental issue, we could have a panel of environmentalists who would give us recommendations on key issues. And I think that would really aid us. I mean, it may be complex, it may lead to problems, but let's look at it, let's investigate the possibility of doing that.

I also believe—potentially controversially—that we should have a rotating representation of Assembly Members on the committee. Because there are quite a lot of AMs—and no disrespect to you—who have never sat on the Petitions Committee and I think it's a really good way of embracing different issues that may not come through your postbag, that you may never have introduced yourself to. Because, you know, I haven't done much on type 1 diabetes—I'll hold my hand up to that—but, yesterday, when I met the mother of Peter, who had died, from Whitchurch, I was really moved and I was shaken. So, I did some research last night on type 1 diabetes to try and understand more, because it will be coming to the Petitions Committee for us to deliberate on. So, you know, these things can trigger activity in our own minds.

We're never standing still as AMs, are we? We're always trying to learn, and I think that the petitions system needs to adapt to that. It's such a small committee, after all. Sometimes, if Lindsay—because he's lovely—will sub for me, and Elin Jones has subbed for me previously too—[Interruption.] Well, sometimes lovely, when she's not chief whip—no, I'm joking. They can bring something new to the debate, because they have their own expertise on a given issue, so they can add a dimension that I, potentially, wouldn't have been able to have done.

Mae gennym argymhellion yma, ac mae'r Cadeirydd wedi siarad yn huawdl amdanynt, ond rwy'n meddwl, fel plaid, y byddem yn hoffi mynd ymhellach. Hynny yw, rydym eisoes wedi dweud ein bod eisiau cyflwyno Deddf cynrychiolaeth y bobl ar gyfer Cymru. Felly byddwn yn awyddus i fynd â'r system ddeisebau ymhellach na lle y mae ar hyn o bryd gan edrych, er enghraifft, ar sut y gallem annog trafodaeth ar ddeisebau ar-lein, gan gynnal pleidlais o bosibl ar boblogrwydd mater a gyflwynwyd i ni ar y Pwyllgor Deisebau.

Un o'r syniadau a gawsom mewn sesiwn dystiolaeth, nad aeth mor bell â chael ei wneud yn argymhelliad, oedd panel dinasyddion i drafod deiseb. Roeddwn yn meddwl bod hwnnw'n argymhelliad da iawn, oherwydd weithiau, wyddoch chi, nid oes gan Aelodau'r Cynulliad ateb i bopeth. Ac os edrychwn ar arbenigwyr yn y maes, dyweder, ar fater amgylcheddol, gallem gael panel o amgylcheddwyr a fyddai'n rhoi argymhellion i ni ar faterion allweddol. Ac rwy'n credu y byddai hynny mewn gwirionedd yn ein cynorthwyo ni. Hynny yw, efallai ei fod yn gymhleth, efallai y gall arwain at broblemau, ond gadewch i ni edrych arno, gadewch i ni ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud hynny.

Rwyf hefyd yn credu—a gallai hyn fod yn ddadleuol—y dylem gael cynrychiolaeth sy'n cylchdroi o Aelodau'r Cynulliad ar y pwyllgor. Oherwydd ceir cryn dipyn o ACau—a dim amarch i chi—nad ydynt erioed wedi bod yn aelodau o'r Pwyllgor Deisebau ac rwy'n credu ei bod yn ffordd dda iawn o ymwneud â gwahanol faterion nad ydynt efallai'n dod drwy eich bag post, pethau nad ydych wedi cyflwyno eich hun iddynt o bosibl. Oherwydd, wyddoch chi, nid wyf wedi gwneud llawer ar ddiabetes math 1—rwy'n cyfaddef hynny—ond ddoe, pan gyfarfûm â mam Peter, a oedd wedi marw, o'r Eglwys Newydd, cefais fy nghyffwrdd go iawn, cefais ysgytwad. Felly, fe wnes ychydig o ymchwil neithiwr ar ddiabetes math 1 i geisio deall mwy, gan y bydd yn dod gerbron y Pwyllgor Deisebau i ni ei ystyried. Felly, wyddoch chi, gall y pethau hyn achosi i ni fynd ati i feddwl am bethau ein hunain.

Nid ydym byth yn sefyll yn llonydd fel ACau, ydym ni? Rydym bob amser yn ceisio dysgu, ac rwy'n meddwl bod angen i'r system ddeisebau addasu i hynny. Mae'n bwyllgor mor fach, wedi'r cyfan. Weithiau, os yw Lindsay—am ei fod yn hyfryd—yn dirprwyo ar fy rhan, ac mae Elin Jones wedi cymryd fy lle o'r blaen hefyd—[Torri ar draws.] Wel, weithiau mae'n hyfryd, pan nad yw'n brif chwip—na, rwy'n tynnu coes. Gallant ddod â rhywbeth newydd i'r ddadl, oherwydd bod ganddynt eu harbenigedd eu hunain ar fater dan sylw, felly gallant ychwanegu dimensiwn na fuaswn i, o bosibl, wedi gallu ei gynnig.

I think, also, locally, we put in a petition on the steel industry, in terms of part funding a power plant in Port Talbot, as a result of the issue with Tata Steel. And, you know, there was some deliberations with the committee clerk as to what was permissible, what was able to be put in. And I think, for the petitioner, they just want to be able to put a petition in, and they don't want to have to discuss the bureaucracy around the wording. So, I would urge any new committee to sort of take that away from the petitioner, because we don't want to make it difficult for them to be able to understand. So, if they think that something is to do with Wales, and rightfully so, then let's just take that off them, and reword it for them, and come back to them, so it's easy. I think, sometimes, we put a lot of work onto the petitioner themselves to do, to rejig wording, and quite often they don't want to have to do that—they want to get out there and campaign.

What I will finish on is that I think that Petitions Committee is different to a lot of the other committees, in that we do get people from all walks of life. Sometimes on committees, you can see the usual suspects—I won't name names. But I think it's good, in the sense that we meet people who would never have come and given evidence before, but they've enjoyed that experience, and they've really got quite a lot out of it. So, I thank everyone on the committee. I'm not sure I'm going to go around and sort of characterise everybody, as Russell did, but thank you to the staff, and thank you to the Chair, especially, for all the hard work. And, hopefully, the petitions system can continue to the future.

Rwy'n meddwl, hefyd, yn lleol, cyflwynasom ddeiseb ar y diwydiant dur, o ran ariannu gorsaf bŵer yn rhannol ym Mhort Talbot, o ganlyniad i'r broblem gyda Tata Steel. Wyddoch chi, roedd rhywfaint o drafodaethau gyda chlerc y pwyllgor ynghylch yr hyn a ganiateid, beth y gellid ei roi i mewn. Ac rwy'n meddwl, i'r deisebydd, maent ond eisiau cyflwyno deiseb, ac nid ydynt am drafod y fwiwcratiaeth ynghylch y geiriad. Felly, byddwn yn annog unrhyw bwyllgor newydd i ryw fath o arbed y deisebydd rhag hynny, oherwydd nid ydym am ei gwneud yn anodd iddynt allu deall. Felly, os ydynt yn credu bod rhywbeth yn ymwneud â Chymru, ac yn briodol felly, yna gadewch i ni eu harbed rhag hynny, a'i aileirio ar eu rhan, a dod yn ôl atynt, felly mae'n hawdd. Rwy'n credu, weithiau, ein bod yn rhoi llawer o waith i'r deisebwyr eu hunain ei wneud, i ailwampio'r geiriad, ac yn aml iawn nid ydynt am orfod gwneud hynny—maent am fynd allan i ymgyrchu.

Yr hyn rwyf am orffen arno yw fy mod yn meddwl bod y Pwyllgor Deisebau yn wahanol i lawer o'r pwyllgorau eraill, yn yr ystyr ein bod yn cael pobl o bob cefndir. Weithiau ar bwyllgorau, gallwch weld yr un hen wynebau—nid wyf am enwi enwau. Ond rwy'n credu ei bod yn dda, yn yr ystyr ein bod yn cyfarfod â phobl na fyddent byth wedi dod i roi tystiolaeth o'r blaen, ond maent wedi mwynhau'r profiad hwnnw, ac maent wedi elwa cryn dipyn ohono mewn gwirionedd. Felly, rwy'n diolch i bawb ar y pwyllgor. Nid wyf yn siŵr fy mod yn mynd i fynd o gwmpas a nodi pawb yn benodol, fel y gwnaeth Russell, ond diolch i'r staff, a diolch i'r Cadeirydd, yn arbennig, am yr holl waith caled. A gobeithio y gall y system ddeisebau barhau i'r dyfodol.

15:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on William Powell to reply to the debate—in two minutes.

Galwaf ar William Powell i ymateb i'r ddadl—mewn dau funud.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:34 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Lywydd. It's great to have had the range of contributions that we've had from those Members who have made the committee what it has been over these past five years. Joyce Watson, in her contribution, emphasised the importance of the committee, as giving members of the public a direct route into this Assembly. She also spoke warmly of the value of a non-partisan and non-confrontational approach, which is not always her style, but it's the style that she has brought to the Petitions Committee and in some form. She quoted Dewi Sant: 'y pethau bychain'. That is what matters: the small things, and people bringing issues forward in a heartfelt way, as we saw yesterday. Everyone who has spoken has spoken about Beth Baldwin yesterday and her petition on type 1 diabetes. That really, really struck us.

Diolch yn fawr, Lywydd. Mae'n wych bod wedi cael yr amrywiaeth o gyfraniadau a gawsom gan yr Aelodau sydd wedi gwneud y pwyllgor yr hyn a fu dros y pum mlynedd diwethaf. Pwysleisiodd Joyce Watson, yn ei chyfraniad, bwysigrwydd y pwyllgor fel llwybr uniongyrchol i aelodau'r cyhoedd i mewn i'r Cynulliad hwn. Siaradodd hefyd yn gynnes am werth ymagwedd amhleidiol ac annadleuol, ac nid dyna yw ei steil bob amser, ond dyna'i steil yn y Pwyllgor Deisebau yn bendant iawn. Dyfynnodd Ddewi Sant: 'y pethau bychain'. Dyna beth sy'n bwysig: y pethau bychain, a phobl yn cyflwyno materion mewn ffordd deimladwy iawn, fel y gwelsom ddoe. Soniodd pawb a siaradodd am Beth Baldwin ddoe a'i deiseb ar ddiabetes math 1. Gwnaeth hynny argraff enfawr arnom mewn gwirionedd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:35 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for giving way and can I thank you and the committee for the attention that you gave to Beth Baldwin's petition, who is one of my constituents? I know how important it was for her to follow up the tragic death of Peter with the petition, which was highlighting the difficult issues and highlighting the issue of type 1 diabetes. So, I'd like to thank the committee for its consideration of that.

Diolch i chi am ildio, ac a gaf fi ddiolch i chi ac i'r pwyllgor am y sylw a roesoch i ddeiseb Beth Baldwin, sy'n un o fy etholwyr? Rwy'n gwybod pa mor bwysig oedd y ddeiseb iddi yn dilyn marwolaeth drasig Peter, deiseb a dynnai sylw at y materion anodd sy'n codi ac yn tynnu sylw at ddiabetes math 1. Felly, hoffwn ddiolch i'r pwyllgor am ei ystyriaeth o hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Julie, I'd like to thank you for re-emphasising that and also thank you for the support that you've personally given to not just that petition, but the petition from Dilwar Ali and others from your community and constituency. You've shown the committee great respect and great support, for which I express my gratitude.

The petitions presentations—we just referred to them, and they're actually something that Joyce referred to in her opening remarks—present a very valuable opportunity for petitioners, whether they be seasoned campaigners or ordinary citizens who are bringing forward a particular issue that has just come up in their lives or in their communities. It gives them an opportunity to have their issues aired and an opportunity to give some oxygen to their campaigns. I think that's really, really important.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair.*

## William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We also heard Joyce expressing some scepticism regarding—and sharing the view of the Presiding Officer in that respect—the recommendation around extending the response to petitions beyond a devolved character, and I think that's important.

Russell George spoke warmly about his experience, both as poacher and gamekeeper. He's been on both sides of the petitions process and it was interesting that he was able to draw on his experience in that regard. He also spoke of the diversity of the petitions and the petitioners who've come forward. I'd like to thank him very much, again, for the contribution that he has given. He also characterised the different members of our committee and the different skills toolkits that we bring to the job. I think that was much appreciated.

Bethan spoke very much about the fact that the Petitions Committee has been, over these past five years, and previously, a committee for all of Wales. In every corner of Wales, communities and individuals have brought forward petitions on things that matter to them. She made some very interesting proposals for harnessing new technology and also about the merits of a people's panel, which I think should certainly be given consideration at a future time. She also spoke, and I pay tribute to them too, about those who have come forward and substituted on the committee at different times, particularly in her own group, at different times, Lindsay and Elin and Alun Ffred. Alun Ffred has made valuable contributions also on various issues, drawing on his knowledge of heritage and culture.

Julie, hoffwn ddiolch i chi am ailbwysleisio hynny a hefyd am y gefnogaeth a roesoch yn bersonol nid yn unig i'r ddeiseb honno, ond i'r ddeiseb gan Dilwar Ali ac eraill o'ch cymuned a'ch etholaeth. Rydych wedi dangos parch mawr a chefnogaeth wych i'r pwyllgor, ac rwy'n ddiolchgar i chi am hynny.

Mae cyflwyniadau deisebau—fe gyfeiriasom atynt yn awr, ac maent yn rhywbeth y cyfeiriodd Joyce atynt yn ei sylwadau agoriadol—yn rhoi cyfle gwerthfawr iawn i ddeisebwyr, pa un a ydynt yn ymgyrchwyr profiadol neu'n ddinasyddion cyffredin sy'n cyflwyno mater penodol sydd wedi codi yn eu bywydau neu yn eu cymunedau. Mae'n rhoi cyfle iddynt wyntyllu eu problemau a chyfle i roi rhywfaint o ocsigen i'w hymgyrchoedd. Rwy'n credu bod hynny'n bwysig tu hwnt.

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair.*

Clywsom Joyce hefyd yn mynegi rhywfaint o amheuaeth—ac yn rhannu barn y Llywydd yn hynny o beth—ynghylch yr argymhelliad ar ymestyn yr ymateb i ddeisebau y tu hwnt i faterion datganoledig, ac rwy'n credu bod hynny'n bwysig.

Siaradodd Russell George yn wresog am ei brofiad fel potsiwr a chiper. Mae wedi bod ar y ddwy ochr i'r broses ddeisebu ac roedd yn ddiddorol ei fod yn gallu pwysu ar ei brofiad yn y cyswllt hwnnw. Soniodd hefyd am amrywiaeth y deisebau a'r deisebwyr. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn iddo, unwaith eto, am y cyfraniad a wnaeth. Nododd y gwahanol aelodau o'n pwyllgor a'r adnoddau sgiliau gwahanol rydym yn eu cynnig i'r swydd. Credaf fod hynny'n cael ei werthfawrogi'n fawr.

Siaradodd Bethan lawer am y ffaith fod y Pwyllgor Deisebau wedi bod, dros y pum mlynedd diwethaf ac yn flaenorol, yn bwyllgor ar gyfer Cymru gyfan. Ym mhob ochr o Gymru, mae cymunedau ac unigolion wedi cyflwyno deisebau ar bethau sy'n bwysig iddynt hwy. Gwnaeth rai cynigion diddorol iawn ynghylch harneisio technoleg newydd a hefyd ynglŷn â rhinweddau panel pobl, y credaf yn bendant y dylid rhoi ystyriaeth iddo yn y dyfodol. Soniodd hefyd, ac rwy'n talu teyrnged iddynt hwy yn ogystal, i'r rhai sydd wedi dirprwyo ar y pwyllgor ar wahanol adegau, yn enwedig yn ei grŵp ei hun, Lindsay ac Elin ac Alun Ffred. Mae Alun Ffred wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr hefyd ar wahanol faterion, gan bwysu ar ei wybodaeth o dreftadaeth a diwylliant.

Drawing my remarks to a close, Deputy Presiding Officer, I should also note the fact that we have been, not just the most public-facing committee, but we've also been on the move quite a lot. We've been every year to the Royal Welsh Show and to the Eisteddfod Genedlaethol. We've also been, and I was there with Bethan, at the Aberavon Beach Festival. We've been to Swansea Sparkle and we've been to the Cardiff Multicultural Mela here in the bay. We have also had outreach meetings and held committee meetings in every corner of this nation. I think that we have played our part in keeping the petitions process alive and well, but greater things lie ahead and I very much look forward to this work being continued in the fifth Assembly by different people, very likely, but I would hope that we can still keep this tradition alive and further improve it in the time to come. Diolch yn fawr.

I ddirwyr fy sylwadau i ben, Ddirprwy Lywydd, dylwn innau hefyd nodi'r ffaith nid yn unig mai ni yw'r pwyllgor sy'n ymwneud fwyaf â'r cyhoedd, ond rydym wedi bod yn eithaf symudol hefyd. Rydym wedi ymweld bob blwyddyn â Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol. Rydym hefyd wedi bod, ac roeddwn yno gyda Bethan, yng Ngŵyl Traeth Aberafan. Rydym wedi bod yn Sparkle Abertawe ac rydym wedi bod ym Mela Amlddiwylliannol Caerdydd yma yn y bae. Rydym hefyd wedi cael cyfarfodydd allgymorth ac wedi cynnal cyfarfodydd pwyllgor ym mhob cornel o'r genedl hon. Credaf ein bod wedi chwarae ein rhan yn cadw'r broses ddeisebau yn fyw ac yn iach, ond mae mwy o bethau o'n blaenau ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at barhau'r gwaith hwn yn y pumed Cynulliad gan bobl wahanol, yn ôl pob tebyg, ond byddwn yn gobeithio y gallwn ddal i gadw'r traddodiad hwn yn fyw a'i wella ymhellach yn yr amser sydd i ddod. Diolch yn fawr.

15:39

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to note the Petitions Committee's report. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## **4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cau Ysbytai**

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones, a gwelliant 2 yn enw Aled Roberts.*

## **4. Welsh Conservatives Debate: Hospital Closures**

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones, and amendment 2 in the name of Aled Roberts.*

15:39

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Eitem 4, dadl y Ceidwadwyr Cymreig: cau ysbytai. Galwaf ar Altaf Hussain i wneud y cynnig.

Item 4, the Welsh Conservatives' debate on hospital closures. I call on Altaf Hussain to move the motion.

Cynnig NDM5983 Paul Davies

Motion NDM5983 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu at y ffaith bod nifer o ysbytai yng Nghymru wedi cael eu cau neu wedi wynebu colli gwasanaethau dros y blynyddoedd diwethaf.

1. Regrets that a number of hospitals in Wales have been closed or subject to a loss of services in recent years; and

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru yn y dyfodol i warantu na fydd unrhyw ysbytai'n cael eu cau yn ystod y pumed Cynulliad.

2. Calls on the future Welsh Government to guarantee that there will be no hospital closures during the fifth Assembly.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Colleagues, the motion before you today is a simple one: we regret the number of hospital closures over the last five years and ask for a guarantee from all parties that there will be no further closures in the next Assembly. In addition to removing around £1 billion of funding from the NHS in Wales, the Labour-led Welsh Government has overseen the closure of many community hospitals, minor injuries units and the centralisation of many services. But this is just the tip of the iceberg. Welsh Labour, propped up by the Liberal Democrats and Plaid, have been in charge of our NHS for 17 years. Over these 17 years we have seen record numbers of bed closures, key targets missed and massive waiting lists. One in seven of the people of Wales is on a waiting list, and the number of people waiting more than 26 weeks for treatment has sky-rocketed—up by 70 per cent in the last five years. Truly shocking statistics.

The Welsh Labour Government would have us believe that our NHS is not at a crisis point, that there has been record investment, that there is not a recruitment problem, and that only they can deliver a better NHS. However, it is not us stating that there is a crisis in our NHS; it is the doctors who staff it. The British Medical Association said that we

‘cannot cover up...the collapsing community provision, lack of hospital beds, and staffing vacancies [which] have pushed our NHS to near collapse.’

We can't simply look at each part of the NHS in isolation. It is a complex system, and decisions taken in one part have often unforeseen consequences elsewhere. Rising costs in primary care have impacted on general practitioners' salaries. This has led to greater numbers of GPs retiring, emigrating or simply getting out of the system altogether. This means that it's now more difficult to get a GP appointment, which leads to greater demands on accident and emergency departments and the knock-on effect this has on ambulance response times. You don't have to study chaos theory to see the impacts caused by decisions taken elsewhere in the system.

By closing beds, or even the entire community hospital, you don't just affect the local area; the decision has a much wider impact on the NHS. We have lost what little contingency overcapacity we had. We no longer just see winter pressures; we now have summer pressures as well. We see patients waiting for beds in corridors, on trolleys and in ambulances. If we do not relieve that pressure, the whole system could blow up in our faces.

Our health service has become too focused on processes and not on outcomes. The management of waiting lists is being put before the welfare of the patients. Patients are being discharged early in order to free up a bed, but this short-sighted approach has seen an increase in the number of patients re-admitted due to complications, and a rise in the number of re-operations.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Gyd-Aelodau, mae'r cynnig ger eich bron heddiw yn un syml: rydym yn gresynu at nifer yr ysbytai sydd wedi cau dros y pum mlynedd diwethaf ac yn gofyn i bob plaid warantu na fydd unrhyw ysbytai'n cael eu cau yn y Cynulliad nesaf. Yn ogystal â thorri oddeutu £1 biliwn o gyllid y GIG yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru dan arweiniad Llafur wedi goruchwylio cau llawer o ysbytai cymunedol, unedau mân anafiadau a chanoli llawer o wasanaethau. Ond crafu'r wyneb yn unig yw hyn. Mae Llafur Cymru, gyda chefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru, wedi bod yn gyfrifol am ein GIG ers 17 mlynedd. Dros y 17 mlynedd rydym wedi gweld y nifer fwyaf erioed o wlaŵ'n cael eu cau, targedau allweddol yn cael eu methu a rhestrau aros anferth. Mae un o bob saith o bobl Cymru ar restr aros, ac mae nifer y bobl sy'n aros dros 26 wythnos am driniaeth wedi codi i'r entrychion—i fyny 70 y cant yn y pum mlynedd diwethaf. Ystadegau gwbl syfrdanol.

Byddai Llywodraeth Lafur Cymru am i ni gredu nad yw'n argyfwng ar ein GIG, fod y buddsoddiadau'n uwch nag a welwyd erioed, nad oes problem recriwtio, ac na all neb ond hi ddarparu GIG sy'n well. Fodd bynnag, nid ni sy'n datgan bod yna argyfwng yn ein GIG; mae'r meddygon sy'n ei staffio'n dweud hynny. Dywedodd Cymdeithas Feddygol Prydain na allwn

‘guddio... y methiant i ddarparu yn y gymuned, diffyg gwlaŵ ysbyty, a swyddi gwag [sydd] wedi gwthio ein GIG at ymyl y dibyn.’

Ni allwn edrych ar bob rhan o'r GIG ar ei phen ei hun. Mae'n system gymhleth, ac mae'r penderfyniadau a wneir mewn un rhan yn aml yn arwain at ganlyniadau annisgwyl mewn mannau eraill. Mae costau cynyddol mewn gofal sylfaenol wedi effeithio ar gyflogau meddygon teulu. Mae hyn wedi arwain at niferoedd uwch o feddygon teulu'n ymddeol, yn ymfudo neu'n gadael y system yn gyfan gwbl. Mae hyn yn golygu ei bod yn awr yn anos cael apwyntiad gyda meddyg teulu, sy'n arwain at fwy o alw ar adrannau damweiniau ac achosion brys a sgil-ffaith hyn ar amseroedd ymateb ambiwlansys. Nid oes rhaid i chi astudio theori anhrefn i weld yr effeithiau a achosir gan benderfyniadau a wnaed mewn mannau eraill yn y system.

Drwy gau gwlaŵ, neu hyd yn oed yr ysbyty cymunedol cyfan, nid yn unig rydych yn effeithio ar yr ardal leol, ond mae'r penderfyniad yn effeithio'n ehangach o lawer ar y GIG. Rydym wedi colli'r ychydig o gapasiti wrth gefn oedd gennym. Nid pwysau'r gaeaf yn unig rydym bellach yn ei weld; erbyn hyn mae gennym bwysau'r haf hefyd. Rydym yn gweld cleifion yn aros am wlaŵ mewn coridorau, ar droliâu ac mewn ambiwlansys. Os na leddfwn y pwysau hynny, gallai'r system gyfan chwythu i fyny yn ein hwynebau.

Mae ein gwasanaeth iechyd bellach yn canolbwytio gormod ar brosesau yn hytrach nag ar ganlyniadau. Mae rheoli rhestrau aros yn cael blaenoriaeth ar les cleifion. Mae cleifion yn cael eu rhyddhau'n gynnar er mwyn rhyddhau gwely, ond mae'r ymagwedd annoeth hon wedi arwain at gynnydd yn nifer y cleifion sy'n cael eu haildderbyn yn sgil cymhlethdodau, a chynnydd yn nifer yr ail-lawdriniaethau a wneir.

During my 25 years as an NHS doctor, I have seen the number of generalist consultants decline. More and more posts over the last 10 years or so have been filled by consultants who have developed a sub-speciality, such as the foot. Rather than looking at the patient as a whole, this consultant will treat the foot and the patient will have to go on a separate waiting list to treat their knee pain. Sub-specialities should only be practised in regional centres and have no place in our district general hospitals. These hospitals are not equipped to deal with the whole range of sub-specialities, and rather than purchasing additional equipment and instruments we should ensure properly resourced regional centres. Consultants should see a patient as a whole and prioritise the treatment. We also need to place a greater emphasis on prevention. The old adage 'prevention is better than cure', has never been truer. It took me 10 years to learn when to operate and it took me a further 10 years to learn when not to operate.

In terms of our NHS, we have to invest more in public health initiatives. I think the public has finally got the message that smoking causes cancer, but it is not getting the message that obesity, poor diet and alcohol also cause cancer. The public is not getting the message that poor diet and lack of exercise cause diabetes. The number of people with diabetes has doubled in the last 10 years and accounts for 10 per cent of the health budget. With this expected to grow exponentially in the coming years, we have to increase health education and public health messaging. We have an ageing population and socioeconomic inequalities—

Yn ystod fy 25 mlynedd fel meddyg y GIG, gwelais niferoedd meddygon ymgynghorol cyffredinol yn dirywio. Mae mwy a mwy o swyddi dros y 10 mlynedd diwethaf wedi cael eu llenwi gan feddygon ymgynghorol sydd wedi datblygu is-arbenigedd, megis y droed. Yn hytrach nag edrych ar y claf yn ei gyfanrwydd, bydd y meddyg ymgynghorol hwn yn trin y droed a bydd yn rhaid i'r claf fynd ar restr aros ar wahân i drin y poen yn ei ben-glin. Dylid ymarfer is-arbenigeddau mewn canolfannau rhanbarthol yn unig ac nid oes lle iddynt yn ein hysbytai cyffredinol dosbarth. Nid yw'r ysbysai hyn yn cael eu paratoi i ymdrin â'r holl ystod o is-arbenigeddau, ac yn hytrach na phrynu cyfarpar ac offer ychwanegol dylem sicrhau bod adnoddau priodol gan ganolfannau rhanbarthol. Dylai meddygon ymgynghorol edrych ar y claf fel unigolyn cyfan a blaenoriaethu'r driniaeth. Mae angen i ni hefyd roi mwy o bwyslais ar atal. Ni fu'r hen ddywediad 'mae atal yn well na gwella', erioed yn fwy gwir. Cymerodd 10 mlynedd i mi ddysgu pryd i roi llawdriniaeth a chymerodd 10 mlynedd arall i mi ddysgu pryd i beidio â rhoi llawdriniaeth.

O ran ein GIG, mae'n rhaid i ni fuddsoddi mwy mewn mentrau iechyd y cyhoedd. Rwy'n meddwl bod y cyhoedd wedi cael y neges fod ysmegu'n achosi canser o'r diwedd, ond nid yw'n cael y neges fod gordewdra, deiet gwael ac alcohol hefyd yn achosi canser. Nid yw'r cyhoedd yn cael y neges fod deiet gwael a diffyg ymarfer corff yn achosi diabetes. Mae nifer y bobl sydd â diabetes wedi dyblu yn y 10 mlynedd diwethaf a diabetes sydd i gyfrif am 10 y cant o'r gyllideb iechyd. Gyda disgwyl i hyn dyfu'n gynt a chynt yn y blynyddoedd nesaf, mae'n rhaid i ni gynyddu addysg iechyd a negeseuon iechyd y cyhoedd. Mae gennyf boblogaeth sy'n heneiddio ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol—

- 15:46 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Will you take an intervention? A wneuch chi dderbyn ymyriad?
- 15:46 **Altaf Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Yes, please. Os gwelwch yn dda.
- 15:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
David Rees. David Rees.
- 15:46 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Thank you for taking the intervention. I totally agree that the public message needs to be getting out there around educating people, but there's also an issue of marketing of the products. We are seeing very much an increase in marketing of—let's take McDonald's as an example, but of those products on television and other sites. So, we need to address the marketing issue. So, the UK Government needs to start looking at how it addresses the marketing of some of those products to reduce the enticement it gives to some of our young people in particular. Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. Rwy'n cytuno'n llwyr fod angen i'r neges gyhoeddus fynd allan ynghylch addysgu pobl, ond mae yna gwestiwn yn codi hefyd ynghylch marchnata'r cynnyrch. Rydym yn gweld cynnydd mawr mewn marchnata—gadewch i ni gymryd McDonald fel enghraifft, ond y cynhyrchion hynny ar y teledu a safleoedd eraill. Felly, mae angen i ni fynd i'r afael â mater marchnata. Felly, mae angen i Lywodraeth y DU ddechrau edrych ar sut y mae'n mynd i'r afael â marchnata rhai o'r cynhyrchion hynny er mwyn lleihau'r modd y mae'n denu rhai o'r pobl ifanc yn benodol.
- 15:46 **Altaf Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I agree, yes. Oes, rwy'n cytuno.

We have an ageing population and socioeconomic inequalities across Wales that will place additional pressure on our NHS. With a properly funded and executed public health campaign we can mitigate some of these additional pressures.

Members, we have had two health reorganisations in recent years, and this tinkering has had unforeseen consequences. We need to rule out any further hospital closures, any further reduction in beds, and any further reorganisations. I urge you to support the motion before you today. Thank you.

Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ledled Cymru a fydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar ein GIG. Gydag ymgyrch iechyd y cyhoedd wedi'i hariannu a'i chyflawni'n briodol gallwn liniaru rhywfaint o'r pwysau ychwanegol hwn.

Aelodau, rydym wedi ad-drefnu iechyd ddwywaith yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae tincran o'r fath wedi arwain at ganlyniadau annisgwyl. Mae angen i ni ddiystyru unrhyw gamau pellach i gau ysbytai, unrhyw ostyngiad pellach yn nifer gwllâu, ac unrhyw ad-drefnu pellach. Rwy'n eich annog i gefnogi'r cynnig ger eich bron heddiw. Diolch.

15:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn ei henw.

I have selected the two amendments to the motion. I call on Elin Jones to move amendment 1, tabled in her name.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion.*

*Yn credu y dylai Llywodraeth nesaf Cymru gychwyn a chyflwyno cynllun ar gyfer cynnydd sylweddol yn nifer y meddygon fel y gellir darparu gwasanaethau yn lleol.*

*Believes that the next Welsh Government should instigate and deliver a plan for a substantial increase in the number of doctors so that services can be delivered locally.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

15:47

## Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ddirprwy Lywydd, rwy'n cynnig y gwelliant yn enw Plaid Cymru ac fe fyddwn ni ym Mhlaid Cymru yn cefnogi'r cynnig heddiw a'r gwelliant yn enw'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Deputy Presiding Officer, I move the amendment in the name of Plaid Cymru, and we in Plaid Cymru will be supporting the motion today and the amendments in the name of the Welsh Liberal Democrats.

Dau bwynt i'w gwneud wrth gefnogi'r cynnig—dau 'health warning', i ryw raddau, i gyd-fynd â'n cefnogaeth ni, sef ym gyntaf, wrth gwrs, mae yna newidiadau yn yr NHS sy'n bositif ac sydd o les i gleifion ac i gymunedau lleol, ac mae angen i bob gwleidydd, pob Llywodraeth, pob claf fod yn agored i'r newidiadau hynny pan fyddan nhw, ac os byddan nhw, yn codi.

There are two points that I want to make in supporting this motion—two health warnings, to a certain extent, which run alongside our support. The first point, of course, is that there are changes in the NHS that are positive and beneficial to patients and local communities, and every politician, all Governments and all patients must be open to those changes when and if they arise.

Fy ail 'health warning' ar hyn yw neges i etholwyr Cymru—rwy'n gwneud y neges yma ar noswyl cyfnod o etholiad. Peidiwch, bobl Cymru, â thrystio'r Toriaid â dyfodol yr NHS. Mae'r Toriaid yn licio gwneud y gymhariaeth yn y lle yma rhwng Lloegr a Chymru. Wel, a gaf i hefyd efallai gymryd bach o gyfle i wneud rhywfaint o gymhariaeth? Yn Lloegr, o dan Weinidog y Toriaid, mae yna ddarnau mawr o'r NHS yn cael eu trosglwyddo i gyfrifoldeb y sector breifat ar hyn o bryd, ac nid wyf i eisïau gweld hynny yn digwydd yng Nghymru. Ac, yn Lloegr, o dan Jeremy Hunt, fel Gweinidog, mae'r doctoriaid ar streic. Maen nhw hefyd mewn llys barn yn erbyn y Gweinidog Toriaid, ac nid oes yna ddim parch o gwbl rhwng doctoriaid Lloegr a'r Gweinidog iechyd. A pha Weinidog synhwyrol sy'n pigo ffeit gyda'r union bobl sy'n gyfrifol am ddelfiro'r gwasanaeth y mae'n gyfrifol amdano? Mae wedi pigo ffeit—

My second health warning in this area is a message to the electors of Wales, and I do this as we enter an election period. I urge the people of Wales not to trust the Tories with the future of the NHS. The Conservatives like to make the comparison, in this place, between England and Wales. Let me also take the opportunity to make a few comparisons. In England, under the Conservative Minister, there are large parts of the NHS that are being transferred into the private sector at present, and I don't want to see that happening here in Wales. In England, under Jeremy Hunt as Minister, the junior doctors are on strike. They're also involved in court proceedings against the Conservative Minister, and there is no respect at all between doctors in England and the health Minister. What sensible Minister would pick a fight with the very people who are responsible for delivering the service that he is responsible for? He has—[Interruption.]

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



- 15:49 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*  
 Will you take an intervention? A wnewch chi dderbyn ymyriad?
- 15:49 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 Wel, wnaif i ddim; mae digon o amser gyda chi i gyfrannu ac ymateb yn yr awr o ddadl. Gwnaeth pigo ffeit gyda'r union ddoctoriaid hynny yn Lloegr dros eu cytundeb gwaith nhw, fel yr ŷm ni'n ymwybodol, a hefyd gyda'r nyrsys dros y gefnogaeth sydd wedi cael ei pheryglu i ariannu hyfforddiant nyrsys y dyfodol yn Lloegr. Felly, rwy'n falch nad oes Gweinidog Toriaidd yn gyfrifol heddiw, nac ychwaith yfory, gobeithio, ar ôl etholiad y Cynulliad, am yr NHS.  
 No, I won't take an intervention; you have plenty of time to contribute and to respond in this hour of debate. He's picked a fight with those doctors in England over their working arrangements, as we're aware, and also with nurses on the issue of the support for future nurse training in England. So, I am pleased that we don't have a Conservative Minister responsible today, nor, hopefully, tomorrow, following the Welsh Assembly elections, for the NHS in Wales.
- Nawr, i symud at y pwnc dan sylw, a'r cynnig a'r gwelliannau, mae gyda ni rwydwaith o ysbytai arbenigol, cyffredinol a chymunedol yng Nghymru. Mae angen cynllunio gwasanaethau yn briodol ar gyfer y rhwydwaith yma, ac mae hefyd yn bwysig cydnabod fod newidiadau mewn darnau o'r rhwydwaith yma yn effeithio ar elfennau eraill o fewn y rhwydwaith. Er enghraifft, dros y pedair blynedd diwethaf yma, rŷm ni wedi gweld lleihad sylweddol mewn gwelyau ysbytai cymunedol, ac mae hynny wedi cynyddu'r pwysau ar ein hysbytai—  
 Now, to move the motion and amendments, we do have a network we do have a network of general, specialist and community hospitals in Wales. We need to plan services appropriately for this network of hospitals and it's also important to note that changes in parts of this network have an impact on other elements of the network. For example, over the past four years we have seen a significant reduction in the number of community hospital beds, and that has increased the pressure—
- 15:51 **Aelod Cynulliad / An Assembly Member** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 Will you give way? A wnewch chi ildio?
- 15:51 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 Na, rwy'n cario ymlaen, os caf i, brynhawn yma. Mae hynny wedi cynyddu'r pwysau ar ein hysbytai aciwt ni, ac yn enwedig—[Anglywadwy.]—amser yma o'r flwyddyn, gyda'r achosion yna o fflw a niwmonia yn fwy cyffredin. Yn fy etholaeth i, er enghraifft, mae yna 20 o welyau yn ysbyty cymunedol Aberteifi wedi diflannu dros y pedair blynedd diwethaf yma, ac mae yna 10 o welyau wedi diflannu o Ysbyty Tregaron hefyd. Mae yna bwysau difrifol ar ysbytai fel Bronglais, sydd yn awr yn gorfod creu ward newydd o 12 gwely ar gyfer yr henoed yn bennaf, ac yna o fewn ysbyty aciwt Bronglais.  
 No, I will continue, if I may. That has increased the pressure on our acute hospitals—[Inaudible.]—at this time of the year, with those cases of flu and pneumonia being far more common. In my own constituency, for example, there are 20 beds in Cardigan community hospital that have disappeared over the past four years, and there are 10 beds that have disappeared from Tregaron Hospital, too. There is grave pressure on hospitals such as Bronglais, which now has to create a new ward of 12 beds for elderly people, mainly, and that is within the Bronglais acute hospital.
- A allaf i ofyn i'r Dirprwy Lywydd am ei arweiniad? Mae'r cloc wedi dod i ben, ac rwy'n cymryd fy mod i'n gallu cario ymlaen.  
 Could I ask the Deputy Presiding Officer for some guidance? The clock seems to have been switched off, so I assume that I can continue.
- 15:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 You've got about one minute. Mae gennych oddeutu munud.
- 15:51 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 Okay. Start the clock again. [Laughter.]  
 Iawn. Dechreuwch y cloc eto. [Chwerthin.]

Felly, mae pwysau ar ein hysbytai ni yn deillio o'r anallu i staffio gwasanaethau'n ddigonol. Sawl gwaith rŷm ni, dros y blynyddoedd diwethaf yma, wedi clywed bod yr anallu i staffio ysbytai yn cael ei ddefnyddio fel rheswm—o bosib esgus ar adegau—i gau gwasanaethau, yn enwedig yng nghyd-destun anallu i staffio o ran doctoriaid? Mae lefelau doctoriaid Cymru yr isaf yn y Deyrnas Gyfunol, a chyda'r isaf o fewn Ewrop. Dim ond yn Slofenia, Romania a Gwlad Pwyl mae yna lefel is o ddoctoriaid y pen o'r boblogaeth. Yng Nghymru, fedrwn ni ddim fforddio lefelau isel o ddoctoriaid mewn gwlad sydd â dwbl y sialens yna o ardaloedd gwledig helaeth a lefelau uchel o dlodi.

Felly, ein cynllun ni ym Mhlaid Cymru yw ein bod ni eisiau gweld—

So, the pressure on our hospitals emerges from the inability to adequately staff the hospitals. How many times, over the past few years, have we heard that the inability to staff hospitals is being used as a reason—and occasionally as an excuse, possibly—for the closure of services, particularly in the context of the inability to provide an adequate number of doctors? The level of doctors in Wales is the lowest in the UK, and amongst the lowest in Europe. Only in Slovenia, Romania and Poland is there a lower level of doctors per capita. In Wales we can't afford to see those low levels of doctors in a nation that has that double challenge of large rural areas and high levels of poverty.

Therefore, our plan as Plaid Cymru—

- 15:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Yn gyflym, os gwelwch yn dda. Do conclude, please.
- 15:52 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
[Yn parhau.]—cynyddu nifer y doctoriaid gan 1,000 o ddoctoriaid ychwanegol dros y 10 mlynedd nesaf, ac rwyf yn fawr gobeithio y bydd Plaid Cymru mewn Llywodraeth ar ôl mis Mai i gyflawni ar hynny. [Continues.]—is that we want to increase the number of doctors by 1,000 over the next 10 years, and I very much hope that Plaid Cymru will be in Government after May to achieve that.
- 15:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I was hoping that we could continue. Whilst the system has gone down, the real problem is the translation is not available to everyone. Roeddwn yn gobeithio y gallem barhau. Er bod y system wedi methu, y broblem go iawn yw nad yw'r cyfieithiad ar gael i bawb.
- 15:53 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Oh—wasn't I translated? O—ni chefais fy nghyfieithu?
- 15:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Can the translator say something? I'm still not getting anything. Does anyone else have a problem with translation? A all y cyfieithydd ddweud rhywbeth? Rwy'n dal i fethu â chlywed unrhyw beth. A oes unrhyw un arall yn cael problem gyda'r cyfieithu?
- Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 15:53. Plenary was suspended at 15:53.*
- Ailymgynullodd y Cynulliad am 16:15, gyda'r Dirprwy Lywydd yn y Gadair. The Assembly reconvened at 16:15, with the Deputy Presiding Officer in the Chair.*
- 16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Order, order. The National Assembly is back in session. I apologise for the interruption. I am advised that there's been a power failure in this part of Cardiff. We will continue with item 4, the Welsh Conservative debate on hospital closures. Trefn, trefn. Dyma ailddechrau trafodion y Cynulliad Cenedlaethol. Rwy'n ymddiheuro am yr ymyrraeth. Dywedir wrthyf fod methiant yn y pŵer wedi bod yn y rhan hon o Gaerdydd. Parhawn ag eitem 4, sef dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar gau ysbytai.
- Galwaf ar Kirsty Williams i gynnis gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. I call on Kirsty Williams to move amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts.
- Gwelliant 2—Aled Roberts* *Gwelliant 2—Aled Roberts*
- Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnis:* *Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru yn 2014 a oedd yn galw am 'ail-rymuso a bywiogi'r ysbyty gymunedol a gwasanaethau yn y gymuned' ac yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ddarparu mwy o wasanaethau iechyd mewn cymunedau ledled Cymru.*

*Cynigiwyd gwelliant 2.*

*Notes the 2014 Mid Wales Healthcare Study which called for a 'reinvigoration of community hospital and community based services' and calls for the next Welsh Government to provide more health services in communities across Wales.*

*Amendment 2 moved.*

16:16

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I had anticipated perhaps this debate would cause a few fireworks this afternoon. I'd even anticipated that Darren Millar might blow a fuse, as he is wont in debates of this nature. [Laughter.] I had not anticipated that it would be the building. I formally move the amendment in the name of the Welsh Liberal Democrats and state from the outset that we will be supporting the main motion and the amendments from Plaid Cymru this afternoon.

Like Elin Jones says, we have to acknowledge there has always been change within the NHS and there always will be change in the NHS, and sometimes that change can lead to great benefits to patients. One only has to think in very recent terms of the reorganisation of upper gastrointestinal services here in south Wales, with the bringing together of the upper GI teams to work in that service. That has seen a huge, huge improvement for people, especially with upper GI cancers, in their treatment and survival rates. So, not all change is bad, and sometimes changing services can deliver much better outcomes for patients.

But, if I turn to the Liberal Democrat amendment this afternoon, we tabled this to highlight the role that smaller hospitals play within our NHS system—not just large hospitals, but the smaller community and cottage hospitals—and also to ensure, as well, during this debate that we have regard to the fact that, where possible and where clinically safe to do so, we should be planning and delivering services in the community, in community settings and, indeed, in people's homes. For the vast majority of patients, delivering those kinds of services in their community or in their homes is what they want. For too long, we have debated the effects of removal of services from our larger district general hospitals and perhaps not focused on the potential, actually, for community hospitals and community settings.

Those settings, I believe, are crucial to creating a sustainable NHS here in Wales and delivering services that people really, really appreciate. Community hospitals can provide vital step-up and step-down facilities, avoiding admissions to larger hospitals in the first place or speeding up the ability of someone to be discharged from a larger hospital back to a community setting closer to their home, their relatives and their support networks, and freeing up those vital facilities in our larger hospitals for those people who really need to be in them.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Roeddwn wedi rhagweld efallai y byddai'r ddadl hon yn achosi ychydig o dân gwyllt y prynhawn yma. Roeddwn hyd yn oed wedi rhagweld y gallai Darren Millar chwythu ffiws, fel y mae'n tueddu i wneud mewn dadleuon fel hyn. [Chwerthin.] Ni ragwelais mai'r adeilad fyddai'n gwneud hynny. Rwy'n cynnig y gwelliant yn ffurfiol yn enw Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ac yn datgan o'r dechrau y byddwn yn cefnogi'r prif gynnig a'r gwelliannau gan Blaid Cymru y prynhawn yma.

Fel y mae Elin Jones yn dweud, mae'n rhaid i ni gydnabod bod y GIG bob amser wedi bod yn newid ac y bydd bob amser newid yn y GIG, ac weithiau gall newid arwain at fanteision mawr i gleifion. Nid oes ond raid meddwl yn ddiweddar iawn am ad-drefnu gwasanaethau uwch gastroberfeddol yma yn ne Cymru, drwy ddwyn ynghyd y timau uwch gastroberfeddol i weithio yn y gwasanaeth hwnnw. Mae hynny wedi arwain at welliant gwirioneddol enfawr i bobl, yn enwedig gyda chanserau uwch gastroberfeddol, o ran eu cyfraddau triniaeth a goroesi. Felly, nid yw pob newid yn ddrwg, ac weithiau gall newid gwasanaethau gyflawni canlyniadau llawer gwell i gleifion.

Ond os trof at welliant y Democratiaid Rhyddfrydol y prynhawn yma, rydym wedi cyflwyno hwn i dynnu sylw at y rôl y mae ysbytai llai yn ei chwarae yn ein system GIG—nid ysbytai mawr yn unig, ond yr ysbytai bwthyn a chymunedol llai o faint—ac i sicrhau hefyd yn ystod y ddadl hon ein bod yn rhoi sylw, lle y bo hynny'n bosibl a lle y bo'n glinigol ddiogel i wneud hynny, i'r ffaith y dylem gynllunio a darparu gwasanaethau yn y gymuned, mewn lleoliadau cymunedol ac yn wir, yng nghartrefi pobl. I'r mwyafrif helaeth o gleifion, cyflwyno'r mathau hynny o wasanaethau yn eu cymuned neu yn eu cartrefi yw'r hyn y maent ei eisiau. Ers gormod o amser, rydym wedi trafod effeithiau cael gwared ar wasanaethau o'n hysbytai cyffredinol dosbarth mwy o faint heb ganolbwyntio efallai ar botensial ysbytai cymunedol a lleoliadau cymunedol mewn gwirionedd.

Rwy'n credu bod y lleoliadau hynny'n hanfodol i greu GIG cynaliadwy yma yng Nghymru a darparu gwasanaethau y mae pobl yn eu gwerthfawrogi'n fawr iawn. Gall ysbytai cymuned ddarparu cyfleusterau cam-i-fyny a llai dwys hanfodol, gan osgoi derbyn cleifion i ysbytai mwy yn y lle cyntaf neu gyflymu gallu rhywun i gael ei ryddhau o ysbyty mwy o faint yn ôl i leoliad cymunedol yn nes at eu cartref, eu perthnasau a'u rhwydweithiau cymorth, a rhyddhau'r cyfleusterau hanfodol yn ein hysbytai mwy o faint i'r bobl y mae gwir angen iddynt fod yno.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Community settings can also provide enhanced access to diagnostic testing, limiting the need to travel further afield. The use of telemedicine now means that an x-ray film taken in a community hospital can be viewed by experts in the DGHs, heart traces within a doctor's surgery can be sent straight into the cardiology units of district general hospitals to be reviewed by a consultant, and scan images can be taken in a community hospital and beamed down to the larger unit for review and advice—as I said, thus negating the need for patients to travel to those centres. Those systems are becoming more and more sophisticated. Powys Teaching Local Health Board recently invested in a mobile MRI scanner, something that only a few years ago would've been absolutely unimaginable to think of, and again really enhancing access to that particular service.

We should also be looking to do what we can to provide out-patient facilities, appointments and clinics in community settings—again, reducing the necessity of travel to only when people really need to be in that centre. That has a huge impact on people's personal experience of the NHS. Many people, especially in rural areas, but not just in rural areas, such as those from Valleys communities, travel down to larger hospitals to see the consultant, only to be told within a five-minute appointment, 'Yes, that's fine; you can go again.' It's intensely frustrating for those people, who often have had to take a day off work, or their partner has had to take a day off work to take them. We can do better than that.

Community hospitals, I believe, can also do so much more than that. Colonoscopy services can be very safely delivered in community hospital settings. We're now seeing new wet AMD services being delivered in community settings, with nurses delivering those injections that would have required, previously, people to travel very, very, very many miles; and we have some excellent theatre space and capacity in some of our community hospitals. Again, full operating lists in those settings can take pressure off the larger units. I appreciate the clock has now turned red, but I hope that this debate can encompass more than just discussions around larger facilities, but also to recognise the contribution smaller community hospitals and community settings can provide for the NHS.

Gall lleoliadau cymunedol ddarparu mynediad gwell at brofion diagnostig hefyd, gan gyfyngu ar yr angen i deithio ymhellach i ffwrdd. Mae'r defnydd o deffeddygaeth yn awr yn golygu y gall arbenigwyr yn yr ysbytai cyffredinol dosbarth weld ffilm pelydr-x a gymerwyd mewn ysbyty cymunedol, gellir anfon cofnod o batrwm curiad y galon o feddygfa yn syth at unedau cardioleg ysbytai cyffredinol dosbarth i gael eu hadolygu gan feddyg ymgynghorol, a gellir cymryd delweddau sgan mewn ysbyty cymunedol a'u darlledu i uned fwy o faint ar gyfer eu hadolygu a chael cyngor—fel y dywedais, gan ddileu'r angen i gleifion deithio i'r canolfannau hynny. Mae'r systemau hynny'n tyfu'n fwy ac yn fwy soffistigedig. Yn ddiweddar, buddsoddodd Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys mewn sganiwr MRI symudol, rhywbeth na fyddid wedi gallu ei ddychmygu ychydig flynyddoedd yn ôl, ac eto, rhywbeth sy'n gwella mynediad at y gwasanaeth penodol hwnnw yn sylweddol.

Dylem hefyd ystyried gwneud yr hyn a allwn i ddarparu cyfleusterau i gleifion allanol, apwyntiadau a chlinigau mewn lleoliadau cymunedol—gan leihau'r angen unwaith eto i deithio ac eithrio pan fydd angen gwirioneddol i bobl fod yn y ganolfan honno. Mae hynny'n effeithio'n enfawr ar brofiad personol pobl o'r GIG. Mae llawer o bobl, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ond nid yn yr ardaloedd gwledig yn unig, megis y rhai o gymunedau'r Cymoedd, yn teithio i lawr i ysbytai mwy o faint i weld y meddyg ymgynghorol, i gael gwybod mewn apwyntiad pum munud o hyd, 'Ie, popeth yn iawn; gallwch fynd yn awr.' Mae'n hynod rwystredig i'r bobl hynny, sy'n aml wedi gorfod cymryd diwrnod i ffwrdd o'r gwaith, neu mae eu partner wedi gorfod cymryd diwrnod i ffwrdd o'r gwaith i'w cludo. Gallwn wneud yn well na hynny.

Credaf y gall ysbytai cymunedol hefyd wneud cymaint yn fwy na hynny. Gellir darparu gwasanaethau colonosgopi yn ddiogel iawn mewn ysbytai cymunedol. Rydym yn awr yn gweld gwasanaethau newydd ar gyfer dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint yn cael eu cyflwyno mewn lleoliadau cymunedol, gyda nyrsys yn rhoi pigidiadau a fyddai wedi golygu, yn flaenorol, fod pobl yn teithio llawer iawn o filltiroedd i'w cael; ac mae gennym rywfaint o le a chapasiti theatr ardderchog mewn rhai o'n hysbytai cymunedol. Unwaith eto, gallai rhestrau llawdriniaethau llawn yn y lleoliadau hynny gymryd y pwysau oddi ar unedau mwy o faint. Rwy'n sylweddoli bod y cloc bellach wedi troi'n goch, ond rwy'n gobeithio y gall y ddadl hon gwmpasu mwy na thrafodaethau ynghylch cyfleusterau mwy o faint yn unig, ond cydnabod y cyfraniad y gall ysbytai cymunedol llai o faint a lleoliadau cymunedol ei wneud i'r GIG hefyd.

16:21

## Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wish to support the motion before us today, tabled in the name of my colleague, Paul Davies, because I believe that we should regret that a number of Welsh hospitals have been closed or have seen services axed, and I am of the view that the National Assembly should join with us in calling upon a future Welsh Government to guarantee that there will be no hospital closures during the fifth Assembly.

Hoffwn gefnogi'r cynnig sydd ger ein bron heddiw, a gyflwynwyd yn enw fy nghyd-Aelod, Paul Davies, oherwydd rwy'n credu y dylem resynu at y nifer o ysbytai Cymru sydd wedi'u cau neu wedi wynebu colli gwasanaethau, ac rwyf o'r farn y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ymuno â ni i alw ar Lywodraeth Cymru yn y dyfodol i warantu na fydd unrhyw ysbytai'n cael eu cau yn ystod y pumed Cynulliad.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The NHS needs time to pause and collect itself after suffering years of attrition at the hands of Welsh Labour and, indeed, Elin Jones, at the hands of the spectacular failure that was the One Wales Government. I firmly lay all this at the door of Welsh Labour, although they will no doubt try and blame everyone, from the health boards to the opposition, for their failings. Ultimately, the performance of the NHS in Wales is the responsibility of the Government of the day. It is their role to set the strategic direction and to monitor the outcomes from those tasked with delivery. It is also the responsibility of the Welsh Labour Government to manage the finances provided by the taxpayer, yet financial mismanagement continues to define this Welsh Government's health legacy.

Minister, you have cut the NHS budget over the last five years. Minister, the Nuffield Trust report confirms that you spend less per person on health than England or Scotland, or Northern Ireland, when adjusted to our ageing population. Minister, you run a health programme that seems to be based on an entirely urban model, with little recognition of the needs and challenges faced by more rural communities. It is noteworthy that the many closures or service degradations seldom affect Cardiff or Swansea when there could be economies of scale. Hospital closures and service provision cutbacks continue to further isolate Welsh communities, with the reconfiguration of services placing increasing strains on other hospitals—none more evident than the decimation of services at Withybush hospital and the resulting pressures on Glangwili, borne out time and again by the number of my constituents who now have to go further east than Carmarthen for basic services. I give way.

Mae angen amser ar y GIG i oedi a dod ato'i hun ar ôl dioddef blynyddoedd o erydu dan law Llafur Cymru ac yn wir, Elin Jones, dan law methiant aruthrol Llywodraeth Cymru'n Un. Rwy'n beio hyn i gyd ar Lafur Cymru, er y byddant yn ddiau yn ceisio rhoi'r bai ar bawb, o'r byrddau iechyd i'r wrthblaid, am eu methiannau. Yn y pen draw, cyfrifoldeb y Llywodraeth ar y pryd yw perfformiad y GIG yng Nghymru. Ei rôl hi yw gosod cyfeiriad strategol a monitro canlyniadau y rhai sydd â'r gorchwyl o gyflawni. Cyfrifoldeb Llywodraeth Lafur Cymru hefyd yw rheoli'r cyllid a ddarperir gan y trethdalwr, ac eto mae camreoli ariannol yn parhau i fod yn nodwedd ddiffiniol o etifeddiaeth iechyd y Llywodraeth hon.

Weinidog, rydych wedi torri cyllideb y GIG yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Weinidog, mae adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield yn cadarnhau eich bod yn gwario llai y pen ar iechyd na Lloegr neu'r Alban, neu Ogledd Iwerddon, o'i addasu i'n poblogaeth sy'n heneiddio. Weinidog, rydych yn arwain rhaglen iechyd sydd i'w gweld yn seiliedig ar fodel cwbl drefol, heb fawr o gydnabyddiaeth o anghenion a heriau a wynebir gan gymunedau mwy gwledig. Mae'n werth nodi mai anaml y bydd yr ysbytai niferus sy'n cau neu wasanaethau sy'n wynebu israddio yn effeithio ar Gaerdydd neu Abertawe lle y gellid cael arbedion maint. Mae cau ysbytai a thoriadau i'r ddarpariaeth o wasanaethau yn parhau i ynysu cymunedau Cymru ymhellach, gydag ad-drefnu gwasanaethau yn rhoi straen cynyddol ar ysbytai eraill—ac mae hyn i'w weld yn fwyaf amlwg yn y darnio a fu ar wasanaethau yn ysbyty Llwynhelyg a'r pwysau yn sgil hynny ar Langwili, a phroffir hynny dro ar ôl tro gan nifer fy etholwyr sydd bellach yn gorfod mynd ymhellach i'r dwyrain na Chaerfyrddin am wasanaethau sylfaenol. Rwy'n ildio.

16:23 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking an intervention. I'll go back a couple of seconds. You talked about the reconfiguration; the south Wales programme was clinically led, clinician led. They focused upon safe services. Are you in disagreement with that?

Diolch i chi am dderbyn ymyriad. Af yn ôl ychydig o eiliadau. Fe sonioch am yr ad-drefnu; câi rhaglen de Cymru ei harwain yn glinigol, gan glinigwyr. Roeddent yn canolbwyntio ar wasanaethau diogel. A ydych yn anghytuno â hynny?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:23 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I believe not all of your Members agree with you. [Interruption.] The 2016 OECD report recognised the need to shift care away from hospital settings and towards primary and community care—

Nid wyf yn credu bod eich holl Aelodau yn cytuno â chi. [Torri ar draws.] Roedd adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd 2016 yn cydnabod yr angen i symud gofal o safleoedd ysbyty ac at ofal sylfaenol a chymunedol—

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 16:24.*

*Plenary was suspended at 16:24.*

*Ailymgynullodd y Cynulliad am 16:55, gyda'r Dirprwy Lywydd yn y Gadair.*

*The Assembly reconvened at 16:55, with the Deputy Presiding Officer in the Chair.*

16:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order, order. The National Assembly's back in session. I do apologise for our difficulties with the power supply. We've now switched to our own back-up generator and I am confident that we can finish proceedings. So, we'll recommence on item 4, the Welsh Conservative debate, and I ask Angela Burns to complete her contribution.

Trefn, trefn. Dyma ailddechrau trafodion y Cynulliad Cenedlaethol. Rwy'n ymddiheuro am ein hanawsterau gyda'r cyflenwad pŵer. Rydym bellach wedi newid i'n generadur wrth gefn ein hunain ac rwy'n hyderus y gallwn gwblhau'r trafodion. Felly, byddwn yn ailgychwyn ar eitem 4, sef dadl y Ceidwadwyr Cymreig, a gofynnaf i Angela Burns gwblhau ei chyfraniad.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Thank you, Presiding Officer. I won't recap on my contribution to date, except to say that, before the power failure, I was just replying to an intervention by David Rees and I just wanted to re-clarify what I replied to him, which was to observe that prominent members of the Labour Party, including a Cabinet Minister, have been campaigning against the south Wales programme.

So, if I wish to continue, the 2016 OECD report recognised the need to shift care away from hospital settings and towards primary and community care. In effect, the Welsh Government is adopting the opposite approach and, as such, is overburdening the centralised health system on a select few hospitals. Because few, Minister, would argue that primary and community healthcare is the way forward for many services; however, that very philosophy is being undermined by not having robust services being provided for by a local district general hospital. Let me give you an example. There's a chronic shortage of GPs in Pembrokeshire. One of the largest GP practices in Wales, based in Pembroke Dock, is struggling to recruit GPs. With some 25,000 patients, they're under enormous pressure. We can't find GPs to staff Tenby—a town that hosts an additional 500,000 visitors during the summer season. The situation there is chronic. And for the Labour Assembly Members here who have accused me of scaremongering over health services in Carmarthen West and South Pembrokeshire, I say this: come with me—Minister, come with me—in the dark, in the rain, in the cold—[Laughter.] It's not as nice as you might think. Come with me in the dark, in the rain, in the cold, and wait with some of my elderly constituents who are queuing from 7.30 in the morning in order to get into a GP surgery at 8.30, in order to get an appointment, because they are so desperate. Queuing at 70, 80 and 90 years of age to see a doctor, in Wales, in 2016. This is a third-world service. They'd love to meet you. They'd love to meet you. Would you come? Would you come and visit those elderly people and explain to them why they have to queue outside, in the dark, in the cold, in the rain, to see a GP?

This chronic shortage of GPs is exacerbated by the situation at Withybush hospital. Many of the junior doctor posts at Withybush are GP trainees. Given that the breadth of the posts available is constantly being eroded, it is a given that the hospital is diminishing in its capacity to provide training for all emergencies in those fields. I understand from undergraduate tutors for both Cardiff and Swansea medical schools that, in its current form, Withybush is going to struggle to attract candidates for many of the posts there.

Diolch i chi, Lywydd. Nid wyf am ailadrodd fy nghyfraniad hyd yma, heblaw dweud, cyn y methiant yn y pŵer, fy mod yn ymateb i ymyriad gan David Rees ac roeddwn eisiau ailegluro'r hyn a roddais yn ateb iddo, sef nodi bod aelodau blaenllaw o'r Blaid Lafur, gan gynnwys Gweinidog Cabinet, wedi bod yn ymgyrchu yn erbyn rhaglen de Cymru.

Felly, os caf barhau, roedd adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd 2016 yn cydnabod yr angen i symud gofal o ysbytai ac at ofal sylfaenol a chymunedol. I bob diben, mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r dull gwrthgyferbyniol ac fel y cyfryw, mae'n gorlwytho'r system iechyd ganodedig ar ychydig o ysbytai dethol. Oherwydd ni fyddai llawer o bobl, Weinidog, yn dadlau nad gofal iechyd sylfaenol a chymunedol yw'r ffordd ymlaen i lawer o wasanaethau; fodd bynnag, mae'r union athroniaeth honno'n cael ei thanseilio drwy fethu â darparu gwasanaethau cadarn gan ysbyty cyffredinol dosbarth yn lleol. Gadewch i mi roi enghraifft i chi. Mae yna brinder affwysol o feddygon teulu yn Sir Benfro. Mae un o'r practisau meddygon teulu mwyaf yng Nghymru, yn Noc Penfro, yn cael trafferth i recriwtio meddygon teulu. Gyda thua 25,000 o gleifion, maent o dan bwysau aruthrol. Ni allwn ddod o hyd i feddygon teulu ar gyfer Dinbych-y-pysgod—tref sy'n cynnal 500,000 o ymwelwyr ychwanegol yn ystod tymor yr haf. Mae'r sefyllfa yno'n enbyd. Ac wrth Aelodau'r Cynulliad Llafur yma sydd wedi fy nghyhuddo o godi bwganod ynghylch gwasanaethau iechyd yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, rwy'n dweud hyn: dewch gyda mi—Weinidog, dewch gyda mi—yn y tywyllwch, yn y glaw, yn yr oerfel—[Chwerthin.] Nid yw mor braf ag y byddech yn ei feddwl. Dewch gyda mi yn y tywyllwch, yn y glaw, yn yr oerfel, ac arhoswch gyda rhai o fy etholwyr oedranus sy'n cwio o 7.30 yn y bore er mwyn mynd i feddygfa meddyg teulu am 8.30, er mwyn cael apwyntiad, am eu bod mewn cymaint o angen. Cwio yn 70, 80 a 90 oed i weld meddyg, yng Nghymru, yn 2016. Gwasanaeth trydydd byd yw hwn. Byddent wrth eu bodd yn eich cyfarfod. Byddent wrth eu bodd yn eich cyfarfod. A fydded yn dod? A ddowch chi i ymweld â'r bobl oedranus hyn ac egluro wrthynt pam y mae'n rhaid iddynt giwio y tu allan, yn y tywyllwch, yn yr oerfel, yn y glaw, i weld meddyg teulu?

Mae'r prinder cronig o feddygon teulu yn cael ei waethygu gan y sefyllfa yn Ysbyty Llwynhelyg. Mae llawer o'r meddygon iau yn Llwynhelyg yn hyfforddi i fod yn feddygon teulu. O gofio bod amrywiaeth y swyddi sydd ar gael yn cael ei erydu'n gyson, ystyrir bod gallu'r ysbyty i ddarparu hyfforddiant ar gyfer pob argyfwng yn y meysydd hynny yn lleihau. Deallaf gan diwtoriaid myfyrwyr israddedig yn ysgolion meddygol Caerdydd ac Abertawe fod Llwynhelyg, ar ei ffurf bresennol, yn mynd i gael trafferth i ddenu ymgeiswyr ar gyfer llawer o'r swyddi yno.

It's a perfect storm. Withybush has no respiratory consultant, no cardiologist, no obstetrics, paediatrics, pain management. As one GP very clearly put it, 'We need to know that behind us is a comprehensive service that we can refer patients to. The hospital's our back-up. Looking behind you and seeing chaos makes my job unbelievably stressful and difficult and offers my patients nothing.' The Welsh Government's current policies have failed, and there's a need for a root-and-branch review of how healthcare is delivered. Welsh Conservatives will end uncertainty over service configuration in Wales. We will maintain existing emergency departments across Wales, as well as re-establishing paediatric and special care baby services in Withybush.

I will leave the last words on this subject to the BMA Cymru, who have said that we

'cannot cover up...the collapsing community provision, lack of hospital beds, and staffing vacancies [which] have pushed our NHS to near collapse.'

Minister, you need to pause and reflect.

Mae'n storm berffaith. Nid oes gan Lwynhelyg ymgynghorydd anadlol, na chardiolegydd, dim obstetreg, pediatreg, rheoli poen. Fel y dywedodd un meddyg teulu yn glir iawn, 'Mae angen i ni wybod bod gennym wasanaeth cynhwysfawr y tu ôl i ni lle y gallwn atgyfeirio cleifion. Yr ysbyty sydd wrth ein cefnau. Mae edrych y tu ôl i chi a gweld anhrefn yn gwneud fy swydd yn anhygoel o anodd a llawn straen ac nid yw'n cynnig dim i fy nghleifion.' Mae polisiâu cyfredol Llywodraeth Cymru wedi methu, ac mae angen adolygiad trwyadl o'r ffordd y darperir gofal iechyd. Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn rhoi diwedd ar ansicrwydd ynghylch cyfluniad gwasanaethau yng Nghymru. Byddwn yn cynnal adrannau achosion brys presennol ar draws Cymru, yn ogystal ag ailsefydlu gwasanaethau pediatrig a gwasanaethau gofal arbennig babanod yn Lwynhelyg.

Gadawaf y geiriau olaf ar y pwnc i BMA Cymru, sydd wedi dweud na allwn

'guddio... y methiant i ddarparu yn y gymuned, diffyg gwllâu ysbyty, a swyddi gwag [sydd] wedi gwrthio ein GIG at ymyl y dibyn.'

Weinidog, mae angen i chi oedi ac ystyried.

16:59

## Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sadly, the Conservative motion before us today puts to bed any hopes I harboured that the publication of the recent OECD report into the NHS across the UK would put a stop to the NHS being used by them as a political football. The long list of planned or ongoing capital projects in Wales shows just how much investment is taking place on the ground here, and the higher overall NHS investment than England underpins Welsh Labour's commitment to safe and sustainable services. This is a Welsh Labour Government that protects all parts of the NHS. Thanks to the £300 million extra this year, and the £1.1 billion extra already invested over the past two years, we spend more on health than England—fact.

Thanks to Welsh Government investment and £36 million allocated in the capital budget this year, my constituents in Torfaen are set to benefit from the purpose-built specialist critical care centre in Cwmbran. The motion put forward by the Tories today fails to acknowledge the new first-class hospitals that are opening under the Welsh Labour Government. Having campaigned hard for this development, I'm delighted that this excellent new £500 million hospital will be built to serve Gwent and south Powys.

There is no doubt that making any change to local health services is always sensitive in communities. It's a debate that local people, stakeholders and all of us want to be involved in. Health boards must ensure genuine engagement and consultation with community health councils and other stakeholders in place to scrutinise the delivery of clinically led plans and, crucially, ensure a service that matches or exceeds current provision.

Yn anffodus, mae cynnig y Ceidwadwyr ger ein bron heddiw yn lladd unrhyw obeithion a fu gennyf y byddai cyhoeddi adroddiad diweddar y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar y GIG ar draws y DU yn rhoi terfyn ar eu harfer o ddefnyddio'r GIG fel pêl-droed wleidyddol. Mae'r rhestr hir o brosiectau cyfalaf cynlluniedig neu barhaus yng Nghymru yn dangos yn union faint o fuddsoddiad sy'n digwydd ar lawr gwlad yma, ac mae'r buddsoddiad cyffredinol yn y GIG yn uwch nag yn Lloegr ac yn ategu ymrwymiad Llafur Cymru i wasanaethau diogel a chynaliadwy. Dyma Lywodraeth Lafur sy'n diogelu pob rhan o'r GIG. Diolch i'r £300 miliwn yn ychwanegol eleni, a'r £1.1 biliwn ychwanegol a fuddsoddiwyd eisoes dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym yn gwario mwy ar iechyd na Lloegr—ffaith.

Diolch i fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru a £36 miliwn a ddyrannwyd yn y gyllideb gyfalaf eleni, mae fy etholwyr yn Rhorfaen yn mynd i elwa o'r ganolfan gofal critigol arbennigol bwrpasol yng Nghwmbran. Mae'r cynnig a gyflwynwyd gan y Toriaid heddiw yn methu â chydabod yr ysbytai newydd o'r radd flaenaf sy'n agor dan Lywodraeth Lafur Cymru. Ar ôl ymgyrchu'n galed am y datblygiad hwn, rwy'n falch iawn y bydd yr ysbyty newydd ardderchog hwn sy'n werth £500 miliwn yn cael ei adeiladu i wasanaethu Gwent a de Powys.

Nid oes amheuaeth fod gwneud unrhyw newid i wasanaethau iechyd lleol bob amser yn bwnc sensitif mewn cymunedau. Mae'n ddadl y mae pobl leol, rhanddeiliaid a phob un ohonom eisiau bod yn rhan ohoni. Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau prosesau ymgysylltu ac ymgynghori go iawn â chynghorau iechyd cymuned a rhanddeiliaid eraill ar gyfer craffu ar y modd y caiff cynlluniau dan arweiniad clinigol eu cyflawni ac yn hollbwysig, ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau'n cyfateb neu'n rhagori ar y ddarpariaeth bresennol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

But today's debate, centred on 'Together for Health', yet again runs away from the honest debate our NHS so badly needs. Our priority in Wales has been, and will continue to be, safeguarding the NHS and putting it on a sustainable footing. Excellence in care has shifted towards specialist provision thanks to inroads in technology and training. Clinicians require high levels of throughput to keep their expertise at the world-class levels we expect for our constituents. This is the substance that underpins the general direction of travel the NHS is taking. So, to talk just about ward closures or loss of services without recognising the context or offering any credible solutions whatsoever is not only misleading, but is running away from the very important decisions facing us as a mature, national legislature.

There are challenges ahead of us. As the recently published OECD report reiterated, Wales faces a demographic of higher rates of chronic illness, an ageing population and high rates of deprivation. We will need to develop different ways of working to deal with these challenges in a sustainable way. Yet despite the huge cuts from Westminster, inflicted by the party over there, we do not underestimate that challenge nor waver in our resolve to confront it head on. Crucially, this Welsh Labour Government engages clinicians in new models, securing their buy-in and taking them with us—a standpoint completely at odds with the *modus operandi* in England and the way Jeremy Hunt has conducted contract negotiations with junior doctors there.

Ond mae'r ddatl heddiw, sy'n canolbwyntio ar 'Law yn Llaw at lechyd', unwaith eto yn troi cefn ar y ddatl onest y mae cymaint o'i hangen ar ein GIG. Ein blaenoriaeth yng Nghymru yn y dyfodol, fel yn y gorffennol, fydd diogelu'r GIG a'i roi ar sail gynaliadwy. Mae rhagoriaeth mewn gofal wedi symud tuag at ddarpariaeth arbenigol diolch i'r camau ymlaen mewn technoleg a hyfforddiant. Mae clinigwyr angen lefelau uchel o lif achosion i gadw eu harbenigedd ar y safon fyd-eang rydym yn ei disgwyl i'n hetholwyr. Dyma'r sylwedd sy'n sail i gyfeiriad teithio cyffredinol y GIG. Felly, mae siarad yn unig am gau wardiau neu golli gwasanaethau heb gydnabod y cyd-destun neu gynnig unrhyw atebion credadwy o gwbl nid yn unig yn gamarweiniol, ond yn troi cefn ar y penderfyniadau pwysig iawn sy'n ein hwynebu fel deddfwrfa aeddfed genedlaethol.

Mae yna heriau o'n blaenau. Fel roedd yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn ei ategu, mae Cymru yn wynebu demograffeg o gyfraddau uwch o salwch cronig, poblogaeth sy'n heneiddio a chyfraddau uchel o amddifadedd. Bydd angen i ni ddatblygu ffyrdd gwahanol o weithio i fynd i'r afael â'r heriau hyn mewn ffordd gynaliadwy. Ond er gwaethaf y toriadau enfawr o San Steffan, a achoswyd gan y blaid acw, nid ydym yn bychanu'r her honno nac yn gwyro yn ein penderfyniad i fynd i'r afael hi'n uniongyrchol. Yn allweddol, mae'r Llywodraeth Lafur hon yn cynnwys clinigwyr mewn modelau newydd, gan sicrhau eu cefnogaeth a mynd â hwy gyda ni—safbwynt hollol groes i'r *modus operandi* yn Lloegr a'r ffordd y mae Jeremy Hunt wedi cynnal trafodaethau contract gyda meddygon iau yno.

17:03 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful to the Member for taking the intervention. What would Labour do about the 11,000 premature deaths that happen on weekends in hospitals? Isn't it vital that that challenge is addressed, rather like the Labour Party didn't address Mid Staffs? [Interruption.]

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am dderbyn yr ymyriad. Beth fyddai Llafur yn ei wneud am y 11,000 o farwolaethau cynamserol sy'n digwydd ar benwythnosau mewn ysbytai? Onid yw'n hanfodol fod yr her honno'n cael sylw, yn debyg i'r modd nad aeth y Blaid Lafur i'r afael â Chanolbarth Swydd Stafford? [Torri ar draws.]

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

17:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. Things are getting out of hand, and some Members, including the Minister, are going to get called in this debate, so let's all calm down, have a robust debate, but we need to hear each other. Lynne Neagle.

Trefn. Mae pethau'n mynd ar chwal, ac mae rhai Aelodau, gan gynnwys y Gweinidog, yn mynd i gael eu galw yn y ddatl hon, felly gadewch i ni i gyd ymdawelu, a chael dadl frwd, ond mae angen i ni glywed ei gilydd. Lynne Neagle.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

17:03 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It will always be a priority for Welsh Labour to deliver safe care. Mid Staffs happened in England. We are taking the steps to ensure safe care, but we are doing it by taking the clinicians and our partners with us, not dragging them along behind.

Bydd darparu gofal diogel bob amser yn flaenoriaeth i Lafur Cymru. Digwyddodd Canolbarth Swydd Stafford yn Lloegr. Rydym yn rhoi'r camau ar waith i sicrhau gofal diogel, ond rydym yn ei wneud drwy fynd â'r clinigwyr a'n partneriaid gyda ni, nid eu llusgo y tu ôl i ni.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)



I also want to talk about the other key pillar of 'Together for Health', which is care closer to the community. I've always believed that health and social care are inextricably linked, and I'm delighted to see an additional £21 million in the draft budget for social care. Contrast this with England, where local authorities are having to cope with massive cuts in social care. The OECD recognises our co-operative commitment and the fact that we are making strategic use of quality indicators that link health and social care data and seek to improve services. Having met with organisations like Rapid Assessment, Interface and Discharge in Gwent, who are funded through the intermediate care fund, I see the real effect this funding is having on the ground, making strides in reducing length of stay and delivering important services closer to people's homes.

That same OECD report refutes the false claims from David Cameron that services are somehow poorer in the Welsh NHS. I'm pleased that ludicrous notion has finally been put to bed and I, too, think it's right and proper for Mr Cameron to make an unreserved apology to staff in Wales who work hard, day in, day out, in the NHS in Wales.

Now that the OECD report has separated fact from fiction, it's no surprise that the Welsh Conservatives have reverted to their previous narrative of trying to frighten people about service reconfiguration. As recent polls put health as the No. 1 concern for voters—

Rwyf hefyd yn awyddus i siarad am y golofn allweddol arall yn 'Law yn Llaw at Iechyd', sef gofal yn agosach at y gymuned. Rwyf bob amser wedi credu bod iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u cysylltu'n annatod, ac rwyf wrth fy modd yn gweld £21 miliwn ychwanegol yn y gyllideb ddrafft ar gyfer gofal cymdeithasol. Cymharwch hyn â Lloegr, lle y mae awdurdodau lleol yn gorfod ymdopi â thoriadau enfawr ym maes gofal cymdeithasol. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn cydnabod ein hymrwymiad cydweithredol a'r ffaith ein bod yn gwneud defnydd strategol o ddangosyddion ansawdd sy'n cysylltu data iechyd a gofal cymdeithasol ac yn ceisio gwella gwasanaethau. Ar ôl cyfarfod gyda sefydliadau fel Asesu, Rhyngwyneb a Rhyddhau Cyflym yng Ngwent, sy'n cael eu hariannu drwy'r gronfa gofal canolraddol, rwy'n gweld effaith go iawn yr arian hwn ar lawr gwlad, a'r modd y mae'n gwneud cynnydd ar leihau hyd arhosiad yn yr ysbyty ac yn darparu gwasanaethau pwysig yn agosach at gartrefi pobl.

Mae'r un adroddiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn gwrthbrofi'r honiadau ffug gan David Cameron fod gwasanaethau rywsut yn waeth yn y GIG yng Nghymru. Rwy'n falch fod y syniad hurt hwnnw wedi cael ei ddiystyru o'r diwedd ac rwyf innau hefyd yn meddwl ei bod yn iawn ac yn briodol i Mr Cameron ymddiheuro'n ddiplomacydd i staff yng Nghymru sy'n gweithio'n galed, ddydd ar ôl dydd, yn y GIG yng Nghymru.

Gan fod adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd bellach wedi gwahanu ffaith a ffuglen, nid yw'n syndod fod y Ceidwadwyr Cymreig wedi dychwelyd at eu naratif blaenorol o geisio dychryn pobl ynglŷn ag ad-drefnu gwasanaethau. Gan fod polau diweddar wedi gosod iechyd ar frig y rhestr o bethau sy'n peri pryder i bleidleiswyr—

17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finish with this, please.

Gorffennwch gyda hyn, os gwelwch yn dda.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:05 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—I want to be clear about the way we conduct things in Wales. Under Labour, our health service will always be free at the point of need, free from privatisation and committed to excellence in care, and not the political football that you would have it.

[Yn parhau.]—rwyf am fod yn glir ynglŷn â'r ffordd rydym yn gwneud pethau yng Nghymru. O dan Lafur, bydd ein gwasanaeth iechyd bob amser yn rhad ac am ddim yn y man lle y mae ei angen, yn rhydd o breifateiddio ac yn ymrwymedig i ragoriaeth mewn gofal, ac nid yn bêl-droed wleidyddol fel y byddech chi'n ei wneud.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:05 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Labour health Ministers have been running NHS Wales for 17 years. The pressure on our hospitals, patients and staff is unprecedented. Despite a 26-week referral-to-treatment waiting-time target, the most recently published official monthly figures show that 26,342 patients, including 6,202 in Betsi Cadwaladr University Local Health Board, waited more than nine months to start treatment in Wales, and that 3,294 patients, including 1,151 in Betsi Cadwaladr and almost one in 10 in Wrexham Maelor, waited over 12 hours in accident and emergency—the target for both is zero.

Mae gweinidogion iechyd Llafur wedi bod yn rhedeg y GIG yng Nghymru ers 17 mlynedd. Mae'r pwysau ar ein hysbytai, ein cleifion a'n staff yn ddigynsail. Er gwaethaf targed amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth o 26 wythnos, mae'r ffigurau misol swyddogol a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar yn dangos bod 26,342 o gleifion, gan gynnwys 6,202 ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, wedi aros mwy na naw mis i ddechrau triniaeth yng Nghymru, a bod 3,294 o gleifion, gan gynnwys 1,151 yn Betsi Cadwaladr a bron un o bob 10 yn ysbyty Maelor Wrexham, wedi aros dros 12 awr yn yr adran damweiniu ac achosion brys—y targed ar gyfer y ddau yw sero.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The 2013 Wales Audit Office report on health finances found that although there had been real-terms increases to health budgets in the other UK nations, only the devolved NHS in Wales had faced a real-terms reduction since 2010, which it described as 'unprecedented in UK history'.

Welsh Conservatives have consistently called for more money to be invested into NHS Wales, and a Welsh Conservative Government would protect NHS Wales, ensuring real-terms health budget increases and an end to hospital closures. All existing emergency departments would be maintained, and minor injury units and community hospitals axed by the Labour Welsh Government would be re-established to relieve pressure on our emergency departments and provide more convenient access to patients. In addition, a £20 million community hospital development fund would be established to expand the role of community hospitals across Wales.

Speaking as Labour health Minister in March 2010, Edwina Hart said, 'I am not aware of any threat to community hospitals across Wales'. In reality, I'd established CHANT Cymru—Community Hospitals Acting Nationally Together—which successfully campaigned for suspension of Labour's plans to close community hospitals in 2007. However, when Labour returned to single-party power in Cardiff in 2011, they again pushed ahead with their community hospital closure programme, including Llangollen, Flint, Prestatyn and Blaenau Ffestiniog, and the loss of minor injury units, including Colwyn Bay, Chirk and Ruthin. As I stated in the Assembly three years ago—

Canfu adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyllid iechyd ar gyfer 2013, er y bu cynnydd mewn termau real i gyllidebau iechyd yng ngwledydd eraill y DU, y GIG datganoledig yng Nghymru yn unig a wynebodd ostyngiad mewn termau real ers 2010, a disgrifiodd y gostyngiad hwnnw fel un 'digynsail yn hanes y DU'.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi galw'n gyson am fuddsoddi mwy o arian yn y GIG yng Nghymru, a byddai Llywodraeth Geidwadol Cymru yn amddiffyn GIG Cymru, gan sicrhau cynnydd mewn termau real yn y gyllideb iechyd a diwedd ar gau ysbytai. Byddai'r holl adrannau achosion brys presennol yn cael eu cynnal, a'r unedau mân anafiadau ac ysbytai cymunedol a gaewyd gan Lywodraeth Lafur Cymru yn cael eu hailsefydlu i leihau'r pwysau ar ein hadrannau achosion brys ac i ddarparu mynediad mwy cyfleus i gleifion. Yn ogystal, byddai cronfa datblygu ysbytai cymunedol gwerth £20 miliwn yn cael ei sefydlu i ehangu rôl ysbytai cymunedol ar draws Cymru.

Gan siarad fel Gweinidog Iechyd Llafur ym mis Mawrth 2010 dywedodd Edwina Hart, 'Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw fgyrthiad i ysbytai cymunedol ledled Cymru'. Mewn gwirionedd, roeddwn wedi sefydlu Ysbytai CHANT Cymru—Ysbytai Cymuned yn Gweithredu'n Genedlaethol Gyda'i Gilydd—a ymgyrchodd yn llwyddiannus i atal cynlluniau Llafur i gau ysbytai cymunedol yn 2007. Fodd bynnag, pan ddechwelodd Llafur i rym un blaid yng Nghaerdydd yn 2011, aethant ati eto i wthio ymlaen gyda'u rhaglen i gau ysbytai cymunedol, gan gynnwys Llangollen, y Fflint, Prestatyn a Blaenau Ffestiniog, a cholli unedau mân anafiadau, gan gynnwys Bae Colwyn, y Waun a Rhuthun. Fel y dywedais yn y Cynulliad dair blynedd yn ôl —

- |       |  |  |  |
|-------|--|--|--|
| 17:08 | <b>Sandy Mewies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br>Would you give way?   | A wnewch chi ildio?  | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo Video</a> |
| 17:08 | <b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br>Did I hear something? No.   | A glywais i rywbeth? Naddo.  | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo Video</a> |
| 17:08 | <b>Sandy Mewies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br>Yes, you did.   | Do, fe wnaethoch.  | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo Video</a> |
| 17:08 | <b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br>Sorry, yes.   | Mae'n ddrwg gennyf, ie.  | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo Video</a> |
| 17:08 | <b>Sandy Mewies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br>Do you know, one of the things I've heard, and I've heard this before about community hospitals—? One of the problems is that when clinicians tell you that a hospital, which was a Victorian hospital—I fought to keep it open in 2007—had had no finance put into it after that, and that services there were not safe and sustainable, and that was supported not only by GPs but by physicians and nurses, there was no money to go into there—. Do you really think that your opinion is better than clinicians? | Wyddoch chi, un o'r pethau a glywais, ac rwyf wedi clywed hyn o'r blaen am ysbytai cymuned—? Un o'r problemau yw pan fo clinigwyr yn dweud wrthyh fod ysbyty, a oedd yn ysbyty o oes Fictoria—ymladdais i'w gadw'n agored yn 2007—heb gael unrhyw gyllid ar ôl hynny ac nad oedd gwasanaethau yno'n ddiogel nac yn gynaliadwy, a bod hynny wedi'i ategu nid yn unig gan feddygon teulu, ond gan feddygon ymgynghorol a nyrsys, nad oedd unrhyw arian ar gael i fynd i mewn yno—. A ydych chi wir yn credu bod eich barn chi yn well na barn clinigwyr? | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo Video</a> |

You don't close them until there are new premises with beds, proper community hospitals, to replace them.

As I stated in the Assembly three years ago, Betsi Cadwaladr University Local Health Board boycotted the open public meetings about their closure proposals and, instead, funded a highly managed consultation that campaigners said did not reflect the true feelings of people in the region, dismissed thousands who signed petitions, blatantly manipulated numbers in order to arrive at the result it set out to achieve and ignored the majority expressing opposition in the wider consultation.

When current health Minister, Mark Drakeford, stated the decisions to close the community hospitals at Flint, Llangollen, Blaenau Ffestiniog and Prestatyn were supported by the local community health council, he failed to mention that North Wales Community Health Council had written to him expressing concerns about the robustness of the information provided by the health board, which they used to inform their decision-making process. Dozens of community beds were lost, despite bed-occupancy levels of 95 per cent and above.

The GP who set up the north Wales pilot enhanced care at home scheme with the health board said that this would bring a service that is currently frequently gridlocked further to its knees, and that a central part of the proposed shake-up of health services, providing more care in people's homes, won't fill the gap left by shutting community hospitals.

This Welsh Labour Government ignored the Flint referendum, in which 99.3 per cent voted in favour of returning in-patient beds to Flint, and then ignored the Blaenau Ffestiniog referendum, where an overwhelming majority voted in favour of returning beds there. At packed meetings in Flint town hall, we heard several tragic stories about local people affected by their hospital closure. In deference to Welsh Labour policy, the health board states that Flint patients needing community hospital care will be admitted to Holywell hospital, but, when I visited Holywell hospital, staff told me extra investment in our local community hospitals, such as Holywell, and NHS community beds in Flint, would take pressure off our general hospitals, help tackle the A&E crisis and enable the health board to use its resources more efficiently.

As the head of the NHS in England said, smaller community hospitals should play a bigger role, particularly in the care of older patients. Welsh Conservatives will not only require health and social care providers to collaborate and to support independent living, but also re-establish step-down care beds in the community and introduce a right to respite for carers, working with front-line health professionals, to build a proper network of community-based health services.

Nid ydych yn eu cau nes bod safleoedd newydd gyda gwllâu, ysbytai cymunedol priodol, i gymryd eu lle.

Fel y dywedais yn y Cynulliad dair blynedd yn ôl, boicotiodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr y cyfarfodydd cyhoeddus agored ynglŷn â'u cynigion i gau safleoedd ac yn lle hynny, ariannodd ymgynghoriad dan reolaeth lem nad oedd, yn ôl ymgyrchwyr, yn adlewyrchu gwir deimladau pobl y rhanbarth; diystyrododd filoedd o bobl a lofnododd ddeisebau; ystumiodd y niferoedd yn ddigywilydd er mwyn sicrhau'r canlyniad yr anelai i'w gyflawni; ac anwybyddodd y mwyafrif a fynegodd wrthwynebiad i'r ymgynghoriad ehangach.

Pan ddywedodd y Gweinidog iechyd cyfredol, Mark Drakeford, fod y penderfyniadau i gau ysbytai cymuned yn y Fflint, Llangollen, Blaenau Ffestiniog a Phrestatyn wedi'u cefnogi gan y cyngor iechyd cymuned lleol, methodd â sôn bod Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru wedi ysgrifennu ato yn mynegi pryderon ynghylch safon y wybodaeth a ddarparwyd gan y bwrdd iechyd, ac a ddefnyddiwyd ganddynt i lywio eu proses benderfynu. Collwyd dwsinau o wllâu cymunedol, er bod lefelau defnydd gwllâu yn 95 y cant ac yn uwch.

Dywedodd y meddyg teulu a sefydlodd y cynllun peilot gofal estynedig yn y cartref gyda'r bwrdd iechyd y byddai hyn yn llorio gwasanaeth sydd eisoes yn aml dan bwysau, ac na fydd rhan ganolog o'r ad-drefnu arfaethedig ym maes gwasanaethau iechyd, sef darparu mwy o ofal yng nghartrefi pobl, yn llenwi'r bwlch o ganlyniad i gau ysbytai cymunedol.

Anwybyddodd y Llywodraeth Lafur hon refferendwm y Fflint, lle y pleidleisiodd 99.3 y cant o blaid adfer gwllâu i gleifion mewnol yn y Fflint, ac yna anwybyddodd refferendwm Blaenau Ffestiniog, lle y pleidleisiodd mwyafrif llethol o blaid adfer gwllâu yno. Mewn cyfarfodydd gorlawn yn neuadd y dref y Fflint, clywsom nifer o straeon trist am bobl leol yr effeithiwyd arnynt yn sgil cau eu hysbyty. Gan ymostwng i bolisi Llafur Cymru, noda'r bwrdd iechyd y bydd cleifion yn y Fflint sydd angen gofal ysbyty cymuned yn cael eu derbyn i ysbyty Treffynnon, ond pan ymwelais ag Ysbyty Treffynnon, dywedodd staff wrthyf y byddai buddsoddiad ychwanegol yn ein hysbytai cymuned lleol, fel Treffynnon, a gwllâu GIG cymunedol yn y Fflint, yn tynnu'r pwysau oddi ar ein hysbytai cyffredinol, yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng adrannau damweiniau ac achosion brys ac yn galluogi'r bwrdd iechyd i ddefnyddio'i adnoddau yn fwy effeithlon.

Fel y dywedodd pennaeth y GIG yn Lloegr, dylai ysbytai cymuned llai o faint chwarae rhan fwy, yn enwedig yng ngofal cleifion hŷn. Bydd y Ceidwadwyr Cymreig nid yn unig yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio a chefnogi byw'n annibynnol, ond hefyd yn ailsefydlu gwllâu gofal llai dwys yn y gymuned ac yn cyflwyno hawl i seibiant i ofalwyr, gan weithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol rheng flaen i adeiladu rhwydwaith priodol o wasanaethau iechyd yn y gymuned.

To conclude, as an e-mail from the Royal College of Surgeons to me today said, the equivalent of one in seven people are awaiting treatment, and there is no sign of this improving.

I gloi, fel y dywedodd neges e-bost gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon ataf heddiw, mae'r hyn sy'n cyfateb i un o bob saith o bobl yn aros am driniaeth, ac nid oes unrhyw arwydd fod hyn yn gwella.

17:11

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Less than 12 months ago, voters across Wales went to the polls to vote—and we all know now of the fantastic outcome of that result. In north Wales, for certain, the issue dominating the months over that campaign was the crisis in our health service, and I'm sure I'm not alone in knowing that this will dominate the minds of all affected in our constituencies over the next few weeks: cuts in hospital bed numbers and beds across north Wales removed by stealth; serious downgrades to many of our local district hospitals; shockingly poor ambulance response times; a loss of nearly a half of all available beds in Llandudno district hospital, including the complete withdrawal of our elderly mentally ill unit; loss of our coronary care unit; wards closed through a lack of nursing staff; loss of the breast care surgery in Llandudno hospital; endoscopy services removed, despite a £170,000 refurbishment scheme—only to be completely left in abandonment.

If we look back to the start of the fourth Assembly term, on 7 December 2011, in response to a question, the health Minister at that time said there would be no further downgrades to our district general hospitals. The First Minister himself stated in November 2011:

'No-one is suggesting the downgrading of any district general hospital.'

Well, Deputy Presiding Officer, I'm afraid those promises were broken in the most appalling way. With every downgrade or closure came the loss of some of our most devoted medical staff, who have now been left devastated as a result of such cuts, and a loss of their vocation and livelihood. Our remaining workforce within our local health boards are demoralised, as they have quite innocently been caught up in the political wrangle that has been caused by many pointing out Labour's abject failure to protect our health service and its staff.

In a recent poll conducted over the last couple of days, it is obvious that the key issue on everyone's minds now is just how well this Labour Government has overseen or led on our health service, not just over 12 months, but over five years: one in seven on a waiting list, massive delays for treatment, a chronic shortage of GPs, our local health board put into special measures, and, yes, reluctance on the part of the Labour Government—[Interruption.] No, sorry. Despite many calls from the Conservative group to intervene more quickly, as shocking factual reports were coming forward on an almost weekly basis—. Despite the ministerial intervention and special measures placed, we are simply not seeing any evidence whatsoever that there have been any fundamental improvements to the quality of treatment or accountability ongoing.

Lai na 12 mis yn ôl, aeth pleidleiswyr ar draws Cymru i bleidleisio—ac rydym i gyd yn gwybod beth oedd y canlyniad gwyb hwnnw bellach. Yng ngogledd Cymru, yn bendant, y mater mwyaf amlwg yn ystod yr ymgyrch honno oedd yr argyfwng yn ein gwasanaeth iechyd, ac rwy'n siŵr nad fi yw'r unig un sy'n gwybod mai dyma'r mater a fydd yn cael fwyaf o sylw gan bawb yr effeithir arnynt yn ein hetholaethau dros yr ychydig wythnosau nesaf: toriadau yn niferoedd gwâlau ysbytai a gwâlau ar draws gogledd Cymru wedi'u colli'n llechwraidd; israddio llawer o'n hysbytai dosbarth lleol yn ddirifol; amseroedd ymateb ambiwlansys arswydus o wael; colli bron i hanner yr holl wâlau yn ysbyty dosbarth Llandudno, gan gynnwys cael gwared yn llwyr ar ein huned i'r henoed bregus eu meddwl; colli ein huned gofal coronaidd; cau wardiau oherwydd prinder staff nyrsio; colli llawdriniaethau gofal y fron o Ysbyty Llandudno; dileu gwasanaethau endosgopi, er gwaethaf cynllun ailwampio gwerth £170,000—wedi'i anghofio'n gyfan gwbl.

Os edrychwn yn ôl i ddechrau tymor y pedwerydd Cynulliad, ar 7 Rhagfyr 2011, mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Gweinidog Iechyd ar y pryd na fyddai unrhyw israddio pellach i'n hysbytai cyffredinol dosbarth. Nododd y Prif Weinidog ei hun ym mis Tachwedd 2011:

'Nid oes neb yn awgrymu israddio unrhyw ysbyty cyffredinol dosbarth.'

Wel, Ddirprwy Lywydd, mae arnaf ofn fod yr addewidion hynny wedi'u torri yn y modd mwyaf ofnadwy. Gyda phob ysbyty a israddiwyd neu a gaewyd gwelwyd colli rhai o'n staff meddygol mwyaf ymroddedig, sydd bellach wedi'u distrywio o ganlyniad i doriadau o'r fath, a cholli eu galwedigaeth a'u bywoliaeth. Mae ein gweithlu sy'n weddill yn ein byrddau iechyd lleol wedi'u digalonni, gan eu bod wedi'u dal, a hwythau'n gwbl ddiniwed, yn y ffrae wleidyddol a achoswyd gan lawer yn tynnu sylw at anallu llwyr Llafur i ddiogelu ein gwasanaeth iechyd a'i staff.

Mewn arolwg diweddar a gynhaliwyd yn ystod y diwrnodau diwethaf, mae'n amlwg mai'r mater allweddol ym meddyliau pawb yn awr yw pa mor dda y mae'r Llywodraeth Lafur wedi goruchwyllo neu wedi arwain ein gwasanaeth iechyd, nid dros 12 mis yn unig, ond dros bum mlynedd: un o bob saith ar restr aros, oedi enfawr cyn cael triniaeth, prinder cronig o feddygon teulu, ein bwrdd iechyd lleol wedi'i roi dan weithdrefn mesurau arbennig, ac yn wir, amharodrydd ar ran y Llywodraeth Lafur—[Torri ar draws.] Na, mae'n ddrwg gennyf. Er gwaethaf llawer o alwadau gan y grŵp Ceidwadol i ymyrryd yn gyflymach, wrth i adroddiadau ffeithiol brawychus gael eu cyflwyno ar sail bron yn wythnosol—. Er gwaethaf ymyrraeth weinidogol a gosod mesurau arbennig, yn syml iawn, nid ydym yn gweld unrhyw dystiolaeth o gwbl y bu unrhyw welliannau sylfaenol i ansawdd y driniaeth nac atebolrwydd parhaus.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

It is simply not good enough that those living in Aberconwy are still waiting inordinate amounts of time for access to a GP, still waiting much longer than any patients over the border for access to orthopaedic surgery, still having to move to England if they need a particular cancer drug for one of the rarer forms of cancer, and it is simply unacceptable that our local health board is facing claims of £90 million for serious negligence.

In 64 days, the people of Wales will go back to the polls once again to elect a new Government in Wales. The First Minister and this Welsh Labour Government will be judged on their record of failure and their inability to protect our health service, imposing cuts that have caused serious pressures on our emergency services and A&E departments, allowing health boards to carry on regardless despite system failures and cultural disharmony within a health board. He and this Labour Government will be remembered for the dismal failure to protect our most vulnerable, the sick and the elderly. Welsh Conservatives in Government will bring about fundamental and realistic change. No more gimmicks, no more spin and no more broken promises. We will protect, champion and fight for a health service in Wales that is not only fit for the twenty-first century, but one that is deserved by all those relying upon it and all those working within it.

Nid yw'n ddigon da fod y rhai sy'n byw yn Aberconwy yn dal i aros am lawer gormod o amser i weld meddyg teulu, yn dal i aros yn llawer hirach nag unrhyw glaf dros y ffin i gael llawdriniaeth orthopedig, yn dal i orfod symud i Loegr os ydynt angen cyffuriau canser penodol ar gyfer un o'r mathau prinach o ganser, ac mae'n gwbl annerbiniol fod ein bwrdd iechyd lleol yn wynebu hawliadau o £90 miliwn am esgeulustod difrifol.

Mewn 64 diwrnod, bydd pobl Cymru yn mynd yn ôl at y blychau pleidleisio unwaith eto i ethol Llywodraeth newydd yng Nghymru. Bydd y Prif Weinidog a'r Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru yn cael eu barnu ar sail eu methiant a'u hanallu i ddiogelu ein gwasanaeth iechyd, gan gyflawni toriadau sydd wedi achosi pwysau difrifol ar ein gwasanaethau brys ac adrannau damweiniau ac achosion brys, gan ganiatáu i fyrddau iechyd barhau i wneud fel y mynnant er gwaethaf methiannau yn y system ac anghyngord diwylliannol o fewn byrddau iechyd. Bydd ef a'r Llywodraeth Lafur hon yn cael eu cofio am y methiant enbyd i ddiogelu ein pobl fwyaf agored i niwed, pobl sâl a'r henoed. Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn y Llywodraeth yn sicrhau newid sylfaenol a realistig. Dim mwy o gimics, dim mwy a sbin a dim mwy o addewidion wedi'u torri. Byddwn yn diogelu, yn hyrwyddo ac yn ymladd dros wasanaeth iechyd yng Nghymru sydd nid yn unig yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, ond gwasanaeth iechyd y mae pawb sy'n dibynnu arno a phawb sy'n gweithio ynddo yn ei haeddu.

17:16

## Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cyfraniad byr sydd gen i, yn dilyn profiad etholwr yn ddiweddar. Mae o'n ŵr 82 oed ac wedi cael pedair llawdriniaeth gymhleth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Fe alwodd o fi i ymweld ag o yn ei gartref, oherwydd bod o'n anabl erbyn hyn, er mwyn canmol y driniaeth a'r gofal roedd o wedi'i dderbyn yn Ysbyty Gwynedd. Ond roedd o'n bryderus iawn—yn teimlo i'r byw, yn wir—dros y staff a'r straen oedd arnyn nhw, yn enwedig y staff nyrsio, ac roedd o am i mi gyfleu'r neges yma i'r Cynulliad ac i'r Gweinidog—y Dirprwy Weinidog heddiw. Mi soniodd am nyrsys profiadol yn crio ac yn dweud yn blaen eu bod nhw'n chwilio am gyfle i adael y gwasanaeth, a'r prif reswm am hynny oedd prinder gwelyau yn Ysbyty Gwynedd. Fe dreuliodd yr hen ŵr bregus hwn y noson olaf yn yr ysbyty mewn ystafell yr oedd o yn ei disgrifio fel 'box room', am nad oedd lle iddo fo ar y ward. Ac, ar un diwrnod yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty, oherwydd y niferoedd oedd yn yr adran frys, roedd y staff yn chwilio yn ffrantig am 30 o welyau o fewn yr ysbyty, ac yn symud cleifion o un ward i'r llall er mwyn canfod rhyw wely gwag i'r rhai oedd angen dod i fyny o'r adran frys.

I have a brief contribution, following the experience of a constituent recently. He's an 85 year-old man and has had four complex operations in Ysbyty Gwynedd recently. He called me to visit him at home, because he is now disabled, in order to praise the treatment and care that he had received at Ysbyty Gwynedd. But he was very concerned—felt very deeply indeed—about the staff and the strain under which they work, particularly the nursing staff, and he wanted me to convey this message to the Assembly and to the Minister—the Deputy Minister today. He talked about experienced nurses in tears and saying bluntly that they were looking for an opportunity to leave the service, and the main reason for that was the lack of beds at Ysbyty Gwynedd. This vulnerable old man spent his last night in the hospital in a room that he described as a 'box room', because there wasn't any space for him available on the ward. And, on one day during his stay at the hospital, because of the numbers in the emergency department, the staff were frantically searching for 30 beds in the hospital, and were moving patients from one ward to another in order to find any empty beds for those patients who needed to come up from the emergency department.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Barn y nysys oedd bod colli'r ysbytai lleol—yr ysbytai cymunedol hynny oedd ar gyfer cleifion a oedd yn dal yn rhy wan i fynd adref—wedi cyfrannu at y straen hon ar yr ysbyty ac arnyn nhw fel staff. Mae cau llawer o'r ysbytai cymunedol hyn wedi arwain at sefyllfa lle yr ydym yn gweld nysys profiadol yn gadael y gwasanaeth, tra mae'r bwrdd yn recriwtio rhai newydd o bendraw'r byd. Ac, er cystal ydy'r rheini, roedd yr hen ŵr yma a'i wraig yn dweud, wrth gwrs, fod yna anawsterau cyfathrebu gydag amryw o'r nysys yma ac, yn wir, bod staff profiadol yn gorfod mynd gyda nhw oherwydd y broblem yma. Mae'n siŵr y bydd hynny'n dod i ben. Ond roedd o'n awyddus iawn i mi ddweud y profiad yma, a'r neges yma bod staff profiadol erbyn hyn yn teimlo bod nhw o dan warchae oherwydd prinder gwelyau, yn bennaf, o fewn yr ysbyty, a bod hwnnw yn deillio o'r cau sydd wedi bod ar nifer o'r ysbytai lleol. Diolch.

The nurses' view was that the loss of local hospitals—those community hospitals that catered for those patients still too weak to go home—had contributed to the strain on the hospital and upon them as staff members. The closure of many of these community hospitals has led to a situation where we see experienced nurses leaving the service, while the board is recruiting new nurses from far-flung places. And, however good they may be, this elderly gentleman and his wife said that, of course, there are communication difficulties with a number of these nurses and experienced staff have to accompany them because of this problem. I'm sure that will end soon. But he was very eager for me to relay this experience, and this message that experienced staff members do feel under siege because of the lack of beds, primarily, within the hospital, and that that arises from the closure of a number of local hospitals. Thank you.

17:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Deputy Minister for Health, Vaughan Gething.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd, Vaughan Gething.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:19 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Thank you, Deputy Presiding Officer. Before I turn to my remarks, I'll briefly outline the Government's position on both of the amendments. We agree with the basic premise of Plaid Cymru's amendment on workforce planning, but we won't support the amendment, given the narrow focus on doctors, who account for less than 10 per cent of the NHS workforce. We'll be happy to support the amendment in the name of Aled Roberts, as it's a clear and long-held aim of the Welsh Government to move services out of hospital into the community, and to improve services in rural settings through the Mid Wales Healthcare Collaborative.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cyn i mi droi at fy sylwadau, rwyf am amlinellu'n gryno beth yw safbwynt y Llywodraeth ynghylch y ddau welliant. Rydym yn cytuno â'r rhagdybiaeth sylfaenol sy'n sail i welliant Plaid Cymru ar gynllunio'r gweithlu, ond ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliant, o ystyried y ffocws cul ar feddygon, sy'n llai na 10 y cant o weithlu'r GIG. Byddwn yn hapus i gefnogi'r gwelliant yn enw Aled Roberts, gan fod symud gwasanaethau allan o'r ysbyty i'r gymuned a gwella gwasanaethau mewn lleoliadau gwledig drwy Fwrdd Cydweithredol Gofal Iechyd Canolbarth Cymru yn nod clir a hirsefydlog gan Lywodraeth Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Turning to the content in today's debate, we have heard a truly scandalous assault upon our national health service from the Conservatives in both tone and content. For people to say that NHS Wales provides a third-world service is truly disgraceful, and simply does not reflect the reality of compassionate, high-quality care that is the day-to-day reality that people experience in every community in Wales. Nor does it reflect the reality of what a truly third-world service is, and I do wish that Conservative Members would, at least at some point, reflect on the reality of what our staff do and the way that the language used today has an impact.

Gan droi at y cynnwys yn y ddadl heddiw, rydym wedi clywed ymosodiad gwirioneddol gywilyddus ar ein gwasanaeth iechyd gwladol gan y Ceidwadwyr o ran ei naws a'i gynnwys. Mae i bobl ddweud bod GIG Cymru yn darparu gwasanaeth trydydd byd yn wirioneddol warthus, ac yn syml iawn, nid yw'n adlewyrchu realiti gofal tosturiol o ansawdd uchel sy'n realiti o ddydd i ddydd a brofir gan bobl ym mhob cymuned yng Nghymru. Nid yw ychwaith yn adlewyrchu realiti'r hyn yw gwasanaeth trydydd byd go iawn, a hoffwn yn fawr pe bai Aelodau Ceidwadol ar ryw bwynt o leiaf yn myfyrio ar realiti'r hyn y mae ein staff yn ei wneud a'r ffordd y mae'r iaith a ddefnyddiwyd heddiw yn cael effaith.

Today's debate had, of course, important messages from the Conservative party that I hope people hear loud and clear. The Tories will condemn the Welsh public to continue using hospitals that are no longer fit for the twenty-first century—that is the impact of today's motion. The Tories want to take staff away from busy accident and emergency departments to reopen, or to open, minor injuries units that cannot meet clinical standards. The Tories believe that Tory politicians know better than the most authoritative doctors in Wales and across the United Kingdom and the Tory guarantee would deliver an unacceptable and substandard service if they were permitted to implement it.

Roedd y ddadl heddiw, wrth gwrs, yn cynnwys negeseuon pwysig gan y blaid Geidwadol ac rwy'n gobeithio y bydd pobl yn eu clywed yn eglur. Bydd y Torïaid yn condemnio'r cyhoedd yng Nghymru i barhau i ddefnyddio ysbytai nad ydynt bellach yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain—dyna yw effaith y cynnig heddiw. Mae'r Torïaid am fynd â staff o adrannau damweiniau ac achosion brys prysur er mwyn ailagor, neu agor, unedau mân anafiadau na all gyrraedd safonau clinigol. Mae'r Torïaid yn credu bod gwleidyddion Torïaidd yn gwybod yn well na'r meddygon mwyaf awdurdodol yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig a byddai gwarant y Torïaid yn darparu gwasanaeth annerbyniol ac is na'r safon pe caniateid iddynt ei gweithredu.

This Tory motion commits the Assembly to guarantee there will be no hospital closures in the fifth Assembly term. That should be a remarkable suggestion to anyone who's seen the record of that party in Government across our border. Not simply the 66 A&E and maternity units that 'The Daily Telegraph', of all people, list as having been closed or downgraded since May 2010, but there are wholesale closures across our border. For example, Southwold and Halesworth hospitals were confirmed just a few weeks ago by the Tory Government, in Conservative-held constituencies in Great Yarmouth and east Norfolk. The biggest hospital closures in the history of the national health service were forced through by a Tory Secretary of State at the Imperial healthcare trust in the west of London only 18 months ago.

If ever there was a buyer beware guarantee written all the way through it, it would be a Tory promise not to close hospitals, when from Cumbria to Croydon, and from the west country to East Anglia, that is what they have been doing for the last seven years. And it's not just in remoter parts of England, but right on our own border where people do access healthcare from mid Wales. The decision of Shrewsbury and Telford trust to close the whole accident and emergency department at one of its two hospitals has now been deferred again, not because it isn't going to happen, but because it doesn't go far enough. That trust will run up a £20 million deficit in this year alone. That means even more extensive closures will be necessary.

Deputy Presiding Officer, let me now turn to what this motion would mean here in Wales. From north to south, east to west, voting for this motion today is a vote to turn the clock back on some of the most vitally needed investment in our NHS. We heard earlier today about Flint hospital, originally built as a private residence in 1905, and plans to expand very significantly services for that town's population. It is one of a whole series of investments made by this Government in new facilities right across north Wales—from Llangollen to Blaenau Ffestiniog and from Flint to Tywyn.

In all of these places, the new is replacing the old. Facilities fit for the twenty-first century, depending on the closure of old facilities built for a health service of long ago. A vote for this motion today is to deny that investment in our future. The so-called Tory guarantee of no hospital closures is in fact a Tory guarantee that people in north Wales will not get the modern, multi-million pound investment that this Welsh Labour Government is committed to deliver.

And let's turn to west Wales. In May last year, the Minister approved almost £6 million for the Cylch Caron centre in Tregaron. It can only go ahead with the closure of Tregaron community hospital, which began life as the town's workhouse in 1876. So, let's be clear: a vote for today's motion is a vote to end the Cylch Caron project.

Mae'r cynnig hwn gan y Torïaid yn rhwymo'r Cynulliad i warantu na fydd unrhyw ysbytai'n cau yn ystod y pumed Cynulliad. Dylai hwnnw fod yn awgrym rhyfeddol i unrhyw un sydd wedi gweld record y blaid honno mewn grym dros y ffin. Nid yn unig y 66 o unedau damweiniau ac achosion brys ac unedau mamolaeth y mae 'The Daily Telegraph', o bawb, wedi'u rhestru fel rhai a gaewyd neu a israddiwyd ers mis Mai 2010, ond yr ysbytai cyfan sydd wedi cau dros y ffin. Er enghraifft, ychydig wythnosau yn ôl yn unig, cadarnhaodd y Llywodraeth Doriïaid ysbytai Southwold a Halesworth, mewn etholaethau Ceidwadol yn Great Yarmouth a dwyrain Norfolk. Gwelwyd y lefel uchaf o gau ysbytai yn hanes y gwasanaeth iechyd gwladol yn cael ei orfodi drwodd gan Ysgrifennydd Gwladol Torïaid yn ymddiriedolaeth gofal iechyd Imperial yng ngorllewin Llundain gwta 18 mis yn ôl.

Os cafwyd gwarant erioed gyda rhybudd i'r prynwr fod yn ofalus wedi'i ysgrifennu yr holl ffordd drwyddi, addewid gan y Torïaid i beidio â chau ysbytai fyddai hwnnw, a hwythau wedi bod yn gwneud hynny o Cumbria i Croydon, ac o dde-orllewin Lloegr i East Anglia dros y saith mlynedd diwethaf. Ac nid mewn rhannau mwy anghysbell o Loegr yn unig, ond ar ein ffin ein hunain lle y mae pobl yn manteisio ar ofal iechyd o ganolbarth Cymru. Mae penderfyniad ymddiriedolaeth yr Amwythig a Telford i gau adran damweiniau ac achosion brys gyfan yn un o'i dau ysbyty wedi cael ei ohirio unwaith eto, nid oherwydd nad yw'n mynd i ddigwydd, ond oherwydd nad yw'n mynd yn ddigon pell. Bydd yr ymddiriedolaeth yn wynebu diffyg o £20 miliwn y flwyddyn hon yn unig. Mae hynny'n golygu y bydd angen cau'n fwy helaeth eto hyd yn oed.

Ddirprwy Lywydd, gadewch i mi droi yn awr at yr hyn y byddai'r cynnig hwn yn ei olygu yma yng Nghymru. O'r gogledd i'r de, o'r dwyrain i'r gorllewin, mae pleidleisio dros y cynnig hwn heddiw yn bleidlais i droi'r cloc yn ôl ar rai o'r buddsoddiadau sydd eu hangen yn fwyaf hanfodol yn ein GIG. Clywsom yn gynharach heddiw am ysbyty'r Fflint, a adeiladwyd yn wreiddiol fel preswylfa breifat yn 1905, a'r cynlluniau i ehangu gwasanaethau i boblogaeth y dref yn sylweddol iawn. Mae'n un o gyfres gyfan o fuddsoddiadau a wnaed gan y Llywodraeth hon mewn cyfleusterau newydd ar hyd a lled gogledd Cymru—o Langollen i Flaenau Ffestiniog ac o'r Fflint i Dywyn.

Ym mhob un o'r manau hyn, mae'r newydd yn disodli'r hen. Cyfleusterau addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, yn dibynnu ar gau hen gyfleusterau a adeiladwyd ar gyfer gwasanaeth iechyd amser maith yn ôl. Mae pleidlais dros y cynnig hwn heddiw yn gwadu buddsoddiad yn ein dyfodol. Mae'r hyn a elwir yn warrant y Torïaid i beidio â chau ysbytai mewn gwirionedd yn warrant gan y Torïaid na fydd pobl yng ngogledd Cymru yn cael y buddsoddiad modern gwerth llawer o filiynau y mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi ymrwymo i'w ddarparu.

A gadewch i ni droi at orllewin Cymru. Ym mis Mai y llynedd, cymeradwyodd y Gweinidog bron £6 miliwn i ganolfan Cylch Caron yn Nhregaron. Ni all ddigwydd heb gau ysbyty cymunedol Tregaron, a ddechreuodd ei oes fel wyrwys y dref yn 1876. Felly, gadewch i ni fod yn glir: mae pleidlais dros y cynnig heddiw yn bleidlais i roi diwedd ar brosiect Cylch Caron.

In June last year, the Minister approved £20 million for the new Cardigan integrated care centre. That investment can only go ahead if we close the only hospital in Wales that still has working parts that date back to medieval times.

You might think, in 2016, that residents in Ceredigion deserve a health service fit for the twenty-first century, rather than a building recorded by Gerald of Wales in his history of 1188. But the Conservative party disagrees. You may think that. I may think that. The Member for Ceredigion may think that. The friends of the hospital, the local health board, the community council, the county borough council—they all think Ceredigion deserves a health service fit for the twenty-first century in twenty-first century buildings. The Conservative party does not agree. A vote for this motion today is a guarantee that that new centre in Cardigan cannot go ahead.

And look at south Wales. In Swansea, Cefn Coed Hospital, scheduled for closure in the next Assembly term—one of the very last Victorian asylums built. The Welsh Conservatives guarantee that Cefn Coed Hospital, with its outdated facilities and its inability to provide a mental health service fit for the future will go on for another Assembly term. And here in south-east Wales, our most ambitious plan to provide a new state-of-the-art cancer centre for the most densely populated part of Wales—that too will be taken away by the Tories. The investment of more than £200 million that the finance Minister worked hard to put together depends on the closure of Velindre hospital, as we have it today, to open a new centre. Its replacement, with a brand-new hospital, is essential to go on attracting the highest calibre of clinician, to maintain the world-leading research that goes on in Cardiff and to go on developing services for patients that have made that trust one of the best and most appreciated in Europe. A new cancer centre for Wales cannot be achieved in the next Assembly term if we keep the current Velindre hospital open. A guarantee that it cannot close is a guarantee that the new centre cannot go ahead. I hope the Member for Cardiff North, who has been a consistent and, in fact, astonishing supporter of Velindre hospital over so many years will make sure that message is heard loud and clear.

As the Tories line up to vote for this motion this afternoon, their promise to the people of Cardiff North and across south Wales is simply this: vote Tory and there will be no new Velindre. That is the reality of today's motion. We have heard today that there is no limit to the muck that the Tories will throw at our NHS. It reinforces the awful truth that you cannot trust the Tories with our NHS.

*Andrew R.T. Davies a gododd—*

17:26

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And if you want to understand—

Ym mis Mehefin y llynedd, cymeradwyodd y Gweinidog £20 miliwn i ganolfan gofal integredig newydd Aberteifi. Ni all y buddsoddiad hwnnw ddigwydd heb gau'r unig ysbyty yng Nghymru sy'n dal i fod â rhannau gweithredol sy'n dyddio'n ôl i'r canol oesoedd.

Efallai y byddwch o'r farn, yn 2016, fod trigolion yng Ngheredigion yn haeddu gwasanaeth iechyd addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, yn hytrach nag adeilad a gofnodwyd gan Gerallt Gymro yn ei gronid hanes yn 1188. Ond mae'r blaid Geidwadol yn anghytuno. Efallai y byddwch chi'n meddwl hynny. Efallai fy mod i'n meddwl hynny. Efallai fod yr Aelod dros Geredigion yn meddwl hynny. Mae cyfeillion yr ysbyty, y bwrdd iechyd lleol, y cyngor cymuned, y cyngor bwrdeistref sirol i gyd yn meddwl bod Ceredigion yn haeddu gwasanaeth iechyd sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain mewn adeiladau ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Nid yw'r blaid Geidwadol yn cytuno. Mae pleidlais dros y cynnig hwn heddiw yn gwarantu na ellir bwrw ymlaen â'r ganolfan newydd honno yn Aberteifi.

Ac edrychwch ar dde Cymru. Yn Abertawe, Ysbyty Cefn Coed, y bwriedir ei gau yn ystod tymor y Cynulliad—un o'r seilams Fictoraidd olaf a adeiladwyd. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn gwarantu y bydd Ysbyty Cefn Coed, gyda'i gyfleusterau hen ffasiwn a'i anallu i ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl sy'n addas ar gyfer y dyfodol yn parhau dros dymor Cynulliad arall. Ac yma yn ne-ddwyrain Cymru, ein cynllun mwyaf uchelgeisiol i ddarparu canolfan ganser newydd flaengar ar gyfer y rhan fwyaf poblog o Gymru—bydd y Torïaid yn cael gwared ar hwnnw hefyd. Mae'r buddsoddiad o fwy na £200 miliwn y gweithiodd y Gweinidog Cyllid yn galed i'w roi at ei gilydd yn dibynnu ar gau Ysbyty Felindre, fel y mae heddiw, er mwyn agor canolfan newydd. Mae'r hyn a ddaw yn ei le, sef ysbyty newydd sbon, yn hanfodol er mwyn parhau i ddenu clinigwyr o'r radd flaenaf, er mwyn cynnal y gwaith ymchwil sy'n arwain y byd sy'n digwydd yng Nghaerdydd a pharhau i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer cleifion sydd wedi gwneud yr ymddiriedolaeth honno yn un o'r goreuon ac yn un o'r rhai a werthfawrogir fwyaf yn Ewrop. Ni ellir darparu canolfan ganser newydd i Gymru yn ystod tymor nesaf y Cynulliad os ydym yn cadw'r Ysbyty Felindre presennol ar agor. Mae gwarant na ellir ei gau yn warant na ellir bwrw ymlaen â'r ganolfan newydd. Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelod dros Ogledd Caerdydd, sydd wedi bod yn gefnogwr cyson a rhyfeddol mewn gwirionedd i Ysbyty Felindre dros gymaint o flynyddoedd yn sicrhau bod y neges honno'n cael ei chlywed yn glir.

Wrth i'r Torïaid baratoi i bleidleisio dros y cynnig hwn y prynhawn yma, eu haddewid i bobl Gogledd Caerdydd ac ar draws de Cymru, yn syml yw hwn: pleidleiswch dros y Torïaid ac ni fydd unrhyw Felindre newydd. Dyna realiti'r cynnig heddiw. Rydym wedi clywed heddiw nad oes cyfyngiad ar y tail y bydd y Torïaid yn ei daflu at ein GIG. Mae'n atgyfnerthu'r gwir ofnadwy na allwch ymddiried yn y Torïaid gyda'n GIG.

*Andrew R.T. Davies rose—*

Ac os ydych chi eisiau deall—

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



17:26	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>He's not giving way.</p>	<p>Nid yw'n ildio.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:26	<p><b>Vaughan Gething</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>[Continues.]—go and ask junior doctors in England whether they trust the Tories with the NHS. The answer is a resounding 'no'. You should look again at what the OECD say. They recognise that quality is at the heart of what NHS Wales does. And, with Welsh Labour, quality will remain at the heart of our future for our health service.</p>	<p>[Yn parhau.]—ewch i ofyn i feddygon iau yn Lloegr a ydynt yn ymddiried yn y Toriaid gyda'r GIG. Yr ateb pendant yw 'na'. Dylech edrych eto ar yr hyn y mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn ei ddweud. Maent yn cydnabod mai ansawdd sydd wrth wraidd yr hyn y mae GIG Cymru yn ei wneud. A gyda Llafur Cymru, bydd ansawdd yn parhau i fod wrth wraidd ein dyfodol ar gyfer ein gwasanaeth iechyd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:27	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I call Darren Millar to reply to the debate.</p>	<p>Galwaf ar Darren Millar i ymateb i'r ddadl.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:27	<p><b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, Deputy Presiding Officer. This debate was designed to focus on the concerns, the very real concerns, that the people of Wales have about the promises that are being made in advance of an election and whether they will be fulfilled post an election. We heard promises in advance of the 2007 elections, which said that there would be no hospital closures under a future Welsh Government—a Labour Government at that time—and that no hospitals would have services downgraded, and yet that is precisely what we have seen—promise after promise made to the people of Wales broken by the Labour Government. I think it's astonishing that the Minister has responded in the way that he has to this debate. I found it astonishing that there was no commitment to the many other hospital sites in Wales that, perhaps, may fear for their future after your contribution. You said that new hospitals are always built in the wake of a hospital closure. That's not the case in Prestatyn. That's not been the case yet in Flint, in spite of the promises to do so, and it's certainly not the case in other parts of Wales either. I think the fact that you make promises that you don't fulfil lets the people of Wales down. It does you no good service at all and it gives the people of Wales no confidence whatsoever in their Labour politicians. So, I think, Minister, that many of the words that you said today will come back to haunt you in the coming weeks and months.</p> <p>Altaf Hussain opened the debate today, speaking from 25 years-worth of experience as a consultant in the Welsh NHS or in the national health service across the UK. He referred, of course, to the recruitment crisis, which there is now here in Wales, a crisis that the Welsh Government denies. Well, let me tell you something: you will never get to grips with the crisis in the recruitment of doctors across Wales unless you recognise that there is one first, because we've seen precious little action from the Welsh Government to turn that situation around.</p>	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. Lluniwyd y ddadl hon i ganolbwyntio ar y pryderon, y pryderon real iawn, sydd gan bobl Cymru ynglŷn â'r addewidion a wneir cyn etholiad a pha un a fyddant yn cael eu cyflawni ar ôl etholiad. Clywsom addewidion cyn etholiadau 2007, a oedd yn dweud na fyddai unrhyw ysbysai'n cau dan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol—Llywodraeth Lafur ar y pryd—ac na fyddid yn israddio gwasanaethau unrhyw ysbysai, ac eto, dyna'n union a welsom—addewid ar ôl addewid a wnaed i bobl Cymru yn cael ei dorri gan y Llywodraeth Lafur. Rwy'n credu ei bod yn rhyfeddol fod y Gweinidog wedi ymateb yn y ffordd y gwnaeth i'r ddadl hon. Roedd yn rhyfeddol nad oedd unrhyw ymrwymiad i'r nifer o safleoedd ysbysy eraill yng Nghymru a fydd, efallai, yn ofni ynglŷn â'u dyfodol ar ôl eich cyfraniad. Fe ddywedoch fod ysbysai newydd yn cael eu hadeiladu bob amser yn sgil cau ysbysai. Nid yw hynny'n wir ym Mhrestatyn. Nid yw'n wir hyd yma yn y Fflint, er gwaethaf yr addewidion i wneud hynny, ac yn sicr nid yw'n wir mewn rhannau eraill o Gymru ychwaith. Drwy wneud addewidion nad ydych yn eu gwireddu, rwy'n meddwl eich bod yn gwneud cam â phobl Cymru. Nid yw o unrhyw les i chi o gwbl ac nid yw'n rhoi unrhyw hyder i bobl Cymru yn eu gwleidyddion Llafur. Felly, rwy'n meddwl, Weinidog, y bydd llawer o'r geiriau rydych wedi'u dweud heddiw yn dod yn ôl i darfu arnoch yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf.</p> <p>Agorodd Altaf Hussain y ddadl heddiw, gan siarad o 25 mlynedd o brofiad fel meddyg ymgynghorol yn y GIG yng Nghymru neu yn y gwasanaeth iechyd gwladol ar draws y DU. Cyfeiriodd, wrth gwrs, at yr argyfwng recriwtio, sydd erbyn hyn yma yng Nghymru, argyfwng y mae Llywodraeth Cymru yn gwadu ei fod yn bodoli. Wel, gadewch i mi ddweud rhywbeth wrthy: ni fyddwch byth yn datrys yr argyfwng ym maes recriwtio meddygon ar draws Cymru oni bai eich bod yn cydnabod bod yna argyfwng yn y lle cyntaf, oherwydd ychydig iawn o weithredu a welsom gan Lywodraeth Cymru i newid y sefyllfa honno.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

We heard from Elin Jones before the divine intervention switched off everything here in the Senedd. In fact, Elin, I thought it was quite remarkable—. I think it was Llyr Huws Gruffydd in the tea room who said, 'I always thought that the Assembly needed more power.' Well, he's certainly been right today. But you said, 'Don't trust the Tories with our NHS.' Well, I can tell you this: no Conservative Prime Minister has ever cut an NHS budget. Yet, you, over there, Plaid Cymru, the Liberal Democrats and the Welsh Labour Government, have sanctioned cuts here in Wales, which have been absolutely devastating to our national health service—[Interruption.]

Clywsom gan Elin Jones cyn i ymyrraeth ddwyfol ddiffodd popeth yma yn y Senedd. Yn wir, Elin, roeddwn yn meddwl ei bod yn eithaf syfrdanol—. Rwy'n credu mai Llyr Huws Gruffydd a ddywedodd yn yr ystafell de, 'Rwyf bob amser wedi credu bod angen mwy o bŵer ar y Cynulliad.' Wel, roedd yn sicr yn iawn heddiw. Ond fe ddywedoch, 'Peidiwch ag ymddiried yn y Toriaid gyda'n GIG.' Wel, gallaf ddweud hyn wrthyh: nid oes unrhyw Brif Weinidog Ceidwadol erioed wedi torri cyllideb y GIG. Eto i gyd, rydych chi, yn y fan honno, Plaid Cymru, y Democratiaid Rhyddfrydol a Llywodraeth Lafur Cymru, wedi cymeradwyo toriadau yma yng Nghymru, toriadau a fu'n gwbl ddiinstriol i'n gwasanaeth iechyd gwladol—[Torri ar draws.]

- 17:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Order, order, order. This was always going to be a robust debate, but we can't start the hustings today—that will come in good time. So, let's finish this debate in a reasonable fashion. Darren Millar.
- Trefn, trefn, trefn. Roedd hon bob amser yn mynd i fod yn ddadl frwd, ond ni allwn gychwyn yr hustyngau heddiw—daw hynny mewn da bryd. Felly, gadewch i ni offren y ddadl hon mewn modd rhesymol. Darren Millar.
- 17:30 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Real-terms cuts: it's not just us saying this. The Nuffield Trust has said it; the Wales Audit Office confirmed it; the National Audit Office has confirmed it—the largest cuts in the history of the NHS have taken place here in the land of Aneurin Bevan. Absolutely disgraceful. You ought to be ashamed of yourself. Lynne Neagle suggests that David Cameron ought to be apologising to the people of Wales for the distinctions that he has drawn between the health service in England and Wales. I'll tell you who ought to be apologising: Carwyn Jones, for his failure to invest in our national health service. Our nation would have had £1 billion more invested in our national health service over the past five years had the same example been followed in Wales as had been the case in England.
- Toriadau mewn termau real: nid ni'n unig sy'n dweud hyn. Mae Ymddiriedolaeth Nuffield wedi ei ddweud; cadarnhaodd Swyddfa Archwilio Cymru hynny—digwyddodd y toriadau mwyaf yn hanes y GIG yma yng ngwlad Aneurin Bevan. Hollol warthus. Dylai fod gennyhych gywilydd ohonoch eich hun. Mae Lynne Neagle yn awgrymu y dylai David Cameron ymddiheuro i bobl Cymru am y gwahaniaethau a ddarluniodd rhwng y gwasanaeth iechyd yng Nghymru a Lloegr. Fe ddywedaf wrthyhch pwy ddylai ymddiheuro: Carwyn Jones, am ei fethiant i fuddsoddi yn ein gwasanaeth iechyd gwladol. Byddai ein cenedl wedi cael £1 biliwn yn fwy o fuddsoddiad yn ein gwasanaeth iechyd gwladol dros y pum mlynedd diwethaf pe bai Cymru wedi dilyn yr un esiampl â Lloegr.
- Lynne Neagle a gododd—*
- Lynne Neagle rose—*
- 17:31 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I'll happily take the intervention.
- Rwy'n hapus i gymryd yr ymyriad.
- 17:31 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- David Cameron told a direct lie when he said Offa's Dyke was—
- Dywedodd David Cameron gelwydd uniongyrchol pan ddywedodd mai Clawdd Offa—
- 17:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Order, order.
- Trefn, trefn.
- 17:31 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- [Continues.]—the line between life and death.
- [Yn parhau.]—oedd y llinell rhwng bywyd a marwolaeth.
- 17:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Order, order. I will not have anyone being directly accused of lying in this Chamber. The Prime Minister is an honourable politician and his words—you may feel his policies are wrong and that the facts he occasionally uses are not the facts that you would marshal, but you're not going to call anyone in this Chamber a liar. Now, sit down. Darren Millar.
- Trefn, trefn. Nid wyf yn fodlon i neb gael ei gyhuddo'n uniongyrchol o ddweud celwydd yn y Siambr hon. Mae'r Prif Weinidog yn wleidydd anrhydeddus ac mae ei eiriau—efallai y teimlwch fod ei bolisiau yn anghywir ac nad y ffeithiau y mae'n eu defnyddio o bryd i'w gilydd yw'r ffeithiau y byddech chi'n eu defnyddio, ond nid ydych yn mynd i alw neb yn gelwyddgi yn y Siambr hon. Nawr, eisteddwch. Darren Millar.

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. The facts are that we've had record-breaking health service cuts here in Wales that haven't been seen in other parts of the United Kingdom and I think that is an absolute travesty. They've been supported by every single party in this Chamber, bar the Welsh Conservatives, and I'm very proud of our record in terms of standing up for investment in our health service here.

Mark Isherwood, of course, referred to the role that he has played in championing the cause of community hospitals in north Wales, and a number of speakers made reference to the importance of community hospitals in helping to alleviate pressures elsewhere in the national health service—the opportunity, for example, for people to hold clinics in community hospitals so that people can access their outpatient appointments; the opportunity for the beds in community hospitals to be made available to alleviate pressures on beds in our district general hospitals; and the opportunity for minor injuries units, where they are available, in community hospitals, to alleviate pressures on the unscheduled care system when it comes to our emergency departments. The short-sightedness of not listening to the clinicians who are arguing to keep those services open and to keep those beds open in those community hospitals has been very alarming indeed. They told you it would cause pressures elsewhere in the system and your Government simply ignored those clinicians.

So, I want to champion the fact that Mark Isherwood has been such a strong voice for those communities in north Wales that have lost their hospitals. Let me tell you this: no promise that you've made to the people of Flint will yet hold water until there's work going on on the hospital site to ensure that there are beds also available in that community.

Janet Finch-Saunders, of course, referred to what had been going on in Llandudno hospital, as well, where it took thousands of people marching the streets in order to get the Welsh Government to back down on some of its plans in respect of further cuts and downgrades there.

Alun Ffred Jones made reference to the important patient experience of an individual in his own constituency. We could all repeat these: people who are inappropriately cared for who are not in hospital wards because of the bed pressures; people dying in corridors; dying in the back of ambulances; and being put in store rooms and cupboards because there are no beds available on the wards. It's a truly shocking situation to be in. It is no wonder that there are nurses leaving the profession; it's no wonder that there are clinicians going elsewhere and it is no wonder that the staffing pressures that we face in our national health service as far as doctors are worse in Wales than they are in any other part of the UK.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Y ffeithiau yw ein bod wedi cael toriadau na welwyd eu tebyg o'r blaen yn y gwasanaeth iechyd yma yng Nghymru ac nas gwelwyd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a chredaf fod hynny'n gwbl wrthun. Cawsant eu cefnogi gan bob plaid yn y Siambr hon ar wahân i'r Ceidwadwyr Cymreig ac rwy'n falch iawn o'n record yn sefyll dros fuddsoddi yn ein gwasanaeth iechyd yma.

Cyfeiriodd Mark Isherwood, wrth gwrs, at y rôl y mae wedi'i chwarae yn hyrwyddo achos ysbytai cymunedol yng ngogledd Cymru, a chyfeiriodd nifer o siaradwyr at bwysigrwydd ysbytai cymuned yn helpu i leddfu'r pwysau mewn mannau eraill yn y gwasanaeth iechyd gwladol—y cyfle, er enghraifft, i bobl gynnal clinigau mewn ysbytai cymunedol er mwyn i bobl allu cael apwyntiadau cleifion allanol; y cyfle i sicrhau gwlaŵ mewn ysbytai cymunedol er mwyn lleddfu'r pwysau ar wlaŵ yn ein hysbytai cyffredinol dosbarth; a'r cyfle i unedau mân anafiadau, lle y maent ar gael, mewn ysbytai cymunedol, i leddfu'r pwysau ar y system gofal heb ei drefnu mewn perthynas â'n hadrannau achosion brys. Mae'r diffyg gweledigaeth o beidio â gwrandao ar y clinigwyr sy'n dadlau dros gadw'r gwasanaethau hynny ar agor a chadw'r gwlaŵ hynny ar agor mewn ysbytai cymuned wedi bod yn frawychus iawn yn wir. Dywedasant wrthyh y byddai'n achosi pwysau mewn mannau eraill yn y system ac yn syml iawn, fe anwybyddodd eich Llywodraeth y clinigwyr hynny.

Felly, rwyf am ategu'r ffaith fod Mark Isherwood wedi bod yn llais mor gryf dros y cymunedau hynny yng ngogledd Cymru sydd wedi colli eu hysbytai. Gadewch i mi ddweud hyn wrthyh: ni fydd unrhyw addewid a wnaethoch i bobl y Fflint yn dal dŵr eto nes y bydd gwaith yn mynd rhagddo ar safle'r ysbyty i sicrhau bod gwlaŵ ar gael yn y gymuned honno hefyd.

Cyfeiriodd Janet Finch-Saunders, wrth gwrs, at yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn ysbyty Llandudno hefyd lle y cymerodd filoedd o bobl yn gorymdeithio ar y strydoedd i gael Llywodraeth Cymru i gamu'n ôl ar rai o'i chynlluniau mewn perthynas â thoriadau ac israddio pellach yno.

Cyfeiriodd Alun Ffred Jones at bwysigrwydd profiad y claf drwy sôn am unigolyn yn ei etholaeth ei hun. Gallem i gyd eu hailadrodd: pobl nad ydynt yn derbyn gofal priodol ac nad ydynt ar wardiau ysbyty oherwydd y pwysau ar wlaŵ; pobl yn marw mewn coridorau; yn marw yng nghefn ambiwlansys; ac yn cael eu rhoi mewn ystafelloedd storio a chpyrddau am nad oes gwlaŵ ar gael ar y wardiau. Mae'n sefyllfa wirioneddol arswydus i fod ynddi. Nid yw'n syndod fod nyrsys yn gadael y proffesiwn; nid yw'n syndod fod clinigwyr yn mynd i rywle arall ac nid yw'n syndod fod y pwysau staffio a wynebwn yn ein gwasanaeth iechyd gwladol o ran meddygon yn waeth yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o'r DU.

So, I think it's about time, Minister, that you and your colleagues woke up, smelt the coffee, recognised the chaos that there is across the national health service in Wales and made an important apology for breaking the promises that you made back in 2011 to the people not to close hospitals and not to downgrade hospitals. And I think the people will be holding you to account for your failure to commit to the existing network of hospitals in advance of this election too. I urge people to support the motion.

Felly, rwy'n meddwl ei bod yn hen bryd, Weinidog, i chi a'ch cyd-Aelodau ddihuno, aroglir coffi, cydnabod yr anhrefn sydd yna ar draws y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru a rhoi ymddiheuriad pwysig am dorri'r addewidion a wnaethoch yn ôl yn 2011 i'r bobl i beidio â chau ysbytai ac israddio ysbytai. Ac rwy'n credu y bydd y bobl yn eich dwyn i gyfrif am eich methiant i ymrwymo i'r rhwydwaith presennol o ysbytai cyn yr etholiad hwn hefyd. Rwy'n annog pobl i gefnogi'r cynnig.

17:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting until voting time—

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio—

17:35 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Absolutely disgusting.

Hollol ffaidd.

17:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Order, order. We will conduct these debates within the Standing Orders. I apply the Standing Orders. I don't want any further sedentary remarks like that. This session is far too ill-tempered. Now, the electorate will have their decision in good time, and I really would urge everyone to be as reasonable as possible in putting their strongly held views to them.

Trefn, trefn. Byddwn yn cynnal y trafodaethau hyn o fewn y Rheolau Sefydlog. Fi sy'n cymhwysu'r Rheolau Sefydlog. Nid wyf am glywed unrhyw sylwadau pellach fel yna gan Aelodau ar eu heistedd. Mae llawer gormod o dymwr ddrwg yn y sesiwn hon. Nawr, fe gaiff yr etholwyr wneud eu penderfyniad mewn da bryd, a byddwn yn annog pawb yn gryf i fod mor rhesymol â phosibl wrth gyflwyno safbwyntiau y maent yn eu harddel yn gadarn iddynt.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## 5. Dadl Plaid Cymru: Diagnosis a Thriniaeth Cancer

*Deholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 4, 5, 6 a 7 yn enw Paul Davies, a gwelliannau 2 a 3 yn enw Aled Roberts.*

## 5. Plaid Cymru Debate: Cancer Diagnosis and Treatment

*The following amendments have been selected: amendments 1, 4, 5, 6 and 7 in the name of Paul Davies, and amendments 2 and 3 in the name of Aled Roberts.*

17:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
We now move to item 5, Plaid Cymru's debate on cancer diagnosis and treatment. I call on Elin Jones to move the motion.

Symudwn yn awr at eitem 5, sef dadl Plaid Cymru ar ddiagnosis a thriniaeth cancer. Galwaf ar Elin Jones i gynnis y cynnig.

Cynnig NDM5984 Elin Jones

Motion NDM5984 Elin Jones

1. Yn gresynu at y ffaith bod gan Gymru un o'r cyfraddau goresio isaf ar gyfer cancer yn y DU a'r UE.
2. Yn nodi bod amseroedd aros ar gyfer profion diagnostig yn annerbyniol o uchel ac yn sylweddol uwch nag yn Lloegr a'r Alban.
3. Yn gresynu at yr anghydraddoldeb o ran mynediad cleifion ledled Cymru i gyffuriau a thriniaethau cancer.
4. Yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

1. Regrets that Wales has one of the lowest survival rates for cancer in the UK and EU;
2. Notes waiting times for diagnostic tests are unacceptably high and considerably higher than England and Scotland;
3. Regrets the inequality of access to cancer drugs and treatments for patients across Wales; and
4. Calls on the next Welsh Government to:

a) gwella'r perfformiad mewn perthynas ag amseroedd aros diagnostig yn sylweddol, fel bod 95 y cant o'r bobl y mae eu meddyg teulu yn tybio bod cancer ganddynt yn gallu cael diagnosis neu gadarnhad nad oes cancer ganddynt o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cânt eu cyfeirio i gael eu profi;

b) cyflwyno cronfa triniaethau newydd i sicrhau ymagwedd genedlaethol tuag at fynediad i driniaethau i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at driniaethau yn seiliedig ar angen clinigol nid lle maent yn byw neu a ydynt yn bodloni meini prawf eithriadol; ac

c) sicrhau bod pob claf cancer yn cael mynediad at weithiwr allweddol, gan gasglu a chyhoeddi data yn rheolaidd i ddangos perfformiad yn erbyn y targed hwn.

*Cynigiwyd y cynnig.*

a) substantially improve performance on diagnostic waiting times, so that 95 per cent of people suspected of having cancer by a GP can receive a diagnosis or the all clear within 28 days of referral for testing;

b) introduce a new treatments fund to ensure a national approach to access to treatments to ensure access to treatments based on clinical need not where a patient lives or whether they meet exceptionality criteria; and

c) ensure all cancer patients have access to a key worker, with the regular collection and publication of data to demonstrate performance against this target.

*Motion moved.*

17:35

## **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move today's motion in the name of Plaid Cymru. It is both a cliché and a reality to say that cancer affects all of us, not just the 16,000 people diagnosed with cancer every year in Wales. It is a devastating disease, where even those who survive have to go through painful and horrible treatments in order to become a cancer survivor. But there is also a good-news story here. Many cancers are no longer death sentences, with incremental improvements to treatment adding up over many decades to get us to where we are. With stratified and targeted treatments becoming ever more available, there is a bright future for future generations who may get diagnosed with cancer.

For many of today's patients, however, this is not the case. Survival rates in Wales and the UK as a whole are lower than the EU average. There are lots of reasons behind this, and this debate is likely to highlight these reasons and what the next Welsh Government should be doing to address these reasons.

Turning to the amendments, we will be accepting all the amendments, with the exception of amendments 2 and 7, and we will abstain on amendment 6. For amendment 2, this is more of an issue over the branding of a policy, rather than the principle behind it. It is certainly the case now that all parties represented here in this Assembly are committed to some form of improvement to accessing new medicines and treatments, although we have yet to hear any details from Labour in particular as to how their own proposals will operate. Amendment 7—we're not convinced it is in any way a priority at this time. We will abstain on amendment 6. We believe that follow-up appointments should be left to clinical priority rather than a political guarantee.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau y cynnig heddiw yn enw Plaid Cymru. Mae'n ystrydeb ac yn realiti fel ei gilydd i ddweud bod cancer yn effeithio ar bob un ohonom, nid yn unig y 16,000 o bobl sy'n cael diagnosis o ganser bob blwyddyn yng Nghymru. Mae'n glefyd enbyd, lle y bydd yn rhaid i hyd yn oed y rhai sy'n goroesi fynd drwy driniaethau poenus ac ofnadwy er mwyn goroesi cancer. Ond mae yna hefyd newyddion da yn y fan hon. Nid yw llawer o ganserau yn ddedfryd o farwolaeth mwyach, gyda gwelliannau cynyddol i driniaeth yn tyfu dros sawl degawd i'n cael i ble rydym. Gyda thriniaethau haenedig ac wedi'u targedu ar gael yn fwyfwy eang, mae dyfodol disglair i genedlaethau'r dyfodol a allai gael diagnosis o ganser.

I lawer o gleifion heddiw, fodd bynnag, nid yw hyn yn wir. Mae cyfraddau goroesi yng Nghymru a'r DU yn gyffredinol yn is na chyfartaledd yr UE. Mae llawer o resymau dros hyn, ac mae'r ddadl hon yn debygol o dynnu sylw at y rhesymau hyn a beth y dylai Llywodraeth nesaf Cymru ei wneud i fynd i'r afael â'r rhesymau hyn.

Gan droi at y gwelliannau, byddwn yn derbyn yr holl welliannau, ac eithrio gwelliannau 2 a 7, a byddwn yn ymatal ar welliant 6. Ar welliant 2, mae hyn yn ymwneud mwy â brandio polisi, yn hytrach na'r egwyddor sy'n sail iddo. Mae'n sicr yn wir yn awr fod yr holl bleidiau a gynrychiolir yma yn y Cynulliad hwn wedi ymrwymo i ryw fath o welliant i gael mynediad at feddyginiaethau a thriniaethau newydd, er ein bod eto i glywed unrhyw fanylion gan Lafur yn benodol ynglŷn â sut y bydd eu cynigion eu hunain yn gweithredu. Gwelliant 7—nid ydym yn argyhoeddedig ei fod mewn unrhyw ffordd yn flaenoriaeth ar hyn o bryd. Byddwn yn ymatal ar welliant 6. Rydym yn credu y dylid gadael apwyntiadau dilynol i flaenoriaeth glinigol yn hytrach na gwarant wleidyddol.

We'd also like to point out that as well as an education programme on the causes and symptoms of cancer, which is partly needed as a result of the unfortunate tendency of some sections of the press to report substances as both curing and causing cancer in alternate weeks, we also need Government to take action to tackle the causes of cancer, not least by imposing a sugary drinks tax to reduce obesity in Wales—a major cause of cancer. I do hope the Conservatives today will recognise the growing consensus on this policy and come out in support. It is most definitely the winning side of this argument, even Welsh Government is now on side, and there is a clear path now for the next Welsh Government to introduce a sugary drinks levy in Wales.

It's now the case that most European countries have national cancer plans, and Wales is no exception. But we know there have been a number of problems with delivering that plan in Wales. General practitioners need more training to spot cancer symptoms, access to diagnostic tests needs to be improved, and inconsistent access to treatments and palliative care needs to be tackled.

Performance against key targets has also been inadequate. The 62-day target has never been met and performance has declined over the past two years. Indeed, the First Minister promised this target would be hit by October 2013, but performance has declined since that date. The First Minister likes to favourably cite performance against the 62-day target compared to England, although the latest figures show just a 0.2 per cent difference in performance here, but never does he mention Scotland, where performance against this target has been substantially better for a number of years now.

Waiting times for diagnostic tests are a scandal that we have highlighted several times, so I won't dwell on those today. But let's remind ourselves of just one example: in Wales, 49 per cent of patients are waiting more than six weeks for a colonoscopy, and that's compared to only 8 per cent in England and 20 per cent in Scotland.

The 31-day non-urgent target for cancer treatment is occasionally hit, but this only goes to show that it's waiting times for diagnoses that are the bottleneck in the system, because the clock for this target only starts after diagnosis. The pressures on secondary care will only get bigger. We've just heard it in the last debate. Now, new National Institute for Health and Care Excellence guidance, designed to make it easier for GPs to refer people for testing, will substantially relax the criteria that must be met before GPs can refer people for these tests. This will mean that more tests have to be carried out, and a significant increase in testing capacity must happen, yet the current Welsh Government shows no sign of understanding this and is not allocating resources to increase diagnostic testing capacity sufficiently.

Yn ogystal â rhaglen addysg ar achosion a symptomau cancer, sydd ei hangen yn rhannol o ganlyniad i'r duedd anffodus gan rai rhannau o'r wasg i adrodd ar sylweddau sy'n achosi ac yn gwella cancer bob yn ail wythnos, byddem hefyd yn hoffi nodi bod angen i'r Llywodraeth roi camau ar waith i fynd i'r afael ag achosion cancer, nid yn lleiaf drwy osod treth ar ddiodydd llawn siwgr i leihau gordewdra yng Nghymru—un o brif achosion cancer. Rwy'n gobeithio y bydd y Ceidwadwyr heddiw yn cydnabod y consensws cynyddol ar y polisi hwn ac yn ei gefnogi. Dyna'n sicr ddigon yw'r ochr sy'n ennill yn y ddadl hon, mae hyd yn oed Llywodraeth Cymru o blaid hynny bellach, ac mae llwybr clir yn awr i Lywodraeth nesaf Cymru gyflwyno ardoll ar ddiodydd llawn siwgr yng Nghymru.

Mae'n awr yn wir fod gan y rhan fwyaf o wledydd Ewrop gynlluniau cancer cenedlaethol, ac nid yw Cymru'n eithriad. Ond gwyddom fod llawer o broblemau wedi bod gyda chyflwyno'r cynllun hwnnw yng Nghymru. Mae angen mwy o hyfforddiant ar feddygon teulu i adnabod symptomau cancer, mynediad gwell at brofion diagnostig, ac mae angen mynd i'r afael â mynediad anghyson at driniaethau a gofal lliniarol.

Mae perfformiad yn erbyn targedau allweddol hefyd wedi bod yn annigonol. Ni chyrhaeddwyd y targed 62 diwrnod erioed ac mae perfformiad wedi dirywio dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn wir, addawodd y Prif Weinidog y byddai'r targed hwn yn cael ei gyrraedd erbyn mis Hydref 2013, ond mae perfformiad wedi dirywio ers y dyddiad hwnnw. Mae'r Prif Weinidog yn hoffi cyfeirio'n ffaithiol at berfformiad yn erbyn y targed o 62 diwrnod o gymharu â Lloegr, er mai gwahaniaeth 0.2 y cant yn unig a geir yn y perfformiad yma, ond nid yw byth yn sôn am yr Alban, lle y mae perfformiad yn erbyn y targed wedi bod gryn dipyn yn well ers nifer o flynyddoedd bellach.

Mae amseroedd aros am brofion diagnostig yn sgandal a amlygwyd gennym nifer o weithiau, felly nid wyf am fynd ar ôl hynny heddiw. Ond gadewch i ni atgoffa ein hunain o un enghraifft yn unig: yng Nghymru, mae 49 y cant o gleifion yn aros mwy na chwe wythnos am golonosgopi, ac mae hynny'n cymharu ag 8 y cant yn unig yn Lloegr ac 20 y cant yn yr Alban.

Cyrhaeddir y targed o 31 diwrnod ar gyfer triniaeth cancer nad yw'n driniaeth frys yn achlysurol, ond nid yw hyn ond yn dangos mai amseroedd aros ar gyfer diagnosis sy'n creu tagfa yn y system, oherwydd nad yw'r dloc ar gyfer y targed hwn ond yn dechrau ar ôl cael diagnosis. Ni fydd y pwysau ar ofal eilaidd ond yn cynyddu. Rydym newydd ei glywed yn y ddadl ddiwethaf. Nawr, mae canllawiau newydd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal, a gynlluniwyd i'w gwneud yn haws i feddygon teulu atgyfeirio pobl i gael profion, yn llacio'n sylweddol y meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gall meddygon teulu atgyfeirio pobl i gael y profion hyn. Bydd hyn yn golygu bod yn rhaid cynnal mwy o brofion, a rhaid sicrhau cynnydd sylweddol yn y capasiti i gynnal profion, ac eto nid yw Llywodraeth bresennol Cymru yn dangos unrhyw arwydd o ddeall hyn ac nid yw'n dyrannu adnoddau er mwyn cynyddu capasiti ar gyfer cynnal profion diagnostig yn ddigonol.

Plaid Cymru's plan for cancer looks at improving all aspects of cancer care in Wales and has four main components. Firstly, preventing cancer in the first place, through measures such as the pop tax, which I've already referred to, but also rolling out the human papilloma virus vaccine, and extending screening where the evidence says that this should be done. Secondly, we would build three new multidisciplinary state-of-the-art diagnostic centres to add to diagnostic capacity, so that in Wales we can hit a target of 28-day diagnosis or the 'all clear', as recommended by the independent cancer taskforce. This will also include rolling out molecular diagnostic testing so that patients will be able to benefit, in the future, from new treatments. Thirdly, it is the providing of better support for patients during treatment to include everyone getting a key worker, and tackling the inconsistency in access to treatments across Wales. We must end this inconsistency through establishing national panels for individual patient funding requests. Decisions over treatment should also be placed on clinical need, not a narrow concept of exceptionality. The stress that patients and their families have to undergo with the individual patient funding request is simply not good enough to be allowed to continue. Better technology and communication with patients is also required to reduce the stress and inconvenience that many patients, particularly those who have to travel, have to experience.

Finally, we have to improve the aftercare that patients get, following what can be invasive and stressful treatments. For those who have successful treatment, we have to ensure that all patients get the recovery package, which includes post-treatment support, such as counselling, enablement, advice on self-management of medication to deal with side-effects, employment and financial advice, and regular reviews with the GP. For those patients who have a terminal diagnosis, we also have to improve palliative care that takes into account the wishes of both patients and their families.

Survival rates for cancer have indeed risen, thanks to the tireless efforts of NHS staff and science researchers who have helped to develop new treatments and technologies. It's now time for the Welsh Government to match that hard work and fulfil its obligations to ensure faster diagnosis, access to the best treatments, and providing the support that patients need both during and after treatment.

Plaid Cymru is prepared to prioritise this work in the next Assembly, and I hope today to receive support for this from across all parties in this Assembly.

Mae cynllun Plaid Cymru ar gyfer canser yn edrych ar wella pob agwedd ar ofal canser yng Nghymru ac mae iddo bedair prif elfen. Yn gyntaf, atal canser yn y lle cyntaf, drwy fesurau megis y dreth ar bop, y cyfeiriais ati eisoes, ond hefyd, cyflwyno brechlyn y firws papiloma dynol, ac ymestyn sgrinio lle y mae'r dystiolaeth yn dweud y dylid gwneud hyn. Yn ail, byddem yn adeiladu tair canolfan ddiagnostig amlddisgyblaethol arloesol newydd i ychwanegu at gapasiti diagnostig, fel bod modd i ni yng Nghymru gyrraedd targed o ddiagnosis neu gadarnhad nad oes canser ar bobl o fewn 28 diwrnod, fel yr argymhellodd y tasglu canser annibynnol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cyflwyno profion diagnostig moleciwlaidd er mwyn i gleifion allu elwa o driniaethau newydd yn y dyfodol. Yn drydydd, darparu gwell cymorth i gleifion yn ystod y driniaeth i gynnwys pawb yn cael gweithiwr allweddol, a mynd i'r afael â'r anghysondeb o ran mynediad at driniaethau ar draws Cymru. Mae'n rhaid i ni i roi diwedd ar yr anghysondeb hwn drwy sefydlu paneli cenedlaethol ar gyfer ceisiadau cyllido cleifion unigol. Dylid gwneud penderfyniadau ynghylch triniaeth yn ôl angen clinigol hefyd, nid yn ôl cysyniad cul o eithriadoldeb. Nid yw'r straen y mae'n rhaid i gleifion a'u teuluoedd ei ddioddef gyda'r cais cyllido cleifion unigol yn ddigon da i gael ei ganiatáu i barhau. Mae angen gwell technoleg a chyfathrebu â chleifion hefyd i leihau'r straen a'r anghyfleustra y mae llawer o gleifion, yn enwedig y rhai sy'n gorfod teithio, yn gorfod ei brofi.

Yn olaf, mae'n rhaid i ni wella'r ôl-ofal y mae cleifion yn ei gael, yn dilyn triniaethau sy'n gallu bod yn ymyrrol ac yn straen. I'r rhai sy'n cael triniaeth lwyddiannus, mae'n rhaid i ni sicrhau bod pob claf yn cael y pecyn adfer, sy'n cynnwys cymorth ôl-driniaeth fel cwnsela, galluogi, cyngor ar hunanreoli meddyginiaeth i fynd i'r afael â sgil-ffeithiau, cyngor ar gyflogaeth a chyngor ariannol, ac adolygiadau rheolaidd gyda'r meddyg teulu. I gleifion sydd wedi cael diagnosis o ganser angheuol, rhaid i ni hefyd wella gofal lliniarol sy'n ystyried dymuniadau cleifion a'u teuluoedd.

Mae cyfraddau goroesi canser yn sicr wedi codi, diolch i ymdrechion difflino staff y GIG ac ymchwilyr gwyddoniaeth sydd wedi helpu i ddatblygu triniaethau a thechnolegau newydd. Mae'n bryd yn awr i Lywodraeth Cymru ymateb i'r gwaith caled hwnnw drwy gyflawni ei rhwymedigaethau i sicrhau diagnosis cyflymach, mynediad at y triniaethau gorau, a darparu'r cymorth sydd ei angen ar gleifion yn ystod ac ar ôl eu triniaeth.

Mae Plaid Cymru yn barod i flaenoriaethu'r gwaith hwn yn y Cynulliad nesaf, ac rwy'n gobeithio cael cefnogaeth i hyn gan bob plaid yn y Cynulliad hwn.

17:43

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the seven amendments to the motion, and I call on Darren Millar to move amendments 1, 4, 5, 6 and 7, tabled in the name of Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:*

*'a rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU.'*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf wedi dethol y saith gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliannau 1, 4, 5, 6 a 7, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Insert at end of point 3:*

*'and between Wales and other parts of the UK.'*

Gwelliant 4—Paul Davies

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

*'sefydlu gwasanaeth trin canser symudol cenedlaethol i atal teithiau yn ôl a blaen hir i gleifion sydd am gael mynediad i glinigau a thriniaeth cemotherapi.'*

Gwelliant 5—Paul Davies

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

*'sefydlu ymgyrch addysg gyhoeddus flynyddol i godi ymwybyddiaeth o achosion a symptomau canser.'*

Gwelliant 6—Paul Davies

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

*'darparu gwarant o apwyntiad dilynol fel bod pob claf yn cael ei weld o fewn chwe mis ar y mwyaf o ddiwedd ei gyfnod cychwynnol o driniaeth canser ac ymhellach yn galw am casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd i fonitro perfformiad yn erbyn y warant.'*

Gwelliant 7—Paul Davies

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

*'penodi eiriolwr dros gleifion canser i ddwyn Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd lleol i gyfrif mewn perthynas â chyflawni cynlluniau cyflenwi canser cenedlaethol a lleol.'*

Cynigiwyd gwelliannau 1, 4, 5, 6 a 7.

Gwelliant 4—Paul Davies

*Insert as new sub-point at end of point 4:*

*'establish a national mobile cancer treatment service to prevent long round trip journeys for patients accessing clinics and chemotherapy treatment.'*

Gwelliant 5—Paul Davies

*Insert as new sub-point at end of point 4:*

*'establish an annual public education campaign to raise awareness of the causes and symptoms of cancer.'*

Gwelliant 6—Paul Davies

*Insert as new sub-point at end of point 4:*

*'provide a follow-up appointment guarantee so that all patients are seen within a maximum of six months of the conclusion of their initial cancer treatment episode, and further calls for data to be collected and published regularly to monitor performance against the guarantee.'*

Gwelliant 7—Paul Davies

*Insert as new sub-point at end of point 4:*

*'appoint a cancer patient's champion to hold the Welsh Government and local health boards to account for the delivery of national and local cancer delivery plans.'*

*Amendments 1, 4, 5, 6 and 7 moved.*

17:43

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the amendments, which have been tabled in the name of my colleague Paul Davies. I think that it is important that we debate this very important topic. Many of us were present at the cancer patients' voice event, which was held just a few weeks ago in the Pierhead building. It's quite clear, from the individuals who attended that event, and the organisations that were there, that we've still got a long way to go towards achieving what we need to achieve here in Wales when it comes to cancer care.

The purpose of the amendments that we've tabled to this debate is to try to see whether there can be some consensus around what we believe is a very important plan, which could shift Wales from the bottom of the UK league tables, and the bottom of the European league tables, in terms of cancer survival, and put us right at the very top, at the forefront, and in the lead on these particular issues.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau y gwelliannau, a gyflwynwyd yn enw fy nghyd-Aelod, Paul Davies. Credaf ei bod yn bwysig ein bod yn trafod y pwnc pwysig hwn. Roedd llawer ohonom yn bresennol yn y digwyddiad Cancer Patients' Voice, a gynhaliwyd ychydig wythnosau'n ôl, yn adeilad y Pierhead. Roedd hi'n eithaf dir, o'r unigolion a fynychodd y digwyddiad hwnnw, a'r sefydliadau oedd yno, fod gennym ffordd bell i fynd o hyd tuag at gyflawni'r hyn sydd angen ei gyflawni yma yng Nghymru o ran gofal canser.

Diben y gwelliannau rydym wedi'u cyflwyno'r i'r ddatl hon yw ceisio gweld a ellir sicrhau rhywfaint o gonsensus ynghylch yr hyn y credwn sy'n gynllun pwysig iawn, a allai symud Cymru o waelod tablau cynghrair y DU, a gwaelod y tablau cynghrair Ewropeaidd, o ran goroesi canser, a'n rhoi ar y brig, ar y blaen, ac yn arwain ar y materion penodol hyn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



The first amendment that we've tabled seeks to draw attention to the lack of access to some of the modern cancer drugs that are available in other parts of the UK. It's been one of the biggest tragedies, in my postbag, to receive letters from individuals who've been denied drugs that their clinicians want to prescribe them simply because they live here in Wales. Some of those individuals, indeed, have had to uproot themselves, facing an unwanted battle with the health board, and relocate themselves over the border into England, or indeed into other parts of Wales, where the availability of the drugs and treatments has been better. And nobody wants to put people into those sorts of situations in the future, and that's why we believe it's really important that access to new modern cancer drugs is made available on a more equitable basis within Wales and a more equitable basis between Wales and other parts of the UK. I'm very pleased, actually, that the other political parties appear to be playing catch-up on that and that there's a growing consensus around the need to widen access to some of those modern cancer drugs.

Our other amendments, if I can just turn to one, which I think is very important for rural Wales, and that is that we want to establish a national mobile cancer treatment service to prevent the long, round-trip journeys for patients accessing clinics and chemotherapy treatment. We know from some of the investment that's gone into the Tenovus cancer bus that this is something that many people welcome, and it's something that is having a big impact on the patient experience, and the quality of the patient experience. I would like to see that sort of investment extended, working in partnership with the third sector in order to provide that on a national basis across the whole of the country.

We've also said that we want to improve access to modern radiotherapy treatments, and it's been wonderful to see that there's some investment going in to Velindre in terms of the modern radiotherapy treatments that are coming on-stream there. But what about people in other parts of Wales who are treated in other tertiary centres? The access for patients from north Wales and parts of mid and west Wales is not as equal as it is for other people in the immediate area around Velindre, and I think that that's why we want to see, certainly, some improved access to those modern radiotherapy treatments.

Public education is, of course, incredibly important as well. Elin Jones touched on the fact that GPs need to make more regular referrals sometimes, and speedier referrals into secondary care for diagnostics, but the fact of the matter is that, unless people are aware of the symptoms that might present, they're not going to refer themselves even to the GP in the first instance. So, we believe that there ought to be an annual public education campaign to raise awareness of the symptoms of cancer and what can be done to prevent cancer in order to encourage people to present, as and when might be necessary.

Nod y gwelliant cyntaf rydym wedi'i gyflwyno yw tynnu sylw at y diffyg mynediad at rai o'r cyffuriau cancer modern sydd ar gael mewn rhannau eraill o'r DU. Mae wedi bod yn un o'r trasiedïau mwyaf, yn fy mag post, i dderbyn llythyrau gan unigolion y gwrthodwyd cyffuriau iddynt er bod eu clinigwyr yn awyddus i'w rhagnodi, a hynny'n unig am eu bod yn byw yma yng Nghymru. Mae rhai o'r unigolion hynny, yn wir, wedi gorfod codi pac wrth wynebu brwydr nad ydynt mo'i heisiau gyda'r bwrdd iechyd, ac adleoli dros y ffin yn Lloegr, neu'n wir mewn rhannau eraill o Gymru, lle y mae mwy o gyffuriau a thriniaethau ar gael. Ac nid oes neb eisïau rhoi pobl yn y mathau hynny o sefyllfa oedd yn y dyfodol, a dyna pam y credwn ei bod yn bwysig iawn fod mynediad at gyffuriau cancer modern newydd ar gael ar sail fwy cyfartal yng Nghymru ac yn fwy teg rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU. Rwy'n falch iawn, mewn gwirionedd, ei bod yn ymddangos bod y pleidiau gwleidyddol eraill yn dal i fyny ar hynny, a bod yna gonsensws cynyddol ynghylch yr angen i ehangu mynediad at rai o'r cyffuriau cancer modern hynny.

Elin gwelliannau eraill, os caf droi at un y credaf ei fod yn bwysig iawn i Gymru wledig, sef ein bod am sefydlu gwasanaeth trin cancer symudol cenedlaethol i atal teithiau yn ôl a blaen hir i gleifion sydd am gael mynediad i glinigau a thriniaeth cemotherapi. Gwyddom o beth o'r buddsoddiad ym mws ganser Tenovus fod hyn yn rhywbeth y mae llawer o bobl yn ei groesawu, ac mae'n rhywbeth sy'n cael effaith fawr ar brofiad y claf, ac ansawdd profiad y claf. Hoffwn weld y math hwnnw o fuddsoddiad yn cael ei ymestyn, gan weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector er mwyn darparu hynny ar sail genedlaethol ledled y wlad.

Rydym hefyd wedi dweud ein bod am wella mynediad at driniaethau radiotherapi modern, a bu'n wych gweld bod yna fuddsoddi yn Felindre o ran y triniaethau radiotherapi modern sy'n dod yn weithredol yno. Ond beth am bobl mewn rhannau eraill o Gymru sy'n cael eu trin mewn canolfannau trydyddol eraill? Nid oedd y mynediad i gleifion o ogledd Cymru a rhannau o ganolbarth a gorllewin Cymru mor gyfartal ag y mae i bobl eraill yn yr ardal o amgylch Felindre, a chredaf yn sicr mai dyna pam rydym am weld mynediad gwell at y triniaethau radiotherapi modern hynny.

Mae addysg y cyhoedd, wrth gwrs, yn hynod o bwysig hefyd. Cyffyrddodd Elin Jones ar y ffaith fod angen i feddygon teulu wneud atgyfeiriadau mwy rheolaidd weithiau, ac atgyfeiriadau cyflymach i ofal eilaidd ar gyfer diagnosteg, ond y ffaith amdani yw, oni bai bod pobl yn ymwybodol o'r symptomau posibl, nid ydynt yn mynd i hunanatgyfeirio at y meddyg teulu yn y lle cyntaf hyd yn oed. Felly, credwn y dylid cynnal ymgyrch addysg y cyhoedd flynyddol i godi ymwybyddiaeth o symptomau cancer a'r hyn y gellir ei wneud i atal cancer er mwyn annog pobl i fynd at y meddyg yn ôl yr angen.

We made the amendment on the follow-up appointment guarantee simply because, at the moment, most health boards do not capture information about follow-up appointments. In north Wales, we know that not everybody's getting access to the follow-up appointments that they need within the time period recommended by their clinicians. That's the one health board that does appear to keep records on these matters. And if things aren't measured, they tend not to be delivered. So, I think it's really important that there are these guarantees in place to be able to catch people so that if there is a secondary tumour that begins to present itself, it can be nipped in the bud very, very quickly and improve the life chances of the individuals concerned.

Finally, if I may, the other thing that we think is really important is the need for a national cancer patients' champion to be appointed across Wales to hold health boards, and the Welsh Government, to account for the implementation of the cancer delivery plans that they have, and the national cancer delivery plan. I think everybody agrees that we have one of the finest examples of a cancer delivery plan for our nation, but it's of no use whatsoever to anybody unless it's actually delivered on the ground.

Gwnaethom y gwelliant ar warant o apwyntiad dilynol yn syml am nad yw'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd ar hyn o bryd yn casglu gwybodaeth am apwyntiadau dilynol. Yng ngogledd Cymru, gwyddom nad yw pawb yn cael mynediad at yr apwyntiadau dilynol sydd eu hangen arnynt o fewn y cyfnod o amser a argymhellir gan eu clinigwyr. Dyna'r un bwrdd iechyd sydd i'w weld yn cadw cofnodion ar y materion hyn. Ac os nad yw pethau'n cael eu mesur, nid ydynt yn tueddu i gael eu cyflawni. Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i ni gael y gwarantau hyn ar waith i allu dal pobl, felly os oes tiwmor eilaidd yn dechrau ymddangos, gellir ei atal yn gynnar ac yn gyflym iawn a gwella cyfleoedd bywyd i'r unigolion dan sylw.

Yn olaf, os caf, y peth arall y credwn ei fod yn bwysig iawn yw'r angen am eiriolwr cenedlaethol dros gleifion cancer i'w benodi ar gyfer Cymru gyfan i ddwyn byrddau iechyd, a Llywodraeth Cymru, i gyfrif mewn perthynas â gweithredu'r cynlluniau cyflawni ar gyfer cancer sydd ganddynt, a'r cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer cancer. Rwy'n meddwl bod pawb yn cytuno bod gennym un o'r enghreifftiau gorau o gynlluniau cyflawni ar gyfer cancer i'n cenedl, ond nid yw o unrhyw ddefnydd o gwbl i neb oni bai ei fod yn cael ei gyflawni ar lawr gwlad mewn gwirionedd.

17:48

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I call Kirsty Williams to move amendments 2 and 3, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliannau 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Ym mhwynt 4b), dileu 'cyflwyno cronfa triniaethau newydd' a rhoi yn ei le 'ymestyn y gronfa technolegau iechyd i feddyginiaethau newydd'.*

*In point 4b), replace 'introduce a new treatments fund' with 'extend the health technologies fund to new medicines'.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:*

*Insert as new sub-point at end of point 4:*

*'datblygu panel Cymru gyfan ar gyfer ceisiadau cyllido cleifion unigol i osgoi'r loteri cod post sy'n bodoli eisoes ar gyfer triniaethau canser yng Nghymru.'*

*'develop an all-Wales individual patient funding requests panel to avoid the existing postcode lotteries for cancer treatments in Wales.'*

*Cynigiwyd gwelliannau 2 a 3.*

*Amendments 2 and 3 moved.*

17:48

## **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I formally move the amendments in the name of Aled Roberts on the order paper this afternoon and would like to begin by thanking Elin Jones for tabling the motion today. We support the motion before us, but will vote against at first reading because we wish our amendments to be heard and voted on. I'd like to make that clear.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau yn ffurfiol y gwelliannau yn enw Aled Roberts ar y papur trefn y prynhawn yma, a hoffwn ddechrau drwy ddiolch i Elin Jones am gyflwyno'r cynnig heddiw. Rydym yn cefnogi'r cynnig sydd ger ein bron, ond byddwn yn pleidleisio yn erbyn ar y darlleniad cyntaf oherwydd ein bod yn dymuno i'n gwelliannau gael eu clywed a chynnal pleidlais arnynt. Hoffwn wneud hynny'n glir.

As has been previously stated, the cancer delivery plan for Wales sets out what services should look like for Welsh cancer patients, and whilst the plan enjoys much support—in fact, a consensus around the contents of that plan has been arrived at—whilst some progress has been made, undoubtedly, the cancer plan, in its entirety, has not been implemented in a way that we can be sure that everybody is getting the service that the Government would intend for them to receive, and there is a job to be done to make that a reality.

My group believes that there are a number of steps that need to be taken to improve our cancer survival rates here in Wales. We need a cancer information programme to ensure that patients do know when to go and get help. We do know that many people worry at home, not wanting to bother their GP, and eventually, when they do make that appointment, already their disease has progressed. So, we really need to make sure that people know, and have the confidence to go and talk to their GP about these issues, and we need GPs to think about cancer when there is a patient sitting in front of them, often, perhaps, with a range of very vague symptoms. There could be a whole range of issues, and that's especially true if you have young people sitting in front of you. We really need to get GPs to think about cancer when there are younger people sitting in front of them.

We do need to improve access to treatment. That is happening. We have more Welsh patients in clinical trials, and we know that patient outcomes, if they're in trials, are better than the average. We do have new investment in the best of radiotherapy techniques. There are still surgical techniques that we could be delivering here in Wales that are only available across the border. Of course, then there is the issue of drugs, which I will return to shortly.

With regard to amendment 4 and the mobile cancer service, my constituents spend more on a cancer diagnosis than any other part of Wales because of the long distances associated with travelling for cancer treatment. That, again, has improved in recent years, with radiotherapy being moved from Cheltenham to Hereford. That's made a vast difference to Powys patients, but my constituents still travel further and spend more on a cancer diagnosis than anybody else. The bus is one model of doing that, but as I said yesterday, I'd love to see chemotherapy chairs going into community hospitals, which we have as a very good setting. Indeed, some chemotherapy can be delivered in people's homes, and we need to do a big push on getting chemo out of tertiary centres into community settings.

And we need to get end-of-life care right. We need to ensure that people have the services they need, when they need them, and the support at the very end of their lives.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r cynllun cyflawni ar gyfer cancer i Gymru yn nodi sut y dylai gwasanaethau fod i gleifion cancer yng Nghymru, ac er bod llawer o gefnogaeth i'r cynllun—cafwyd consensws mewn gwirionedd ynghylch cynnwys y cynllun hwnnw—a bod peth cynnydd wedi'i wneud yn ddi-os, nid yw'r cynllun cancer, yn ei gyfanrwydd, wedi cael ei roi ar waith mewn ffordd y gallwn fod yn sicr fod pawb yn cael y gwasanaeth y byddai'r Llywodraeth yn bwriadu iddynt ei gael, ac mae gwaith i'w wneud er mwyn gwireddu hynny.

Mae fy ngrŵp yn credu bod yna nifer o gamau sydd angen eu cymryd i wella ein cyfraddau goroesi cancer yma yng Nghymru. Mae arnom angen rhaglen wybodaeth ynglŷn â chanser i sicrhau bod cleifion yn gwybod pryd i fynd i gael help. Gwyddom fod llawer o bobl yn poeni yn eu cartrefi, yn amharod i drafferthu eu meddyg teulu, ac yn y pen draw, pan fyddant yn gwneud yr apwyntiad, mae eu clefyd wedi datblygu. Felly, mae gwir angen i ni wneud yn siŵr fod pobl yn gwybod, ac yn cael hyder i fynd i siarad â'u meddyg teulu am y materion hyn, ac mae angen i feddygon teulu feddwl am ganser pan fo'r claf yn eistedd o'u blaenau, yn aml, efallai, gydag ystod o symptomau amwys iawn. Gallai fod ystod eang o broblemau, ac mae hynny'n arbennig o wir os oes gennych bobl ifanc yn eistedd o'ch blaen. Mae gwir angen i ni gael meddygon teulu i feddwl am ganser pan fo pobl iau yn eistedd o'u blaenau.

Mae angen i ni wella mynediad at driniaeth. Mae hynny'n digwydd. Mae gennym fwy o gleifion yng Nghymru mewn treialon clinigol, a gwyddom fod canlyniadau i gleifion, os ydynt mewn treialon, yn well na'r cyfartaledd. Mae gennym fuddsoddiad newydd yn y technegau radiotherapi gorau. Ceir technegau llawfeddygol o hyd y gallem fod yn eu darparu yma yng Nghymru sydd ond ar gael ar draws y ffin. Wrth gwrs, mae mater cyffuriau wedyn, a byddaf yn dychwelyd at hynny cyn bo hir.

O ran gwelliant 4 a'r gwasanaeth cancer symudol, mae fy etholwyr yn gwario mwy ar ddiagnosis o ganser nag unrhyw ran arall o Gymru oherwydd y pellteroedd hir sy'n gysylltiedig â theithio i gael triniaeth cancer. Mae hynny, unwaith eto, wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf, gyda radiotherapi yn cael ei symud o Cheltenham i Henffordd. Mae hynny wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i gleifion o Bowys, ond mae fy etholwyr yn dal i deithio ymhellach ac yn gwario mwy ar ddiagnosis o ganser nag unrhyw ran arall. Mae'r bws yn un model o wneud hynny, ond fel y dywedais ddoe, byddwn wrth fy modd yn gweld cadeiriau cemotherapi yn mynd i mewn i ysbysai cymunedol, sy'n lleoliad da iawn sydd gennym. Yn wir, gellid darparu peth cemotherapi yng nghartrefi pobl, ac mae angen i ni wneud ymdrech fawr i gael cemotherapi allan o ganolfannau trydyddol i leoliadau cymunedol.

Ac mae angen cael gofal diwedd oes yn iawn. Mae angen i ni sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, pan fyddant eu hangen, a'r gefnogaeth ar y diwedd un.

I welcome very much the Welsh Government's acceptance of the health technology fund, and that has provided a much-needed focus on investment in the new radiotherapy techniques that we've heard about. That's not important just from a patient's perspective; it is absolutely vital if we're to recruit and retain the very best cancer doctors. Why would you want to practice your medicine if you haven't got access to that technology? So it's vital for patient outcomes, but it's also vital for keeping the best cancer doctors here in Wales. We believe that we should look to extend that fund. I don't mind what it's called—I really don't mind what it's called—but we do need to look to ways of ensuring that there is a fund of money to actually promote the usage of new pharma treatments in the NHS. I must say, I'm not playing catch-up; I've always believed that, but I believe that should be equitable for all treatments, and I don't think that we should set one patient group against another. We need that fund to be available for new treatments across the board.

But, crucially, we do need to end this postcode lottery of individual local health boards and individual patient funding requests. We need an all-Wales approach to this. The Minister says that is not possible, and it is not practicable, but it is. The Welsh Health Specialised Services Committee do it all the time. There are certain issues that are handled by WHSSC that have an all-Wales panel, and if we can do it for WHSSC, we can do it for cancer patients. It is not right for my constituent not to have access to a drug because he lives in Ystradgynlais whereas if he lived over the border in Carmarthenshire, if he lived over the border in Swansea or Neath, he would get it. That is outrageous and we cannot accept that as okay in our health system. We can be better than that, and we need to be better than that.

Croesawaf yn fawr y ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn y gronfa technoleg iechyd, ac mae hynny wedi rhoi ffocws mawr ei angen ar fuddsoddiad yn y technegau radiotherapi newydd rydym wedi clywed amdanynt. Nid yn unig y mae'n bwysig o safbwynt y claf, mae'n gwbl hanfodol os ydym yn mynd i recriwtio a chadw'r meddygon cancer gorau. Pam y byddech eisiau ymarfer meddygaeth os nad oes gennych fodd o fanteisio ar y dechnoleg honno? Felly mae'n hanfodol o ran canlyniadau i gleifion, ond mae hefyd yn hanfodol ar gyfer cadw'r meddygon cancer gorau yma yng Nghymru. Credwn y dylem ystyried ehangu'r gronfa honno. Nid oes ots gennyf beth y'i gelwir—nid oes ots o gwbl gennyf beth y'i gelwir—ond mae angen i ni edrych ar ffyrdd o sicrhau bod gennym gronfa o arian i hyrwyddo'r defnydd o driniaethau fferyllol newydd yn y GIG mewn gwirionedd. Rhaid i mi ddweud, nid dal i fyny rwyf fi; rwyf bob amser wedi credu hynny, ond rwy'n credu y dylai fod yn gyfartal ar gyfer pob triniaeth, ac nid wyf yn meddwl y dylem osod un grŵp o gleifion yn erbyn un arall. Mae arnom angen i'r gronfa fod ar gael ar gyfer triniaethau newydd yn gyffredinol.

Ond, yn hollbwysig, mae angen i ni roi diwedd ar y loteri cod post rhwng byrddau iechyd lleol unigol a cheisiadau cyllido cleifion unigol. Mae arnom angen ymagwedd Cymru gyfan at hyn. Dywed y Gweinidog nad yw'n bosibl, ac nad yw'n ymarferol, ond nid yw hynny'n wir. Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn ei wneud drwy'r amser. Ceir materion penodol sy'n cael eu trin gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sydd â phanel ar gyfer Cymru gyfan, ac os gallwn ei wneud ar gyfer y pwyllgor hwnnw, gallwn ei wneud ar gyfer cleifion cancer. Nid yw'n iawn nad yw un o fy etholwyr yn cael mynediad at gyffur oherwydd ei fod yn byw yn Ystradgynlais ond pe bai'n byw dros y ffin yn Sir Gaerfyrddin, pe bai'n byw dros y ffin yn Abertawe neu Gastell-nedd, byddai'n ei gael. Mae hynny'n warthus ac ni allwn dderbyn bod hynny'n iawn yn ein system iechyd. Gallwn fod yn well na hynny, ac mae angen i ni fod yn well na hynny.

17:53

**Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, who cares? Who cares? How often have we as politicians heard that phrase, 'Who cares?' Well, we care.

Wel, pwy sy'n malio? Pwy sy'n malio? Pa mor aml rydym ni fel gwleidyddion wedi clywed yr ymadrodd hwnnw, 'Pwy sy'n malio?' Wel, rydym ni'n malio.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

'Care' is a very small word, but Duw, it's oh so powerful, isn't it? I want to focus on the important issue that every person diagnosed with cancer should have a key worker. Usually that person will be a clinical nurse specialist, but as treatment continues, that key worker could even be a doctor. Why not? The key worker will act as a co-ordinator, enabling the patient to access information, care and support throughout their cancer journey. We know that Macmillan—an excellent organisation—are campaigning for everyone who is diagnosed with cancer to be assigned a specialist cancer nurse. These nurses as key workers can offer support that living with cancer demands, such as emotional support and helping individuals to cope with financial, social and even spiritual needs. In a way, they will act as advocates for potential and actual patients, so that they and their families are not left alone to manage what must often be a very complex and stressful situation. We have all of us, in this room and throughout Wales, lost loved and cherished friends and relatives due to this dreadful disease.

There are financial benefits, as well, because it's been shown that allocating a key worker can reduce the number of emergency admissions, the length of hospital stay and the number of follow-up appointments. But, what we have to ensure is that designating a key worker for cancer patients shouldn't be subject to where you happen to live. We know that performance in key areas, such as diagnostic waiting times, varies across health boards in Wales—we've heard examples of it here today. Well, that can't be acceptable—that's not care.

At the moment, access to a key worker is extremely patchy. Overall, only 32 per cent of patients reported having access to a key worker, and, in three of our local health boards, fewer than 20 per cent have a key worker. This goes against the Welsh Government's claim that the majority of cancer patients in Wales have a key worker. In Plaid Cymru, we want everyone with a diagnosis of cancer to have a key worker. For far too long, we have relied on family and friends—neighbours, even—giving up their time and their jobs voluntarily to help during these stressful times. Let's be honest: without volunteers, Wales would be closed.

If we're to support people living with cancer, we must make sure that access to a key worker applies equally in all parts of Wales and that we have the data to monitor whether this is actually being achieved. That will be our proof that we care.

Gair bach iawn yw 'malio', ond Duw, mae mor bwerus, onid yw? Rwyf am ganolbwyntio ar y mater pwysig y dylai pob person sy'n cael diagnosis o ganser gael gweithiwr allweddol. Fel arfer, nyrs glinigol arbenigol fydd y person hwnnw, ond wrth i driniaeth barhau, gallai gweithiwr allweddol fod yn feddyg hyd yn oed. Pam ddim? Bydd y gweithiwr allweddol yn gweithredu fel cydlynnydd, gan alluogi'r claf i gael gafael ar wybodaeth, gofal a chymorth drwy gydol eu taith ganser. Rydym yn gwybod bod Macmillan—sefydliad ardderchog—yn ymgyrchu dros sicrhau bod nyrsys arbenigol cancer yn cael eu pennu ar gyfer pawb sy'n cael diagnosis o ganser. Fel gweithiwr allweddol gall y nyrsys hyn gynnig cymorth sydd ei angen ar gyfer byw gyda chanser, fel cefnogaeth emosiynol a helpu unigolion i ymdopi ag anghenion ariannol, cymdeithasol a hyd yn oed ysbrydol. Mewn ffordd, byddant yn gweithredu fel eiriolwyr dros gleifion posibl a gwirioneddol, fel nad ydynt hwy a'u teuluoedd yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain i reoli'r hyn sy'n aml, o reidrwydd, yn sefyllfa gymhleth a llawn straen. Rydym i gyd, yn yr ystafell hon a ledled Cymru, wedi colli ffrindiau a pherthnasau annwyl yn sgil y defyd ofnadwy hwn.

Ceir manteision ariannol, yn ogystal, oherwydd dangoswyd y gall dynodi gweithiwr allweddol leihau nifer y derbyniadau brys i'r ysbty, hyd arhosiad yn yr ysbty a nifer yr apwyntiadau dilynol. Ond yr hyn y mae'n rhaid i ni ei sicrhau yw na ddylai dynodi gweithiwr allweddol ar gyfer cleifion cancer fod yn amodol ar ble rydych yn digwydd byw. Gwyddom fod perfformiad mewn meysydd allweddol, megis amseroedd aros am ddiagnosis, yn amrywio ar draws y byrddau iechyd yng Nghymru—rydym wedi clywed enghreifftiau o hynny yma heddiw. Wel, ni all hynny fod yn dderbyniol—nid gofal yw hynny.

Ar hyn o bryd, mae mynediad at weithiwr allweddol yn hynod o anghyson. Yn gyffredinol, 32 y cant o gleifion yn unig sy'n cael mynediad at weithiwr allweddol, ac mewn tri o'n byrddau iechyd lleol, mae gan lai nag 20 y cant o gleifion cancer weithiwr allweddol. Mae hyn yn mynd yn groes i honiad Llywodraeth Cymru fod gan y rhan fwyaf o gleifion cancer yng Nghymru weithiwr allweddol. Ym Mhlaid Cymru, rydym am i bawb sydd wedi cael diagnosis o ganser gael gweithiwr allweddol. Ers llawer gormod o amser, rydym wedi dibynnu ar deulu a ffrindiau—cymdogion, hyd yn oed—sy'n rhoi eu hamser ac yn gadael eu gwaith yn wirfoddol i helpu yn ystod y cyfnodau anodd hyn. Gadewch i ni fod yn onest: heb wirfoddolwyr, byddai Cymru ar gau.

Os ydym am gynorthwyo pobl sy'n byw gyda chanser, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr y ceir mynediad cyfartal at weithwyr allweddol ym mhob rhan o Gymru, a bod gennym y data i fonitro a yw hyn yn cael ei gyflawni mewn gwirionedd. Dyna fydd y prawf ein bod yn malio.

17:57

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Julie Morgan.

Julie Morgan.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, for calling me to speak in this very important debate on cancer services. In my role as chair of the cross-party group on cancer during the period of this Assembly, I think we've had, on that group, the privilege of hearing directly from patients who are undergoing treatment and people who are survivors, as well as professionals in the field and families who are involved. I think it's been a great privilege, really, hearing about some of the fantastic initiatives that are going on in the health service in Wales, and recognising people's frustrations as well.

One of the key issues that has been raised in that group is what Lindsay Whittle has just spoken about—the importance of having a specialist key worker. Lindsay has spoken in some detail about how important it is for adults, and I just want to say a bit about how important it is for children who suffer from cancer, because I think this is an area that, perhaps, we don't look at so often.

Earlier this year, CLIC Sargent reported to the cross-party group on a project to provide specialist nurse key workers for children with cancer. This project was actually a UK project, but it did cover Wales as well and lasted for four years. The nurse key workers provided a link between the young people, their families and the system to help them better understand the treatment that's being offered. I think, really, what was one of the most important things that came out, and what parents who'd actually been involved in this said, was that it gave them the confidence to support and care for their children at home. I think if a child does suffer with cancer, there is a great deal of nervousness on behalf of the family about looking after the child at home, although, obviously, that is the best place for the child and for the family.

The other thing that this project did was to go into the school and help care for the children in school. I think this is a very important aspect of what was, really, a very innovative approach, where nurse key workers support children and liaise with educational professionals so that these young people can continue with their education. I think it's so important that these children who are suffering from cancer can be part of school life and not cut off from friends, because it's so important that they can continue their life as normally as they possibly can. I think it's absolutely important for the wellbeing of children with cancer and, of course, teenagers with cancer, who also need all that support.

I want to give a tribute to the work of the voluntary sector in this field. CLIC Sargent did that project and Macmillan Cancer Support has already been mentioned, which wants everyone given a cancer diagnosis to have access to a specialist cancer nurse. Of course, Macmillan also carries out the Welsh cancer patient experience survey, which has provided evidence to show that access to a specialist nurse improves the patient's experience and fits in with the emphasis on patient-centred care. I think it also showed, in its last survey, how satisfied, on the whole, people in Wales are with the cancer services that they receive, with some outstanding ratings for the cancer care.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, am fy ngalw i siarad yn y ddadl bwysig hon ar wasanaethau canser. Yn fy rôl fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar ganser yn ystod cyfnod y Cynulliad hwn, rwy'n credu ein bod wedi cael, yn y grŵp hwnnw, y fraint o glywed yn uniongyrchol gan gleifion sy'n cael triniaeth a phobl sydd wedi goroesi'r defyd, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol yn y maes a theluoedd sy'n dod i gysylltiad â chanser. Rwy'n credu mewn gwirionedd ei bod wedi bod yn fraint fawr clywed am rai o'r mentrau gwych sy'n digwydd yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, a chydabod rhwystredigaethau pobl yn ogystal.

Un o'r materion allweddol a godwyd yn y grŵp hwnnw yw'r hyn y mae Lindsay Whittle newydd siarad amdano—pwysigrwydd cael gweithiwr allweddol arbenigol. Siarodd Lindsay yn eithaf manwl am ba mor bwysig yw hynny i oedolion, a hoffwn ddweud ychydig am ba mor bwysig yw hynny i blant sy'n dioddef o ganser, gan fy mod yn credu bod hwn yn faes nad ydym yn edrych arno mor aml â hynny efallai.

Yn gynharach eleni, cyflwynodd CLIC Sargent adroddiad i'r grŵp trawsbleidiol ar brosiect i ddarparu gweithwyr allweddol nyrsio arbenigol i blant â chanser. Prosiect ar gyfer y DU oedd hwn mewn gwirionedd, ond roedd yn cwmpasu Cymru yn ogystal a pharhaodd am bedair blynedd. Roedd y gweithwyr allweddol nyrsio yn darparu cyswllt rhwng y bobl ifanc, eu teuluoedd a'r system i'w helpu i ddeall y driniaeth sy'n cael ei chynnig yn well. Rwy'n credu, mewn gwirionedd, mai'r hyn a oedd yn un o'r pethau mwyaf pwysig a ddaeth o hyn, a'r hyn roedd y rhieni a fu'n gysylltiedig â'r prosiect mewn gwirionedd yn ei ddweud oedd ei fod wedi rhoi hyder iddynt gynorthwyo a gofalu am eu plant gartref. Os yw plentyn yn dioddef o ganser, rwy'n credu bod llawer iawn o nerfusrwydd ar ran y teulu ynglŷn ag edrych ar ôl y plentyn gartref, er mai dyna'r lle gorau, yn amlwg, i'r plentyn ac i'r teulu.

Y peth arall a wnaeth y prosiect hwn oedd mynd i mewn i'r ysgol a helpu i ofalu am y plant yn yr ysgol. Rwy'n credu bod hon yn agwedd bwysig iawn ar yr hyn a oedd, mewn gwirionedd, yn ddull arloesol iawn, lle y mae gweithwyr allweddol nyrsio yn cynorthwyo plant ac yn cysylltu ag addysgwyr fel bod y bobl ifanc hyn yn gallu parhau â'u haddysg. Rwy'n credu ei fod mor bwysig i'r plant hyn sy'n dioddef o ganser fod yn rhan o fywyd yr ysgol a heb eu gwahanu rhag eu ffrindiau, gan ei bod mor bwysig iddynt barhau â'u bywydau mor normal ag y gallant. Rwy'n credu ei bod yn hollbwysig i les plant â chanser ac wrth gwrs, pobl yn eu harddegau â chanser, sydd hefyd angen yr holl gymorth hwnnw.

Rwyf am dalu teyrnged i waith y sector gwirfoddol yn y maes hwn. CLIC Sargent a wnaeth y prosiect hwnnw ac mae Cymorth Canser Macmillan eisoes wedi cael ei grybwyll, sefydliad sydd am i bawb a gafodd ddiagnosis o ganser gael mynediad at nyrsys canser arbenigol. Wrth gwrs, Macmillan hefyd sy'n cynnal arolwg profiad cleifion canser Cymru, sydd wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod mynediad at nyrsys arbenigol yn gwella profiad y claf ac yn cyd-fynd â'r pwyslais ar ofal sy'n canolbwyntio ar y claf. Rwy'n credu eu bod hefyd wedi dangos, yn eu harolwg diwethaf, pa mor fodlon, ar y cyfan, yw pobl Cymru gyda'r gwasanaethau canser a gânt, gyda rhai graddau rhagorol i'r gofal canser.

I'd also like to pay tribute to the other voluntary organisations working in the cancer field. Tenovus, also based in my constituency, provides treatment services at the two mobile units that have already been mentioned. The first unit provides chemotherapy, and the second provides a specialist lymphedema clinic—the first of its kind in the world. These mobile units have been going since 2009 and have saved patients 45,000 miles-worth of travel to and from hospitals.

There has been quite a lot of mention today about the new Velindre, and I am absolutely thrilled that there's going to be this fantastic development in my constituency in Cardiff North, and I commend the Welsh Government for committing over £200 million of funding to create this new hospital so that people in south Wales will be able to have a first-class service. Of course, the plan of the delivery of the cancer services in the new Velindre doesn't aim to have everybody in the hospital, it aims to have as much of the treatment carried out at home as possibly can be. There are plans for a new satellite radiotherapy centre east of Cardiff, because of course, with the new model we want—patient-centred care at home—we do want people to have their treatment at home, near home or, in the case of south Wales, in the first-class facilities that will be available at Velindre.

So, in conclusion, I think that the Welsh Government's commitment to the new Velindre in all its aspects is a clear indication of this Government's commitment to provide first-class services for cancer for people in Wales.

Hoffwn hefyd dalu teyrnged i'r sefydliadau gwirfoddol eraill sy'n gweithio ym maes cancer. Mae Tenovus, sydd hefyd wedi'i leoli yn fy etholaeth i, yn darparu gwasanaethau ar gyfer rhoi triniaeth yn y ddwy uned symudol a grybwyllwyd eisoes. Mae'r uned gyntaf yn darparu cemotherapi, ac mae'r ail yn darparu'r clinig lymffedema arbenigol—y cyntaf o'i fath yn y byd. Mae'r unedau symudol hyn wedi bod yn weithredol ers 2009 ac wedi arbed 45,000 o filltiroedd o deithio i gleifion yn ôl a blaen o ysbysai.

Bu cryn dipyn o sôn heddiw am y Felindre newydd, ac rwyf wrth fy modd y bydd y datblygiad gwych hwn yn fy etholaeth yng Ngogledd Caerdydd, a chymeradwyaf Lywodraeth Cymru am ymrwymo dros £200 miliwn o gyllid tuag at greu'r ysbysu newydd hwn fel y bydd pobl yn ne Cymru yn gallu cael gwasanaeth o'r radd flaenaf. Wrth gwrs, nid yw'r cynllun o gyflwyno'r gwasanaethau cancer yn y Felindre newydd yn anelu at gael pawb yn yr ysbysu; ei nod yw cyflawni cymaint o'r driniaeth a phosibl yn y cartref. Ceir cynlluniau ar gyfer cael is-ganolfan radiotherapi newydd i'r dwyrain o Gaerdydd oherwydd, wrth gwrs, gyda'r model newydd rydym ei eisiau—gofal sy'n canolbwyntio ar y claf gartref—rydym am i bobl gael eu triniaeth gartref, yn agos i gartref neu, yn achos de Cymru, yn y cyfeusterau o'r radd flaenaf a fydd ar gael yn Felindre.

Felly, i gloi, credaf fod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Felindre newydd yn ei holl agweddau yn arwydd dir o ymrwymiad y Llywodraeth hon i ddarparu gwasanaethau cancer o'r radd flaenaf ar gyfer pobl Cymru.

18:02

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The UK, of course, has long had some of the worst cancer survival rates in Europe, and the most recently available statistics show that five-year breast cancer survival was just over 79 per cent in England, 78.5 per cent in Scotland, and 78.2 per cent in Wales, but in Sweden, of course, the figure is 86 per cent, with a European average of 81.8 per cent. In England, 80.3 per cent of men with prostate cancer were alive five years later, compared with 90.2 per cent in Austria, 90 per cent in Finland, and a European average of 83.4 per cent. In Wales, by the way, the figure is 78 per cent. For bowel cancer, five-year survival in England is 51.3 per cent, with a figure of 53.9 per cent in Scotland, 49.9 per cent in Wales, but, again, the European average was 57 per cent, while survival rates in Germany were 62.2 per cent—quite stark figures, I'm sure you'd all agree. The reasons, of course, for the poor survival rates are complex, but two factors are regularly cited: the fact, in the first place, that many patients don't seek help for unexplained or persistent symptoms early enough for treatment to be as effective as it could be; and, secondly, that patients who do see their GP with these symptoms often wait too long for the tests needed to diagnose cancer, sometimes having to wait for different tests when earlier ones failed to establish the cause of the symptoms.

Yn y DU, wrth gwrs, y gwelwyd rhai o'r cyfraddau goroesi cancer gwaethaf yn Ewrop, ac mae'r ystadegau diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod cyfraddau goroesi pum mlynedd ar gyfer cancer y fron ychydig dros 79 y cant yn Lloegr, 78.5 y cant yn yr Alban, a 78.2 y cant yng Nghymru, ond yn Sweden, wrth gwrs, mae'r ffigur yn 86 y cant, gyda chyfartaledd Ewropeaidd o 81.8 y cant. Yn Lloegr, roedd 80.3 y cant o ddynion â chanser y prostatid dal yn fyw bum mlynedd yn ddiweddarach, o'i gymharu â 90.2 y cant yn Awstria, 90 y cant yn y Ffindir, a chyfartaledd Ewropeaidd o 83.4 y cant. Yng Nghymru, gyda llaw, mae'r ffigur yn 78 y cant. Ar gyfer canser y coluddyn, mae cyfraddau goroesi pum mlynedd yn Lloegr yn 51.3 y cant, gyda ffigur o 53.9 y cant yn yr Alban, 49.9 y cant yng Nghymru, ond unwaith eto, roedd y cyfartaledd Ewropeaidd yn 57 y cant, gyda chyfraddau goroesi yn yr Almaen yn 62.2 y cant—ffigurai eithaf llwm, rwy'n siŵr y byddech i gyd yn cytuno. Mae'r rhesymau, wrth gwrs, dros y cyfraddau goroesi gwael yn gymhleth, ond sonnir yn rheolaidd am ddau ffactor: yn y lle cyntaf, y ffaith fod llawer o gleifion nad ydynt yn gofyn am help gyda symptomau na allant eu hegluro neu symptomau cyson yn ddigon cynnar i driniaeth fod mor effeithiol ag y gallai fod; ac yn ail, fod cleifion sy'n gweld eu meddyg teulu gyda'r symptomau hyn yn aml yn aros yn rhy hir am y profion sydd eu hangen i wneud diagnosis o ganser, ac weithiau'n gorfod aros am brofion gwahanol pan fo profion cynharach wedi methu â phennu beth sy'n achosi'r symptomau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

There have been many initiatives aimed at addressing the problem of late cancer diagnosis, for example, tv advertising encouraging people to visit the doctor if they have persistent symptoms; screening programmes for at-risk groups to try to identify the early development of tumours; and, of course, a range of initiatives aimed at preventing cancer in the first place, primarily, maybe, through tackling smoking. These policies will all continue, of course, to play an important role in tackling cancer, and Plaid Cymru believes we should be doing more to prevent cancer in the first place through public health policy, but some of the other initiatives, of course, have their limitations: GPs are faced with large demands on their time already, so advertising campaigns may have the unintended consequence of ensuring that the worried well may visit too often, placing unnecessary pressure on GPs; and screening programmes can have the problem as well of false positives, if poorly designed, and thus do more harm than good.

If we want to tackle the problem of late diagnosis, we have to also consider how the NHS deals with people who present with symptoms that may suggest possible cancer, how it can promptly test those patients to either confirm cancer or give a patient the relief of the all clear. Currently, Wales has substantially longer waiting times than elsewhere in the UK. Although the percentages fluctuate each month, currently, 29 per cent of those needing an MRI have waited longer than six weeks, compared to just 1.5 per cent of those waiting for an MRI in England and 4.3 per cent in Scotland. When it comes to endoscopies, the figures are worse. For example, currently 48.6 per cent of those who need a colonoscopy have waited longer than six weeks, compared to 8.4 per cent in England and 20 per cent in Scotland.

The health committee heard evidence that Wales carried out fewer endoscopies per head of population than other countries. Similarly, access in Wales to diagnostic scans, such as MRI and PET scans, wasn't comparable to other parts of the UK. The situation has been so bad that the committee heard that some GPs suggested presenting at A&E as a faster route to accessing diagnostic tests.

In England, the Government set up an independent cancer taskforce to examine how their NHS could tackle the problem of late diagnosis. They recommended that the Government set an ambition that, by 2020, 95 per cent of patients referred for testing by a GP are definitively diagnosed with cancer or cancer is excluded, and the result communicated to the patient within four weeks. To achieve this ambition, the taskforce recommended that delivering this will require a significant increase in diagnostic capacity, giving GPs direct access to key investigative tests, and the testing of new models that could reduce the burden of expectation on GPs.

Cafwyd llawer o fentrau sy'n anelu at fynd i'r afael â phroblem diagnosis hwyr o ganser, er enghraifft, hysbysebu teledu i annog pobl i ymweld â'r meddyg os oes ganddynt symptomau parhaus; rhaglenni sgrinio ar gyfer grwpiau sydd mewn perygl i geisio canfod datblygiad cynnar tiwmorau; ac wrth gwrs, ystod o fentrau gyda'r nod o atal canser yn y lle cyntaf, yn bennaf, efallai, drwy fynd i'r afael ag ysmegu. Bydd y polisiau hyn i gyd yn parhau, wrth gwrs, i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o fynd i'r afael â chanser, a chred Plaid Cymru y dylem fod yn gwneud mwy i atal canser yn y lle cyntaf drwy bolisi iechyd y cyhoedd, ond mae cyfyngiadau ynghlwm wrth rai o'r mentrau eraill, wrth gwrs: mae meddygon teulu yn wynebu galw mawr ar eu hamser yn barod, felly mae'n bosibl y byddai ymgyrchoedd hysbysebu yn cael y canlyniad anfwriadol o sicrhau y bydd pobl sy'n iach ond yn poeni yn ymweld yn rhy aml, gan roi pwysau diangen ar feddygon teulu; a gall rhaglenni sgrinio arwain at broblem canlyniadau positif anghywir, os nad ydynt wedi'u llunio'n dda, a gwneud mwy o ddrwg nag o les o'r herwydd.

Os ydym am fynd i'r afael â phroblem diagnosis hwyr, rhaid i ni hefyd ystyried sut y mae'r GIG yn ymdrin â phobl sydd â symptomau a allai awgrymu canser posibl, sut y gall gynnal profion amserol ar y cleifion hynny i naill ai gadarnhau canser neu roi rhyddhad iddynt nad oes canser ganddynt. Ar hyn o bryd, mae gan Gymru amseroedd aros sydd gryn dipyn yn hwy nag mewn mannau eraill yn y DU. Er bod y canrannau yn amrywio bob mis, ar hyn o bryd, mae 29 y cant o'r rhai sydd angen MRI wedi aros mwy na chwe wythnos, o gymharu ag 1.5 y cant yn unig o'r rhai sy'n aros am MRI yn Lloegr a 4.3 y cant yn yr Alban. O ran endosgopau, mae'r ffigurau'n waeth. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae 48.6 y cant o'r rhai sydd angen colonosgopi wedi aros mwy na chwe wythnos, o'i gymharu ag 8.4 y cant yn Lloegr ac 20 y cant yn yr Alban.

Clywodd y pwyllgor iechyd dystiolaeth fod Cymru wedi cynnal llai o endosgopau y pen o'r boblogaeth na gwledydd eraill. Yn yr un modd, nid oedd mynediad yng Nghymru at sganau diagnostig, megis sganau MRI a PET, yn cymharu â rhannau eraill o'r DU. Mae'r sefyllfa cynddrwg fel bod y pwyllgor wedi clywed bod rhai meddygon teulu yn awgrymu y byddai mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys yn llwybr cyflymach i gael mynediad at brofion diagnostig.

Yn Lloegr, mae'r Llywodraeth wedi sefydlu tasglu canser annibynnol i archwilio sut y gallai eu GIG fynd i'r afael â phroblem diagnosis hwyr. Maent yn argymhell y dylai'r Llywodraeth ei wneud yn uchelgais y bydd, erbyn 2020, 95 y cant o'r cleifion a atgyfeiriwyd gan feddyg teulu i gael profion yn cael diagnosis pendant o ganser neu gadarnhad nad oes canser ganddynt, a'r canlyniad wedi'i roi iddynt o fewn pedair wythnos. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, argymhellodd y tasglu y bydd cyflawni hyn yn galw am gynnydd sylweddol yn y capasiti diagnostig, gan roi mynediad uniongyrchol i feddygon teulu at brofion ymchwiliol allweddol, a phrofi modelau newydd a allai leihau'r baich o ddisgwyliadau ar feddygon teulu.



This is why Plaid Cymru intends to create three specialist diagnostic centres to add to the current capacity of the service, which would be used to prioritise the faster diagnosis of people with suspected cancer. The new National Institute for Health and Care Excellence guidelines, entitled 'Suspected cancer: recognition and referral', substantially relax the criteria for when a GP is able to refer people for testing. So, we know that demand for tests is going to go up. Our new diagnostic centres would help to ease this pressure, and would be a one-stop shop for a variety of tests to be performed so that patients would have a substantially greater chance of an accurate diagnosis or, of course, the all clear within a shorter space of time.

Dyma pam y mae Plaid Cymru yn bwriadu creu tair canolfan ddiagnostig arbenigol i ychwanegu at gapasiti presennol y gwasanaeth, canolfannau a fyddai'n cael eu defnyddio i flaenoriaethu diagnosis cyflymach i bobl yr amheuir bod ganddynt ganser. Mae canllawiau newydd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, 'Suspected cancer: recognition and referral', yn llacio'n sylweddol y meini prawf ar gyfer pryd y gall meddyg teulu atgyfeirio pobl i gael profion. Felly, gwyddom fod y galw am brofion yn mynd i gynyddu. Byddai ein canolfannau diagnostig newydd yn helpu i leddfu'r pwysau hwn, a byddai'n siop un stop ar gyfer amrywiaeth o brofion i'w cynnal fel y byddai gan gleifion obaith cryn dipyn yn well o gael diagnosis cywir, neu gadarnhad nad oes canser ganddynt, wrth gwrs, o fewn llai o amser.

18:07

## **Altat Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank Plaid Cymru for tabling this important debate. It is a shocking fact that one in two people born after 1960 will be diagnosed with cancer at some point in their life. Thankfully for us, massive advances in cancer research over the last four decades mean that cancer survival rates have doubled. Unfortunately for us, Wales has one of the lowest cancer survival rates in Europe. There are many contributing factors to poor performance in Wales, but the key factors are the lack of early diagnosis, long waiting times for treatment, and poor access to cancer drugs. We need to eliminate waits for diagnostic tests if we are to improve early diagnosis.

I recall seeing a patient in the early 1970s with a secondary bone tumour, yet the primary cancer had not been identified. In those days, our hospital in Liverpool did not have a CT scanner; we sent the patient to Manchester for a scan. Thankfully, things have improved since then, yet we still have long waiting times for diagnostic tests. Our GPs should have extra diagnostic tests onsite if possible. We have opened many, many new primary care centres in Wales, yet not one of these modern facilities has an onsite lab or a radiodiagnostic facility. These tests are important, because these are the pointers and they are very easy to carry out. These facilities would help GPs to diagnose different diseases and different cancers. Patients will have an early diagnosis, an early treatment plan and better life expectancy.

On waiting times for treatment, we have to tackle, once and for all, this scourge of downgrading urgent referrals. The NHS is becoming increasingly driven by processes rather than outcomes. Hospitals have developed a generic referral letter that is little more than a tick-box exercise for the referring GPs. Even though no two patients are the same, a patient's referral will be downgraded if their symptoms don't fit the form's criteria. It also prevents further learning, when the symptoms that each and every patient displays are important to our understanding of the progression of the disease. We can't ignore symptoms that don't fit set criteria. Managing waiting lists should not overrule clinical priorities. Targets are in place to ensure the best outcome for the patient, not to drive processes and further bureaucracy.

Hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddatl bwysig hon. Mae'n ffaith syfrdanol y bydd un o bob dau o bobl a anwyd ar ôl 1960 yn cael diagnosis o ganser ar ryw adeg yn eu bywydau. Diolch byth, i ni, mae datblygiadau enfawr ym maes ymchwil canser dros y pedwar degawd diwethaf yn golygu bod cyfraddau goroesi canser wedi dyblu. Yn anffodus i ni, mae gan Gymru un o'r cyfraddau goroesi canser isaf yn Ewrop. Ceir nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at berfformiad gwael yng Nghymru, ond y ffactorau allweddol yw diffyg diagnosis cynnar, amseroedd aros hir am driniaeth, a mynediad gwael at gyffuriau canser. Mae angen i ni gael gwared ar amseroedd aros am brofion diagnostig os ydym yn mynd i wella diagnosis cynnar.

Rwy'n cofio gweld claf ar ddechrau'r 1970au gyda thwmor eilaidd yn yr esgyrn, ac eto nid oedd y canser sylfaenol wedi'i ganfod. Yn y dyddiau hynny, nid oedd sganiwr CT yn ein hysbyty yn Lerpwl; roeddem yn gyrru'r claf i Fanceinion am sgan. Diolch byth, mae pethau wedi gwella ers hynny, ac eto rydym yn dal i fod ag amseroedd aros hir am brofion diagnostig. Dylai ein meddygon teulu gael profion diagnostig ychwanegol ar y safle os oes modd. Rydym wedi agor llawer iawn o ganolfannau gofal sylfaenol newydd yng Nghymru, ac eto nid oes labordy ar y safle neu gyfleuster radiodiagnostig gan yr un o'r cyfleusterau modern hyn. Mae'r profion hyn yn bwysig, oherwydd eu bod yn rhoi syniad o'r sefyllfa ac maent yn hawdd iawn i'w cyflawni. Byddai'r cyfleusterau hyn yn helpu meddygon teulu i wneud diagnosis o glefydau gwahanol a gwahanol fathau o ganser. Bydd cleifion yn cael diagnosis cynnar, cynllun triniaeth cynnar a gwell disgwiliad oes.

O ran amseroedd aros am driniaeth, mae'n rhaid i ni fynd i'r afael, unwaith ac am byth, â malltod israddio atgyfeiriadau brys. Mae'r GIG yn cael ei yrru fwyfwy gan brosesau yn hytrach na chanlyniadau. Mae ysbytai wedi datblygu llythyr atgyfeirio generig sy'n fawr mwy nag ymarfer ticio blychau ar gyfer meddygon teulu sy'n atgyfeirio. Er nad oes unrhyw ddau glaf yr un fath, bydd atgyfeiriad claf yn cael ei israddio os nad yw ei symptomau'n gweddu i feini prawf y ffurflen. Mae hefyd yn atal dysgu pellach, pan fo'r symptomau y bydd pob claf gwahanol yn eu harddangos yn bwysig i'n dealltwriaeth o ddatblygiad y clefyd. Ni allwn anwybyddu'r symptomau nad ydynt yn gweddu i feini prawf penodol. Ni ddylai rheoli rhestrau aros ddod o flaen blaenoriaethau clinigol. Mae targedau ar waith i sicrhau'r canlyniad gorau i'r claf, nid i yrru prosesau a hybu biwrocratiaeth.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Finally, we have to improve access to cancer treatment. We all received those heart-rending e-mails this week from a man desperate to save the life of his sister, who is being denied access to a life-saving drug simply because of where she lives. We have all had many other examples—

Yn olaf, mae'n rhaid i ni wella mynediad at driniaeth canser. Rydym i gyd wedi cael y negeseuon e-bost dirdynnol hynny yr wythnos hon gan ddyn sy'n daer ynghylch achub bywyd ei chwaer, y gwrthodwyd mynediad at gyffur achub bywyd iddi yn syml oherwydd lle y mae'n byw. Rydym i gyd wedi cael llawer o enghreifftiau eraill—

18:10 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

18:10 **Altaf Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sorry, yes.

Mae'n ddrwg gennyf, gwnaf.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

18:10 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think I should inform you she's a constituent of mine and I'll be taking up her case promptly when I meet her on Saturday.

Rwy'n meddwl y dylwn roi gwybod i chi ei bod hi'n un o fy etholwyr a byddaf yn ymdrin â'i hachos yn ddiymdroi pan fyddaf yn ei chyfarfod ddydd Sadwrn.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

18:10 **Altaf Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much. Thank you. We have all had many other examples of where drugs and treatments are not available in Wales and seen many of our constituents move to England to access treatment.

Diolch yn fawr iawn. Diolch. Rydym i gyd wedi cael llawer o enghreifftiau eraill o achosion lle nad oes cyffuriau a thriniaethau ar gael yng Nghymru ac wedi gweld llawer o'n hetholwyr yn symud i Loegr i gael triniaeth.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Welsh patients are seven times less likely to routinely access some cancer drugs than patients elsewhere in the United Kingdom. And it's not just access to drugs like Avastin; its access to CyberKnife radiotherapy, proton beam therapy and stratified medicines. Wales is the only part of the United Kingdom that does not have a stratified medicine strategy. We know that traditional cancer treatment is only effective in 25 per cent of patients. Targeting treatment based on the specific genetic make-up of the patient and the disease is much more effective.

Mae cleifion yng Nghymru saith gwaith yn llai tebygol o gael mynediad at rai cyffuriau canser fel mater o drefn na chleifion mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Ac nid yw'n ymwneud yn unig â mynediad at gyffuriau fel Avastin; mae'n cynnwys mynediad at radiotherapi CyberKnife, therapi pelydr proton a meddyginiaethau haenedig. Cymru yw'r unig ran o'r Deyrnas Unedig lle na cheir strategaeth meddyginiaethau haenedig. Gwyddom nad yw triniaeth ganser draddodiadol ond yn effeithiol mewn 25 y cant o gleifion. Mae targedu triniaeth yn seiliedig ar eneteg benodol y claf a'r clefyd yn llawer mwy effeithiol.

Whoever forms the next Welsh Government has to put in place a cancer strategy that's fit for the twenty-first century. We have moved on since those dark days in the 1970s when patients were ferried between hospitals just to aid diagnosis, but we have not moved on enough. Far too many people in Wales are dying unnecessarily.

Mae'n rhaid i bwy bynnag fydd yn ffurfio Llywodraeth nesaf Cymru sefydlu strategaeth ganser sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Rydym wedi symud ymlaen ers y dyddiau tywyll hynny yn y 1970au pan gâi cleifion eu cludo rhwng ysbytai er mwyn cynorthwyo diagnosis yn unig, ond nid ydym wedi symud ymlaen ddigon. Mae llawer gormod o bobl yng Nghymru yn marw'n ddiangen.

Until we find a cure for cancer we must ensure that cancer patients in Wales get the best available treatment and are given the best chance of surviving cancer. We have one of the greatest healthcare systems in the world—why are we not world leaders in cancer care? Thank you very much.

Hyd nes y down o hyd i wellhad i ganser, rhaid i ni sicrhau bod cleifion canser yng Nghymru yn cael y driniaeth orau sydd ar gael ac yn cael y cyfle gorau i oroesi canser. Mae gennym un o'r systemau gofal iechyd mwyaf arbennig yn y byd—pam nad ydym yn arwain y byd ym maes gofal canser? Diolch yn fawr iawn.

18:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Deputy Minister for Health, Vaughan Gething.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd, Vaughan Gething.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I welcome the opportunity to discuss cancer care in Wales. I'll briefly set out the Government's position on the motion and the amendments. We'll oppose the motion and the amendments, apart from amendments 4 and 5. I should note that we already support Tenovus with funding from the Welsh Government for a mobile chemotherapy and lymphoedema service across Wales, and it's part of our future ambition to have a greater amount of care delivered in people's communities. And, on amendment 5, of course, we already support a number of different education and awareness campaigns in Wales each year. For example, Velindre will be running a specific campaign about ovarian cancer this month, and, as part of the cancer delivery plan, there will be a lung cancer awareness campaign, which is in development.

NHS Wales continues to make real and significant progress in the diagnosis and treatment of cancer. More people are being diagnosed than ever before, and more people than ever before are being treated and survival rates are at an all-time high. Cancer is a top priority for this Government. Spending on cancer by NHS Wales reached a record high of £380 million in 2013-14.

NHS Wales really has made tremendous progress in the diagnosis and treatment of cancer. More than 70 per cent of people diagnosed with cancer survive for at least one year, and more than 50 per cent survive for at least five years. Cancer mortality for the under-75s has improved by just over 10 per cent in the last decade. But we are not complacent and we recognise there is more to do.

The latest cancer annual report, published in January this year, shows a steady decline in the overall rate of people dying from cancer over the last 19 years. It shows that Scotland has a higher mortality rate than Wales—about 25 per cent higher in 2013. But we will need to be ambitious and not just assess our performance against the other UK nations, but to look further afield and look at what actions are already being taken in other European countries.

Now, in this year alone we expect that almost 20,000 people in Wales will be diagnosed with cancer and around 8,000 people will die from cancer. That is not acceptable to us and we'll continue to work closely with the NHS to make sure that we see further progress in the fight against cancer and, in particular, the variation in outcomes between different cancer types.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n croesawu'r cyfle i drafod gofal cancer yng Nghymru. Nodaf yn fyr safbwynt y Llywodraeth ar y cynnig a'r gwelliannau. Byddwn yn gwrthwynebu'r cynnig a'r gwelliannau, ar wahân i welliannau 4 a 5. Dylwn nodi ein bod eisoes yn cefnogi Tenovus gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaeth cemotherapi a lymffedema symudol ledled Cymru, ac mae'n rhan o'n huchelgais yn y dyfodol i gael mwy o ofal wedi'i ddarparu yng nghymunedau pobl. Ac ar welliant 5, wrth gwrs, rydym eisoes yn cefnogi nifer o wahanol ymgyrchoedd addysg ac ymwybyddiaeth yng Nghymru bob blwyddyn. Er enghraifft, bydd Felindre yn cynnal ymgyrch benodol ar ganser yr ofari y mis hwn, ac fel rhan o'r cynllun cyflawni ar gyfer cancer, cynhelir ymgyrch ymwybyddiaeth o ganser yr ysgyfaint, sy'n cael ei datblygu.

Mae GIG Cymru yn parhau i wneud cynnydd gwirioneddol a sylweddol yn gwneud diagnosis o ganser ac yn ei drin. Mae mwy o bobl yn cael diagnosis nag erioed o'r blaen, ac mae mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn cael eu trin ac mae cyfraddau goroesi yn uwch nag erioed. Mae canser yn un o brif flaenoriaethau'r Llywodraeth hon. Cyrhaeddodd gwariant GIG Cymru ar ganser lefel uwch nag erioed, sef £380 miliwn yn 2013-14.

Mae GIG Cymru wedi gwneud cynnydd aruthrol yn wir o ran gwneud diagnosis a thrin cancer. Mae mwy na 70 y cant o'r bobl sy'n cael diagnosis o ganser yn goroesi am o leiaf un flwyddyn, ac mae mwy na 50 y cant yn goroesi am o leiaf bum mlynedd. Mae cyfraddau marwolaeth o ganser ymhlith pobl dan 75 oed wedi gwella ychydig dros 10 y cant yn y degawd diwethaf. Ond nid ydym yn llaesu dwylo ac rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud.

Mae'r adroddiad blynyddol diweddaraf ar ganser, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr eleni, yn dangos gostyngiad cyson yn y gyfradd gyffredinol o bobl a fu farw o ganser dros y 19 mlynedd diwethaf. Mae'n dangos bod gan yr Alban gyfradd farwolaethau uwch na Chymru—tua 25 y cant yn uwch yn 2013. Ond bydd angen i ni fod yn uchelgeisiol ac nid asesu ein perfformiad yn erbyn gwledydd eraill y DU yn unig, ond edrych ymhellach ac edrych ar ba gamau sydd ar y gweill eisoes mewn gwledydd Ewropeaidd eraill.

Nawr, yn y flwyddyn hon yn unig rydym yn disgwyl y bydd bron i 20,000 o bobl yng Nghymru yn cael diagnosis o ganser a bydd tua 8,000 o bobl yn marw o ganser. Nid yw hynny'n dderbyniol i ni a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r GIG i sicrhau ein bod yn gweld cynnydd pellach yn y frwydr yn erbyn cancer ac yn arbennig, yr amrywiad yn y canlyniadau rhwng gwahanol fathau o ganser.

We know that we're regularly compared with the service in England, including on cancer referral times. Of course, it always bears repeating that we regularly out-perform England. However, we expect to see further improvement, and I've met with all of the health board cancer leads to discuss what they're doing to improve cancer performance. As a result, each health board has developed and implemented a 100-day plan to improve performance. Health boards, I'm pleased to note, have made good progress. I expect their plans for the next three months to ensure that momentum is continued and I expect to receive those plans by 6 March.

The latest data for cancer performance from December 2015 show that over 86 per cent of patients newly diagnosed via the urgent suspected route started definitive treatment within the target time of 62 days and 98.9 per cent diagnosed via the non-urgent route started definitive treatment within the target time of 31 days. We already undertake work to improve diagnostic capacity and improve the patient journey. These latest results show progress, with more people getting early diagnosis and treatment, but of course there is still room for further improvement. We don't support the introduction of a 28-day diagnostic target. In many cases, this is already met but not recorded. The introduction of an extra mandatory target could slow the patient journey and lead to a decline in the service, rather than an improvement, due to the increased complexity of some cancers. We remain committed to measuring the time from referral to treatment.

We remain firm in our view that a cancer drugs fund is intrinsically unfair and promotes inequity in a national health system. It focuses entirely upon one disease to the exclusion of all other equally life-limiting conditions. The cancer drugs fund does not take account of the evidence of clinical and cost-effectiveness. It undermines the role of NICE, an internationally accredited and Government-funded body expressly set up to assess the evidence of new medicines. In Wales, we will continue to work with an evidence-based approach that ensures that our resources, which are finite, are directed towards what has proven to be the most effective and cost-effective across all diseases and conditions. We have yet to see any evidence of improved outcomes resulting from the cancer drugs fund, and the cancer drugs fund is not universally supported by clinicians across the UK because they recognise that it is not equitable.

Gwyddom ein bod yn cael ein cymharu'n gyson â'r gwasanaeth yn Lloegr, gan gynnwys mewn perthynas ag amseroedd atgyfeirio cancer. Wrth gwrs, mae bob amser yn werth ailadrodd ein bod yn gyson yn gwneud yn well na Lloegr. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl gweld gwelliant pellach, ac rwyf wedi cyfarfod â phob un o arweinwyr cancer y byrddau iechyd i drafod yr hyn y maent yn ei wneud i wella perfformiad mewn perthynas â chanser. O ganlyniad, mae pob bwrdd iechyd wedi datblygu a gweithredu cynllun 100 diwrnod i wella perfformiad. Rwy'n falch o nodi bod y byrddau iechyd wedi gwneud cynnydd da. Rwy'n disgwyl cael eu cynlluniau ar gyfer y tri mis nesaf i sicrhau bod y momentwm yn parhau ac rwy'n disgwyl cael y cynlluniau hynny erbyn 6 Mawrth.

Mae'r data diweddaraf ar berfformiad mewn perthynas â chanser ar gyfer mis Rhagfyr 2015 yn dangos bod dros 86 y cant o gleifion sydd newydd gael diagnosis drwy'r llwybr amheuaeth frys wedi dechrau triniaeth benodol o fewn yr amser targed o 62 diwrnod a 98.9 y cant o'r rhai a gafodd ddiagnosis drwy lwybrau nad ydynt yn rhai brys wedi dechrau triniaeth benodol o fewn y targed amser o 31 diwrnod. Rydym eisoes yn gwneud gwaith i wella capasiti diagnostig a gwella taith y claf. Mae'r canlyniadau diweddaraf yn dangos cynnydd, gyda mwy o bobl yn cael diagnosis a thriniaeth gynnar, ond wrth gwrs mae lle i wella ymhellach. Nid ydym yn cefnogi cyflwyno targed diagnostig o 28 diwrnod. Mewn llawer o achosion, mae hwn eisoes yn cael ei gyrraedd, ond ni chaiff ei gofnodi. Gallai cyflwyno targed gorfodol ychwanegol arafu taith y claf ac arwain at ddirywiad yn y gwasanaeth, yn hytrach na gwelliant, am fod rhai mathau o ganser yn fwy cymhleth. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i fesur yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth.

Rydym yn parhau i fod yn gadarn ein barn fod cronfa cyffuriau cancer yn gynhenid annheg ac yn hyrwyddo annhegwch mewn system iechyd genedlaethol. Mae'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar un clefyd ar draul yr holl gyflyrau eraill sy'n cyfyngu ar hyd oes i'r un graddau. Nid yw'r gronfa cyffuriau cancer yn ystyried tystiolaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd clinigol a chosteffeithiolrwydd. Mae'n tansellio rôl NICE, corff achrededig yn rhyngwladol a ariennir gan y Llywodraeth ac a sefydlwyd yn benodol i asesu tystiolaeth ynglŷn â meddyginiaethau newydd. Yng Nghymru, byddwn yn parhau i weithio gydag ymagwedd seiliedig ar dystiolaeth sy'n sicrhau bod ein hadnoddau, sy'n gyfyngedig, yn cael eu cyfeirio tuag at yr hyn sydd wedi profi'n fwyaf effeithiol a chosteffeithiol ar draws yr holl glefydau a chyflyrau. Rydym eto i weld unrhyw dystiolaeth o ganlyniadau gwell o ganlyniad i'r gronfa cyffuriau cancer, ac nid yw clinigwyr yn gyffredinol ar draws y DU yn cefnogi'r gronfa cyffuriau cancer am eu bod yn cydnabod nad yw'n deg.

You need not take my word for it or the Welsh Government's word for it: the House of Commons Public Accounts Committee has criticised the way the fund has been managed and the lack of evidence that it has improved any outcomes, and NHS England have consulted on the future of the fund and recently confirmed that it will come back into NICE. They recognise and Sir Bruce Keogh—who is often quoted by some Conservative Members in this Chamber—recognises that it has enabled some pharmaceutical companies to bypass NICE's cost-effectiveness, it is no longer sustainable or desirable for it to continue in its current form, and it is not fit for purpose. There will be no cancer drugs fund in Wales. All new medicines here that are deemed clinically and cost-effective by NICE or the All Wales Medicines Strategy Group are routinely provided to patients by NHS Wales. When those medicines are not approved or are awaiting approval, there is of course the individual patient funding request process for patients in exceptional circumstances.

We recognise the points made about the need to iron out some of the inconsistencies for the same treatment and for the same condition. That's why the Minister's made an announcement already about more funding going into the All Wales Therapeutics and Toxicology Centre to ensure that there is an all-Wales approach where that is needed.

I want to return back to the cancer delivery plan and to recognise some of the achievements that have already been delivered. We have a programme of peer review to help drive up clinical standards, and I recently met a leading clinician from England who was extremely jealous of the fact that we still have a peer review process; it's been ended in England. That is a key part of improving outcomes and clinical practice. We have clarity now on the role of the key worker to support patients through their cancer journey. We have a primary care oncology programme to deliver more in primary care and support GPs to improve diagnosis. We've funded the Tenovus advice line, delivering more than £2 million in income gains for cancer patients and their loved ones. And, in the future, the cancer implementation group will build on these successes with the £1 million we've allocated to them for priorities in the coming year. These include improving services, delivery, planning and performance, developing primary care oncology, improved access to diagnostics, addressing patient experience and tackling lung cancer mortality. There is no end to our ambition for improvement.

I want to end on this positive note, because, in addition to those improving clinical outcomes, one of the most important measures that we could and should use to judge how we are doing in the fight against cancer is the voice of the patient themselves. The 2014 cancer patient experience survey showed that the care received by cancer patients in Wales was either 'excellent' or 'very good' according to 89 per cent of the patients who responded. Now, these are significant comments made by patients themselves—the very experts we could and should listen to.

Nid oes angen i chi gymryd fy ngair i am hynny na gair Llywodraeth Cymru: mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin wedi beirniadu'r ffordd y mae'r gronfa wedi cael ei rheoli a'r diffyg tystiolaeth ei bod wedi gwella unrhyw ganlyniadau, ac mae'r GIG yn Lloegr wedi ymgynghori ar ddyfodol y gronfa ac wedi cadarnhau'n ddiweddar y bydd yn dod yn ôl yn rhan o NICE. Maent yn cydnabod, ac mae Syr Bruce Keogh—sy'n cael ei ddyfynnu'n aml gan Aelodau Ceidwadol yn y Siambr hon—yn cydnabod bod y gronfa wedi galluogi rhai cwmnïau fferyllol i osgoi costeffeithiolrwydd NICE, nid yw bellach yn gynaliadwy na'n ddymunol ei barhau ar ei ffurf bresennol, ac nid yw'n addas at y diben. Ni fydd cronfa cyffuriau cancer yng Nghymru. Mae'r holl feddyginiaethau newydd yma yr ystyria NICE neu Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru eu bod yn effeithiol yn glinigol ac yn gosteffeithiol yn cael eu darparu fel mater o drefn i gleifion gan GIG Cymru. Pan nad yw'r meddyginiaethau hynny wedi'u cymeradwyo neu wrth aros am gymeradwyaeth, ceir proses y cais cyllido cleifion unigol i gleifion mewn amgylchiadau eithriadol.

Rydym yn cydnabod y pwyntiau a wnaed am yr angen i gysoni rhai o'r anghysonderau ar gyfer yr un driniaeth a'r un cyflwr. Dyna pam y mae'r Gweinidog eisoes wedi gwneud cyhoeddiad am fwy o arian i Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan i sicrhau dull o weithredu ar gyfer Cymru gyfan lle y bo'i angen.

Rwyf am ddechredu y cyllun cyflawni ar gyfer cancer ac i gydnabod rhai o'r llwyddiannau sydd eisoes wedi cael eu cyflawni. Mae gennym raglen adolygu gan gymheiriaid er mwyn helpu i godi safonau clinigol, ac yn ddiweddar cyfarfûm â chlinigydd blaenllaw o Loegr a oedd yn eiddgeddus iawn o'r ffaith fod gennym broses adolygu gan gymheiriaid o hyd; mae wedi'i diddymu yn Lloegr. Mae hynny'n rhan allweddol o wella canlyniadau ac ymarfer clinigol. Mae gennym eglurder bellach ynghylch rôl y gweithiwr allweddol i gefnogi cleifion drwy eu taith cancer. Mae gennym raglen oncoleg gofal sylfaenol i ddarparu mwy mewn gofal sylfaenol ac i gynorthwyo meddygon teulu i wella diagnosis. Rydym wedi ariannu llinell gyngor Tenovus sydd wedi sicrhau mwy na £2 filiwn o enillion incwm i gleifion cancer a'u hanwyliaid. Ac yn y dyfodol, bydd y grŵp gweithredu cancer yn adeiladu ar y llwyddiannau hyn gyda'r £1 filiwn rydym wedi'i ddrynnu iddynt ar gyfer blaenoriaethau yn y flwyddyn i ddod. Mae'r rhain yn cynnwys gwella gwasanaethau, darparu, cynllunio a pherfformiad, datblygu oncoleg gofal sylfaenol, gwella mynediad at ddiagnosteg, rhoi sylw i brofiad y claf a mynd i'r afael â marwolaethau o ganser yr ysgyfaint. Nid oes pendraw i'n huchelgais i wella.

Rwyf am orffen ar y nodyn cadarnhaol hwn, oherwydd, yn ogystal â'r canlyniadau clinigol gwell hynny, un o'r mesurau pwysicaf y gallem ac y dylem ei ddefnyddio i farnu lle rydym arni yn y frwydr yn erbyn cancer yw llais y claf ei hun. Dangosodd arolwg profiad cleifion cancer 2014 fod y gofal y mae cleifion cancer yn ei gael yng Nghymru naill ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn' yn ôl 89 y cant o'r cleifion a ymatebodd. Nawr, mae'r rhain yn sylwadau arwyddocaol a wnaed gan y cleifion eu hunain—yr union arbenigwyr y gallem ac y dylem wrando arnynt.

I'm very proud of the work we've already done and I'm proud to say that, for all the progress we have made, for all of the improvements in outcomes and patient experience, there is no levelling down of our ambition, and this Government will continue to work together to improve cancer outcomes for patients right across Wales.

Rwy'n falch iawn o'r gwaith rydym wedi'i wneud yn barod ac rwy'n falch o ddweud, er yr holl gynnydd rydym wedi'i wneud, er yr holl welliannau yng nghanlyniadau a phrofiad cleifion, nid ydym yn gostwng ein huchelgais, a bydd y Llywodraeth hon yn parhau i weithio gyda'n gilydd i wella canlyniadau i gleifion cancer ledled Cymru.

18:20 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Elin Jones to reply to the debate.

Elin Jones i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

18:21 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Fe wnaif i gadw fy sylwadau'n fyr. Rŷm ni wedi trafod yn helaeth y prynhawn yma iechyd a'r NHS. Yn y ddatl ddiwethaf ar ysbytai fe oedd yna dipyn o gwmpo mas, o geccu a phregethu. Yn y ddatl yma, rwy'n falch ein bod ni wedi cael trafodaeth ar syniadau polisi. Mae hynny wedi nodweddu pob un o'r cyfraniadau, i ddweud y gwir, ar ganser.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I will keep my comments brief. We've had lengthy discussions this afternoon on health and the NHS. In the previous debate on hospitals, there was a great deal of disagreement and argument, but, in this debate, I'm pleased that we have discussed policy ideas, and that has characterised all of the contributions, if truth be told, on the issue of cancer.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Roedd yna elfen o gryfder, yn fy marn i, yn y rhan fwyaf o syniadau a glywsom ni y prynhawn yma ar draws y pleidiau a'r cyfranwyr. Byddwn i'n dweud ein bod ni'n gweld elfen o gryfder ym mhob un o'r syniadau hynny gyda'r eithriad, o bosib, i un o'r syniadau a ddaeth mewn un o welliannau'r Torïaid, sef y syniad o greu 'cancer tsar' i ddal y Llywodraeth i gyfrif. Rwy'n anghytuno gyda'r Torïaid. Rwy'n digwydd bod yn credu mai ein swydd ni fan hyn fel gwrthbleidiau ac fel meinciau cefn yn y Blaid Lafur yw dal y Llywodraeth i gyfrif. I ddweud y gwir, mae yna or-dueddiad gennym ni fan hyn, erbyn hyn, yn y Cynulliad a gan y Llywodraeth, i feddlw bod creu 'tsars' neu gomisiynwyr yn rhyw Beth y dylem ni ei wneud ar draws bob ystod polisi, pan, mewn gwirionedd, mae pobl Cymru'n ein hethol ni i wneud y gwaith hynny, mewn difri.

There was some strength, in my view, in most of the ideas put forward this afternoon, across all parties and from all contributors. I would say that we see some merit in all of those ideas, with the exception of one, perhaps, that was proposed in a Conservative amendment, namely this concept of creating a cancer tsar to hold the Government to account. I disagree with the Conservatives on this. I think that it is our job here as opposition parties and as backbenchers in the Labour Party to hold the Government to account. If truth be told, we do have too strong a tendency here in the Assembly and within Government to think that creating tsars or commissioners is something that we should do across all policy areas, when, in reality, the people of Wales elect us to carry out that scrutiny work.

Fe wnaeth Kirsty Williams bwynt pwysig iawn yn ei chyfraniad hi fod angen cynyddu'r defnydd o dechnolegau a thriniaethau modern, newydd yma yng Nghymru ar gyfer cancer, achos, wrth gwrs, mae hynny o les i'r cleifion, ond mae'n gyfraniad pwysig iawn hefyd, wrth fuddsoddi yn hyn, i gadw'r clinigwyr mwyaf blaengar ym maes cancer yma yn gweithio yng Nghymru ac yn gweld dyfodol eu gyrfa nhw yng Nghymru. Felly, mae buddsoddiad mewn triniaethau ac mewn technolegau modern yn rhan o gadw'r clinigwyr mwyaf blaengar yma yng Nghymru.

Kirsty Williams made the important point in her contribution about the need to increase the use of new, modern technologies and treatments in Wales in dealing with cancer, because, of course, that benefits patients, but it also makes a very important contribution, when investing in this area, towards retaining the most innovative clinicians here in Wales and so that they see their future in Wales. Therefore, investment in new treatments and technologies is a way of retaining innovative clinicians here in Wales.

Julie Morgan, diolch i chi am eich cyfraniad y prynhawn yma, a diolch i chi hefyd am y gwaith rŷch chi wedi ei wneud dros y pum mlynedd diwethaf hyn yn cadeirio'r grŵp trawsbleidiol ar ganser. Fe wnaethoch chi'r pwynt pwysig y prynhawn yma ynglŷn â'n hatgoffa ni, mewn dadleuon o'r math yma ar ganser, i gofio hefyd am y plant sy'n dioddef o ganser a bod eu hanghenion nhw'n gallu bod yn wahanol, yn enwedig yr anghenion hynny i barhau gyda'u haddysg nhw wrth fynd trwy'u triniaethau cancer nhw.

Julie Morgan, I'd like to thank you for your contribution this afternoon, and I'd like to thank you for the work that you have done over the past five years in chairing the cross-party group on cancer. You made an important point this afternoon in reminding us that, in debates such as this one on cancer, we should also bear in mind children who have cancer and that their needs can be different, particularly the need to continue with their education as they are treated for cancer.

Diolch i Llyr Gruffydd ac i Lindsay Whittle am amlinellu elfennau eraill o bolisi Plaid Cymru ar ein cynlluniau cancer. Neges gyson, reit trwy'r ddadl yma'r prynhawn yma, yw'r angen i weld 'access' i driniaethau, 'access' i gyffuriau hefyd, yn gyson, a'r penderfyniadau hynny'n gyson reit trwy Gymru. Dyna pam rŷm ni ym Mhlaid Cymru yn credu bod y loteri cod post ar yr 'access' i dechnolegau, triniaethau a chyffuriau angen dod i ben, a bod angen i ni greu paneli cenedlaethol a phenderfyniadau cenedlaethol i benderfynyn a ydy claf yn medru cael triniaeth a chyffur neu beidio.

Mae'n bosib taw'r ystadegyn mwyaf syfrdanol y prynhawn yma a'r un mwyaf brawychus i fi, mae'n siŵr, oedd yr un y clywsom ni oddi wrth Altaf Hussain wrth gyflwyno ei ddadl ef, yn dweud bod un o bob dau o bobl cafodd eu geni ar ôl 1960 yn mynd i fod yn cael diagnosis o ganser yn ystod eu bywyd nhw. Mae hynny'n weddol o syfrdanol i ni.

I orffen, byddwn i'n dweud wrth y Llywodraeth nesaf a'r Gweinidog iechyd nesaf, pwy bynnag fydd hi neu fe, taw y flaenoriaeth fwyaf yn fy marn i, a'r cyfle mwyaf i'r Llywodraeth nesaf yw i wella'r 'access' i brofion diagnostig. Achos, drwy ddiagnosis cynnar, rydym ni'n gwybod bod hynny'n cyfrannu'n helaeth iawn tuag at wella'r 'survival rates'—y byw yna y tu hwnt i ganser. Dyna'r wir flaenoriaeth inni oll y prynhawn yma: sicrhau bod cymaint o bobl—cymaint o oedolion a phlant—â phosib yn byw tu hwnt i'w cancer.

I thank Llyr Gruffydd and Lindsay Whittle for outlining some other elements of Plaid Cymru's policy and plans in relation to cancer. A recurring message right through this afternoon's debate is the need to see consistent access to treatments and drugs, with decisions being consistent the length and breadth of Wales. That is why we in Plaid Cymru believe that the postcode lottery in terms of access to technologies, treatments and drugs needs to come to an end, and that we need to create national panels and take decisions at a national level when it comes to decisions as to whether patients should be able to access a treatment or a drug or not.

Perhaps the most surprising statistic quoted this afternoon, and the most frightening for me, was the one quoted by Altaf Hussain in making his case, stating that one in two people born after 1960 will be diagnosed with cancer at some point during their lifetime. That is quite shocking for all of us.

I would like to conclude by telling the next Government and the next health Minister, whoever she or he may be, that the biggest priority and the biggest opportunity for the next Government is the improvement of access to diagnostic testing. Because it is through early diagnosis that we will see a great contribution towards improving survival rates—living beyond cancer. That is the true priority for us all this afternoon: to ensure that as many adults and children as possible do survive their cancers.

18:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiraf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

18:25 **6. Cyfnod Pleidleisio**

**6. Voting Time**

**Y** Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. So, we'll vote first on the Welsh Conservatives' debate, and I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 31. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes. Felly, pleidleiswn yn gyntaf ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig, a galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na dderbynnir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 31 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 15, Yn erbyn 31, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 15, Against 31, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5983.](#)

[Result of the vote on motion NDM5983.](#)

18:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

We will now vote on the amendments. I call for a vote on amendment 1 tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 22, there voted against 23. Therefore, amendment 1 is not agreed.

Pleidleiswn yn awr ar y gwelliannau. Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 22 o blaid, pleidleisiodd 23 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 1.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 22, Yn erbyn 23, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 22, Against 23, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5983.](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5983.](#)

18:26

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 2 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 46, no votes against. Therefore, amendment 2 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 46 o blaid, ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 2.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 46, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 46, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5983.](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5983.](#)

18:27

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnis fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5983 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5983 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu at y ffaith bod nifer o ysbytai yng Nghymru wedi cael eu cau neu wedi wynebu colli gwasanaethau dros y blynyddoedd diwethaf.

1. Regrets that a number of hospitals in Wales have been closed or subject to a loss of services in recent years; and

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru yn y dyfodol i warantu na fydd unrhyw ysbytai'n cael eu cau yn ystod y pumed Cynulliad.

2. Calls on the future Welsh Government to guarantee that there will be no hospital closures during the fifth Assembly.

3. Yn nodi Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru yn 2014 a oedd yn galw am 'ail-rymuso a bywiogi'r ysbyty gymunedol a gwasanaethau yn y gymuned' ac yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ddarparu mwy o wasanaethau iechyd mewn cymunedau ledled Cymru.

3. Notes the 2014 Mid Wales Healthcare Study which called for a 'reinvigoration of community hospital and community based services' and calls for the next Welsh Government to provide more health services in communities across Wales.

18:27

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 23, there voted against 23. I cast my vote against the motion, which falls.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 23 o blaid, pleidleisiodd 23 yn erbyn. Rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn y cynnis, sy'n methu.

Gwrthodwyd y cynnis fel y'i diwygiwyd: O blaid 23, Yn erbyn 23, Ymatal 0.

Motion as amended not agreed: For 23, Against 23, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnis.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the motion.

[Canlyniad y bleidlais ar NDM5983 fel y'i diwygiwyd.](#)

[Result of the vote on motion NDM5983 as amended.](#)

18:27

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We now vote on the Plaid Cymru debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour eight, there voted against 38. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y ddadl Plaid Cymru. Galwaf am bleidlais ar y cynnis a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na dderbynnir y cynnis, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnis. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 8 o blaid, pleidleisiodd 38 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnis heb ei ddiwygio.



Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 8, Yn erbyn 38, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 8, Against 38, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5984.](#)

[Result of the vote on motion NDM5984.](#)

18:27

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We'll now vote on the amendments. I call for a vote on amendment 1 tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 23, there voted against 23. I cast my vote against the amendment, which falls.

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliannau. Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 23 o blaid, pleidleisiodd 23 yn erbyn. Rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn y gwellant, sy'n methu.

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 23, Yn erbyn 23, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 23, Against 23, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwellant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5984.](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5984.](#)

18:28

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 2 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour four, there voted against 42. Therefore, amendment 2 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 4 o blaid, pleidleisiodd 42 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwellant 2.

Gwrthodwyd y gwellant: O blaid 4, Yn erbyn 42, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 4, Against 42, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5984.](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5984.](#)

18:28

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 3 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 12, there voted against 34. Therefore, amendment 3 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 12 o blaid, pleidleisiodd 34 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwellant 3.

Gwrthodwyd y gwellant: O blaid 12, Yn erbyn 34, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 12, Against 34, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5984.](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5984.](#)

18:28

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 4 tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 46, no votes against. Therefore, amendment 4 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 46 o blaid, ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwellant 4.

Derbyniwyd y gwellant: O blaid 46, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 46, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5984.](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5984.](#)

18:29

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 5 tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 46, no votes against. Therefore, amendment 5 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 5 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 46 o blaid, ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwellant 5.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 46, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 46, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnis NDM5984.](#)

[Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5984.](#)

18:29

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 6 tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 23, there were eight abstentions. Therefore, the amendment is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 6 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 23 yn erbyn, roedd 8 yn ymatal. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 23, Ymatal 8.

Amendment not agreed: For 15, Against 23, Abstain 8.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnis NDM5984.](#)

[Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5984.](#)

18:29

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call for vote on amendment 7 tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 31. Therefore, amendment 7 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 7 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 31 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 7.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 31, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 15, Against 31, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnis NDM5984.](#)

[Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5984.](#)

18:29

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnis fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5984 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5984 as amended:

1. Yn gresynu at y ffaith bod gan Gymru un o'r cyfraddau goresi isaf ar gyfer canser yn y DU a'r UE.
2. Yn nodi bod amseroedd aros ar gyfer profion diagnostig yn annerbyniol o uchel ac yn sylweddol uwch nag yn Lloegr a'r Alban.
3. Yn gresynu at yr anghydraddoldeb o ran mynediad cleifion ledled Cymru i gyffuriau a thriniaethau canser.
4. Yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:
  - a) gwella'r perfformiad mewn perthynas ag amseroedd aros diagnostig yn sylweddol, fel bod 95 y cant o'r bobl y mae eu meddyg teulu yn tybio bod canser ganddynt yn gallu cael diagnosis neu gadarnhad nad oes canser ganddynt o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cânt eu cyfeirio i gael eu profi;
  - b) cyflwyno cronfa triniaethau newydd i sicrhau ymagwedd genedlaethol tuag at fynediad i driniaethau i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at driniaethau yn seiliedig ar angen clinigol nid lle maent yn byw neu a ydynt yn bodloni meini prawf eithriadol; ac

1. Regrets that Wales has one of the lowest survival rates for cancer in the UK and EU;
2. Notes waiting times for diagnostic tests are unacceptably high and considerably higher than England and Scotland;
3. Regrets the inequality of access to cancer drugs and treatments for patients across Wales; and
4. Calls on the next Welsh Government to:
  - a) substantially improve performance on diagnostic waiting times, so that 95 per cent of people suspected of having cancer by a GP can receive a diagnosis or the all clear within 28 days of referral for testing;
  - b) introduce a new treatments fund to ensure a national approach to access to treatments to ensure access to treatments based on clinical need not where a patient lives or whether they meet exceptionality criteria; and

c) sicrhau bod pob claf cancer yn cael mynediad at weithiwr allweddol, gan gasglu a chyhoeddi data yn rheolaidd i ddangos perfformiad yn erbyn y targed hwn.

d) sefydlu gwasanaeth trin cancer symudol cenedlaethol i atal teithiau yn ôl a blaen hir i gleifion sydd am gael mynediad i glinigau a thriniaeth cemotherapi.

e) sefydlu ymgyrch addysg gyhoeddus flynyddol i godi ymwybyddiaeth o achosion a symptomau cancer.

c) ensure all cancer patients have access to a key worker, with the regular collection and publication of data to demonstrate performance against this target.

d) establish a national mobile cancer treatment service to prevent long round trip journeys for patients accessing clinics and chemotherapy treatment.

e) establish an annual public education campaign to raise awareness of the causes and symptoms of cancer.

18:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 23, there voted against 23. I cast my vote against the motion, which falls.

*Gwrthodwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 23, Yn erbyn 23, Ymatal 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig.*

[Canlyniad y bleidlais ar NDM5984 fel y'i diwygiwyd.](#)

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 23 o blaid, pleidleisiodd 23 yn erbyn. Rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn y cynnig, sy'n methu.

*Motion as amended not agreed: For 23, Against 23, Abstain 0.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the motion.*

[Result of the vote on motion NDM5984 as amended.](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

18:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd ask all those Members who are leaving the Chamber to do so quickly and quietly.

Hoffwn ofyn i'r holl Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

18:30 **7. Dadl Fer: Bwyd Da i Bawb—  
Cyflawni'r Nod Arlwygo 'Bwyd am  
Oes' yn Ysgolion Cymru**

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The final item is the short debate, and I call Jenny Rathbone to speak on the topic she has chosen.

**7. Short Debate: Good Food for All Y  
—Achieving the Food For Life  
Catering Mark in Welsh Schools**

Yr eitem olaf yw'r ddadl fer, a galwaf ar Jenny Rathbone i siarad ar y pwnc y mae wedi'i ddewis.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

18:30 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch. My debate is about how we in Wales achieve the Food for Life catering mark in Welsh schools, and I'm pleased to offer a minute to Aled Roberts.

This debate is about our obligations to future generations to transform the nation's eating habits through getting all our children and young people to have a healthy relationship with food, otherwise we are simply going to bankrupt the NHS. The Welsh NHS spends £1 million a week treating obesity and £10 million a week on treating diabetes, so frankly we cannot afford not to tackle the causes of the problem. This has not come about by chance. The food industry spends billions of pounds persuading people to buy their non-foods, laden with sugar, salt and trans fats—all in the name of profit. The healthy eating in schools regulations 2013 are a start, but we have to recognise that they are only a start. They prevent caterers from serving turkey twizzlers and selling fizzy drinks, but it is premature to regard them as transformational.

Diolch. Mae fy nadl yn ymwneud â sut rydym ni yng Nghymru yn cyflawni'r nod arlwygo Bwyd am Oes yn ysgolion Cymru, ac rwy'n falch o gynig munud i Aled Roberts.

Mae'r ddadl hon yn ymwneud â'n rhwymedigaethau i genedlaethau'r dyfodol i drawsnewid arferion bwyta'r genedl drwy gael ein plant a'n pobl ifanc i gyd i gael perthynas iach â bwyd, neu fel arall, byddwn yn gyrru'r GIG i'r wal. Mae'r GIG yng Nghymru yn gwario £1 filiwn yr wythnos ar drin gordewdra a £10 miliwn yr wythnos ar drin diabetes, felly a dweud y gwir, ni allwn fforddio peidio â mynd i'r afael ag achosion y broblem. Nid yw hyn wedi digwydd ar hap. Mae'r diwydiant bwyd yn gwario biliynau o bunnoedd yn perswadio pobl i brynu pethau nad ydynt yn fwydydd sy'n llwythog o siwgr, halen a thraws-fraster—i gyd yn enw elw. Mae rheoliadau bwyta'n iach mewn ysgolion 2013 yn ddechrau, ond rhaid i ni gydnabod mai dechrau'n unig ydynt. Maent yn atal arlwywyr rhag gweini 'turkey twizzlers' a gwerthu diodydd pop, ond mae'n rhy gyngnar i'w hystyried yn weddnewidiol.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

I've had three schools from my constituency visiting Senedd in the last week. Talking to pupils and listening to their concerns, I suggest that local authorities and school governing bodies, who are responsible for compliance with the healthy eating regulations, are not exactly all over this. A recurrent theme is that portion sizes are not big enough for the older children, who obviously need more food than younger children. There is a lack of choice, and poor quality is putting pupils off. One girl described the watery mashed potato, another the overcooked pasta. My son's a Sicilian and so overcooking the pasta is little short of a crime. Frankly, it isn't difficult to cook pasta to the specified number of minutes.

As a school governor myself, I really question who is actually paying attention to this. Certainly, in my experience as an Estyn lay inspector, food standards were not considered a key issue of what is now an even shorter inspection. In any case, under these regulations, it is perfectly possible to dish up mashed potato made from de-hydrated potato—just add water. The regulations are silent on the quality of the cooking of permitted ingredients. These are crucial issues as, unresolved, they drive up numbers opting out of school meals, which, in turn, reduces the cost-effectiveness of the service, and those who rely on their school meal to provide all their nutrition for the week—some but not all are free school meal recipients—are even less well served.

Food Cardiff found over the summer that a third of those attending their free holiday meals scheme actually missed a meal in the previous day and were going to miss another one in the following day. It is a scandal that children in our capital city go hungry for lack of food even though we are part of fifth wealthiest economy in the world. For those children, school meals are literally a lifeline, determining whether they will thrive and do well in school or not. In addition, the pupils who opt out of school meals leave teachers with the massive headache of the packed-lunch problem, which is so often packed with E numbers that it fuels behaviour problems across the afternoon.

What are the barriers to achieving the Food for Life charter mark? The Welsh Local Government Association questions why local authorities would want to spend £1,000 to £2,000 on getting the catering mark accreditation when they are already compliant with the healthy eating regulations. They say local authorities have worked hard to change the negative perceptions of school meals in Wales. If local authorities are required to achieve an additional standard, it may be perceived by customers that they were not doing enough already.

Given the comments of the customers who I've spoken to in the last week, namely these pupils, they really don't think that we're doing enough. The healthy eating in schools regulations are a baseline position; they are not sufficient to transform the diet of our nation's children, which is so badly needed, not least because it is unclear who is enforcing the standards. Enabling all our schools to achieve the Food for Life catering mark is, in my view, the next step to making sure all our children are properly fed.

Cefais dair ysgol o fy etholaeth yn ymweld â'r Senedd yn yr wythnos diwethaf. O siarad â disgyblion a gwranddo ar eu pryderon, rwy'n awgrymu nad yw awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion, sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r rheoliadau bwyta'n iach, yn gwbl ymrwymedig i hyn. Un thema ailadroddus yw nad yw maint dogneau yn ddigon mawr i'r plant hyn, sy'n amlwg angen mwy o fwyd na phlant iau. Mae yna ddiffyg dewis, ac mae ansawdd gwael yn peri i ddisgyblion gollu eu harchwaeth. Disgrifiodd un ferch y tatws stwnsh dyfrllyd, a disgrifiodd un arall y pasta wedi'i orgoginio. Sisiliad yw fy mab, felly mae gorgoginio pasta bron iawn yn drosedd. A dweud y gwir, nid yw'n anodd coginio pasta am y nifer benodedig o funudau.

Fel llywodraethwr ysgol fy hun, rwy'n cwestiynu pwy mewn gwirionedd sy'n rhoi sylw i hyn. Yn sicr, yn fy mhrofiad i fel arolygydd lleyg i Estyn, nid oedd safonau bwyd yn cael eu hystyried yn fater allweddol yn yr hyn sydd bellach yn arolwg hyd yn oed yn fyrrach. Beth bynnag, o dan y rheoliadau hyn, mae'n gwbl bosibl coginio tatws stwnsh wedi'i wneud o datws sych—ychwanegwch ddŵr, dyna'i gyd. Nid yw'r rheoliadau'n dweud dim am ansawdd coginio'r cynhwysion a ganiateir. Mae'r rhain yn faterion hollbwysig gan y bydd methiant i'w datrys yn cynyddu'r nifer sy'n dewis peidio â chael prydau ysgol, sydd, yn ei dro, yn lleihau costeffeithiolrwydd y gwasanaeth, ac ni fydd y rhai sy'n dibynnu ar eu pryd ysgol i ddarparu eu holl faeth ar gyfer yr wythnos—gyda rhai ohonynt, er nad pob un, yn cael prydau ysgol am ddim—yn cael gwasanaeth cystal.

Canfu Bwyd Caerdydd yn ystod yr haf fod traean o'r rhai a fynychodd eu cynllun prydau gwyliau am ddim wedi colli pryd o fwyd y diwrnod cynt mewn gwirionedd ac roeddent yn mynd i gollu un arall y diwrnod canlynol. Mae'n warthus fod plant yn ein prifddinas yn llwgu o ddiffyg bwyd er ein bod yn rhan o'r pumed economi gyfoethocaf yn y byd. I'r plant hynny, mae prydau ysgol yn llythrennol yn achubiaeth, ac yn pennu a fyddant yn ffynnu ac yn gwneud yn dda yn yr ysgol neu beidio. Yn ogystal, mae'r disgyblion sy'n dewis peidio â chael prydau ysgol yn creu problem anferth i athrawon gyda pheynnau bwyd, gan eu bod mor aml yn llawn o rifau E sy'n tanio problemau ymddygiad drwy'r prynhawn.

Beth yw'r rhwystrau i gyrraedd nod y siarier Bwyd am Oes? Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cwestiynu pam y byddai awdurdodau lleol eisiau gwario £1,000 i £2,000 ar gael achrediad y nod arlwyo a hwythau eisoes yn cydymffurfio â'r rheoliadau bwyta'n iach. Maent yn dweud bod awdurdodau lleol wedi gweithio'n galed i newid canfyddiadau negyddol ynglŷn â phrydau ysgol yng Nghymru. Pe bai angen i awdurdodau lleol gyflawni safon ychwanegol, gallai cwsmeriaid ei weld fel arwydd nad oeddent yn gwneud digon yn barod.

O ystyried sylwadau'r cwsmeriaid y siaradais â hwy yn ystod yr wythnos ddiwethaf, sef y disgyblion hyn, maent yn credu'n wirioneddol nad ydym yn gwneud digon. Y rheoliadau bwyta'n iach mewn ysgolion yw'r llinell waelod; nid ydynt yn ddigon i drawsnewid deiet plant ein cenedl fel y mae cymaint o angen gwneud, nid yn lleiaf oherwydd nad yw'n glir pwy sy'n gorfodi'r safonau. Yn fy marn i, galluogi ein holl ysgolion i gyflawni'r nod arlwyo Bwyd am Oes yw'r cam nesaf i sicrhau bod ein holl blant yn cael eu bwydo'n iawn.

So what is the Food for Life catering mark? It was developed by the Soil Association to recognise and award caterers who use freshly prepared, local, seasonal ingredients, including high-welfare meat and sustainable fish. In fact, our very own Charlton House-run canteen, which we all enjoy, is one of the organisations that has a catering mark. There are now over 700,000 meals served to catering mark standards in over 6,000 UK schools every single day. This includes 73 schools in Flintshire, but no others.

The bronze standard, which was achieved by Flintshire, means that they serve meals containing no undesirable food additives or hydrogenated fats; three quarters of dishes are freshly prepared; meat, fish and eggs satisfy welfare and sustainability standards; menus are seasonal; training is provided for all catering staff; no GM ingredients are used; free drinking water is available; information about where the food has come from is on display; and of course suppliers must meet food safety standards and Government guidelines. Flintshire's experience is positive and indicates that the WLGA concerns are unwarranted, starting with the cost. In Flintshire they have an in-house caterer, so the cost is capped at £995. The catering manager at Flintshire read about the catering mark in a catering magazine four years ago and persuaded her chief executive and education department to back it. They met most of the standards already. They had to change the oil they use because it was previously GM; the gravy granules and stock because they contained monosodium glutamate; and switch from powdered to fresh milk. They also had to switch meat supplier, as their north Wales supplier wasn't farm assured, so they now use one from south Wales. These are improvements I'm sure most of us, including parents and pupils, would approve of.

The cost to produce the meals hardly changed. It's still about £1 for ingredients and parents are charged £2.05, which is pretty standard compared to other local authorities in Wales. Meal uptake has gone up 3 to 4 per cent. The accreditation offers Flintshire good marketing, expert advice and support for continuing to provide this quality standard. On the back of it the schools have visited farms, have made raised beds to grow their own, and last year, for a 'Taste of Flintshire' day in Holywell, the school meal was made entirely from Flintshire-grown ingredients.

Felly beth yw'r nod arlwyio Bwyd am Oes? Fe'i datblygwyd gan Gymdeithas y Pridd i gydnabod a gwobrwyo arlwywyr sy'n defnyddio cynhwysion lleol, tymhorol wedi'u paratoi'n ffres, yn cynnwys cig anifeiliaid a gedwir yn ôl safonau lles uchel a physgod cynaliadwy. Yn wir, mae ein ffreutur rydym i gyd yn ei fwynhau, ac sy'n cael ei redeg gan Charlton House, yn un o'r sefydliadau sydd â nod arlwyio. Erbyn hyn mae dros 700,000 o brydau bwyd yn cael eu gweini yn ôl safonau'r nod arlwyio mewn dros 6,000 o ysgolion yn y DU bob dydd. Mae hyn yn cynnwys 73 o ysgolion yn Sir y Fflint, ond yr un ysgol arall.

Mae'r safon efydd, a gyflawnwyd gan Sir y Fflint, yn golygu eu bod yn gweini prydau bwyd nad ydynt yn cynnwys ychwanegion bwyd annymunol neu frasterau hydrogenedig; mae tri chwarter y prydau yn cael eu paratoi'n ffres; mae'r cig, pysgod a'r wyau yn bodloni safonau lles a chynaliadwyedd; mae'r bwydlenni'n dymhorol; darperir hyfforddiant ar gyfer yr holl staff arlwyio; ni ddefnyddir cynhwysion GM; mae dŵr yfed am ddim ar gael; arddangosir gwybodaeth ynglŷn â tharddiad y bwyd; ac wrth gwrs, rhaid i gyflenwyr fodloni safonau diogelwch bwyd a chanllawiau'r Llywodraeth. Mae profiad Sir y Fflint yn gadarnhaol ac yn dangos nad oes sail i bryderon Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gan ddechrau gyda'r gost. Yn Sir y Fflint mae ganddynt arlwywyr mewnol, felly mae'r gost yn cael ei chapio ar £995. Darllenodd y rheolwr arlwyio yn Sir y Fflint am y nod arlwyio mewn cylchgrawn arlwyio bedair blynedd yn ôl a pherswadiodd ei phrif weithredwr a'i hadran addysg i'w gefnogi. Roeddent yn bodloni'r rhan fwyaf o'r safonau eisoes. Roedd yn rhaid iddynt newid yr olew a ddefnyddient am ei fod yn gynnrych a addaswyd yn enetig cyn hynny; y gronynnau greffi a stoc oherwydd eu bod yn cynnwys monosodiwm glwtamad; a newid o laeth powdwr i laeth ffres. Roedd yn rhaid iddynt hefyd newid eu cyflenwr cig, gan nad oedd gwarant fferm gan eu cyflenwr yng ngogledd Cymru, felly maent bellach yn defnyddio cyflenwr o dde Cymru. Mae'r rhain yn welliannau rwy'n siŵr y byddai'r rhan fwyaf ohonom, gan gynnwys rhieni a disgyblion, yn eu cymeradwyo.

Nid yw'r gost o gynhyrchu'r prydau wedi newid fawr ddim. Mae'n dal i fod tua £1 am y cynhwysion a chodir £2.05 ar rieni, sy'n eithaf safonol o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae'r nifer sy'n cael prydau wedi codi 3-4 y cant. Mae'r achrediad yn cynnig marchnata da, cyngor arbenigol a chefnogaeth i Sir y Fflint i barhau i ddarparu'r safon ansawdd hwn. Yn ei sgil, mae'r ysgolion wedi ymweld â ffermydd, wedi creu gwelyau wedi'u codi i dyfu eu cynnyrch eu hunain, a'r llynedd, ar gyfer diwrnod 'Blas ar Sir y Fflint' yn Nhrefynnon, roedd y pryd ysgol wedi'i wneud yn gyfan gwbl o gynhwysion a dyfwyd yn Sir y Fflint.

On training, a pilot workshop for some staff with Jeanette Orrey, the dinner lady in Nottinghamshire who inspired Jamie Oliver's campaign, was so successful that all staff have now been trained by her. Flintshire holds the bronze award and is now aspiring to go for the silver or gold award. In contrast, sadly, Anglesey, which used to hold the bronze catering mark, lost it when they switched to another provider who does not have this accreditation—a disappointing lack of ambition, in my view, given the abundance of local fruit and veg on the island. If Oldham, Thurrock and Tower Hamlets can manage to achieve the gold standard—all primarily urban areas—I suggest that the whole of Wales can achieve this, too. The silver and gold awards require most of the food to be locally sourced and locally made, and to be ethical and environmentally friendly food, making healthy eating easy for everybody in the school to understand. In Oldham, 90 per cent of the food is homemade, i.e. cooked on site from raw ingredients.

This whole-school approach extends not just to the pupils, but involves the families as well. It isn't just about the benefits to the children and their families; there are wider benefits, too. The New Economics Foundation looked at the benefits of procuring school meals through the Food for Life partnership using Nottinghamshire and Plymouth as case studies. In Nottinghamshire, spending over a third of the school meals budget locally in line with the Food for Life partnership meant £5 million invested in the local economy. They calculated that, for every £1 spent, another £3 in social, economic and environmental benefits was generated. Similar benefits were also found for the Plymouth local economy, and that doesn't even take into account the health or educational benefits of serving these nutritionally healthy meals to these pupils. So, in terms of the economic benefits, this is almost definitely an underestimate.

We have to bear in mind that the school catering industry is worth £1.2 billion a year. And this means it has the potential to be a very powerful influence on food production networks and an important part of achieving a shift to a resilient, low carbon economy, which we know is what the Welsh Government aspires to. And I hope that this will be captured in the Welsh Government's developing national food procurement strategy.

Ar hyfforddiant, roedd gweithdy peilot ar gyfer aelodau o staff gan Jeanette Orrey, y ddynes ginio yn Swydd Nottingham a ysbrydolodd ymgyrch Jamie Oliver, mor llwyddiannus fel bod yr holl staff bellach wedi'u hyfforddi ganddi. Enillodd Sir y Fflint y wobwr efydd ac mae bellach yn anelu am y wobwr arian neu aur. Mewn cyferbyniad, yn anffodus, arferai Ynys Môn feddu ar y nod arlwyyo efydd nes iddynt ei gollu drwy newid at ddarparwr arall heb yr achrediad hwn—diffyg uchelgais siomedig, yn fy marn i, o ystyried y digonedd o ffrwythau a llysiau lleol ar yr ynys. Os gall Oldham, Thurrock a Tower Hamlets lwyddo i gyrraedd y safon aur—pob un yn ardaloedd trefol at ei gilydd—rwy'n awgrymu y gall Cymru gyfan gyflawni hyn hefyd. Mae'r gwobrau arian ac aur yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o'r bwyd ddod o ffynonellau lleol ac wedi'i wneud yn lleol, ac i fod yn fwyd moesegol ac amgylcheddol gyfeillgar, gan wneud bwyta'n iach yn hawdd i bawb yn yr ysgol ei ddeall. Yn Oldham, mae 90 y cant o'r bwyd yn fwyd cartref, h.y. wedi'i goginio ar y safle o gynhwysion arwrdd.

Nid yw'r dull ysgol gyfan yn ymwneud â disgyblion yn unig; mae'n cynnwys teuluoedd yn ogystal. Nid yw'n ymwneud yn unig â'r manteision i'r plant a'u teuluoedd; ceir manteision ehangach hefyd. Edrychodd y Sefydliad Economeg Newydd ar y manteision o gaffael prydau ysgol drwy bartneriaeth Bwyd am Oes gan ddefnyddio Swydd Nottingham a Plymouth fel astudiaethau achos. Yn Swydd Nottingham, roedd gwario dros draean o gyllideb prydau ysgol yn lleol yn unol â'r bartneriaeth Bwyd am Oes yn golygu bod £5 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn yr economi leol. Am bob £1 a wariwyd, roeddent yn cyfrif bod £3 arall wedi'i gynhyrchu mewn manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Gwelwyd manteision tebyg hefyd i economi leol Plymouth, ac nid yw hynny hyd yn oed yn ystyried y manteision i addysg ac iechyd o weini'r prydau iach a maethlon hyn i'r disgyblion. Felly, o ran y manteision economaidd, mae hwn bron yn sicr yn amcangyfrif rhy isel.

Mae'n rhaid i ni gofio bod diwydiant arlwyyo ysgolion yn werth £1.2 biliwn y flwyddyn. Ac mae hyn yn golygu bod ganddo'r potensial i fod yn ddylanwad pwerus iawn ar rwydweithiau cynhyrchu bwyd ac yn rhan bwysig o sicrhau newid i economi carbon isel gadarn, y gwyddom fod Llywodraeth Cymru yn anelu tuag ati. Ac rwy'n gobeithio y bydd hyn yn cael ei gynnwys yn strategaeth caffael bwyd cenedlaethol Llywodraeth Cymru sy'n cael ei datblygu.

Competition law is not an obstacle. It prevents setting 'local' as criteria, but allows stipulations around the quality and frequency of delivery. Professor Kevin Morgan of Cardiff University and a colleague looked at how East Ayrshire Council achieved this back in 2008. The contracts were divided into as many as nine lots to help small suppliers compete with large national suppliers. And to improve ingredients, award criteria were equally based on price and quality, an approach that rewarded suppliers' proposed timescale from harvest to delivery, their ability to supply fair-trade, seasonal and ethnic foods, their contribution to biodiversity and their compliance with animal welfare standards. In 2006, 50 per cent of the ingredients in primary school meals were organic, 70 per cent were locally sourced and more than 90 per cent of all food on the school menu was unprocessed, an achievement indeed. These points are relevant to how the Food for Life catering mark can, and in my view, should, be integrated into the national food procurement service.

In his most recent pamphlet 'Good Food for All', Professor Morgan challenges the Welsh Government to use the Welsh network of healthy school schemes to promote good practice and to commission a couple of small-scale pilots to inform how the health and sustainability benefits could be rolled out across all our schools. Flintshire already provides us with at least part of the way forward, and Oldham and others can demonstrate the full benefits.

Given that obesity levels in Wales are now second to none after the United States, we cannot afford not to become a good food nation, and the Food for Life charter mark for all our schools is a key milestone to achieving that goal.

Nid yw cyfraith cystadleuaeth yn rhwystr. Mae'n atal gosod 'lleol' fel maen prawf, ond mae'n caniatáu amodau'n ymwneud ag ansawdd ac amllder y cyflenwad. Edrychodd yr Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd a chydweithiwr ar sut y cyflawnodd Cyngor Dwyrain Ayrshire hyn yn ôl yn 2008. Rhannwyd y contractau'n gymaint â naw pecyn i helpu cyflenwyr bychain i gystadlu â chyflenwyr cenedlaethol mawr. Ac i wella cynhwysion, roedd meini prawf dyfarnu yn seiliedig ar bris ac ansawdd yn gyfartal, dull sy'n gwobrwyo amserlen arfaethedig cyflenwyr o gynhaeaf y cynnyrch i'w gyflenwi, eu gallu i gyflawni masnach deg, bwydydd tymhorol ac ethnig, eu cyfraniad i fioamrywiaeth a'u cydymffurfiaeth â safonau lles anifeiliaid. Yn 2006, roedd 50 y cant o gynhwysion prydu ysgol gynradd yn organig, 70 y cant yn lleol, ac roedd mwy na 90 y cant o'r holl fwyd ar y fwydlen ysgol yn cynnyrch heb ei brosesu, sy'n gyflawniad gwirioneddol. Mae'r pwyntiau hyn yn berthnasol i'r ffordd y gellid, ac yn fy marn i, y dylid integreiddio nod arlwyio Bwyd am Oes yn rhan o'r gwasanaeth caffael bwyd cenedlaethol.

Yn ei bamffled diweddaraf 'Good Food for All', mae'r Athro Morgan yn herio Llywodraeth Cymru i ddefnyddio rhwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach i hyrwyddo arferion da ac i gomisiynu ychydig o gynlluniau peilot ar raddfa fach i lywio'r modd y gellid cyflwyno manteision iechyd a chynaliadwyedd ar draws ein holl ysgolion. Mae Sir y Fflint eisoes yn dangos rhan o'r ffordd ymlaen i ni fan lleiaf, a gall Oldham ac eraill ddangos y manteision llawn.

O ystyried bod lefelau gordewdra yng Nghymru bellach yn uwch nag yn unman ar wahân i'r Unol Daleithiau, ni allwn fforddio peidio â dod yn genedl bwyd da, ac mae nod siarter Bwyd am Oes i'n holl ysgolion yn garreg filltir allweddol tuag at gyflawni'r nod hwnnw.

18:42

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Whilst congratulating Flintshire on the work that they've carried out, I think at a national level, Minister, we need to consider whether there's a disincentive for the WLGA to actually look at an alternative, given that they're responsible for healthy schools, and that there may be a financial incentive for them retaining control of that issue.

I think speaking from experience as well, whilst we're looking at accreditation, we also need to have regard to the twenty-first century schools programme, because it's all very well looking at what we actually place before the children, but if they only have 10 or 15 minutes to actually eat a full meal, there is an issue there as well as far as lifestyle is concerned.

And finally, I think that local government—. We need to have a serious debate with local government as to whether or not the fact that they now expect their school meals service to be run commercially on a stand-alone basis actually creates difficulties for the kind of accreditation and quality of food that we've been talking about here today.

Er ein bod yn llongyfarch Sir y Fflint ar y gwaith y maent wedi ei wneud, rwy'n meddwl ar lefel genedlaethol, Weinidog, fod angen i ni ystyried a oes anghymhelliad i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru edrych ar ddewis arall mewn gwirionedd, o ystyried eu bod yn gyfrifol am ysgolion iach, ac y gall fod cymhelliad ariannol iddynt gadw rheolaeth ar y mater hwnnw.

A siarad o brofiad hefyd, er ein bod yn edrych ar achredu, rwy'n credu bod angen rhoi sylw i'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, gan mai un peth yw edrych ar yr hyn rydym yn ei osod o flaen y plant mewn gwirionedd, ond os nad oes ganddynt fwy na 10 neu 15 munud i fwyta pryd llawn o fwyd, mae yna broblem yn y fan honno hefyd o ran ffordd o fyw.

Ac yn olaf, rwy'n meddwl bod llywodraeth leol—. Mae angen i ni gael trafodaeth ddirifol gyda llywodraeth leol ynglŷn ag a yw'r ffaith eu bod bellach yn disgwyl i'w gwasanaeth prydu ysgol gael ei redeg yn fasnachol ar sail annibynnol mewn gwirionedd yn creu anawsterau o ran y math o achredu ac ansawdd bwyd y buom yn siarad amdano yma heddiw.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

18:43

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Education and Skills, Huw Lewis.

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

I welcome the opportunity to respond on this matter, and I think it's a very timely discussion. It allows us to reflect on what's been achieved in the last five years in moving the food in schools agenda forwards, as well as, of course, the future challenges that Jenny Rathbone sets out before us.

We all recognise the importance of a healthy diet in helping to reduce health problems like heart disease, diabetes and obesity. Healthy food and drink in school can play an important part in helping children and young people develop good eating habits for life. As a Government, we have taken action to ensure that children and young people consume a more nutritious diet during the school day, and develop the skills necessary to support healthy eating in their wider lives.

In 2013, we commenced provisions in the healthy eating in schools Measure, to require schools to promote healthy eating and drinking by pupils, to encourage the uptake of school meals, and to take reasonable steps to ensure that every pupil who is entitled to receive free school meals receives them, as well as ensuring that those who receive free school meals cannot be identified.

At the same time, we introduced regulations, which set out the types of food and drink that should be provided during the day, and to define the nutrient content of school lunches. The aim of the regulations is to ensure that children and young people are offered healthy food and drink throughout the entire school day. The regulations don't allow schools to serve confectionery or salty, fatty and sugary snacks, and there are requirements to provide fruit and vegetables, fish and meat. There are restrictions on how frequently deep-fried products and processed meat products can be served, and only healthy drinks options can be provided.

Wales led the way in the UK by introducing free breakfasts in primary schools back in 2004. In 2013, we introduced legislation that requires local authorities to ensure that the provision of primary free school breakfasts continues. It is a universal provision as it gives all pupils in participating maintained primary schools the opportunity of receiving a free healthy breakfast at school every day.

I was very pleased at the findings of a study by Cardiff University, published last year, which found that there was a direct and positive link between pupils' breakfast quality and consumption and their educational attainment. Over 99 per cent of maintained schools in Wales are now actively involved in the Welsh network of healthy schools schemes. As of January this year, 92 schools have achieved the national quality award, which is assessed independently.

The health improvement review undertaken by Public Health Wales identified the Welsh network of healthy school schemes as a programme that should be maintained and improved. The programme is widely recognised as one of the best of its kind in Europe.

Rwy'n croesawu'r cyfle i ymateb ar y mater hwn, ac rwy'n credu ei bod yn drafodaeth amserol iawn. Mae'n ein galluogi i fyfyrion ar yr hyn a gyflawnwyd yn y pum mlynedd diwethaf o ran symud yr agenda bwyd mewn ysgolion yn ei blaen yn ogystal, wrth gwrs, â'r heriau yn y dyfodol y mae Jenny Rathbone yn eu cyflwyno i ni.

Rydym i gyd yn cydnabod pwysigrwydd deiet iach i helpu i leihau problemau iechyd megis clefyd y galon, diabetes a gordewdra. Gall bwyd a diod iach yn yr ysgol chwarae rhan bwysig yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu arferion bwyta da am oes. Fel Llywodraeth, rydym wedi rhoi camau ar waith i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn bwyta deiet mwy maethlon yn ystod y diwrnod ysgol, ac yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi bwyta'n iach yn eu bywydau ehangach.

Yn 2013, cychwynasom ddarpariaethau yn y Mesur bwyta'n iach mewn ysgolion i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion hyrwyddo bwyta ac yfed iach ymhlith y disgyblion, i annog y defnydd o brydau ysgol, ac i roi camau rhesymol ar waith i sicrhau bod pob disgybl sydd â hawl i gael cinio ysgol am ddim yn ei gael, yn ogystal â sicrhau na ellir adnabod disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.

Ar yr un pryd, cyflwynasom reoliadau a nodai'r mathau o fwyd a diod y dylid eu darparu yn ystod y dydd, ac i ddiffinio cynnwys maethol cinio ysgol. Nod y rheoliadau yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cynnig bwyd a diod iach drwy'r diwrnod ysgol cyfan. Nid yw'r rheoliadau yn caniatáu i ysgolion weini melysion neu fyrbrydau hallt, brasterog a llawn siwgr, ac mae gofyn darparu ffrwythau a llysiau, pysgod a chig. Ceir cyfyngiadau ar ba mor aml y gellir gweini cynhyrchion wedi'u ffrio'n ddwfn a chynhyrchion cig wedi'i brosesu, a dewis o ddiodydd iach yn unig y ceir ei gynnig.

Arweiniodd Cymru'r ffordd yn y DU drwy gyflwyno brechwast am ddim mewn ysgolion cynradd yn ôl yn 2004. Yn 2013, cyflwynasom ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod darparu brechwast am ddim mewn ysgolion cynradd yn parhau. Mae'n ddarpariaeth i bawb gan ei bod yn rhoi cyfle i bob disgybl gael brechwast iach am ddim yn yr ysgol bob dydd ym mhob ysgol gynradd a gynhelir sy'n rhan o'r cynllun.

Roeddwn yn falch iawn o weld canfyddiadau astudiaeth gan Brifysgol Caerdydd, a gyhoeddwyd y llynedd, a welodd fod yna gysylltiad uniongyrchol a chadarnhaol rhwng ansawdd y brechwast roedd disgyblion yn ei fwyta a'u cyrhaeddiad addysgol. Mae dros 99 y cant o ysgolion a gynhelir yng Nghymru bellach yn cymryd rhan weithredol yn rhwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach. O fis Ionawr eleni, mae 92 o ysgolion wedi ennill y wobwr ansawdd genedlaethol, sy'n cael ei hasesu'n annibynnol.

Nododd yr adolygiad gwella iechyd a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fod rhwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach yn rhaglen y dylid ei chynnal a'i gwella. Cydnabyddir yn eang fod y rhaglen yn un o'r goreuon o'i bath yn Ewrop.



With all the work that has been done to improve the food and drink provided to pupils in schools, the nutritional benefits of the Food for Life catering mark are somewhat less clear-cut, although I appreciate the potential benefits with regard to more sustainable and ethical school food, and that's not to be sniffed at. The Welsh Government continues to seek to improve the sustainability and resilience of local food systems, and our policy document, 'Food for Wales, Food from Wales' is a 10-year policy statement, detailing the pressures and complexities of the food system. Our action plan for the food and drink industry, 'Towards Sustainable Growth', is rooted in this policy document, and it sets out proposals to support the Welsh food and drink industry up to 2020.

The Welsh food system is highly integrated into UK and European systems, and is profoundly influenced by a wider global context. Our food and drink industry is of significant importance to our economy—and communities as well—and we are working hard to ensure the success of Welsh businesses in this sector.

Within my own portfolio, and strongly linked to the tackling poverty agenda, there are other more immediate challenges ahead of us in terms of the food in schools policy. For example, we have been looking at introducing new eligibility criteria for free school meals in response to the UK Government's welfare reform agenda. Free school meals are a critical aspect of our anti-poverty agenda, and a means of reducing health inequalities. We believe in providing free school meals to those who need them most, and encouraging those eligible to take them up, but free school meals are a passported benefit. This means that, where families receive certain benefit payments, that benefit acts as a passport to eligibility. As universal credit, however, is rolled out across the UK, the eligibility criteria for free school meals will need to reflect the new arrangements. In the short term, we've put measures in place to help ensure that no-one who would otherwise be entitled is disadvantaged because they're claiming universal credit, but more work is required here.

Timing is critical. New eligibility criteria should be introduced to coincide with universal credit being rolled out to significant numbers of families in Wales. We need to ensure that children from the poorest families continue to benefit from a free school meal, and we are working as closely as we can with the Department for Work and Pensions as we consider the development of eligibility criteria, as I say, for FSM under universal credit.

Gyda'r holl waith a wnaed ar wella bwyd a diod a ddarperir i ddisgyblion mewn ysgolion, mae manteision maethol y nod arlwyo Bwyd am Oes ychydig yn llai amlwg, er fy mod yn derbyn y manteision posibl mewn perthynas â bwyd ysgol mwy cynaliadwy a moesegol, ac nid yw hynny'n fater bach. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio gwella cynaliadwyedd a chydnerthedd systemau bwyd lleol, ac mae ein dogfen bolisi, 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru' yn ddatganiad polisi 10 mlynedd, sy'n manylu ar bwysau ar y system fwyd a'i chymhlethdodau. Mae ein cynllun gweithredu ar gyfer y diwydiant bwyd a diod, 'Tuag at Dwf Cynaliadwy', wedi'i wreiddio yn y ddogfen bolisi hon, ac mae'n nodi cynigion i gefnogi'r diwydiant bwyd a diod hyd at 2020.

Mae system fwyd Cymru wedi'i hintegreiddio'n ddwfn yn systemau'r DU ac Ewrop, a dylanwadir arni'n fawr gan y cyd-destun byd-eang ehangach. Mae ein diwydiant bwyd a diod yn bwysig iawn i'n heconomi—a'n cymunedau yn ogystal—ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau llwyddiant busnesau Cymru yn y sector hwn.

Yn fy mhorthfolio i, ac yn gysylltiedig iawn â'r agenda trechu tlodi, ceir heriau eraill mwy uniongyrchol sy'n ein hwynebu o ran y polisi bwyd mewn ysgolion. Er enghraifft, rydym wedi bod yn edrych ar gyflwyno meini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim mewn ymateb i agenda diwygio lles Llywodraeth y DU. Mae prydau ysgol am ddim yn agwedd hollbwysig ar ein hagenda wrthdlodi, ac yn ffordd o leihau anghydraddoldebau iechyd. Rydym yn credu mewn darparu prydau ysgol am ddim i'r rhai sydd eu hangen fwyaf, ac annog rhai sy'n gymwys i fanteisio arnynt, ond mae prydau ysgol am ddim yn fudd a geir drwy basbortio. Lle y mae teuluoedd yn cael budd-daliadau penodol, mae'n golygu bod y budd-dal hwnnw'n gweithredu fel pasbort i gymhwysedd. Ond wrth i gredyd cynhwysol gael ei gyflwyno ar draws y DU, bydd angen i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim adlewyrchu'r trefniadau newydd. Yn y tymor byr, rydym wedi rhoi mesurau ar waith i helpu i sicrhau nad oes neb a fyddai arall â hawl yn cael eu rhoi dan anfantais am eu bod yn hawlio credyd cynhwysol, ond mae angen gwneud mwy o waith ar hyn.

Mae amseru'n allweddol. Dylid cyflwyno meini prawf cymhwysedd newydd i gyd-fynd â chyflwyno credyd cynhwysol i nifer sylweddol o deuluoedd yng Nghymru. Mae angen i ni sicrhau bod plant o'r teuluoedd tlotaf yn parhau i elwa o brydau ysgol am ddim, ac rydym yn gweithio mor agos ag y gallwn gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau wrth i ni ystyried datblygu meini prawf cymhwysedd, fel y dywedais, ar gyfer prydau ysgol am ddim o dan y credyd cynhwysol.

As regards the procurement of food in schools, Value Wales has worked with food buyers for a number of years to ensure that safe food is served on the public plate and to look at how more Welsh produce could be included in the supply chain. When letting food contracts, local authorities in Wales are encouraged to follow the food procurement route planner and food charter for Wales on Sell2Wales. This provides advice on buying safe food and promotes local sourcing and sustainable food buying. We are committed to making it easier for smaller suppliers and local producers to bid for public sector work by ensuring contracts are open and accessible and procurement processes simplified and proportionate. This is reflected in the Wales procurement policy statement, to which all major Welsh public sector organisations are committed.

The national procurement service works closely with the Welsh Government food division to understand what Welsh suppliers are available to supply the public sector and to develop our strategy of procuring once for Wales through an optimum supply chain. Both aim to encourage more Welsh suppliers to bid for business, and NPS has been working with the food division to ensure that the NPS food strategy aligns with the food and drink action plan. Supplier engagement events have been held by NPS across Wales to engage with suppliers on the strategy and NPS's plans for the procurement of food across the Welsh public sector. These events were supported by Business Wales to help and support suppliers to understand the tender process ahead of the NPS inviting suppliers to bid for public supply contracts.

NPS has also engaged with the Soil Association to identify and explore the detail of the Food for Life catering mark and the NPS plans to lead initially on six open tender processes for food frameworks that fully embed the principles of the Welsh procurement policy statement and which will be available for schools across Wales to use. NPS are working with individual sectors across Wales to ensure that specific requirements are included in each of the frameworks.

So, I hope everyone would agree that a huge amount has been done during this Assembly term to put regulations, procedures and practices in place to support healthy, safe and sustainable food in Welsh schools and to support our most disadvantaged children and young people, but of course that is not to say that there is not more to be done, and we should continue to improve and build on the strong foundations of this Assembly term. So, there is, if you will forgive the almost unforgivable pun, food for thought, certainly, for the next Welsh Government in terms of Jenny Rathbone's contribution here this afternoon.

O ran caffael bwyd mewn ysgolion, mae Gwerth Cymru wedi gweithio gyda phrynwyr bwyd ers nifer o flynyddoedd er mwyn sicrhau y caiff bwyd diogel ei weini ar y plât cyhoeddus ac i edrych ar sut y gellid cynnwys mwy o gynnyrch o Gymru yn y gadwyn gyflenwi. Wrth osod cytundebau bwyd, anogir awdurdodau lleol yng Nghymru i ddilyn y canllaw cynllunio ar gaffael bwyd a siarter bwyd Cymru ar GwerthwchiGymru. Mae'n darparu cyngor ar brynu bwyd diogel ac yn hyrwyddo prynu bwyd lleol a chynaliadwy. Rydym wedi ymrwmo i'w gwneud yn haws i gyflenwyr llai a chynhyrchwyr lleol i gynnig am waith yn y sector cyhoeddus drwy sicrhau bod contractau yn agored ac yn hygyrch a bod prosesau caffael wedi'u symleiddio ac yn gymesur. Adlewyrchir hyn yn natganiad polisi caffael Cymru y mae pob sefydliad mawr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi ymrwmo iddo.

Mae'r gwasanaeth caffael cenedlaethol yn gweithio'n agos gydag is-adran fwyd Llywodraeth Cymru i ddeall pa gyflenwyr o Gymru sydd ar gael i gyflenwi'r sector cyhoeddus ac i ddatblygu ein strategaeth o gaffael ar sail unwaith i Gymru drwy'r gadwyn gyflenwi orau posibl. Mae'r ddau gynllun yn ceisio annog mwy o gyflenwyr o Gymru i wneud cais am fusnes, ac mae Gwasanaeth Caffael Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r is-adran fwyd i sicrhau bod strategaeth fwyd Gwasanaeth Caffael Cymru yn cydfynd â'r cynllun gweithredu bwyd a diod. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu â chyflenwyr gan Wasanaeth Caffael Cymru ledled Cymru i ymgysylltu â chyflenwyr ar y strategaeth a chynlluniau Gwasanaeth Caffael Cymru ar gyfer caffael bwyd ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Cefnogwyd y digwyddiadau hyn gan Busnes Cymru i helpu a chynorthwyo cyflenwyr i ddeall y broses dendro cyn i Wasanaeth Caffael Cymru wahodd cyflenwyr i gynnig am gontractau cyflenwi cyhoeddus.

Mae Gwasanaeth Caffael Cymru hefyd wedi ymgysylltu â Chymdeithas y Pridd i nodi ac archwilio manylion y nod arlwygo Bwyd am Oes a chynlluniau Gwasanaeth Caffael Cymru i arwain, i gychwyn, ar chwe phroses dendro agored ar gyfer fframweithiau bwyd sy'n ymgorffori egwyddorion datganiad polisi caffael Cymru yn llawn ac a fydd ar gael i ysgolion ledled Cymru eu defnyddio. Mae Gwasanaeth Caffael Cymru yn gweithio gyda sectorau unigol ledled Cymru i sicrhau bod gofynion penodol yn cael eu cynnwys ym mhob un o'r fframweithiau.

Felly, rwy'n gobeithio y byddai pawb yn cytuno bod llawer iawn wedi'i wneud yn ystod y tymor Cynulliad hwn i roi rheoliadau, gweithdrefnau ac arferion ar waith er mwyn cefnogi bwyd iach, diogel a chynaliadwy yn ysgolion Cymru ac i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc mwyaf difreintiedig, ond wrth gwrs, nid yw hynny'n dweud nad oes mwy i'w wneud, a dylem barhau i wella ac adeiladu ar sylfeini cadarn y tymor Cynulliad hwn. Felly, mae yna, os maddeuwch y chwarae bron yn anfaddeuol ar eiriau, ddigon i Lywodraeth nesaf Cymru gnoi cil arno, yn sicr o ran cyfraniad Jenny Rathbone yma y prynhawn yma.

18:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. And that brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:52.*

Diolch yn fawr, Weinidog. Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

*The meeting ended at 18:52.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)